

**‘Mwylai wyd di’?
Ôl-drefedigaethedd,
Cymru’r Oesoedd Canol
a Dafydd ap Gwilym**

gan

Angharad Wynne George

Traethawd a gyflwynir
i fodloni’n rhannol ofynion gradd
Philosophiae Doctor
Prifysgol Caerdydd

Wedi ei gyflwyno i Brifysgol Caerdydd
yn unol â gofynion gradd
Doethur mewn Athroniaeth



UMI Number: U584436

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS

The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed, a note will indicate the deletion.



UMI U584436

Published by ProQuest LLC 2013. Copyright in the Dissertation held by the Author.
Microform Edition © ProQuest LLC.

All rights reserved. This work is protected against
unauthorized copying under Title 17, United States Code.



ProQuest LLC
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106-1346

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn yn sylweddol yn y gorffennol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd i ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod *Du George*(ymgeisydd) Dyddiad *17/07/09*

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd PhD.

Llofnod *Du George*(ymgeisydd) Dyddiad *17/07/09*

GOSODIAD 2

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn ffrwyth fy ngwaith ymchwil annibynnol fy hun, ar wahân i lle nodir fel arall.

Llofnod *Du George*(ymgeisydd) Dyddiad *17/07/09*

GOSODIAD 3

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod *Du George*(ymgeisydd) Dyddiad *17/07/09*

GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod *Du George*(ymgeisydd) Dyddiad *17/07/09*

Diolchiadau

Mae'n ddyletswydd arnaf gydnabod y rhai a fu'n gymorth imi yn ystod y gwaith ymchwil hwn. Hebddynt ni fyddai'r astudiaeth hon wedi dwyn ffrwyth.

Mae fy niolch pennaf i'r Dr Dylan Foster Evans am ei gyfarwyddyd yn ystod y cyfnod ymchwil ac wrth gwblhau'r astudiaeth. Diolch iddo am ei ysbrydoliaeth ac am ennyn fy niddordeb yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Diolch iddo hefyd, am ei gymorth, ei gyngor gwerthfawr ac am ei arweiniad dihafal ym mhob cam o baratoi'r astudiaeth hon. Carwn ddiolch yn ddiffuant iddo am ei holl waith.

Hoffwn ddiolch i'r Athro Sioned Davies am ei chefnogaeth gyson ac am roi pob cyfle imi feithrin sgiliau newydd yn ystod fy nghyfnod yn Ysgol y Gymraeg. Diolch hefyd i holl staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd am eu hanogaeth a'u cyfeillgarwch.

Rwyf yn ddyledus i'r AHRC am ei nawdd yn ystod y cwrs PhD. Hebdo ni fyddwn wedi gallu dilyn cwrs ac ni fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl.

Mawr yw fy nyled i Mam, Dad ac Owain am bob gofal ac anogaeth ac am eu parodrwydd cyson i'm cynorthwyo. Diolch hefyd i'm teulu agos a'm ffrindiau i gyd am eu cyfeillgarwch ac am ddangos diddordeb yn fy ngwaith. Diolch o galon i Ben am ei ofal, ei gwmmi cyson a'i gefnogaeth ddiflino.

Cynnwys

Diolchiadau	3
Crynodeb	5
Nodyn Llyfryddol	7
Rhagymadrodd	8
Pennod 1: Bardd y Drefedigaeth cyn Ôl-drefedigaethedd	26
Pennod 2: Ôl-drefedigaethedd a'r Oesoedd Canol	46
Pennod 3: Ôl-drefedigaethedd a Chymru	64
Pennod 4: Y Beirniaid cyn Ôl-drefedigaethedd	95
Pennod 5: Y Bardd 'ar herw' yn y Trydydd Gofod (71.40)	109
Pennod 6: Y Dynwardwr: 'Un orchwyl pan ddisgwyliwyf' (112.11)	135
Pennod 7: Yr Hybrid: 'tewi yn y tywyll' (73.66)	159
Pennod 8: Awdurdod Hollt	186
Pennod 9: Eiddig—ar yr ymyl ac yn y galon	207
Casgliadau	227
Llyfryddiaeth	240

Crynodeb

Mae'r traethawd hwn yn trafod agweddau ar Gymru'r Oesoedd Canol a gwaith Dafydd ap Gwilym yng ngoleuni rhai o brif syniadau theori ôl-drefedigaethol. Man cychwyn y drafodaeth yw ôl-drefedigaethedd a'i berthynas â Chymru'r Oesoedd Canol. Dadansoddir perthnasedd syniadau'r theori i Gymru oes Dafydd ap Gwilym, cyn eu defnyddio'n ymarferol i gynnig darlleniadau o'r cerddi.

Cais y ddwy bennod gyntaf baratoi'r ffordd ar gyfer cynnig atebion i'r problemau sy'n codi gydag ôl-drefedigaethedd. Edrych y bennod gyntaf ar ddiffinio'r ôl-drefedigaethol yn gyffredinol ac mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Trafodir perthynas benodol yr Oesoedd Canol ag ôl-drefedigaethedd yn yr ail bennod.

Canolbwyntia'r drydedd bennod ar feirniadaeth lenyddol a hanesyddiaeth Gymreig. Cyfeirir at y dadlau a fu ynghylch defnyddio'r theori i drafod llenyddiaeth Gymraeg a Chymreig.

Yn y bedwaredd bennod, ceir trafodaeth ar dulliau ymdriniaethau beirniadol o drafod Dafydd ap Gwilym. Arwain hyn at ail ran y drafodaeth sy'n edrych ar waith Dafydd yn fwy manwl o safbwynt rhai o brif syniadau'r theori.

Y Trydydd Gofod a dynwared yw ffocws y bumed bennod, a dadansoddir cywydd 'Y Cleddyf' (71) yng ngoleuni'r syniadau hyn. Mae'r Trydydd Gofod hefyd yn sail ar gyfer dehongli 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116) a 'Trech a gais nag a geidw' (112) yn y chweched bennod.

Defnyddir hybridedd yn y seithfed bennod i ddehongli 'Trafferth mewn Tafarn'(73).

Edrychir yn benodol ar y deuoliaethau diwylliannol a welir yn y gerdd hon.

Yn yr wythfed bennod, manylir ar berthynas y carwr â'r ceiliog bronfraith yng ngoleuni'r hollt. Yn y dehongliad o 'Y Ceiliog Bronfraith' (49), dadansoddir perthynas y ddau o safbwynt awdurdod y naill dros y llall.

Archwilir perthynas Eiddig â'r carwr yn y nawfed bennod a defnyddir model y canol/ymylon i edrych ar ddelweddau unigol o'r cerddi, gan ganolbwyntio yn arbennig ar gymeriad Eiddig.

Cyflwynir casgliadau'r ymchwil fel pennod glo.

Nodyn Llyfryddol

Bydd y traethawd hwn yn defnyddio'r golygiad electronig DafyddapGwilym.net wrth gyfeirio at waith Dafydd ap Gwilym. Fel rheol, nid enwir y wefan yn benodol wrth gyfeirio at y testun neu ddyfynnu ohono, ond yn hytrach nodir rhif y gerdd a hefyd, os yn briodol, rifau'r llinellau. Pan fo angen tynnu sylw penodol at y wefan, defnyddir y byrfodd DG.net.

Rhagymadrodd

Yn ei thrafodaeth ar genedlaetholdeb yng Nghymru 'O gwymp Llywelyn hyd at Oes y Tuduriaid' (1950), cyfeiria Ceinwen Thomas at weithgarwch y beirdd yn ystod yr Oesoedd Canol diweddar: 'synient am farddoniaeth fel galwedigaeth gymdeithasol, ac am hynny y mae eu cynhyrchion yn werthfawr inni wrth geisio gweld sut yr edrychai Cymru, nid trwy lygaid ei rheolwyr, ond trwy lygaid ei phlant ei hun' (1950: 62). Iddi hi felly, y mae gwaith beirdd y cyfnod hwn yn cyflwyno darlun defnyddiol o Gymru'r oes, ac yn arbennig ei hagweddau cymdeithasol. Gan mai i'r cyfnod hwn y perthyn Dafydd ap Gwilym yntau, gellid tybio y byddai ei waith ef yn dystiolaeth gyfatebol am Gymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond wrth drafod Dafydd, dywed Thomas: 'nid oedd diddordeb mewn gwleidyddiaeth gan Dafydd ap Gwilym, ac nid ymddengys ei fod yn deall dim oll am na chenedligrwydd na gwladgarwch' (1950: 62).

Cyhoeddwyd trafodaeth Ceinwen Thomas yn y gyfrol *Seiliau Hanesyddol Cenedlaetholdeb Cymru* a gyhoeddwyd gan Blaid Cymru yn 1950. Wrth reswm, felly, y mae datguddio gwahanol agweddau ar genedlaetholdeb yn greiddiol i'r gyfrol. Ymgais hunanymwybodol i ganfod delweddau cenedlaethol yng ngwaith y beirdd canoloesol a geir gan Ceinwen Thomas mewn gwirionedd. Gan hynny, mae'r ffaith nad yw'n llwyddo i ddod o hyd i ddim o fudd yng ngwaith Dafydd yn dra arwyddocaol. Ar un lefel, mater hawdd yw anghytuno â dadansoddiad Thomas. Mae Dafydd yn aml iawn yn dangos diddordeb yn yr hyn y gellid ei alw'n genedligrwydd, megis yn ei gyfeiriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol at Gymru a Chymry, Lloegr a'r Saeson. Er i Dafydd gael ei gydnabod fel bardd serch a natur yn bennaf mewn ymdriniaethau beirniadol, y mae'r cyfeiriadau at fodolaeth gwahanol ddiwylliannau

yn ei waith yn niferus. Gwelir hyn yn uniongyrchol yn un o'i gerddi mwyaf adnabyddus, 'Trafferth mewn Tafarn' (73). Yno, gwelir bod gwrthdaro rhwng y Saeson a'r Cymro. Ceir yr ebychiad 'Cymry a'm câr' (ll. 50) wrth i'r carwr wynebu rhwystrau di-ri ar ei daith at y ferch. Ceir delwedd o'r trisais Hicyn, Siencyn a Siac yn y gwely, a phortread o'r carwr fel lleidr o Gymro:

Mae Cymro yma, taer gyffro twyll,
Yn rhodio yma'n rhydwyll. (57–8)

Yn ogystal â chyfeiriadau uniongyrchol o'r fath, ceir hefyd ddelweddau sy'n ymdrin yn anuniongyrchol â diwylliannau gwahanol. Er enghraifft, ceir adleisiau o Gymry'r Hen Ogledd a'u gwrthdaro â'u gelynyon yn 'Y Cleddyf' (71). Cyflwynir delweddau o uchelwriaeth Gymreig ar ddechrau 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116) a gosodir y gerdd honno yng nghyd-destun y Rhyfel Can Mlynedd (1337–1453) lle gwelwyd brwydro rhwng Lloegr, gyda chymorth milwyr o Gymru, a Ffrainc. Y mae delweddau o Gymreictod, Seisnigrwydd a rhai Ffrengig felly yn eu hamlygu eu hunain drwyddi draw yng ngwaith Dafydd. Er tegwch, mae Thomas yn cydnabod bod Dafydd yn cyfeirio at elfennau diwylliannol o'r fath ond cred nad yw'r rheini'n arwydd o unrhyw ymdeimlad cryf â hunaniaeth. Dywed, 'rhyw syniad amhendant mai creadur i chwerthin am ei ben oedd y Sais yng Nghymru yw'r peth agosaf at ymdeimlad â chenedligrwydd a geir ym marddoniaeth Dafydd' (1950: 63). Mae defnydd Thomas o'r gair 'amhendant' yn dra arwyddocaol yma, oblegid gesyd union seiliau'r ymchwil hwn. Bydd yr amhendantrwydd hwn yn greiddiol i'r astudiaeth hon, ac nid yn anghyfleustra anodd ei drin. Bellach, mae theori lenyddol wedi datblygu ffyrdd mwy cynnil o ystyried 'amhendantrwydd' hunaniaethol, gan ddarparu sylfaen damcaniaethol ar gyfer prif ddadl y traethawd hwn.

Ers cwblhau astudiaeth Thomas, cafwyd sawl trafodaeth ar amhendantrwydd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Disgrifia Dafydd Johnston Gymru'r cyfnod fel a ganlyn, 'Roedd sefyllfa Cymru'n amwys iawn, a hithau'n drefedigaeth wedi'i choncweru ac eto'n cadw ei harwahanrwydd, ac felly'n llawn deuoliaethau a chroestynnu' (2005: 1). Cymru o dan gysgod concwest 1282 a gyflwynir inni, felly, a nodweddion gwlad wedi'i gorchfygu gan y Saeson sydd i'w disgwyl mewn trafodaethau ar natur y Gymru honno. Yn ôl R. R. Davies, 'Wales had become firmly and irreversibly a country of two peoples and two cultures. The relationship between them would henceforth be a leitmotiv of its history' (1987: 414). Gwelir bod gan y ddau grŵp hyn swyddogaethau gwahanol, y Saeson yn concro ac yn ymsefydlu a'r Cymry yn glynu wrth eu statws brodorol wrth iddynt fod yn wrthrych y concro. Y ddau grŵp hyn sy'n sail ar gyfer dehongli'r cyfnod yn ôl patrwm o ddeuoliaethau, fel y gwelwyd uchod yn nisgrifiad Johnston. Gellid cynnig, gan hynny, fod gan Dafydd ymdeimlad â hunaniaeth gymhleth. Ond ai ymwrthod â chenedligrwydd y mae Dafydd fel yr haera Thomas, ynteu a oes rhaid gofyn cwestiynau mwy cynnil er mwyn archwilio hunaniaeth yn ei waith?

Yng nghyd-destun y cefndir hanesyddol hwn a'r honiad fod agweddau ar hunaniaeth yn greiddiol i waith Dafydd y cyflwynir methodoleg yr astudiaeth hon. Yn y lle cyntaf, dylid pwysleisio yma nad astudiaeth ar waith Dafydd yw'r traethawd hwn. Mewn gwirionedd, mae'n ystyried perthnasedd un maes damcaniaethol, sef theori ôl-drefedigaethol, i Gymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyffredinol. Ond wrth roi canlyniadau hynny ar waith bydd yn edrych yn ofalus ar rai elfennau o waith Dafydd ap Gwilym, yn benodol rai o'r cerddi hynny sy'n ymwneud â Seisnigrwydd, bwrdeistrefi a chymeriad y gŵr Eiddig. Dynaid o gerddi yn unig a gaiff sylw

sylweddol, felly, sef ‘Y Cleddyf’ (71), ‘Trech a Gais nag a Geidw’ (112), ‘I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig’ (116), ‘Trafferth mewn Tafarn’ (73) ac ‘Y Ceiliog Bronfraith’ (49), a hynny er mwyn gallu edrych yn ofalus ar oblygiadau theori ôl-drefedigaethol wrth eu trafod yn fanwl. Am resymau hanesyddol, diwylliannol a theoretig, dadleuir bod ôl-drefedigaethedd yn ddull dilys o ddehongli’r tensiynau diwylliannol a welir yng ngwaith Dafydd, ac yn fodd i godi cwestiynau a chanfod atebion ynghylch sut yr ‘edrychai’ Cymru’r oes o safbwynt y farddoniaeth. Trwy hynny, gwelir bod gan Dafydd ymateb penodol i amrywiaeth diwylliannol, a bod ganddo bortread o hunaniaeth o fath arbennig yn ei gerddi. Y portread hwn sy’n sail ar gyfer teitl yr astudiaeth wrth i’r cyfeiriad at liwiau cymysg y bиден, ‘mwtlai wyd di’ (36.57) yn y gerdd ‘Cyngor y Bиден’ (36) droi’n drosiad ar gyfer y portread cymhleth o elfennau diwylliannol yng ngwaith Dafydd.

Er y ceir trafod brwd ynghylch ôl-drefedigaethedd a Chymru, fel y gwelir yn yr astudiaeth hon, dim ond dechrau ennill ei blwyf fel dull o ddehongli y mae mewn gwirionedd. Mae Dylan Foster Evans yn cydnabod mai ‘bychan, hyd yma, fu dylanwad theori ôl-drefedigaethol ar y Gymraeg, ei llenyddiaeth a’i beirniadaeth’ (2006: 47). Ond fel y gwelir yn yr astudiaeth hon, mae gwaith Dafydd eisoes wedi bod yn sail ar gyfer ymdriniaethau ôl-drefedigaethol, megis gwaith Foster Evans a Morgan T. Davies (2005).

Rhaid nodi, fodd bynnag, nad yw themâu sylfaenol theori ôl-drefedigaethol, sef y berthynas rhwng pobl neu genedl wan â’r bobl neu’r genedl sy’n drech na hi yn estron i feirniadaeth lenyddol Gymraeg. Yn wir, mae’n un o themâu pwysicaf beirniadaeth lenyddol yr ugeinfed ganrif. Er enghraifft, mae perthynas y Cymry â

Lloegr a Phrydain yn ganolog i waith Hywel Teifi Edwards ar lenyddiaeth a diwylliant Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Yn hyn o beth gellir cyfeirio'n benodol at gyfrolau megis *Ceiriog* (1988) a *Codi'r Hen Wlad yn ei Hól: 1850–1917* (1989); ynddynt dengys Edwards fod ymdeimlad o israddoldeb ar ran y Cymry a'u hymlyniad wrth Brydeindod wedi cyfrannu'n sylweddol at eu llenyddiaeth a'u hestheteg, a hynny'n arbennig yn sgil 'Brad y Llyfrau Gleision' yn 1847. Nid oes fframwaith theoretig manwl i'r gwaith hwn, ac awgryma Simon Brooks mai 'ymdriniaethau "hanesyddol" ac "argraffiadol" â llenyddiaeth Gymraeg' a geir gan Edwards. Ond er hynny cydnybyddir ei fod yn mynd i'r afael â syniadau cymhleth am hunaniaeth a chenedligrwydd. Dengys Brooks hefyd fod gwaith Edwards yn cydnabod amrywiaeth fel elfen anhepgor o Gymreictod: 'wrth wrthwynebu hiliaeth, mae'n cefnogi amrywiaeth ethnig, gan ddadlau dros yr angen i sicrhau lluosogedd diwylliannol' (2004: 119), ac 'yn ei dyb ef, dylai diwylliant Cymraeg gael ei nodweddu gan eclectiaeth fel na ddaw un math o fynegiant diwylliannol yn ffon fesur i genedligrwydd' (2004: 116). Gellir dadlau felly, fel y gwna Brooks, mai'r 'frwydr ôl-drefedigaethol i Edwards, felly, yw'r frwydr i Gymru fod yn wlad sy'n caniatáu amrediad eang o safbwyntiau, heb farnu bod y naill safbwynt na'r llall yn peryglu ei dyfodol' (2004: 121).

Ysgolhaig arall sydd wedi ystyried y cwestiynau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg yw R. M. Jones. Ar adegau, ymddengys ei fod yn ymagosáu at theori ôl-drefedigaethol mewn ffordd gadarnhaol, megis mewn darlith ar berthynas llenyddiaeth Gymraeg a'r brifysgol pan ddywed fod 'mawr angen edrych o'r newydd ar ein llenyddiaeth o safbwynt trefedigaethol', gan ddatgan bod syniadau'r damcaniaethwr ôl-drefedigaethol Edward Said (1935–2003) yn dra pherthnasol i'r

Cymru a'r Gymraeg (1993: 16). Ystyria hefyd fod llenyddiaeth Eingl-Gymreig (o'i chyferbynnu â llenyddiaeth Saesneg o Gymru) wedi ei seilio ar brofiad trefedigaethol a rennir gan nifer o genhedloedd eraill yn y byd: 'yn yr union sefyllfa drefedigaethol hon y caiff llenyddiaeth Eingl-Gymreig ei ffynhonnell a'i hysbrydoliaeth fwyaf gwreiddiol' (1998: 376–7).

Er hynny, nid yw'n croesawu dyfodiad 'theori ôl-drefedigaethol' fel y cyfryw, o leiaf nid dan y teitl hwnnw, gan gyfeirio at '[G]enedlaetholdeb neu Ôl-drefedigaethrwydd, a rhoi iddo'i enw parchus, os anghywir diweddar' (2003: 32). Yn ei farn ef, cafwyd gwaith gan Saunders Lewis, D. Tecwyn Lloyd, T. J. Morgan, a Hywel Teifi Edwards y gellid ei alw'n '[F]eirniadaeth Ôl-drefedigaethol (Postcolonial Criticism), peth y byddai'n well gennyf i ei alw'n Feirniadaeth Drefedigaethol gan fod y sefyllfa drefedigaethol (gyn-ymreolaeth) yn parhau'n ddiwylliannol ac yn seicolegol hyd yn oed mewn gwledydd fel Iwerddon a Chanada Saesneg' (2003: 33). (Mewn gwirionedd, nid yw'r pwynt olaf hwn yn bell o gwbl o safbwynt y rhan fwyaf o feirniaid a fyddai'n arddel y term 'ôl-drefedigaethol'; yr enw yn unig sy'n wahanol.) Ond er ei fod yn defnyddio'r term ôl-drefedigaethedd wrth gyfeirio at Lewis a Lloyd a'r lleill, nid yw'r beirniaid hyn, wrth gwrs, yn defnyddio theori ôl-drefedigaethol fel y cyfryw. Yr hyn a wnânt yw trafod llenyddiaeth Cymru yn fanwl a chraff gan roi lle canolog i'w pherthynas â Lloegr a Phrydain. At hynny, cyfeiria Jones yn ganmoliaethus at waith Paul W. Birt, Jerry Hunter a Grahame Davies fel beirniaid o genhedlaeth newydd sydd wedi cyfrannu yn y maes hwn. (Nid yw'n enwi gweithiau penodol ganddynt, ond gellid tybio mai *Cerddi Alltudiaeth: thema yn llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru* (1997), *Soffestri'r Saeson: hanesyddiaeth a hunaniaeth yn oes y Tuduriaid* (2000) a *Sefyll yn y Bwlch: Cymru a'r Mudiad Gwrth-Fodern:*

Astudiaeth o Waith T. S. Eliot, Simone Weil, Saunders Lewis ac R. S. Thomas (1999) yw'r prif weithiau dan sylw.) Eto, nid yw'r beirniaid hyn yn defnyddio theori ôl-drefedigaethol fel y cyfryw. Ond' wrth gwrs, gall fod hynny'n glodwiw yn llygaid Jones, gan ei fod yn aml yn rhybuddio rhag mewnfario theorïau Seisnig neu Brydeinig i'r byd Cymraeg.

Nodwedd arall ar theori ôl-drefedigaethol sy'n cael sylw gan Jones yw'r honiad nad ydyw'r theori ond un wedd ar feirniadaeth, a'r wedd honno yn un faterol neu wleidyddol (megis yn achos Marcsaeth a Ffeminyddiaeth hwythau). Yn hynny o beth, awgrym Jones yw bod yn y tair ohonynt '[d]uedd i or-wneud pwysigrwydd y themâu dethol ar draul agweddau eraill ar lenyddiaeth' (2003: 34). Nid yw hyn yn 'sarhad' arnynt, meddai Jones: 'dyw tanlinellu lleoliad is-weithredol thema o fewn fframwaith cyflawn Beirniadaeth Gyfansawdd ddim yn bychanu dim ar werth pob gwedd yn ei thro' (2004: 35). Nid dyma'r lle i fynd i'r afael â Beirniadaeth Gyfansawdd R. M. Jones (am hynny, gw. James 2007), ond byddai prif ffrwd beirniadaeth lenyddol ddiweddar yn hynod o amheus o brosiect a geisiai ddiffinio'r fath gysyniad. Un elfen sy'n nodweddu theorïau beirniadol diweddar yn yr oes ôl-fodern sydd ohoni yw eu pwyslais ar y darniog, yr amodol, a'r dros-dro, heb yr uno sy'n elfen sylfaenol o syniadaeth Jones.

Yn wir, mae gwaith Jones yn debyg i waith Hywel Teifi Edwards i'r graddau y mae'n dathlu amrywiaeth oddi mewn i undod. Y term a fathodd ar gyfer hynny oedd 'gwahuniaeth' neu 'gwahuniad'; fe'i lluniwyd er mwyn cyfateb i *différance* Derrida. Cyfuniad o 'gwahaniaeth' ac 'uniad' yw 'gwahuniad', ac mae'n pwysleisio yr undod

a geir oddi mewn i wahaniaeth. Er enghraifft, wrth drafod ‘ffrwytho’ (cysyniad â’i wreiddiau yn Llyfr Genesis), dywed Jones (2003: 142):

Gwahuniaeth yw ystyr ffrwytho. Cymharu’r anghymharus a chlymu’r cariadus. Y pegynau yn y maged sy’n gwrthod ei gilydd neu’n atynnu’i gilydd, dyna sy’n darparu cyferbynnu neu ailadrodd, negyddu a chadarnhau, ond amrywiaeth yw o hyd o fewn undod. Ffurio undodau newydd o’r math hwnnw, ac undodau am undodau, dyna yw ffrwytho meddyliol a llenyddol. Dyna’r cyplysu dynol, lle y mae’r naill yn ymuno â’r llall i ffurfio undod cydradd ychwanegol. Felly y mae’r trosiad ei hun er enghraifft; dyna hefyd gorfau mewn mydr; dyna hefyd gynghanedd groes gytbwys acennog.

Ceir cipolwg ar oblygiadau mwy ymarferol y syniadaeth hon mewn trafodaeth ar Gyrrmeictod (1998: 391):

Un Gymru sydd, ac ynddi amrywiaeth aruthr, llu o Gymreictodau. Cenedl yw sy’n cynnwys llawer o ‘wledydd’. Clwyfwyd y Gymru honno o’r brig i’r bôn gan yr un clwyf fel na all yr un llenor hydeiml yn Saesneg nac yn Gymraeg ddod allan ohoni yn ddianaf. Undod yw’r clwyf. Mae gennym sawl undod—hanes, daear, iaith, y tri gyda’i gilydd.

Mae Eleri James yn crynhoi’r syniad o wahuniaeth drwy ddweud fod ‘rhaid i’r sawl sydd am ddeall weld y tebygrwydd ynghyd â’r gwahaniaeth’ (2007: 114), a gwelir o’r dyfyniad uchod fod y tebygrwydd neu’r undod hwnnw, yn achos Cymru, yn fwy poenus na’r amrywiaeth.

Mae trafodaethau bur soffistigedig i’w cael yn y maes hwn, felly. Ond ac eithrio prosiect unigolyddol R. M. Jones a’i bwyslais ar ‘wahuniaeth’ (cysyniad nad ydyw wedi ennill ei blwyf ymhlith beirniaid eraill), ychydig o’r drafodaeth sydd yn ymwneud â theori ôl-drefedigaethol fel y cyfryw. Gellir cytuno felly â honiad Brooks fod ‘ysgol o fyfyrion gwrthdrefedigaethol i’w chael yn y Gymraeg’, ond ar yr un gwynt na ‘ddyldid synnu nad oes cyfrolau o theori lenyddol ôl-drefedigaethol wedi eu cyhoeddi yn y Gymraeg’. Sail hyn, yn nhyb Brooks, yw bod theori ôl-drefedigaethol

yn aml yn ‘astrus’ a bod ‘astrusi theoretig yn cael ei ddiffrïo a’i watwar’ (2004: 118). Ac yn hynny o beth, mae sefyllfa theori ôl-drefedigaethol yn y Gymraeg yn debyg i sefyllfa meysydd damcaniaethaol eraill.

Yn sicr, prin yw’r ymdriniaethau sylweddol sy’n mynd ati i drafod cyfnod Dafydd ap Gwilym o safbwynt ôl-drefedigaethol. Yn sgil y dadlau a fu ynghylch defnyddio ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli—dadlau sy’n cael sylw yn yr astudiaeth hon—rhaid cyfiawnhau’n ofalus y defnydd o’r dull hwn. Gosodir yr ymdrech hon i gymhwyso ôl-drefedigaethedd at waith Dafydd ap Gwilym yng nghydestun astudiaethau beirniadol cynharach ar waith Dafydd ac arferion haneswyr wrth drafod Cymru ei oes. Mae rhan gyntaf y drafodaeth (penodau 1–4) yn ymateb i’r her o gyfiawnhau er mwyn paratoi’r ffordd ar gyfer ail ran y drafodaeth (penodau 5–9), sef defnyddio’r theori yn ymarferol i ddarllen llenyddiaeth. Trwy hyn, gobeithir mynd at galon y cwestiwn o ‘ddiwylliant’ yng ngwaith Dafydd a chynnig patrwm newydd i ddelio â’r deuoliaethau diwylliannol sydd mor amlwg yn ei waith.

Er mwyn ymateb i’r her honno, rhaid wrth ymdriniaeth â nifer o ystyriaethau gwahanol ynghylch ôl-drefedigaethedd, yr Oesoedd Canol, Cymru a gwaith Dafydd ei hun. Yr ystyriaeth gyntaf, sy’n ffocws i’r penodau cyntaf, yw perthnasedd ôl-drefedigaethedd fel dull o drafod yr Oesoedd Canol yn gyffredinol. Ymateb i’r problemau ynghylch ôl-drefedigaethedd a’r Oesoedd Canol a wneir yma. Canolbwyntia’r bennod gyntaf ar ddiffinio’r ôl-drefedigaethol o safbwynt cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Perthyn i theori lenyddol y cyfnod modern y mae theori ôl-drefedigaethol oherwydd yn wyneb twf a chwymp Ymerodraeth Prydain y daeth ôl-drefedigaethedd yn faes byw mewn theori a beirniadaeth lenyddol. O’r herwydd cyfyd

sawl anhawster wrth ddefnyddio'r theori hon i drafod llenyddiaeth o gyfnodau cynharach. Ar y llaw arall, y mae'r modd y dadansoddwyd gwaith Dafydd yn nhermau deuoliaethau megis yr hen a'r newydd, traddodiad a newydd-deb yn gysail ar gyfer cyfiawnhau'r defnydd o ôl-drefedigaethedd i drafod yr Oesoedd Canol. Wrth gwrs, mae'r term 'ôl-drefedigaethedd' ei hun yn peri inni feddwl am drefn amseryddol benodol gan ei fod yn awgrymu perthynas gronolegol amlwg â'r cyfnod trefedigaethol. Mae'r drefedigaeth yn fan cychwyn anorfod o'r herwydd ac ôl-drefedigaethedd yn wreiddiol yn fodd i drafod y dad-drefedigaethu. Mae'r terfynau amseryddol sy'n cael eu cysylltu â'r term yn peri bod cyfyngiadau wrth ddefnyddio ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli yn anorfod. Ymgais i ymateb i'r cyfyngiadau hynny a geir yng nghorff y bennod hon wrth ymateb i'r problemau sy'n codi wrth fynd ati i ddefnyddio theori ôl-drefedigaethol i drafod llenyddiaeth yr Oesoedd Canol.

Mae'r ail bennod yn parhau â'r drafodaeth ar y cyfyngiadau uchod ond yma canolbwyntir ar berthynas benodol yr Oesoedd Canol ag ôl-drefedigaethedd. Trwy waith Bruce W. Holsinger (2002), daw ôl-drefedigaethedd ei hun yn derm ymbarél ar gyfer cysyniadau penodol, megis dynwarded, hybridedd a deuoliaeth agwedd (*ambivalence*). A daw'r berthynas rhwng yr hen a'r newydd a welwyd yn y bennod gyntaf yn sail ar gyfer dod â'r Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd gam yn nes at ei gilydd.

Er i'r berthynas hon rhwng ôl-drefedigaethedd a'r Oesoedd Canol ddwyn ffrwyth yn y ddwy bennod gyntaf, gwelir bod yr ymateb i ôl-drefedigaethedd a Chymru yn ddadleuol ar ddechrau'r drydedd. Dyma'r ail brif ystyriaeth cyn mynd at

ail ran y traethawd ac at y deongliadau ôl-drefedigaethol o'r cerddi. Ymateb i'r dadlau brwd ar dudalennau'r *New Welsh Review* yw'r man cychwyn oblegid yno y gwelir anghytuno chwyrn rhwng y sawl sydd yn erbyn ôl-drefedigaethedd fel dull o drafod Cymru, o dan arweiniad Dai Smith (2004), a'r sawl sydd yn pleidio'r dull hwn o ddehongli, megis Jane Aaron (2005) a Kirsti Bohata (2004). Awgrymir bod a wnelo'r dadlau yn ei hanfod â'r dybiaeth fod ôl-drefedigaethedd yn ymwneud â dehongliad 'cenedlaetholgar' o hanes Cymru. Arwain y cyfeiriadau hyn at ymdriniaeth ag agweddau cenedlaethol ar Gymru ac asesir ymhlygiadau a pherthnasedd y syniad o genedl i Gymru'r cyfnod er mwyn penderfynu sut yn union y dylid delio â'r cyfeiriadau at grwpiau gwahanol yng ngwaith Dafydd. Gwelir bod Anthony Smith (1995) yn cynnig model addas ar gyfer trafod grwpiau diwylliannol gwahanol yn hytrach na chenedloedd yn ei waith ar genedligrwydd. Mae'r model hwn yn fodd i ateb dadleuon Dai Smith mai cenedlaetholdeb drwy'r drws cefn yw ôl-drefedigaethedd, a thrwy hynny, ateb y feirniadaeth a geir ar ddefnyddio'r dull hwn i drafod Cymru heddiw ac yn oes Dafydd ap Gwilym. Eir ati i drafod yr ymdriniaethau hanesyddol ar waith Dafydd ap Gwilym er mwyn dod o hyd i berthynas rhwng y dulliau o drafod y bedwaredd ganrif ar ddeg ac ôl-drefedigaethedd. Nid ailgyflwyno cofnod hanesyddol o Gymru Dafydd ap Gwilym yw nod yr adran hon, ond yn hytrach, gynnig dadansoddiad o'r modd y mae astudiaethau hanesyddol wedi mynd ati i ddelio â chefnidir cymdeithasol a diwylliannol y cyfnod. Cyfeirir at y ffactorau cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael sylw gan haneswyr yr oes. Mae hyn yn fodd i gryfhau'r berthynas rhwng ôl-drefedigaethedd a Chymru'r Oesoedd Canol oblegid gwelir bod y cofnod hanesyddol yn ymdrin â'r tensiwn a welir rhwng diwylliannau gwahanol, a dyna sy'n greiddiol i ôl-drefedigaethedd. Gesyd yr ymdriniaeth hon sail ar gyfer ail ran y traethawd hwn, sef y ffocws a roddir ar farddoniaeth Dafydd ei hun.

Bwriad y drafodaeth ar yr ymdriniaethau llenyddol â gwaith Dafydd ap Gwilym yn y bedwaredd bennod yw holi a yw'r ymdriniaethau hynny wedi ymwneud ag ôl-drefedigaethedd mewn unrhyw ffordd. Trwy hyn gwelir bod y dulliau o drafod cerddi Dafydd yn berthnasol i'r broses o gyfiawnhau ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli yn yr astudiaeth hon. Canolbwyntir ar y math o ddeuliaethau sy'n hydreiddio'r ymdriniaethau llenyddol hyn oblegid dyma, gan mwyaf, yw man cychwyn y trafodaethau hynny. Cyfeirir ynddynt at y traddodiad brodorol ac estron yng ngwaith Dafydd, yr elfennau traddodiadol a newydd yn ogystal â'r berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson. Er bod yr un man cychwyn yn greiddiol i'r drafodaeth a gynigir yn yr astudiaeth hon, sef y cyfeiriadau at ddeuliaethau gwahanol, mae'r modd yr ymdrinnir â'r deuoliaethau hyn yn sylfaenol wahanol a chanolbwyntir ar astudiaeth Helen Fulton (1989), *Dafydd ap Gwilym and the European Context* er mwyn pwysleisio hynny. Mae'r ffaith i'r ymdriniaethau beirniadol ar waith Dafydd ap Gwilym osod pwyslais ar yr elfennau deuol yn ôl presenoldeb dau ddiwylliant, elfennau brodorol ac estron, yr hen a'r newydd, yn gadarnhad bod y nodweddion hyn yn greiddiol i unrhyw ddehongliad ar waith Dafydd. Yr hyn a wna ôl-drefedigaethedd yw cynnig fframwaith ar gyfer trafod union berthynas yr elfennau hyn a chael bod mwy ar waith yng ngwaith Dafydd na phatrwm o ddeuliaethau. Ymateb i gymhlethdodau'r oes y mae ôl-drefedigaethedd yn y bôn, ac felly gynnig ffordd o ddelio â chyfeiriadau R. R. Davies, er enghraifft, at y 'cyd-fyw yn ogystal â drwgdeimlad' sy'n nodweddu'r berthynas rhwng y Saeson a Chymry (Davies 1975: 66).

Drwyddi draw yn y pedair pennod agoriadol hyn, gwelir bod pegynu eithafol yn rhan annatod o'r trafodaethau, megis yr Oes Fodern a'r Oesoedd Canol, yr hen a'r newydd, Cymru a Lloegr, y Cymry a'r Saeson. Y mae'r deuoliaethau diwylliannol gyda Chymreictod a Seisnigrwydd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn greiddiol i'r ymdriniaethau hanesyddol a llenyddol â'r cyfnod ac ar waith Dafydd. Eto i gyd, o'r astudiaethau hanesyddol, awgrymir nad yw'r darlun pegynol mor bendant â hynny ychwaith a chwyd cryn amwysedd yn y berthynas rhwng Cymry a Saeson y cyfnod wrth iddynt gyd-dynnu yn ogystal â gwrthdaro â'i gilydd. Yn yr amwysedd hwn y daw perthnasedd ôl-drefedigaethedd i'r fei. Y mae'r penodau hyn yn fodd i osod seiliau pendant ar gyfer defnyddio ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli'r Oesoedd Canol, llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, ac felly waith Dafydd ap Gwilym. Yn y drafodaeth honno ar y cerddi y bydd yr ymchwil hwn yn fodd i daflu goleuni ar y portread o densiynau diwylliannol a geir gan Dafydd, ac i drafod oblygiadau'r tensiynau hynny wrth gyfrannu at y ddelwedd o hunaniaeth yn y farddoniaeth. Fel y nodwyd eisoes, cynigir deongliadau manwl o bum cerdd a hynny ym mhenodau pump i wyth. Dewiswyd y cerddi hyn ar sail eu hymwneud uniongyrchol â thensiynau diwylliannol neu ethnig a bod ôl-drefedigaethedd yn cynnig patrwm ar gyfer dehongli'r tensiynau hynny. Cais yr astudiaeth ganolbwyntio'n fanwl ar y broses o greu hunaniaeth sy'n ei hamlygu'i hun yn y cerddi hynny. Ni ddylid felly gymryd bod yma ymgais i brofi perthnasedd ôl-drefedigaethedd i holl waith Dafydd ap Gwilym. Mae'r nawfed bennod yn dilyn patrwm gwahanol wrth fwrw golwg ar ddelweddau unigol o wahanol gerddi yn hytrach na deongliadau o gerddi cyfan. Dengys hyn eto pa mor berthnasol y gall rai o brif syniadau'r theori fod i ddehongli rhai cerddi o waith Dafydd. Hanfod y drafodaeth ar y cerddi cyfan a'r delweddau unigol hyn yw'r broses o ' greu ' hunaniaeth. Gan hynny, rhoddwyd sylw manwl i gerddi unigol y dadleuir bod

y broses honno ar waith iddynt, a rhaid cydnabod yn sgil hynny na fyddai'r dull hwn o ddehongli (heb ei addasu) mor effeithiol yn achos rhai o gerddi eraill Dafydd ap Gwilym. Man cychwyn yw'r drafodaeth hon i bob cyfryw, a chynigia'r penodau hyn batrwm posibl ar gyfer dehongli'r prosesau diwylliannol gwahanol sy'n eu hamlygu eu hunain yng ngwaith Dafydd.

Er mwyn canfod beth yn union yw natur y portread diwylliannol a geir yn rhai o'r cerddi, felly, defnyddir rhai o brif syniadau theori ôl-drefedigaethol fel dull o ddehongli gwaith Dafydd. Ymdrinnir ag ystod o syniadau gwahanol o waith Homi Bhabha (1994), un o brif ddamcaniaethwyr y maes sy'n trafod y berthynas drefedigaethol o safbwynt y sawl sydd wedi'u coloneiddio. Y prif syniadau hyn yw dynwared, hybridedd, y Trydydd Gofod, awdurdod hollt, a'r ystrydeb, a rhoddir sylw unigol manwl iddynt yng nghorff y traethawd. Gwelir bod y syniadau hyn yn fodd i ddangos pa mor amlhaenog yw'r portread o ddiwylliannau gwahanol a'u perthynas â'i gilydd yng ngwaith Dafydd. Arwain hyn at drafodaeth ynghylch y math o hunaniaeth a geir yn y cerddi a gwelir bod gan Dafydd ymdeimlad ag agweddau diwylliannol, ond ymateb sydd ychydig yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir ganddo, o bosibl, wrth fynd y tu hwnt i agwedd ddeuol, ac at gyfeiriad newydd sy'n cynnig portread hybrid o ddiwylliannau a hunaniaeth.

Fel y cawn weld yng nghorff y traethawd, y mae ymwybyddiaeth Dafydd o elfennau diwylliannol, boed yn Gymreictod neu Seisnigrwydd, yn llawer mwy cymhleth na'r honiad a gafwyd ar ddechrau'r bennod hon nad oedd Dafydd yn 'deall dim oll am na chenedligrwydd na gwladgarwch' (Thomas 1950: 62). Gellid cynnig hefyd fod gan Dafydd lawer i'w ddweud am densiynau diwylliannol ei oes yn ogystal

â chynnig delweddau pendant o hunaniaeth yn y cyfnod. Daw syniadau theoretig Bhabha yn fodd i ddelio â'r cymhlethdod hwnnw a welir yn y berthynas rhwng Cymry a Saeson y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'r syniadau hyn hefyd yn fodd i gynnig atebion ynghylch pa fath o berthynas sy'n bodoli rhwng diwylliannau yn ogystal â'r math o hunaniaeth a bortreadir yn y cerddi. Llunnir dadansoddiadau o gerddi cyfan yn ogystal ag ymdriniaethau â delweddau unigol yn y gobaith o ddangos gwerth ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli.

Archwilir arwyddocâd Trydydd Gofod Bhabha ar ddechrau'r bumed bennod a dangosir sut y mae 'dynwared' Bhabha yn chwarae rôl bwysig wrth ddadansoddi'r frwydr rhwng diwylliannau gwahanol yn y Trydydd Gofod hwn. I Bhabha y Trydydd Gofod yw'r man cychwyn ac o'r gofod hwn y bydd unrhyw ddeuoliaethau yn codi, "the third space" ... enables other positions to emerge' (1991: 211). Edrych Bhabha y tu hwnt i ddeuoliaethau oherwydd nid wrth drafod pegynau diwylliannol y gellir asesu'r berthynas sy'n bodoli rhwng grwpiau gwahanol. Yn y gofod hwn felly ni cheir purdeb diwylliannol ond yn hytrach hunaniaeth gymysg. Ac yn y gofod hwn y daw dynwared Bhabha yn fodd i bwysleisio'r berthynas gymhleth a fodola rhwng diwylliannau gwahanol yn y frwydr am awdurdod. Y syniadau hyn sy'n sail ar gyfer trafod cywydd 'Y Cleddyf' (71) a'r syniadau hyn sydd hefyd yn sail ar gyfer dehongli 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116) a 'Trech a Gais nag a Geidw' (112) yn y chweched bennod. Y mae a wnelo'r cerddi hyn â brwydr o ryw fath rhwng y carwr ac Eiddig ac ymdrech y naill i gael y gorau ar y llall. Trwy gyfrwng dynwared yn y Trydydd Gofod gwelir nad brwydr sy'n gosod Eiddig a'r carwr am y pegwn croes â'i gilydd a geir, ac nid yw'r cyfeiriadau diwylliannol a geir yn y cerddi hyn yn creu perthynas begynol rhwng grwpiau gwahanol. Nid arwahanrwydd a geir ond yn

hytrach dystiolaeth bod y carwr ac Eiddig yn bodoli yn yr un gofod ac yn rhannu'r un diwylliant amwys.

Canolbwyntir ar hybridedd Bhabha yn y dehongliad o 'Trafferth mewn Tafarn' (73) ym mhennod saith. Daw'r syniad hwn yn fodd i bwysleisio nad oes byth endidau pur. Yr hybrid hwn a welir trwy'r portread o'r carwr ar ei anturiaeth at y ferch ganol nos. Yn draddodiadol, yn ôl perthynas begynol y carwr a'r cymeriadau eraill megis Hicin, Siencin a Siac, a pherthynas begynol y Cymry a'r Saeson, y dehonglir y gerdd hon. Cais yr astudiaeth hon fodd bynnag ddangos nad yw'r deuoliaethau hynny yn rhai pendant. Deillio o'r Trydydd Gofod hybrid y maent mewn gwirionedd wrth i'r carwr a'r 'triais mewn gwely drowsawr' (ll. 52) ymgorffori'r hunaniaeth hybrid hon a welir yn y Trydydd Gofod. Golyga hynny fod y dehongliad hwn o 'Trafferth mewn Tafarn' yn mynd â'r ymdriniaeth â'r gerdd hon i gyfeiriad gwahanol.

Perthynas y carwr â'r ceiliog bronfraith yng ngoleuni'r hollt a geir yn yr wythfed bennod. Yma, dadansoddir natur perthynas y ddau o safbwynt awdurdod y naill dros y llall. Yng ngoleuni damcaniaeth Bhabha ynghylch yr hollt, gwelir nad mater unochrog yw awdurdod ac ni all fodoli yn llwyr yn nwylo'r sawl sydd â'r grym. Canolbwyntir ar ddehongliad o 'Y Ceiliog Bronfraith' (49) yng nghyd-destun y syniadau uchod gan fanylu ar berthynas y carwr a'r ceiliog bronfraith. Canolbwyntir ar y newid rôl cyson sy'n digwydd yn y gerdd hon wrth i'r carwr a'r aderyn frwydro am rym ac wrth i awdurdod gael ei drosglwyddo o'r naill i'r llall. Yn y pen draw gwelir nad un cymeriad sy'n meddu ar yr awdurdod hwnnw. Y mae'r carwr a'r aderyn hwn yn rhannu'r un awdurdod ac felly'r un hunaniaeth gymysg.

Mae'r nawfed bennod yn datblygu'r syniadau hyn ymhellach drwy fanylu ar fodel y canol/ymylon er mwyn trafod lleoliad endidau gwahanol yn y berthynas drefedigaethol. Mae'r drafodaeth hon yn cysylltu â chynnwys y drafodaeth ar awdurdod yn y bennod flaenorol ond yma rhoddir sylw pellach i leoliad yr awdurdod hwnnw a hynny o safbwynt perthynas y carwr ag Eiddig. Cyflwynir hyn o safbwynt perthynas y diwylliant Cymreig â'r un Seisnig y tueddir i gysylltu'r carwr ac Eiddig â hwy. Ond fel y gwelwyd yn y penodau blaenorol, dengys syniadau Bhabha nad yw'r model hwn a'r ffin rhwng y canol a'r ymyl yn fodel nac yn ffin sefydlog. Trwy gyfrwng y deongliadau o rai delweddau unigol o'r cerddi yng ngoleuni syniadau Bhabha, a'r ystrydeb yn benodol, gwelir nad yw lleoliad Eiddig na'r carwr ychwaith yn bendant. Mae hyn hefyd yn arwain at bortread llawer mwy cymhleth o ryng-berthynas y diwylliant Cymreig a'r diwylliant Seisnig. Yr hyn sy'n wahanol yma yw mai cyfres o ddelweddau unigol a geir yn hytrach na thrafodaeth ar gerdd unigol yn ei chyfanrwydd. Bwriad hyn yw dangos pa mor berthnasol yw ôl-drefedigaethedd i'r broses o ddehongli gwaith Dafydd ar ei hyd, ac felly gadarnhau'r ymchwil a wnaethpwyd ar berthnasedd ôl-drefedigaethedd i'r Oesoedd Canol a Chymru yn y penodau agoriadol.

Y mae a wnelo'r astudiaeth hon felly â pherthnasedd ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli'r Oesoedd Canol Cymreig, a gwaith Dafydd ap Gwilym yn benodol, ac fel cyfrwng i drafod yr elfennau diwylliannol amrywiol sy'n codi yn ei gerddi. Trwy gymhwyso syniadau ôl-drefedigaethol at waith Dafydd gwelir nad darlun pegynol a geir o ddiwylliannau ac nad portread o hunaniaeth bur a geir ychwaith. Hynny, fel y nodwyd, yw sail teitl yr ymchwil oherwydd yma y rhoddir pwyslais ar yr

elfennau cymysg sy'n codi yng Nghymru'r Oesoedd Canol ac yng ngherddi Dafydd. Nid cynnig patrwm o ddeuoliaethau y mae ei waith bellach. Yn sgil yr ymchwil hwn, gellir ystyried ei waith fel fforwm ar gyfer trafod cymhlethdodau'r bedwaredd ganrif ar ddeg a sut i ddelio â'r cymhlethdodau hynny. Â hyn â'r drafodaeth a'r ymdriniaeth ar waith Dafydd ap Gwilym i gyfeiriad newydd ac un sy'n caniatáu inni ymdrin â dryswch diwylliannol a hunaniaeth gymhleth ei oes ef, ac efallai hefyd, ein hoes ni.

Pennod 1

Bardd y Drefedigaeth cyn Ôl-drefedigaethedd

Yr Hen a'r Newydd

Yn ei drafodaeth 'Llenyddiaeth a bywyd Cymru' a gyhoeddwyd yn 1938, dywed Ifor

Williams:

na fedrwn i ddeall canu Dafydd ap Gwilym heb fynd y tu allan i Gymru. Fedrwn i mo'i ddeall ef chwaith heb gofio ei ddyled i feirdd ei wlad ei hun ... cadw'r hen a chroesawu'r newydd. Bob tro y cawn fudiad llenyddol newydd ym mywyd Cymru, dyna sy'n digwydd, ieuo'n gymharus elfennau Cymreig ag elfennau estron' (1938: 52–3).

Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn rhoes Williams ei fys ar yr elfen fethodolegol sydd wedi ei defnyddio amlaf gan feirniaid ar waith Dafydd ap Gwilym. Nodwedd gyson ar yr ymdriniaethau beirniadol gydol yr ugeinfed ganrif yw'r pwyslais hwn ar draddodiad a newydd-deb, o 'ieuo'n gymharus elfennau Cymreig ag elfennau estron.'

Mae sawl rheswm pam y mae'r nodwedd hon yn elfen mor amlwg yn y feirniadaeth lenyddol ar waith Dafydd, ac yn naturiol ddigon y mae nifer o'r rhesymau hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys y farddoniaeth ei hun. Ond gellir hefyd olrhain y nodwedd hon i'r modd y dadansoddwyd hynt a helynt Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg gan haneswyr yr ugeinfed ganrif. Tra pherthnasol i waith Dafydd fu'r symudiad oddi wrth hanesyddiaeth naratifol cyfnod y tywysogion i hanesyddiaeth fwy sosio-economaidd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Cyn cwmp y tywysogion, meddai J. Beverley Smith, 'fe fu gennym thema wleidyddol a roes gydlynad i hanes y genedl ac fe'i ceir yn ymgais y tywysogion o linach Gwynedd i greu tywysogaeth ffiwdal Gymreig ... Fe ddarfu am hon gyda lladd Llywelyn ac nid

yw ein hanes yr un wedyn' (1975: 56). Gan i'r naratif hanesyddol a oedd yn ymwneud â sefydlu unedau gwleidyddol annibynnol ddod i ben gyda chwymp y tywysogion, y mae haneswyr wedi canolbwyntio ar y modd y daeth Cymru i delerau â'r drefn wleidyddol newydd a ddaethai i'r wlad yn sgil y concwerwyr o Saeson. Er bod tuedd gan rai Cymry i hiraethu am gyfnod y tywysogion, dywed J. B. Smith yn fwy cadarnhaol mai'r hyn a geir wedi'r goresgyniad yw '[g]wir ddefnydd hanes, sef cydberthynas llywodraeth a chymdeithas ... Grym gweithredol y gydberthynas a'r gwrthdaro mewn llywodraeth gwlad ar y naill law a chynnydd y gynhysgaeth ddiwylliannol ar y llall' (1975: 57).

Diflannodd y rhan fwyaf o ddogfennau gweinyddol y tywysogion eu hunain yn sgil y goncwest, ond o'r bedwaredd ganrif ar ddeg fe gadwyd archif sylweddol o gofnodion y gyfundrefn fiwrocraidd newydd. Trwyddynt, teflir goleuni newydd ar y gymdeithas Gymreig. Er nad oes 'naratif' mor amlwg i'r cyfnod hwn, y mae'r deunydd hanesyddol yn caniatáu disgrifiad mwy 'trwchus' (a defnyddio'r term anthropolegol) o nodweddion a thensiynau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn aml, y mae'r rhain yn seiliedig ar berthynas y Cymry cynhenid â'r newydd-ddyfodiaid o Saeson. Adlewyrchiad rhannol o hynny yw'r modd y trafodir gwaith beirdd pwysicaf y bedwaredd ar ddeg, gan gynnwys Dafydd ap Gwilym a hefyd y mwyaf o'i gyfoeswyr, Iolo Goch (Johnston 1986). Mae hanesyddiaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg a beirniadaeth ar waith Dafydd ap Gwilym fel ei gilydd yn ymwneud yn bennaf â dyfodiad y 'newydd' a pharhad y 'traddodiadol'.

Fel y mae Rachel Bromwich wedi ei ddangos, y mae'r traddodiad o ddehongli gwaith Dafydd yn nhermau'r hen a'r newydd yn mynd yn ôl ganrifoedd (1995: 10–

25). Ers dyddiau Edward Williams (Iolo Morganwg) yn y ddeunawfed ganrif ac Edward Cowell yn y bedwaredd ar bymtheg, bu sawl trafodaeth ar yr agweddau newydd, 'estron' neu Ewropeaidd yng ngwaith Dafydd. Cafwyd mynegiant llawn o'r dull hwn o ddehongli am y tro cyntaf yng ngwaith yr Iseldirwr Theodor M. Chotzen (1927). Chotzen, ys dywed Huw M. Edwards (1996: xii), oedd y cyntaf i werthfawrogi dyled y Cywyddwyr cynnar i'r traddodiad brodorol ac i lenyddiaeth y cyfandir. Ond efallai mai Rachel Bromwich ei hun yw lladmerydd amlycaf y dull beirniadol sy'n trin y 'newydd' a'r 'traddodiadol' fel meini prawf ar gyfer mesur athrylith Dafydd. Ar ddechrau ei chyfrol *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (1986), dywed Bromwich, 'The birth of Dafydd ap Gwilym coincided, appropriately enough, with an unprecedented opportunity to mate the new with the old, the foreign with the national idiom, and to draw Welsh poetry, if only briefly, into the mainstream of contemporary European literature' (1986: xi). Mae'r geiriau hyn yn rhagarweiniad i bennod sy'n dwyn y teitl, 'Tradition and Innovation' (1986: 57–88; cyhoeddwyd fersiwn cynharach yn 1963). Dyma grynhoi mewn teitl bachog y fframwaith mwyaf cyffredin ar gyfer trafod gwaith y mwyaf o'r Cywyddwyr.

Dilynwyd Bromwich gan eraill, ac fe ddaeth tynnu sylw at yr hen a'r newydd yng ngwaith Dafydd yn ffordd gyffredin o drafod ei farddoniaeth. Rhoes Rees Davies arweiniad dibynadwy o du'r hanesydd yn y gyfrol a olygwyd gan John Rowlands yn 1975, *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*. Dywed Davies fod Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn 'wlad wedi ei darnio ... wedi ei gorchfygu ac o'r herwydd gwlad i'w hecsbloetio ymhob ffordd' (1975: 61), a phwysleisia mai'r rhaniad Cymreig/Seisnig oedd y 'rhaniad mwyaf sylfaenol oll' yn y gymdeithas (1975: 63). Manylwyd ar hyn yng nghyd-destun Dafydd ap Gwilym gan sawl

ysgolhaig yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif. Er enghraifft, dywed Richard Loomis yn ei gyfrol o gyfieithiadau o waith Dafydd: 'the Wales of Dafydd ap Gwilym exhibits a wide range of crafts ... but these crafts are not just indigenous; there is cultural commerce with other nations ... Ancient Welsh ways of rule, by law and the military arts, survive ambiguously in England's shadow' (1982: 17). Mewn geiriau eraill, gellir cyplysu'r 'hen' â Chymreictod a'r 'newydd' â Seisnigrwydd neu ddylanwad ehangach y Cyfandir.

Amgylchiadau arbennig y bedwaredd ganrif ar ddeg yw man cychwyn cyfrol sylfaenol bwysig Huw Meirion Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (1996): 'for the professional poets of medieval Wales the fourteenth century was a time of redefinition and innovation' (1996: 1). Unwaith eto, cawn y cyfeiriad at 'innovation' a noda Edwards yn benodol fod amrywiaeth diwylliannol y cyfnod yn sail ar gyfer y newidiadau a welwyd yn y farddoniaeth: 'the development was ... made possible by the convergence in fourteenth century of various cultural and literary influences to which Dafydd ap Gwilym, the most innovative of all medieval Welsh poets, was especially receptive' (1996: xi). Dyma safbwynt sy'n rhannu'r clod am athrylith y farddoniaeth rhwng y bardd ei hun a'r cyd-destun cymdeithasol ehangach.

Gwelir felly mai ffrwd gyfoethog o ysgolheictod yw honno sy'n dehongli gwaith Dafydd yng ngoleuni'r 'hen' a'r 'newydd'. Ond er gwaethaf nifer y trafodaethau a'r cynnydd mewn gwybodaeth am gyfeiriadaeth y cerddi a'u cyd-destun cymdeithasol, cymharol brin fu'r drafodaeth ar gryfderau a gwendidau'r fethodoleg hon yn y lle cyntaf. Mewn adolygiad ar *Dafydd ap Gwilym: Influences and*

Analogues, mae Nerys Ann Jones yn dangos bod gwaith Edwards wedi cyfoethogi'r darlun cyfarwydd o waith Dafydd: 'its contribution is to add colour and detail to the outline sketch provided by Rachel Bromwich over twenty years ago'. Ond honna hefyd: 'this study does not offer us a fresh insight into the work of Dafydd ap Gwilym' (1996: 436). Yr awgrym yw bod cyfraniad Edwards wedi cyfoethogi a goleuo'r darlun a frasluniwyd gan Bromwich, ond nad yw ysgolheictod y Gymraeg eto wedi cwestiynu dilysrwydd y darlun hwnnw na'r offer a ddefnyddiwyd i'w lunio.

Wrth i'r ganrif dynnu tua'i therfyn, fodd bynnag, gwelwyd newid cyfeiriad sylweddol mewn astudiaethau canoloesol, ac ymddangosiad damcaniaethau a methodoleg a fyddai'n cynnig golwg newydd ar waith sawl awdur, gan gynnwys Dafydd ap Gwilym. Ni ddaeth y newid hwn o'r byd Cymraeg nac yn y lle cyntaf o du ysgolheigion a enillai eu bara menyn wrth ddysgu llenyddiaeth Gymraeg neu Geltaidd. O safbwynt darllenwyr yng Nghymru, mae'n debyg mai pennod Stephen Knight (2000) ar chwedl *Peredur* a ddaeth â'r dull newydd ôl-drefedigaethol o ddehongli llenyddiaeth ganoloesol i'r amlwg. Aelod o adran Saesneg (ym Mhrifysgol Caerdydd) oedd Knight, ac (yn arwyddocaol ddigon) ei bennod ef yw'r unig bennod Saesneg mewn cyfrol sydd fel arall yn gwbl Gymraeg ei hiaith. Ysgolhaig mewn adran Saesneg yn yr Unol Daleithiau oedd y nesaf i wneud cyfraniad sylweddol yn y maes. Cyhoeddodd Morgan T. Davies ei bennod ar gywydd Dafydd ap Gwilym i'w gysgod (63) yn 2005, yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y gyfrol *Postcolonial Wales* dan olygyddiaeth Jane Aaron a Chris Williams. Cafwyd erbyn hyn astudiaeth o llenyddiaeth Gymraeg a Sbaeneg y Wladfa sy'n gwneud defnydd helaeth o theori ôl-drefedigaethol (Lublin 2008). Bellach, ôl-drefedigaethedd yw un o'r meysydd damcaniaethol mwyaf bywiog yng nghyd-destun llenyddiaeth Gymraeg. Diolch i

waith Knight, Morgan a hefyd Foster Evans (2006), mae'r canoloesoedd Cymreig, a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn benodol, yng nghanol y bwrlwm newydd hwn.

I ryw raddau, y mae hynny'n annisgwyl. Ni fu'r byd llenyddol Cymraeg erioed yn frwd iawn ei ymateb i theori lenyddol (Brooks 2004: 2–9). At hynny, gellid tybio mai llenyddiaeth fodern neu gyfoes fyddai'r maes mwyaf tebygol o ddenu astudiaethau damcaniaethol blaengar. Yn achos ôl-foderniaeth, er enghraifft, roedd cyhoeddi gweithiau awduron megis Robin Llywelyn, Wiliam Owen Roberts ac Angharad Tomos yn hwb sylweddol i'r garfan honno a blediai berthnasedd bydolwg ôl-fodern i gymdeithas Gymraeg ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Ond gwahanol iawn oedd amgylchiadau ymddangosiad cyntaf ôl-drefedigaethedd yn y cyd-destun Cymraeg. Bydd archwilio'r cwestiwn hwnnw yn un o fannau cychwyn y traethawd hwn.

Diffinio'r Ôl-drefedigaethol

Roedd cryn hanes yn perthyn i ôl-drefedigaethedd cyn ei ymwneud cyntaf â'r canoloesoedd Cymraeg, wrth gwrs. Gan hynny, y mae 'ôl-drefedigaethedd' yn derm sydd wedi magu nifer o ystyron. Cyn mynd ymhellach, felly, rhaid holi beth yw ystyr y term hwn, yn arbennig mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig.

Yn ei gyfrol *Beginning Postcolonialism* (2000), mae John McLeod yn crynhoi fel a ganlyn, 'for better or for worse, the term "postcolonialism" does have a history ... It is important that we understand the *variety* of what the term signifies if we want to begin to use it self-consciously and productively' (2000: 3). Gall amryw ystyron y term 'ôl-drefedigaethedd' ein harwain ar ddau drywydd posibl. Yn y lle cyntaf, gall y

term gyfyngu'r maes i gyfnod penodol, sef yr Oes Fodern, ar ôl y trefedigaethu Prydeinig ac Ewropeaidd sy'n cael eu hystyried yn greiddiol i ôl-drefedigaethedd. Os felly, bydd yn rhaid cyfiawnhau perthnasedd y term i gyfnodau eraill. Ond mae trywydd arall sy'n canolbwyntio ar ddefnydd posibl y term 'ôl-drefedigaethedd' y tu allan i'r cyd-destun hanesyddol modern, fel y gwelwn.

Yn naturiol ddigon, mae trafodaeth ar ôl-drefedigaethedd yn ymwneud â thrafodaeth ar drefedigaethedd ei hun. Man cychwyn hwylus yw'r gyfrol gan John McLeod y cyfeiriwyd ati eisoes, sef *Beginning Postcolonialism* (2000). Fel yr awgryma ei theitl, cyfrol gyflwyniadol yw hon sy'n amcanu rhoi diffiniad cryno ac ymarferol o ôl-drefedigaethedd. Gan hynny, y mae'n bur gynrychiadol o brif ffrwd ôl-drefedigaethedd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Y cyd-destun hanesyddol a natur y trefedigaethu gwreiddiol yw man cychwyn y drafodaeth. I McLeod, mae'r trefedigaethu y mae ôl-drefedigaethedd yn ei ddilyn yn perthyn i gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol penodol, sef yr Ymerodraeth Brydeinig. Olrheinir ganddo'n fras y grym a oedd gan yr Ymerodraeth Brydeinig hyd at ganol yr ugeinfed ganrif, y dirywiad a'r dad-drefedigaethu a fu yn ddiweddarach yn y ganrif honno, ac yna'r olion o rym trefedigaethol sy'n dal i fodoli ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Rhydd McLeod gryn sylw i'r dad-drefedigaethu a welwyd yn ystod hanner olaf yr ugeinfed ganrif: 'the decades of the 1960s and 1970s saw busy decolonisation throughout the declining Empire. So, with the passing of Hong Kong to China on 1 July 1997, the numbers of those living overseas under British rule fell below one million for the first time in centuries—a far cry from the days when British colonialism subjected millions around the globe' (2000: 9-10). Ond o fewn y fframwaith hanesyddol hwn o drefedigaethu a dad-drefedigaethu y mae McLeod yn

cynnig diffiniadau o 'drefedigaethedd' sydd yn ei hanfod yn ehangach na'r cyfnodau hanesyddol y mae newydd eu trafod. Yn ei ffurf fwyaf syml, dywed, 'Colonialism ... specifically concerns the settlement of one group of people in a new location' (2000:

7). Dywed ymhellach:

Colonialism is perpetuated in part by justifying to those in the colonising nation the idea that it is right and proper to rule over other peoples, and by getting colonised people to accept their lower ranking in the colonised order of things—a process we can call 'colonising the mind.' (2000: 18)

Dyma ddiffiniad o drefedigaethedd nad yw wedi ei gyfyngu'n amseryddol. Er mai diwedd yr Ymerodraeth Brydeinig yw man cychwyn trafodaeth McLeod, mae nifer o nodweddion trefedigaethedd, gan gynnwys pwysigrwydd rheoli bydolwg cymdeithasol y trefedigaethwr a'r trefedigaethedig fel ei gilydd, yn rhai a all—yn ddamcaniaethol o leiaf—drosgynnu sawl cyfnod hanesyddol.

Er hynny, ni ddylid colli golwg ar y ffaith fod cwmp yr ymerodraethau Ewropeaidd yn ganolog i'r symud o'r trefedigaethol i'r ôl-drefedigaethol. Ys dywed McLeod, 'The phrase "the British Empire" is most commonly used these days in the past tense, signifying a historical period and set of relationships which are no longer current' (2000: 6). Ond hanfod ôl-drefedigaethedd yw'r sylweddoliad bod effeithiau a chanlyniadau'r trefedigaethu yn parhau—yn cynyddu efallai—yn sgil darfod y trefedigaethu ffurfiol. Mae ôl-drefedigaethedd yn ffordd o archwilio'r cyflwr yn dilyn trefedigaethu. Ond mae'r ymwybyddiaeth ddyfnach o effaith trefedigaethu yn golygu bod ôl-drefedigaethedd hefyd yn cynnig dulliau newydd o astudio'r cyfnod pan oedd y trefedigaethu ar ei anterth.

I nifer o sylwebwyr, man cychwyn pwysicaf ôl-drefedigaethedd yw gwaith Edward Said (1939–2003). Yn ei gyfrol hynod ddylanwadol *Orientalism* (1978), ymchwiliodd Said i natur ansefydlog y berthynas rhwng y gwledydd gorllewinol a'r rhai dwyreiniol. Fel y dywed Angharad Price, 'haerodd Said ... mai syniad a grëwyd gan y Gorllewin yw'r Dwyrain. Mae'n greadigaeth sydd yn deillio o berthynas imperialaidd anghytbwys' (2006: 138). Dadleuodd Said i feddylwyr ac awduron o'r Gorllewin lunio testunau am y Dwyrain o safbwynt yr honnont ei fod yn oleuedig a gwyddonol. Ond mewn gwirionedd cyflwyno ystrydebau o'r Dwyrain a wnaent, a'r rheini yn ystrydebau negyddol a nawddoglyd. Un enghraifft o hyn, meddai Price, oedd y modd y 'dangosodd [Said] sut y cysylltir y dwyrain â nodweddion megis rhamant ... a sut y cysylltir y dwyreinwyr fel hil â diogi' (2006: 139).

Er pwysiced diamheuol gwaith Said, gellid dadlau mai'r ffigwr mwyaf dylanwadol ym maes ôl-drefedigaethedd o safbwynt astudiaethau canoloesol Cymreig yw Homi Bhabha, awdur *The Location of Culture* (1994). Mae sawl rheswm sy'n esbonio ei boblogrwydd ymhlith beirniaid sy'n trafod testunau Cymreig. Gall mai'r pwysicaf ohonynt yw'r pwys a rydd ar weithredolrwydd—os caniateir y gair—y sawl a drefedigaethir. Mewn geiriau eraill, mae gwaith Bhabha yn archwilio'r hyn a wna'r trefedigaethdig i raddau helaethach na'r hyn a wna'r trefedigaethwr. 'In short', meddai David Huddart, 'Bhabha's work emphasizes the active *agency* of the colonized' (2006: 2). Mae perthnasedd hynny i Gymru, trefedigaeth gyntaf Lloegr yn nhyb rhai, yn amlwg.

Gwelwn y nodwedd hon ar waith Bhabha yn fwyaf amlwg drwy graffu ar ei berthynas â Said. Er i Said osod ffiniau pendant rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain,

dadleua Homi Bhabha mai gorsymleiddio yw hynny. Mae man cychwyn rhai o syniadau Bhabha yn debyg i safbwynt Said, fel y gwelir yn ei osodiad enwog, 'the object of colonial discourse is to construe the colonized as a population of degenerate types on the basis of racial origin, in order to justify conquest and to establish systems of administration and instruction' (1994: 70). Ond yn wahanol i Said, cred Bhabha nad yw'n bosibl i'r trefedigaethwr gyrraedd y nod hwnnw a chaiff awdurdod ei dynnu i ddau gyfeiriad ar unwaith. Er enghraifft, o ran lleoli gwrthrych y trefedigaethu mewn disgwrs, dywed Bhabha, 'colonial discourse produces the colonized as a social reality which is at once an "other" and yet entirely knowable and visible' (1994: 70–1). Mewn geiriau eraill, nod y trefedigaethwr yw creu gwybodaeth real, ymarferol am y trefedigaethedig er mwyn ei reoli. Ond ar yr un pryd mae'r disgwrs trefedigaethol yn llunio'r trefedigaethedig fel 'arall' nad oes modd ei osod yng nghyfundrefn feddyliol resymegol y trefedigaethwr.

Ceir awgrym yma o sut y gall gwaith Bhabha fod o ddiddordeb i'r sawl sy'n trafod llenyddiaeth yn iaith y trefedigaethedig, a datblygir nifer o'i syniadau ymhellach yn y penodau sy'n dilyn. Ond yma y mae'n addas tynnu sylw at nodwedd o waith Bhabha sydd yn problemateiddio'r defnydd ohono wrth astudio llenyddiaeth ganoloesol. I Bhabha, ymddengys fod ôl-drefedigaethedd wedi ei leoli'n bendant yn yr Oes Fodern. Ystyriwn ei ddiffiniad o feirniadaeth ôl-drefedigaethol:

Postcolonial criticism bears witness to the unequal and uneven forces of cultural representation involved in the contest for political and social authority within the modern world order (1994: 171).

Yr awgrym yma yw bod ôl-drefedigaethedd yn ddull o ddehongli addas ar gyfer trafod strwythurau awdurdod y cyfnod presennol, sef y 'modern world order' y cyfeiria Bhabha ato. Ond dylid nodi nad yw'n dweud *na* all y maes fod yn berthnasol

i gyfnodau cynharach. A gellid dadlau bod darllen a dehongli testunau canoloesol yn ymwneud â'r 'contest for political and social authority within the modern world order', gan mai yn yr Oes Fodern ac ar ei chyfer y mae'r darllen a'r dehongli hwnnw'n digwydd. Ond nid ar chwarae bach y mae defnyddio cysyniadau a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer astudio'r Oes Fodern er mwyn astudio cyfnod a chymdeithas gwbl wahanol. Gwlad estron yw'r gorffennol wedi'r cyfan, ac fel y dywedodd Saunders Lewis am farddoniaeth Guto'r Glyn, 'Mae awyrgylch y canu yn llunio gwlad wahanol i'n Cymru ni, er mai yr un yw'r iaith' (1981: 107-8). A ydyw cyn hawsed â hynny i gamu'n ôl dros y canrifoedd? A all ôl-drefedigaethedd agor drysau a thaflu goleuni newydd ar gyfnodau cynharach?

Mae'r cwestiwn o osod terfynau amseryddol yn codi'n gyson mewn gweithiau ar ôl-drefedigaethedd. Noda Peter Childs ac R. J. Patrick Williams, 'the obvious implication of the term post-colonial is that it refers to a period coming after the end of colonialism'(1997: 1). Mae Anne McClintock hithau'n nodi bod cysylltiad amlwg rhwng ôl-drefedigaethedd ac amser, '[there is a] commitment to linear time and the idea of "development"' (1992: 84). O ganlyniad i'r wedd gronolegol hon, mae'n anorfod fod gan ôl-drefedigaethedd berthynas agos â'r cyfnod modern trefedigaethol ac â'r cyd-destun Prydain-ganolig. Fel yr awgrymodd Roland Greene, '[we] accept the premise that postcolonialism begins with colonialism' (2004: 42). Ond er hynny, tybed a ellir defnyddio'r ffenomen ddiweddar 'ôl-drefedigaethedd' i fwrw goleuni ar gyfnodau cynharach?

Y ffordd amlycaf o geisio osgoi'r problemau amseryddol y mae ôl-drefedigaethedd yn eu codi yw cyfyngu ei ddefnydd i gyfnodau sy'n arddangos

nodweddion y gellir eu cymharu'n uniongyrchol â sefyllfa drefedigaethol yr ugeinfed ganrif. Dilyn trywydd o'r fath a wna Dylan Foster Evans mewn erthygl ar waith Dafydd ap Gwilym. 'Cyn inni ddechrau sôn am theori ôl-drefedigaethol', meddai, 'mae'n deg holi a fu Cymru erioed yn drefedigaeth' (2006: 42). Yn sgil astudiaeth o ddeongliadau haneswyr (ac yn bennaf Rees Davies) o'r modd y gweinyddid Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, daw i'r casgliad fod 'consensws pur gadarn yn bodoli o blaid y cysyniad o "Gymru drefedigaethol" yn y bedwaredd ganrif ar ddeg' (2006: 43). Mae methodoleg Foster Evans, felly, yn derbyn yr un rhag-dyb â Greene uchod, sef y farn mai trefedigaethedd yw man cychwyn ôl-drefedigaethedd. Ceir patrwm pur debyg yn erthygl Morgan T. Davies (2005)—trafodaeth ar Gymru'r drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ar ddeg yw man cychwyn y drafodaeth. Nid yw Davies yn cyfiawnhau ôl-drefedigaethedd fell dull o ddehongli ond trwy brofi perthynas drefedigaethol rhwng y diwylliannau Cymreig a Seisnig yn y cyfnod. Mae'r nodweddion trefedigaethol hyn yn eu tro yn sail ar gyfer darlleniad ôl-drefedigaethol o 'Ei gysgod' (63).

Fodd bynnag, wrth drafod yr Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd, gellid mynd i gyfeiriad tra gwahanol. Mae ein hymwneud ni â'r Oesoedd Canol yn digwydd yn yr Oes Fodern, a gellid dadlau bod honno'n oes ôl-drefedigaethol yn ei hanfod. Os felly, ni all ein darlleniadau o destunau llenyddol o unrhyw gyfnod fod yn rhydd rhag effaith gwahanol fathau o drefedigaethu, ac os felly y mae ôl-drefedigaethedd yn hollbresennol. Mae hwn yn bwynt a wneir yn un o nofelau Cymraeg mwyaf diwedd yr ugeinfed ganrif. Er ei bod wedi ei lleoli yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, nofel ôl-drefedigaethol ar sawl cyfrif yw *Y Pla* (1987) gan Wiliam Owen Roberts. Er mai dyfodiad y pla o'r dwyrain i Ewrop yw cefndir y nofel, a bod cyfran helaeth ohoni

wedi ei lleoli mewn pentref bychan yn Eifionydd, mae'n nofel sy'n bwriadol chwalu ein disgwyliadau o naratif cronolegol gan ddangos perthnasedd oesol trefedigaethedd. Daw'r nofel i ben, er enghraifft, gyda chyfeiriadau at allu milwrol yr Unol Daleithiau, ymerodraeth newydd yr ugeinfed ganrif: 'Taflodd Mochyn Coed waywffon at aelod o'r CIA ond roedd dwy neu dair o lorïau a thanciau'r fyddin Americanaidd eisoes yn croesi'r rhyd' (1992: 357). Mae'r ddelwedd hon o'r CIA a'r fyddin Americanaidd yn goresgyn Eifionydd yn rhoi gwedd ôl-drefedigaethol gyfoes ar gynnwys y nofel hanesyddol.

Mae nodweddion ôl-drefedigaethol eraill iddi hefyd. Fel y dywed Enid Jones, y mae cymeriad Ibn al Khatib yn sylwebydd 'delfrydol ar gyfer amlygu gogwydd gwrth-Ewropeaidd yr awdur ... y gogwydd hwnnw yw un o hynodion *Y Pla* sy'n ei thynnu i mewn i gylch y nofel ôl-drefedigaethol, yn hytrach nag i gylch y nofel draddodiadol genedlaetholaidd' (2000: 39). Wrth osod *Y Pla* ochr yn ochr â nofelau Saesneg a chan ddefnyddio rhai o'r syniadau a gynigiwyd gan Linda Hutcheon yn 'Beginning to Theorize Postmodernism' (1987), dywed Jones mai 'nofelau yw'r rhain ... lle y defnyddir ymwybyddiaeth â hanes a ffuglen fel creadigaethau dynol i ailfeddwl ac i ailweithio ffurfiau a chynnwys y gorffennol' (2000: 50).

Dengys *Y Pla* y gall ffuglen fodern fod yn ganoloesol (neu o leiaf yn ganoloesolaidd) ac yn ôl-drefedigaethol ar yr un pryd. Mae *Y Pla* hefyd yn feirniadaeth ar y ddelwedd o'r Oesoedd Canol sydd gennym yn ein meddyliau, delwedd sydd yn gynnwys amrywiaeth o destunau o wahanol fathau. Awgryma hynny yn ei dro y gall beirniadaeth lenyddol gyfoes ar destunau cynnar fod yn ôl-drefedigaethol. Ond a yw hynny'n cyfiawnhau defnyddio ôl-drefedigaethedd fel

fframwaith ar gyfer astudiaethau manwl? Ynteu ai codi ambell bwynt difyr, ond cymharol ymylol, fydd ffawd beirmiadaeth ôl-drefedigaethol yn y pen draw?

Mae opsiwn arall ar gael i'r sawl sydd am bleidio defnydd o syniadau ôl-drefedigaethol mewn cyd-destun canoloesol. I raddau helaeth, term ymbarél yw ôl-drefedigaethedd sy'n ymwneud â chysyniadau mwy penodol megis dynwarded, deuoliaeth agwedd (*ambivalence*), a'r hybrid, er enghraifft. Nid ydynt yn dermau sydd yn eu hanfod yn gaeth i faes ôl-drefedigaethedd. Gellid eu harfer heb yr ymbarél ôl-drefedigaethol honno sy'n peri anfodlonrwydd i rai. Os felly, gellir holi a yw profi trefedigaethedd yn gwbl angenrheidiol ar gyfer manteisio ar syniadau a gysylltir erbyn hyn ag ôl-drefedigaethedd. Er i Bhabha ganolbwyntio ar anghyfartaledd diwylliannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, tybed a all ei syniadau ôl-drefedigaethol, megis yr hybrid, yr ystrydeb a'r dynwarddwr, gael eu trosglwyddo i gyfnod arall heb y term trafferthus sy'n eu cysylltu â'i gilydd?

Dyma efallai yw dadl bwysicaf Kirsti Bohata yn ei llyfr *Postcolonialism Revisited* (2004). Cyfrol yw hon sy'n trafod llenyddiaeth Saesneg Cymru o safbwynt ôl-drefedigaethol. Iddi hi, nid yw'r ffaith nad yw Cymru'n dilyn patrwm trefedigaethu/dad-drefedigaethu y rhan fwyaf o'r Ymerodraeth Brydeinig yn peri problem. 'Wales', meddai 'does not fit into a linear-progressive model of colonization, anti-colonialism and decolonization/independence; but, as postcolonialism has the capacity to recognize, structures of influence and subjugation are not necessarily coterminous with formal colonization or decolonization' (2004: 8). Os felly, teg gofyn hefyd a yw'r cysyniad o ôl-drefedigaethedd ei hun yn

angenrheidiol o gwbl, ynteu a ellir defnyddio rhai o'i gysyniadau creiddiol megis dynwared, deuoliaeth agwedd a'r hybrid hebddo?

Y perygl amlwg yma yw gwastatau'r gwahaniaethau enfawr rhwng gwahanol gyfnodau a sefyllfaoedd hanesyddol. A yw sefyllfa'r ugeinfed ganrif neu'r unfed ar hugain, a Chymru'n wlad ddemocrataidd, agored y mae'r rhan fwyaf o'i phoblogaeth yn bur fodlon â'i threfniadau cyfansoddiadol, yn berthnasol i astudiaethau ôl-drefedigaethol? Ac eithrio lleoliad daearyddol, a oes unrhyw gysylltiad ystyrlon rhwng y Gymru gyfoes a Chymru'r Oesoedd Canol diweddar, gwlad a goncrwyd drwy rym arfau ac a weinyddid ar sail cyfundrefn a gam-wahaniaethai yn erbyn ei thrigolion brodorol? A yw hi'n addas defnyddio'r un fethodoleg ôl-drefedigaethol ar gyfer y ddwy sefyllfa? Yn fwy cyffredinol, mae hyn yn un o'r dadleuon mwyaf pwerus yn erbyn ôl-drefedigaethedd. Sut y gall profiad trigolion gwyn Awstralia (un o'r 'settler societies'), dyweder, fod yn ôl-drefedigaethol mewn modd y gellir ei gymharu â phrofiad pobl dduon Affrica? Ac os yw'r profiadau hynny'n wahanol, a ddylid eu dadansoddi yn yr un modd?

Un o'r problemau sylfaenol sy'n peri rhwystr wrth drafod ôl-drefedigaethedd yw'r pegynu haearnidd cyson rhwng yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern. Fel y gwelwyd eisoes, mae gan y pegynu hwn hefyd ddylanwad ar y defnydd o'r term ôl-drefedigaethol. Wrth honni nad yw ôl-drefedigaethedd wedi'i gyfyngu gan nac amser na chyfnod penodol, dywed Foster Evans fod y term yn 'cyfeirio at ddull o feddwl ac o ddadansoddi sy'n mynd i'r afael â'r holl brosesau a fframweithiau meddyliol sy'n rhan o drefedigaethu, a gall wneud hynny drwy edrych ar hanes trefedigaethu o'r cyfnod cynharaf' (2006: 45). Ond ceir cyfiawnhad mwy uniongyrchol ar sail y profiad

canoloesol. Mae Michelle R. Warren, er enghraifft, yn awgrymu bod trefedigaethu yn bodoli yn yr Oesoedd Canol mewn ffordd nid annhebyg i drefedigaethu'r Oes Fodern: 'fantasies of empire, for example, dominate the twelfth century as much as the nineteenth even though some of the techniques of domination differ' (1998: 115). Sut felly y mae canoloeswyr wedi ceisio pontio'r agendor hon rhwng y canoloesol a'r cyfoes?

Ôl-drefedigaeth ac Amser

Gwelwyd eisoes fod ceisio mapio profiad y bedwaredd ganrif ar ddeg ar brofiad trefedigaethol y cyfnod modern yn fan cychwyn i sawl ymdriniaeth feirniadol, megis eiddo Morgan T. Davies (2005) a Foster Evans (2006). Iddynt hwy, ymddengys fod profi trefedigaethedd canoloesol yn fodd i gyfiawnhau'r berthynas rhwng ôl-drefedigaethedd a'r Oesoedd Canol. Ond mae eraill wedi mentro i wneud y cysylltiad mewn modd mwy uniongyrchol a hyderus na hynny. Enghraifft amlwg o hyn yw'r gyfrol a olygwyd gan Jeffrey Jerome Cohen, *The Postcolonial Middle Ages* (2000), sy'n awgrymu bod cysylltiad mwy sylfaenol rhwng y ddau faes. Rhydd penodau'r gyfrol hon, sy'n trafod amrywiaeth o weithiau, gan gynnwys Chaucer, Dante, Lydgate, Gerallt Gymro, a'r Mabinogi, olwg ymarferol ar sut y gall rhai o brif syniadau ôl-drefedigaethedd fod yn berthnasol i destunau canoloesol. Yn ei ragarweiniad, mae Cohen yn tynnu ar waith Homi Bhabha, sydd ym marn Cohen yn un o'r prif ddamcaniaethwyr sy'n gyfrifol am greu a chysylltu'r diffiniad o ôl-drefedigaethedd ag oes benodol, sef yr Oes Fodern. Dyfynna Cohen sylw Bhabha parthed y 'modern world order' (Bhabha 1994: 171) gan ddadlau bod sylwadau o'r fath wedi dylanwadu ar y duedd i osgoi defnyddio ôl-drefedigaethedd mewn trafodaethau ar yr Oesoedd Canol. Meddai ymhellach,

Postcolonial theory in practice has neglected the study of the 'distant' past, which tends to function as a field of undifferentiated alterity against which the modern regimes of power have arisen (2000: 3)

Dadl Cohen yw bod trefedigaethu'n trosgynnu cyfyngiadau amser, a'i fod felly'n berthnasol y tu hwnt i'r Oes Fodern. Dywed, 'just as there was never a time before colony there has never yet been a time when the colonial has been outgrown' (2000:3). Hanfod dadl Cohen, felly, yw'r gred ddiysgog fod y 'drefedigaeth' yn bodoli erioed a'i bod yn rhan annatod o'r profiad dynol. Ceir awgrym gogleisiol arall ganddo hefyd, sef bod y cyfnod modern yn cynnal perthynas drefedigaethol â'i gorffennol ei hun: 'time and history are always-already colonized and never an inert, innocent otherness awaiting to be excavated' (Cohen 2000: 3). Yma, ymdrechir i gael gwared â'r ymdriniaeth o'r Oesoedd Canol fel 'arall' a gwrthbwynt llwyr i'r Oes Fodern, a hefyd i ddangos bod yr Oes Fodern hithau wedi 'creu' y syniad o'r canoloesol yn israddol iddi hi ei hun. Y mae'r Cyfnod Modern yn coloneiddio'r Oesoedd Canol i bob pwrpas. Dadleua Cohen fod y ffordd gronolegol o feddwl am ôl-drefedigaethedd yn cyfyngu datblygiad y maes ei hun a hefyd yn dibrisio dylanwad yr Oesoedd Canol ar yr oes bresennol: 'this exclusionary model of temporality denies the possibility that traumas, exclusions, violences enacted centuries ago might still linger in contemporary identity formation' (2000: 3).

O safbwynt Cymru, gellid dadlau bod yr awgrym hwn am sut y mae digwyddiadau'r gorffennol yn llechu mewn hunaniaethau diweddar yn un digon cyfarwydd. Gwelir tystiolaeth o hyn yn y pwyslais a roddir ar y cof yn y diwylliant Cymraeg. Mae'n debyg mai enw Gerallt Lloyd Owen a gysylltir yn fwyaf arbennig â'r 'cof' hwn. Er enghraifft, dywed am Gilmeri a marwolaeth Llywelyn ein Llyw

Olaf, 'Fan hyn yw ein cof ni' (2006: 23), a gellid amlhau enghreifftiau. Mae'r 'cof am y digwyddiadau hynny yn cyfrannu at y syniad o hunaniaeth, '[they] still linger in contemporary identity formation', chwedl Cohen. Ond gellid dadlau mai trafod ffantasi modern o'r Oesoedd Canol a wna Gerallt Lloyd Owen, yn hytrach na thrafod yr Oesoedd Canol eu hunain.

Yn ogystal â hawlio perthynas agos rhwng ôl-drefedigaethedd a'r Oesoedd Canol, dengys Cohen hefyd fod gan yr Oesoedd Canol rôl benodol i'w chwarae ar gyfer dyfodol astudiaethau ôl-drefedigaethol. Gofyn y cwestiynau canlynol:

How might postcolonial theory encourage an opening up of what the medieval signifies, and how might that unbounded 'middle space' then suggest possible futures for postcolonial theory? How can medieval studies with its turn to the 'distant' past bring about the new? (2000: 6)

Mae'n crybwyll yr agweddau hynny sy'n fodd i weld yr Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd yn gweu i'w gilydd gan edrych o'r newydd ar y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Dywed fod astudiaethau ôl-drefedigaethol a'r Oesoedd Canol fel disgyblaethau yn ymdrin â chysyniadau tebyg, ochr yn ochr â'i gilydd, megis amser, ethnigrwydd, a'r genedl. Cyfeiria hefyd at ymdrech i ddatganoli Ewrop, 'a postcolonial Middle Ages has no frontiers, only heterogeneous borderlands with multiple centres' (2000: 7). Byddai hyn yn rhoi sylw newydd i unedau daearyddol megis Cymru sydd wedi eu hymylu yn sgil prosesau sydd ar waith ers diwedd yr Oesoedd Canol: 'the supposed margins of Europe must also be rethought, so that "peripheral" geographies like Wales, Ireland, Brittany, the Midi, Catalonia become their own centers' (2000: 7). Mae ei bwyslais yn wahanol i ddull Foster Evans a Morgan o gyfiawnhau defnyddio ôl-drefedigaethedd wrth drafod yr Oesoedd Canol: 'Medieval studies ... must stress not difference (past as past) or sameness (the past as

present) but temporal interlacement, the impossibility of choosing alterity or continuity (the past that opens up the present to possible futures)' (Cohen 2000: 5). Tebygrwydd neu 'sameness (the past as present)' fyddai un ffordd o ddehongli dadleuon Foster Evans a Morgan. I Cohen, nid yw'r Oesoedd Canol yn gyfnod ar wahân nac yn ddieithr, felly, ond mae'n hollbresennol ac yn ddylanwad ar y presennol a'r dyfodol, ffenomen y gall ôl-drefedigaethedd ei thrafod mewn sawl ffordd.

Gwelir yn sylwadau Cohen ymdrech hyderus i ymestyn ffiniau'r ôl-drefedigaethedd a'r canoloesol fel ei gilydd. Mae hyn sicr yn nodwedd o astudiaethau sy'n pleidio perthnasedd ôl-drefedigaethedd i'r Oesoedd Canol. Yn ei chyfrol uchelgeisiol *Getting Medieval* (1999), mae Carolyn Dinshaw yn trafod rhai agweddau ar gymunedau uniongred ac anuniongred yn Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, a hynny i raddau helaeth drwy gyfrwng damcaniaethau 'queer'. (Ni wn a fathwyd term Cymraeg cyfatebol.) Ond mae hefyd yn mynd i'r afael â damcaniaethwyr megis Michel Foucault a Roland Barthes yn ogystal â Homi Bhabha. Fel Cohen, pwysleisia'r cyswllt â'r presennol: 'it is about ways in which some people in late-twentieth century West make relations with those very phenomena from the past in constituting ourselves and our communities now' (1999: 1). Cyfeiria Dinshaw at y ffin honno lle gwelir yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern am y pegwn croes â'i gilydd: 'the Middle Ages is still made the dense, unvarying, and eminently obvious monolith against which modernity and postmodernity groovily emerge' (1999: 15-16). Mae Dinshaw felly'n tynnu sylw at y dull haearnidd o wahaniaethu rhwng y cyfnod modern a'r cyfnod canol a'r dulliau gwahanol sydd o 'ddarllen' y cyfnodau hyn. Mae hi'n darllen yn groes i'r fethodoleg draddodiadol, ac yn cyfuno rhai o syniadau damcaniaethol y cyfnod modern ag astudiaeth o'r Oesoedd Canol. Nid

gosod y ddau am y pegwn croes â'i gilydd y mae Dinshaw, felly, ond cymylu'r ffin ganoloesol/fodern.

Mae'r weithred hon o gymylu ffiniau hefyd yn greiddiol i fframwaith syniadaethol ôl-drefedigaethedd. Ond fel Cohen, y mae Dinshaw'n anfodlon â gwaith Bhabha o ran ei ymwneud â hanes cyn-fodern. Cytuna fod gan waith Bhabha 'much to offer a queer historical project but [his] treatment of the distant past reveals the limits of his revisionist clout' (1999: 16). Mae arwyddocâd pellgyrhaeddol i hyn, meddai, oherwydd 'by limiting the conceptualization of the Middle Ages, Bhabha thus limits the radicality of his remapping of the present' (Dinshaw 1999: 19). I Dinshaw, gall yr Oesoedd Canol fwrw goleuni ar yr oes bresennol, a gall ôl-drefedigaethedd, yn yr un modd, elwa o'i gysylltiad â'r Oesoedd Canol.

Pennod 2

Ôl-drefedigaethedd a'r Oesoedd Canol

Ymarfer yr Ôl-drefedigaethol

Dangoswyd yn y bennod ddiwethaf fod ansicrwydd parthed perthnasedd ôl-drefedigaethedd i'r Oesoedd Canol yn cydfodoli ag awydd i wthio ôl-drefedigaethedd i bob math o gyfeiriadau canoloesol newydd. Mae ymdrech amlwg ar waith gan rai ysgolheigion i chwalu ffiniau'r ddisgyblaeth academiaidd o astudiaethau canoloesol. Un awdur sydd wedi mynd ati'n gydwytbodol i gyflawni hyn yw Kathleen Biddick. Yn ei chyfrol *The Shock of Medievalism*, mae'n trafod 'those political and cultural problems that were and still are excluded by the discipline' ac yn mynegi awydd i ddefnyddio 'those excluded objects as a way to think about what medieval studies might become' (1998: 1). Seilia Biddick ei hastudiaeth ar y dyhead i ailfeddwl ac ailddarllen astudiaethau'r Oesoedd Canol, ac mae'n dibynnu ar syniadau damcaniaethol cyfoes wrth wneud hynny. Cred Biddick fod yr Oesoedd Canol yn agor drysau posibl ar gyfer trafod y theorïau cyfoes hynny: 'A history of trauma opens itself up, then, not only to psychoanalysis, but also to the diverse and lively critical projects in feminist, queer, and postcolonial studies' (1998: 10–11). Mae'r testunau a ddefnyddir ganddi'n dra amrywiol, ac yn cynnig awgrym o ôl-drefedigaethedd sy'n dra gwahanol i'r hyn sydd eisoes wedi ei gynnig ar gyfer Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Un awdur a drafodir ganddi yw Beda (c.642–735), awdur y testun *Historia ecclesiastica gentis Anglorum* (Hanes Eglwysig y Bobl Seisnig). Ar yr wyneb, nid yw

Beda yn ddewis amlwg ar gyfer astudiaeth ôl-drefedigaethol, oni bai, efallai, fod yr astudiaeth honno yn cael ei hysgrifennu o safbwynt y Cymry neu'r Brythoniaid sy'n rhan mor amlwg o'r naratif ac a gollodd eu tiroedd yn sgil dyfodiad y Saeson. Ond yn hytrach, perthynas y diwylliant Saesneg a'r diwylliant Lladin yw sail dadansoddiad Biddick, wrth iddi ddadlau bod gwaith Beda yn gweithredu fel 'go-between' (1998: 98) rhwng hunaniaethau ac ieithoedd gwahanol. Ar y naill law, y Saesneg oedd yr iaith frodorol, iaith gyntaf pob haen o gymdeithas. Ond ar y llaw arall, roedd yn iaith a oedd wedi ei chyfyngu i rai peuoedd penodol. Ym maes dysg a llythrennedd, a chrefydd yn gyffredinol, Lladin oedd yr iaith fwyaf pwerus, a hi a chwaraeai rôl y coloneiddiwr, sefyllfa eironig o gofio am hanes diweddarach y Saesneg fel iaith coloneiddio. Yn ôl Biddick, mae Beda yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng y pegynau ieithyddol hyn ac yn ymgorffori rhyw fath o hybdridded ieithyddol ôl-drefedigaethol. Er nad yw rhai elfennau o ddadl Biddick yn berthnasol y tu hwnt i gyfnod Beda, y mae'r syniad o'r Lladin fel iaith drefedigaethol yn berthnasol i'r Oesoedd Canol ar eu hyd, yng Nghymru a thu hwnt. Mae defnydd o Ladin yn nodwedd o Dafydd ap Gwilym, ac y mae cerdd megis 'Englynion yr Anima Christi' (2) yn dangos symudiad rhyngieithyddol, o'r Lladin a'r rhyngwladol i'r Cymreig a'r lleol. Dyma awgrym o sut y gallai syniadau Biddick, o'u haddasu yn ôl y cyd-destun, fod yn berthnasol.

Gwelir felly fod ffiniau o wahanol fathau yn berthnasol iawn i Biddick, ond nid rhaid i'r ffiniau hynny fod yn rhai ieithyddol, ethnig, neu genedlaethol eu natur. Yn ei hastudiaeth o *The Wife of Bath* gan Chaucer, cyfeiria Biddick at y ffaith fod cymeriad y *Wife of Bath* yn gymeriad ffiniol gan ei bod yn byw ar y ffin rhwng y dref a'r wlad. Y mae hi felly yn troedio rhwng dau fyd gwahanol heb berthyn yn llawn i'r naill na'r llall. Arwain hynny at drafodaeth ar berthynas cariadon a statws y fenyw

mewn cymdeithas. Gellir awgrymu'n hawdd nad yw'r testun hwn yn ei gynnig ei hun yn naturiol i ddarlleniad ôl-drefedigaethol, a bod Biddick yn fentrus wrth drafod *The Wife of Bath* yng ngoleuni ôl-drefedigaethedd. Ond yn sicr, gwelwn sut y mae ôl-drefedigaethedd wedi datblygu o'i wreiddiau digon cyfyng. Gellid tybio felly fod gwaith Biddick yn agor y drws led y pen i astudiaethau ôl-drefedigaethol ar Gymru, gwlad a oedd yn llawer iawn mwy 'ôl-drefedigaethol' na Lloegr yr wythfed ganrif neu'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Fodd bynnag, derbyniodd cyfrol Biddick gryn feirniadaeth am ei defnydd o theori ôl-drefedigaethol. Yng ngeiriau Gabriel M. Spiegel, 'Biddick assumes rather than *argues* its benefits' (2000: 246), a chwyna ymhellach am y modd y mae Biddick wedi trawsblannu'r theori o'i chynefin naturiol yn y cyfnod modern i'r Oesoedd Canol: '[she is] transferring insights from one domain to another without demonstrating the validity of the transference' (2000: 246). Mae hyn yn feirniadaeth bur sylfaenol, yn enwedig mewn cyfrol sydd wedi cael ei galw'r 'most influential attempt to bring medieval studies and postcolonial studies together' (Holsinger 2002: 1220). Er hynny, nid yw Spiegel yn esbonio pam y mae'r trosglwyddiad hwn yn un problematig ychwaith. Ond mae'n awgrymu y gallai'r cyfiawnhau hyderus ar ôl-drefedigaethedd ganoloesol fod braidd yn rhy rhwydd a hwylus.

Mae gwaith Bruce W. Holsinger (2002) yn cynnig ateb posibl i gwynion Spiegel, a hynny o gyfeiriad annisgwyl efallai, ond eto gyfeiriad sy'n hynod berthnasol i astudiaethau ôl-drefedigaethol Cymreig. Mae Holsinger yn ymwybodol o'r gred fod ôl-drefedigaethedd yn perthyn i gyfnod penodol a'r ddadl y dylid ei gyfyngu i'r cyfnod hwnnw, fel yr awgrymodd rhai o'r diffiniadau ar ddechrau'r

drafodaeth hon. Fodd bynnag, prif fyrdwn astudiaeth Holsinger yw bod astudiaethau canoloesol wedi cyfrannu at ddatblygiad theori ôl-drefedigaethol mewn modd tra arwyddocaol. Er hynny, mae'n cydnabod y gred gyffredinol sy'n bodoli ymhlith canoloeswyr, sef eu bod, ar un lefel, yn hwyrddyfodiaid i feysydd damcaniaethol: 'medievalists ... retain their inevitable status as theoretical latecomers' (2002: 1197). O ran theori ôl-drefedigaethol, dywed, 'the consensus view of postcolonial theory among medievalists seems to accept its inherence in the modern even while urging its hermeneutical adaptation to the premodern' (2002: 1197).

Mae Holsinger yn dechrau ei drafodaeth drwy nodi bod ôl-drefedigaethedd yn ddull dilys ar gyfer trafod canlyniadau trefedigaethu mewn cyfnodau cynharach nag oes y theori ei hun, yn union fel yr honnodd Cohen eisoes. Er hynny, nid profi 'trefedigaethedd' oesol fel y cyfryw a wna Holsinger, ac o ran hynny, mae ei ddadl yn dilyn trywydd gwahanol i un Cohen. Prif fyrdwn dadl Holsinger yw bod dulliau a methodoleg cydnaws ag ôl-drefedigaethedd yn bodoli ac yn cael eu defnyddio i drafod yr Oesoedd Canol ymhell cyn i theori ôl-drefedigaethol ennill ei phlwyf fel dull o ddehongli. Mae'n crynhoi fel a ganlyn:

scholars have been long engaged in projects that resonate compellingly with the critical impulses of postcolonialism. With little or no help from postcolonial theory ... more than a few medievalists have addressed the very constellation of critical imperatives now at the center of postcolonial critique, demonstrating what I would call mutually clarifying capacities of medieval and postcolonial studies (2002: 1200).

Wrth ddatblygu'r ddadl hon, cyfeiria Holsinger yn benodol at yr ysgol ddylanwadol o ganoloeswyr Ffrengig a elwir 'the Annales School' ar ôl y cyfnodolyn a oedd yn greiddiol i'w gweithgareddau, sef *Annales d'histoire économique et sociale*

(a sefydlwyd yn 1929). Roedd yr haneswyr hyn, yn eu plith enwau mawrion megis Marc Bloch (1886–1944), yn chwyldroadol o ran y modd yr aethant ati i ddefnyddio dulliau newydd i drafod hanes. Nid hanes gwleidyddol neu ddynastig oedd eu pennaf diddordeb; canolbwyntient yn hytrach ar hanes cymdeithasol, gan fanteisio ar ddulliau dadansoddi a oedd ar gynydd, diolch i dwf y gwyddorau cymdeithasol. Er eu diddordeb mewn hanes cymdeithasol, ni wnaethant gofleidio Marcsaeth fel y cyfryw, ond rhoesant fwy o bwys ar fframweithiau meddyliol (*mentalités*) y cymdeithasau a astudient. Yn arwyddocaol, nid y cyfnod diweddar oedd prif faes eu hastudiaeth, ond y cyfnod cyn y Chwyldro Ffrengig, gyda lle amlwg i'r Oesoedd Canol.

Noda Holsinger sut y bu gwaith ysgol Annales yn ddylanwad ffurfiannol ar ysgol arall o haneswyr diwylliannol, sef y Subaltern Studies Group neu Collective (SSG). Sefydlwyd y grŵp hwn yn y 1970au gyda'r bwriad o fwrw goleuni newydd ar sefyllfa cymunedau israddol eu statws yn Ne Asia. Er bod nifer o ddylanwadau ar y garfan hon o ysgolheigion, roedd astudiaethau canoloesol ysgol Annales yn amlwg yn un pwysig. Daeth gwaith yr SSG yn ei dro yn rhan greiddiol o ôl-drefedigaethedd fel y daeth i fodolaeth yn y 1980au diweddar a'r 90au cynnar (Holsinger 2002: 1197). Dengys Holsinger sut y tynnai ymdriniaethau beirniadol rhai o aelodau'r SSG yn benodol ar astudiaethau canoloesol. Meddai, 'members of the collective engage at length with specific debates among European medievalists whose scholarship provides the evidentiary and theoretical basis of their arguments' (2002: 1210). Mae'r defnydd hwn yn dod ag astudiaethau canoloesol ac ôl-drefedigaethedd yn agos iawn at ei gilydd.

Ond nid ysgol Annales a'r SGG oedd yr unig garfan o ysgolheigion â chysylltiad ag ôl-drefedigaethedd. Dadleua Holsinger fod rhai o haneswyr y gwledydd Celtaidd hefyd yn rhan o rwydwaith ehangach o feddylwyr yr oedd eu gwaith yn berthnasol iawn i ôl-drefedigaethedd. Yn eu plith cyfeiria at Katharine Simms a'i thrafodaeth ar y sefyllfa ddiwylliannol amwys yn Iwerddon yn 'Bards and Barons: The Anglo-Irish Aristocracy and the Native Culture' (1989). Yn fwy perthnasol eto i Gymru, noda Holsinger gyfraniad pwysig Rees Davies, gan nodi'n arbennig ei drafodaeth ar ffiniau daearyddol Cymru ac Iwerddon yn ei erthygl, 'Frontier Arrangements in Fragmented Societies: Ireland and Wales' (1989). Man cychwyn ymdriniaethau o'r fath yw'r modd yr ystyrid gwahanol ddiwylliannau fel pegynau croes i'w gilydd ond pwysigrwydd trafodaethau Davies i ôl-drefedigaethedd yw'r broses o danseilio'r syniadau hynny. Mae Holsinger yn crynhoi'r berthynas rhwng y ddau faes drwy nodi, 'the adoption of postcolonialism to medieval studies is thus not appropriative but perfectly natural, illuminating a variety of historical and literary forces that collectively shaped the colonial contests of the Middle Ages' (2002: 1204). Yn fwy na hynny, mae astudiaethau canoloesol wedi gwneud cyfraniad uniongyrchol at ôl-drefedigaethedd, er i hynny gael ei anwybyddu: 'we have overlooked the vital role that medieval studies performed in the emergence and shaping of postcolonial studies' (2002: 1207). Yn hytrach nag ymddwyn fel hwyrddyfodiaid nerfus, awgrym Holsinger yw y dylai canoloeswyr ystyried ôl-drefedigaethedd fel priod faes iddynt hwy eu hunain.

Ac nid Holsinger yn unig sy'n trafod y berthynas naturiol hon rhwng yr Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd. Mae John Dagenais yn ei erthygl 'The Postcolonial Laura' (2004) yn cynnig dehongliad cymdeithasol o berthynas theori ôl-

drefedigaethol â'r Oesoedd Canol. Mae Dagenais yn ymwybodol o'r peryglon sydd yn codi gyda'r berthynas bosibl hon, 'The chief danger is as I see it, is that "diluting" terms such as *colonial* and *postcolonial* risks simply casting *any* inquiry and its object of study into a relation of colonial exploitation' (2004: 366). Er cydnabod y perygl, mae Dagenais yn dewis ei wrthod gan ddadlau bod ymdrin â'r Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd ochr yn ochr â'i gilydd yn fodd o ehangu ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth o'r ddau. Mae Dagenais felly yn canmol yr ymdrech newydd sydd ar waith i ddod ag ôl-drefedigaethedd a'r Oesoedd Canol yn nes at ei gilydd. Wrth gyfeirio at y corff o weithiau newydd sy'n cymhwyso'r theori at gyfnodau canoloesol, dywed Dagenais, 'such efforts are extremely important, particularly because they deepen our understanding of the relations between colonizer and colonized and alert us to the multiple modalities and disguises that the exploitation of the weak by the powerful can assume' (2004: 306). Â rhagddo i nodi bod arferion a chanlyniadau concwest, gwrthryfel a chymodi yn ganolog i'w waith fel canoloeswr, ac yn yr un modd yn gallu bod yn ganolog i ôl-drefedigaethedd: 'I am interested in how habits of domination and exploitation (and attendant binaries) also inform our construction of a medieval past' (2004: 366). Yr hyn a geir yma, felly, yw ôl-drefedigaethedd heb angen profi trefedigaethu, gan nad yr un peth yw trefedigaethu â choncwest neu ddominyddu gwleidyddol.

Tyn Dagenais sylw at gysylltiad arall rhwng y meysydd hyn gan nodi: 'starting in the fourteenth century, there is a remarkable coincidence of early European colonization in time and early European colonization in geography' (2004: 366-67). Yr oedd Ewrop yn coloneiddio gweddill y byd o ran daearyddiaeth, ac ar yr un pryd yn creu'r rhwyg rhwng y modern a'r canoloesol. Gellid ystyried hynny yn

nhermau coloneiddio'r Oesoedd Canol, ac o'r herwydd y mae'r cyfnod hwn yn ôl Dagenais yn cael ei ddiffinio yn erbyn y cyfnod modern, 'a period of time defined always in relation to modernity ... The Middle Ages ... can only serve as a sign of what is (or what one would have as) absent from modernity (2004: 367). Dadleua Dagenais fod ôl-drefedigaethedd yn gallu cyfrannu at y ddealltwriaeth o'r hyn a olygir wrth Oesoedd Canol, gan gofio bod astudiaethau ar yr Oesoedd Canol hwythau wedi cyfrannu at greu ôl-drefedigaethedd. 'I am interested', meddai, 'in ways in which colonial and postcolonial ideas are already present at the foundation of the modern and serve to construct a medieval "past" that can never gain full citizenship in the commonwealth of modern European culture, even as it is touted as the aboriginal source of that culture' (2004: 370). Gwelwyd syniad tebyg yng ngwaith Dinshaw uchod. Gellir dadlau bod y cyfnod modern yn coloneiddio'r Oesoedd Canol, ond gall yr Oesoedd Canol hwythau weithredu mewn modd nid annhebyg.

Rydym bellach wedi cyrraedd pwynt newydd yn y ddadl. Yn ôl Barbara Fuchs a David J. Barker, 'what we may think of postcolonial criticism's characteristic themes and tropes—hybridity, displacement, ambivalence, and so on—are not and have not been solely or even especially the preoccupations of postcolonial thought' (2004: 336). Nid yw prif themâu ôl-drefedigaethedd wedi eu cyfyngu i gyfnod penodol neu ran benodol o'r byd. Ond mae'r drafodaeth a gafwyd uchod yn dangos bod perthynas fwy cymhleth rhwng ôl-drefedigaethedd ac amser. A dychwelyd at McLeod, gwelwn y dylid gochel rhag dilyn y trywydd cronolegol: 'we should beware of using "postcolonialism" strictly as marking a historical moment or period ... and reserve it for talking about aesthetic practices' (2000: 33).

Mae'r pwyslais bellach wedi symud o brofi 'trefedigaethedd' at berthnasedd elfennau oddi mewn i ôl-drefedigaethedd i wahanol leoedd a chyfnodau. Yn wir, gellir cymhwyso ôl-drefedigaethedd i gyfnodau cynharach na'r Oesoedd Canol hyd yn oed. Mae Irad Malkin yn ei erthygl, 'Postcolonial Concepts and Ancient Greek Colonization' (2004), yn tanlinellu hynny. Fel eraill, mae'n ymwybodol o'r perygl wrth iddo nodi, 'it must be asked, whether we project such terms onto the past in order that ancient examples might subsequently provide historical "depth" to the modern postcolonial phenomenon and afford "universal" validity to observations of postcolonial thinking' (2004: 342). Eto i gyd, cyflwynna Malkin dystiolaeth i ddangos sut yn union yr oedd syniadau y gellid eu galw'n ôl-drefedigaethol yn bodoli ganrifoedd cyn i'r theori ei hun ddod yn rhan o arfogaeth ddamcaniaethol yn yr ugeinfed ganrif. Dywed, 'discussions of orientalism and colonialism sometimes reach back to Classical Greece, reputed to be the originator of Western binary attitudes to the other, the subaltern, or the colonized' (2004: 341). Â rhagddo i honni, 'applying postcolonial concepts and terms such as colonizer and colonized to antiquity implies a wider scope for postcolonial study' (2004: 342). Yn wir, wrth nodi 'binary thinking has been with us since antiquity' (2004: 343) mae bron yn awgrymu bod ystyriaethau ôl-drefedigaethol yn rhan greiddiol o ddiwylliant Gorllewin Ewrop drwyddo draw.

Canoloesoldeb a Dwyreinioldeb

Bwriad yr adran flaenorol oedd holi a ellid dod â'r Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd ynghyd. Ar fwy nag un achlysur, fodd bynnag, bu'r drafodaeth yn cyffwrdd â phwnc arall, sef y modd y mae'r Cyfnod Modern wedi 'creu' yr Oesoedd Canol. Cyfeiriwyd at yr 'Oesoedd Canol' fel 'arall' yng ngwaith Cohen (2000) uchod, er enghraifft, a gwelir Dagenais (2004) yn crybwyll rôl ôl-drefedigaethedd a'r Cyfnod

Modern yn y broses o 'greu' yr Oesoedd Canol. Yr awgrym yw bod yr Oesoedd Canol yn fyd o dywyllwch, rhagfarn ac ystrydebau, y gellir eu diffinio yn erbyn rhesymeg oleuedig yr Oes Fodern. I'r perwyl hwn, caiff yr Oesoedd Canol eu trefedigaethu gan y Cyfnod Modern. Yn wir, crëwyd yr Oesoedd Canol gan yr Oes Fodern, yn union fel yr aeth y Gorllewinwyr ati i 'greu' delwedd o'r Dwyrain, yn ôl dadansoddiad Said. Yn sicr, y mae'r syniad o'r Oesoedd Canol fel 'gwlad estron' yn codi'n aml. Yn ei astudiaeth *Medievalism and Orientalism* (2005) defnyddia John M. Ganim linell agoriadol nofel L. P. Hartley, *The Go-Between* (1953), i ddisgrifio'r amgyffred o'r gorffennol: 'the past is another country' (2005: 3). Fodd bynnag, â rhagddo fel a ganlyn, 'as my argument implies, to say that the past is another country no longer is to say that it is cut off from us in some essential way' (2005: 3). Er bod y gorffennol yn 'arall' ar un lefel, cam annoeth, ym marn Ganim, fyddai ei drafod fel cyfnod sydd wedi ei dorri'n llwyr oddi wrth yr oes bresennol. O fewn y cyd-destun ôl-drefedigaethol, dengys Ganim fod y gorffennol a'r syniad modern ohono fel gwlad estron neu fel 'arall' yn debyg i berthynas trefedigaeth a threfedigaethwr. Y trefedigaethwr (neu'r Oes Fodern) sy'n berchen ar y grym a'r gallu i ddiffinio'r trefedigaethedig (neu'r Oesoedd Canol) mewn modd sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau ef. Ond yng ngoleuni syniadau ôl-drefedigaethol, dywed Ganim, 'such a strict division between one country and another is in practice more fluid and dynamic' (2005: 4). Yn ôl Ganim, mae beirniadaeth lenyddol a diwylliannol gyfoes yn greiddiol i'r broses o olrhain y cysylltiad hwn. Noda 'some concerns of current critical discourse—race, gender, nationality, modernity—have a prehistory in the earliest reception and construction of the Medieval, a Medieval which is often fantasized as resistant to and prior to such concerns' (2005: 5).

Felly hefyd y mae Catherine Brown, yn ei herthygl ‘In the Middle’ (2000), yn trafod yr Oesoedd Canol fel creadigaeth. Mae’r trosiad o ‘wlad estron’ yn apelio ati hithau, ‘The past can feel like a place as much as it does a time—a foreign place, outside the doors of the familiar ... The Middle Ages were invented to be a foreign country’ (2000: 547). Gwelir cyfocredd amlwg rhwng yr Oesoedd Canol a’r Dwyrain neu’r ‘Orient’ fel y’i ceir yng ngwaith Said. Meddai Ganim, ‘the idea of the Middle Ages as it developed from its earliest formulations in the historical self-consciousness of Western Europe is part of what we need to call an identity crisis, a deeply uncertain sense of what the West is and should be’ (2005: 3). A gwneir y pwynt yn glir gan Brown: ‘it doesn’t take much tweaking for *Orientalism* to speak of Medieval Studies. Just read “Medievalist” for Said’s “Orientalist”, “Middle Ages” for his “Orient”’ (2000: 549).

I Brown mae hyn yn gyfle: ‘given this hermeneutic similarity between medievalism and orientalism, it seems that work with and around “otherness” in anthropology and (post)-colonial studies might be an excellent companion for thinking through methodological and ethical issues in medieval studies’ (2000: 549). Ond gyda hyn rydym yn crwydro oddi wrth ystyriaeth o ôl-drefedigaethedd yn y cyddestun Cymreig. Beth yw perthnasedd y drafodaeth ar amser? Un ateb yw ei bod yn ein gwneud yn ymwybodol o beryglon ‘trefedigaethu’ yr Oesoedd Canol. Mae siaradwyr Cymraeg heddiw yn byw mewn cyfnod pan fo eu hiaith a’u diwylliant dan fygythiad. Mae’r gallu i oresgyn dylanwad grymoedd allanol mewn modd creadigol a hyderus yn nodwedd y mae’r diwylliant Cymraeg cyfoes yn gyson yn ceisio ymgyrraedd ati. Wrth ystyried athrylith Dafydd ap Gwilym wrth iddo gyfuno’r hen a’r newydd onid ydym mewn gwirionedd yn trefedigaethu, yn gwthio ein bydolwg ni

ar gyfnod cynharach? Onid ydym yn mawrygu cerdd fel ‘Trafferth mewn Tafarn’ am ei bod mewn gwirionedd yn trafod ein hymdrechion ni fel Cymry i ymbalfalu drwy fyd cyfoes sy’n gynyddol Seisnig a Saesneg? Mae hwn yn berygl anorfod wrth drafod llenyddiaeth y gorffennol o unrhyw gyfnod, ond tybed nad yw’r dull arferol o drafod Dafydd ap Gwilym yn enghraifft eithafol? Roedd gan ‘Orient’ Said ei phleserau diymwad: ei chyfoeth, ei moethusrwydd, ei rhywioldeb. Ffrwyth dychymyg Gorllewinwyr rhagfarnllyd oedd y modd y daeth y rhain yn ‘ffeithiau’ cydnabyddedig, wrth gwrs. Ond onid yw gallu honedig Dafydd i gynnal ‘craidd’ ei Gymreictod yn wyneb newidiadau diwylliannol ei oes a chreu campweithiau llenyddol o’r sefyllfa yn dweud mwy am ein dyheadau i’n diffinio ni ein hunain nag y mae am lenyddiaeth yr Oesoedd Canol? Ai dyma yw gwrs ôl-drefedigaethedd—yr angen i sylwi bod ein gweledigaeth o’r Oesoedd Canol yn fynegiant o’n hawydd i’n diffinio ni ein hunain?

Celtigrwydd: Dwyreinioldeb y Cymry

Ond mae agwedd arall ar ôl-drefedigaethedd sydd yn hynod berthnasol i Gymru, fel y gwelir o sylw a wnaeth Patrick Sims-Williams wrth drafod y termau ‘Celt’ a ‘Cheltaidd’: ‘At times the term “Celtic” seems to be expected to pass stricter tests of validity than would normally be applied to, say, “Germanic” or “Slavic”. Given the minority state of contemporary Celtic-speakers, this can *look* unfortunately close to the post-colonial situation’ (1998: 3-4). Gwêl Sims-Williams debygrwydd rhwng y modd yr ymdrinnir â phobloedd ‘Celtaidd’ heddiw ac ôl-drefedigaethedd gan fod hunaniaeth o fath arbennig (angheltaidd yn yr achos hwn) yn cael ei gwthio ar grwpiau a ystyrir yn ‘Geltaidd’, neu’n fwy syml fod hunaniaeth Geltaidd yn cael ei

gwadu iddynt gan nad ydynt yn pasio profion dilysrwydd a grëwyd gan ysgolheigion nad ydynt eu hunain yn perthyn i grŵp ethno-ieithyddol Geltaidd.

Mae hon yn wedd ddiddorol ar ôl-drefedigaethedd. Ond a yw'n berthnasol i'r Oesoedd Canol Cymreig a gwaith Dafydd ap Gwilym yn benodol? Ar yr olwg gyntaf, yr ateb amlwg fyddai 'ydyw' i'r cyntaf ac 'nac ydyw' i'r ail. Mae traddodiad maith o astudio rhyddiaith chwedlonol y Cymry a hefyd eu traddodiad mawl mewn cyddestun cymharol Geltaidd, ond nid yw hynny mor wir am waith Dafydd ap Gwilym. Hyd yn oed wrth drafod yr 'hen' neu'r 'traddodiadol' yn ei waith, y duedd at ei gilydd yw olrhain hynny i'w berthynas â Beirdd y Tywysogion neu â'r traddodiad brodorol Cymreig, yn hytrach na cheisio llunio cyswllt Celtaidd â llenyddiaeth Iwerddon, dyweder. Er enghraifft, defnydd y ddau o fotiffau cyfandirol, ac nid unrhyw 'Geltigrwydd' cyffredin, yw hanfod y gymhariaeth rhwng Dafydd a'r bardd Gwyddeleg Gearóid Iarla a geir gan Gwynn ap Gwilym (1974).

Wrth gwrs, nid term canoloesol mo'r gair 'Celt'. Er bod ei darddiad yn y cyfnod clasurol, deillia'r defnydd diweddar ohono o waith Edward Llyud yn yr ail ganrif ar bymtheg. Rhwng yr adeg honno a thua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg y crëwyd y syniad o 'Gelt', meddai Joep Leerssen, awdur trafodaeth ar 'Celticism' (1996). Creadigaeth oedd y Celt, meddai Leerssen: 'the concept of "The Celt" is, then, a *construct*' (1996: 4), a chreadigaeth ydoedd a luniwyd o'r tu allan a chanddi felly nodweddion cyfarwydd o'r drafodaeth ar ôl-drefedigaethedd: 'stereotyped connotations of Celticism have remained operative since the notion of a Celtic cultural tradition was constructed' (1996: 5). Ond fel y noda Patrick Sims-Williams mewn erthygl ('Celtomania and Celtoscepticism', 1998) sy'n ymdrin â

nodweddion hunaniaethol megis iaith, hanes ac archaeoleg, y mae'r term erbyn hyn yn anos ei ddiffinio nag o'r blaen: 'different disciplines have developed related but sometimes conflicting concepts of "Celticity"' (1998: 33). O ganlyniad mae'n anos ateb y cwestiwn a yw Celtigrwydd yn bodoli heddiw, a rhybuddia Sims-Williams 'because Celtic languages are still spoken in Britain and Ireland we will not just assume that the cultures of the two islands have ever been similar, or still are meaningfully "Celtic"' (1998: 34). Sut bynnag y defnyddir y term, mae llawer o wirionedd yng ngeiriau Leerssen, 'the classification "Celtic" has been imposed from the outside, by scholars from metropolitan Europe, writing *about* these nations but rarely *for* them' (1996: 4). Gwelwn 'Celtigrwydd' yn ymdebygu i Ddwyreinioldeb Said: 'the construct "Celt" carries with it ... the echo of a specific power relationship. Those who were called "Celts" had no power over the fact that they were beginning to be called that name ... To be so named means to be subject to someone else's control' (1996: 6).

Ym myd llenyddiaeth, mae oblygiadau penodol i ddelwedd y Celt, a hynny'n sgil y modd y cysylltir y Celtiaid yn fwy uniongyrchol na phobloedd eraill â byd natur, fel y noda Sims-Williams yn ei erthygl 'The Invention of Celtic Nature Poetry' (1996). Eto, pwysleisir ganddo mai diffiniad allanol oedd 'Celtaidd', ac nad oedd llenorion yr Oesoedd Canol yn defnyddio'r term 'Celtaidd' i drafod pobl ac ieithoedd Prydain ac Iwerddon (1996: 97). At hynny, 'the medieval Irish and Welsh did not believe that they sprang from a common stock and showed no fraternal feelings for each other' (1996: 97). Ond roedd Celtigrwydd yn syniad dylanwadol ym meddyliau beirniaid llenyddol cynnar: 'proto-Celticists such as Matthew Arnold who lumped the Irish and Welsh together as "Celts" may have done them the same sort of disservice

as the Orientalists who lumped Persians, Indians, and Chinese together as “Orientals” (1996: 98). Mae arwyddocâd hyn yn amlwg i Sims-Williams: “Celticism” is, of course, deliberately modelled on Edward Said’s “Orientalism”, and implies an analogy between the approach of writers like Renan and Arnold to “Celtic” culture and the way in which nineteenth-century European Orientalists appropriated Western themes and subordinated them to Western needs within an imperialist context’ (1996: 98).

Pwysigrwydd hyn o safbwynt Dafydd ap Gwilym yw’r ffaith bod cysylltiad agos rhwng Celtigrwydd a barddoniaeth natur yn benodol. Yn ei drafodaeth ar ‘The Invention of Celtic Nature Poetry’ (1996), mae Patrick Sims-Williams yn cyfeirio at rai delweddau o fyd natur mewn testunau amrywiol sydd wedi eu hystyried yn ‘Geltaidd’, gan gynnwys rhai a geir yn ‘Canu Llywarch Hen’ ac yn y Mabinogion. Dywed, er enghraifft, ‘Since Celtic-speakers both dwelt in wild nature and retained a primitive “feeling of poetic beauty”, it must have seemed predictable, even if not a line of their poetry were understood, that their poems would display a feeling for the sublime natural beauties all around them!’ (1996: 110). Yn achos Dafydd ap Gwilym, wrth gwrs, y duedd yw ei weld fel unigolyn athrylithgar y tu hwnt i gymdeithas ac mewn perthynas agos â byd natur. Mae’r goedwig yn bwysig iawn iddo, ac yn aml cawn ddarlun ohono’n mwynhau rhyddid yr unigolyn yn y goedwig. Ond gellid dadlau mai darlun yw hwn sy’n drwm gan ddylanwad Celtigrwydd Rhamantaidd. Sonia Sims-Williams am ‘the druids’ woodland ambiance ... [which] contributed to the Romantic picture of the Celts in general’ (1996: 103). Tybed nad yw olion hynny i’w gweld ar y modd y darllenir gwaith Dafydd ap Gwilym? Mae modd synhwyro adleisiau awgrymog o Geltigrwydd mewn sawl astudiaeth ar waith Dafydd, er mai

anodd yw profi cyswllt uniongyrchol. Mae Rachel Bromwich, er enghraifft, yn gweld y goedwig fel dihangfa i'r bardd ac yn wrthbwynt llwyr i fywyd y llys, 'the *deildy* is the antithesis of the conventional man-made dwelling; its life, untrammelled by convention, is the calculated opposite of normal gregarious human society' (1986: 1). Darlunnir Dafydd ganddi fel cymeriad sydd yn gwbl naturiol a dedwydd ei fyd yn yr amgylchfyd naturiol hwn. Mae R. Geraint Gruffydd yntau'n cyfeirio at y pwyslais a roddir ar yr unigolyn, sydd yn aml ymhlith nodweddion honedig Celtigrwydd. Dywed mai arwydd 'o'i unigolyddiaeth yw'r ffaith mai ef sydd bob amser yng nghanol y darlun: hyd y cofiaf i, nid yw byth yn adrodd stori yn y trydydd person' (1987: 36). Ac mae'r unigolyddiaeth hon i'w gweld yn glir yn ei berthynas â'r goedwig ac â chreaduriaid a phlanhigion byd natur. Ar adegau y mae Celtigrwydd Dafydd yn cael ei grybwyll yn uniongyrchol, megis gan Rachel Bromwich pan ddywed: 'Dafydd ap Gwilym accomplished a daring and original synthesis by integrating selected elements from the European tradition with the equally ancient and indigenous tradition of Celtic poetry in these islands (for many of the most characteristic features of his style and imagery and technique are significantly paralleled in early Irish poetry, no less than in Welsh)' (1986: 2). Un beirniad sydd wedi cynnig dehongliad cwbl wahanol o ymwneud Dafydd â'r goedwig yw Helen Fulton. Wrth osgoi unrhyw awgrym o Geltigrwydd Rhamantaidd mae Fulton yn eithriad, ac y mae llawer sy'n berthnasol i ôl-drefedigaethedd yn ei gwaith, fel y gwelwn yn y penodau nesaf.

Ôl-drefedigaethedd ar waith

Nid oes, felly, brinder gwahanol ymdrechion i ddod â'r Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd ynghyd. Gwnaed hynny gan sawl beirniad gan edrych ar sawl math o lenyddiaeth mewn sawl iaith wahanol. Er hynny, y mae tuedd amlwg i symud oddi

wrth drafodaethau ar destunau penodol i ystyried themâu mwy cyffredinol. Yn fwyaf amlwg yn eu plith y mae cysyniadau eang megis canoloesoldeb. Mae Ganim, er enghraifft, yn honni nad cymhwysio theori ôl-drefedigaethol at destunau canoloesol yw prif fwriad ei ddamcaniaethau ef: ‘I am less concerned in “applying”, say, gender theory or postcolonial analysis to medieval texts than in uncovering a pattern woven as much by the scholarly and popular veneration—and execration—of the Middle Ages as by the Middle Ages itself’ (2005: 5). I Ganim, y bwriad yw darganfod patrymau ôl-drefedigaethol mewn trafodaethau ar yr Oesoedd Canol yn hytrach na throsglwyddo syniadau yn ôl i’r cyfnod hwnnw. Mae Catherine Brown hithau’n ofalus yn ei defnydd o ôl-drefedigaethedd a’r Oesoedd Canol. Dywed, ‘I do not want to appropriate it or apply it’ meddai (2000: 550), ac mae’n ein rhybuddio rhag amcanion y ‘symud’ o un cyfnod i’r llall: ‘we should be especially troubled by the modernising agenda implicit in the *application* of theory, as if theory’s task were to bring marginal medievalism up to date and integrate it into the intellectual life of the academic metropolis’ (2000: 550).

Mae hyn oll yn awgrymu y dylem edrych ar ymdriniaethau modern â’r Oesoedd Canol yn ogystal ag ar destunau canoloesol os ydym am ddod â’r Oesoedd Canol ac ôl-drefedigaethedd ynghyd mewn modd ffrwythlon. Yn wir, y mae edrych yn ofalus ar ein hieithwedd feirniadol ddiweddar yn peri inni holi a oes gwahaniaethau arwyddocaol yn y termau ‘coloneiddio’, ‘trefedigaeth’ a ‘gwladychu’ yn y Gymraeg. Defnyddiwyd ‘gwladychu’ yn y ddeuddegfed ganrif yn gyfystyr â ‘theyrnasu, llywodraethu, rheoli; ymsefydlu’ a ‘c[h]ymryd gafael ar, meddiannu, poblogi, cyfanheddu (gwlad neu drefedigaeth)’ (GPC 1679). Ond nid yw heddiw yn cael ei ddefnyddio fel rheol i gyfeirio at yr hyn a elwir yn ‘colonisation’ yn Saesneg.

Mae ‘trefedigaeth’, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, yn dyddio o’r unfed ganrif ar bymtheg, ac mae’n cyfeirio at ‘wlad neu ardal sydd dan reolaeth gwlad arall, ac ymsefydlwyr o’r famwlad neu eu disgynyddion yn byw yno’ (GPC: 3573). Ond cydestun tra gwahanol sydd i’r defnydd o’r term ‘coloneiddio’. Term o droad yr ugeinfed ganrif yw hwnnw, pan oedd yr Ymerodraeth Brydeinig ar ei hanterth, a therm ydyw sydd wedi ei lunio ar sail y Saesneg *colonize*. Byddai olrhain yr union fodd y defnyddir y termau hyn yn ddiddorol a dadlennol iawn. Ond at ei gilydd, ni ddefnyddiwyd ‘trefedigaethu’ na ‘coloneiddio’ er mwyn trafod Cymru tan yn lled ddiweddar—fel rheol fe’u cysylltir â dylanwad a grym yr Ymerodraeth Brydeinig. Mae hynafolrwydd a Chymreigrwydd morffolegol ‘trefedigaethu’ yn peri ei fod yn gorwedd yn fwy esmwyth na ‘coloneiddio’ mewn trafodaethau ar yr Oesoedd Canol. Ond a yw hynny’n ddadl o blaid neu yn erbyn ei ddefnyddio? Mae’r addasiad estron ‘coloneiddio’ yn cyfleu neges fwy anghyffyrddus—ac addas, efallai. Gan hynny, ni fydd yr astudiaeth hon yn ffafrio’r naill dros y llall.

Mae ôl-drefedigaethedd felly yn peri inni ystyried goblygiadau dadansoddiadau llenyddol yn ofalus. Ond mae gwaith Holsinger (2002) yn tynnu ein sylw at ystyriaeth arall. Yn sgil ei ddadl fod ôl-drefedigaethedd yn bresenoldeb cudd mewn ysgrifennu hanesyddol—gan gynnwys ysgrifennu hanesyddol yn ymwneud â Chymru’n benodol—ers amser maith, mae angen inni archwilio’n fanylach eto y cydestun hanesyddol sydd wedi ei greu ar ein cyfer. Rhoi cychwyn ar y ddwy dasg hyn—archwilio ein beirniadaeth lenyddol yng ngoleuni ôl-drefedigaethedd yn ogystal ag archwilio ein hanesyddiaeth—yw bwriad y bennod nesaf yn yr astudiaeth hon.

Pennod 3: Ôl-drefedigaethedd a Chymru

Seicodrefedigaethu?

Trafodwyd yn y bennod ddiwethaf berthynas gymhleth ôl-drefedigaethedd â'r Oesoedd Canol. At ei gilydd, y mae'r rhan fwyaf o feirniaid—gan gynnwys nifer o'r rhai sy'n bleidiol i'r cysyniad o Oesoedd Canol ôl-drefedigaethol—wedi ystyried bod ôl-drefedigaethedd yn fwyaf perthnasol i destunau sy'n deillio o'r Cyfnod Modern, ac yn benodol efallai o'r ugeinfed ganrif a'r unfed ar hugain. Ond nid honno yw'r unig farn o bell ffordd, fel y gwelwyd. Fodd bynnag, wrth edrych ar ôl-drefedigaethedd yn y cyd-destun Cymreig, ceir yr argraff fod y sefyllfa hon wedi ei throi ar ei phen. Yn sicr, ni ellir cymryd y derbynnir bod ôl-drefedigaethedd yn berthnasol i unrhyw gyfnod yn hanes Cymru—gan gynnwys yr ugeinfed ganrif a'r unfed ar hugain—gan bawb. Man cychwyn y bennod hon felly fydd archwilio ôl-drefedigaethedd mewn cyd-destun Cymreig, gan ddadansoddi rhai o'r dadleuon sydd wedi eu defnyddio yn ei erbyn, a chan ystyried hefyd y graddau y mae ôl-drefedigaethedd canoloesol yn rhan o'r byd deallusol Cymreig—o dan yr wyneb fel petai—ers degawdau.

Deilliodd y drafodaeth fwyaf brwd ar ôl-drefedigaethedd yng Nghymru o'r ymateb i gyfrol Stephen Knight, *A Hundred Years of Fiction* (2004). Mae'r gyfrol hon yn mynd ati i drafod llenyddiaeth Saesneg o Gymru'r ugeinfed ganrif o safbwynt ôl-drefedigaethol. Yng ngeiriau Knight ei hun, 'it sets out to read Welsh fiction in English to understand how the literature of a colony, in the language of the colonizer, has been affected by its situation' (2004: xiii). I Knight felly, mae Cymru'n drefedigaeth a llenyddiaeth Saesneg o Gymru yn greadigaeth a fynegir drwy gyfrwng iaith y coloneiddwyr Seisnig. Ni cheir trafodaeth fethodolegol neu ddamcaniaethol

fanwl yn y gyfrol hon, fel y ceir yng ngwaith Bohata (2004); beirniadaeth lenyddol ôl-drefedigaethol ymarferol yw'r rhan fwyaf o'i chynnwys. Gan hynny ceir yr argraff— yn gam neu'n gymwys—nad oedd Knight yn ystyried bod ei ddamcaniaeth gychwynnol yn arbennig o ddadleuol. Ond nid fel hynny y gwelai eraill bethau.

Yr hanesydd a'r sylwebydd diwylliannol Dai Smith a daniodd yr ergydion cyntaf yn erbyn y gyfrol hon, a gwnaeth hynny'n gwbl ddigyfaddawd: 'Stephen Knight's view is not intellectually tenable ... it is not deliverable on a basis of a history that never happened to this people in this way, then or now' (2004: 29). Mae'n ymwrthod yn llwyr ag ôl-drefedigaethedd fel dull addas ar gyfer trafod Cymru, a hynny am nad oes gan Gymru hanes sy'n peri bod y ddamcaniaeth ôl-drefedigaethol yn berthnasol. Iddo ef, chwiw meddyliau beirniaid a chanddynt agenda gwleidyddol o fath arbennig yw ôl-drefedigaethedd. O ganlyniad, mae'r 'post-colonialism' yng ngwaith Stephen Knight yn troi'n 'Psycho-colonialism' i Dai Smith.

Ni fu ymdrech Dai Smith i fygu ôl-drefedigaethedd Cymreig yn ei grud yn llwyddiannus, fodd bynnag, a daeth ei awydd i roi terfyn ar y ddadl cyn iddi ddechrau o dan y lach o sawl cyfeiriad. Yng ngeiriau Jane Aaron, 'his article is written not in order to stir up a debate about postcolonialism, but on the contrary in order to rid us of it once and for all as a false conception in so far as it is applied to Wales' (2005: 33).

Roedd Smith wedi corddi Patrick McGuinness yntau, a ddywedodd:

One of the reasons Ireland and Scotland are more culturally confident, and that people outside as well as inside take an interest in their cultures, histories and literatures, is that they have been producing daring, speculative, even contentious literary and cultural criticism for decades ... It ought to be possible to do so in Wales without being publicly walloped by the establishment's favourite one-man culture quango. (2005: 44)

Diau fod sawl rheswm dros wrthwynebiad Smith i'r prosiect ôl-drefedigaethol, ond gellid cynnig mai un ohonynt yw'r dybiaeth ei fod yn deillio o ddehongliad 'cenedlaetholgar' o hanes a diwylliant Cymru. Os cafodd 'Cymru' ei threfedigaethu ganrifoedd yn ôl, a'r trefedigaethu hwnnw'n nodwedd ffurfiannol arni hyd heddiw, yna y mae goblygiadau diwylliannol a gwleidyddol i hynny yn yr oes sydd ohoni. Os bu Cymru'n drefedigaeth, oni ddylid ei dad-drefedigaethu? Onid yw'r byd i gyd bellach yn cydnabod anghyfiawnder y prosiect trefedigaethol? Oni ddylai Cymru fabwysiadu polisiau ymarferol gwrthdrefedigaethol yn y dyfodol, ac ymryddhau o afael gormesol ei chymdoges fwy pwerus? O gymharu Cymru â gweddill yr hen Ymerodraeth Brydeinig, prin y gellid dadlau bod sefydlu Cynulliad yn cyfateb i ddad-drefedigaethu'r wlad mewn modd ystyrlon. Hawdd tybio felly fod Smith yn ystyried ôl-drefedigaethedd fel cenedlaetholdeb 'drwy'r drws cefn'—fel dihiryn mewn gwisg barchus. A gall fod honiad R. M. Jones mai enw arall, ac anghywir, ar genedlaetholdeb yw ôl-drefedigaethedd (2003: 32) yn cefnogi'r ddadl honno. Ar y llaw arall, mae'n debyg y byddai Jones yn esbonio ymateb Smith mewn modd arall: wrth ddiffinio'r llenorion yr ystyriai ef yn rhan o 'ôl-ailflodeuad' llenyddiaeth Eingl-Gymreig, dywed Jones: 'tueddaf i gyfrif Dai Smith yn y fan yma, gyda llaw, oherwydd ei obsesiwn ynghylch y Gymraeg ynghyd â'r ymesgusodi dyfal drefedigaethol' (1998: 403).

Yn anorfod felly, y mae trafodaeth ar ôl-drefedigaethedd yn arwain at drafodaeth ar y syniad o Gymru (boed yn gyfoes neu'n ganoloesol) fel 'cenedl'. Mae hwn yn syniad pwerus sydd â gafael gref ar nifer yng Nghymru heddiw, ac mae'n debyg mai'r syniad hwn yw'r rheswm unigol pwysicaf pam y mae ôl-drefedigaethedd wedi corddi'r dyfroedd beirniadol mewn modd mor eithriadol.

Y Genedl a'r Drefedigaeth

Mewn cyd-destun Cymreig felly, bydd y cysyniad o genedl yn greiddiol i unrhyw drafodaeth ar ôl-drefedigaethedd. Ond y broblem gychwynnol yma, fel y mae sawl sylwebydd wedi ei nodi, yw diffinio ystyr y gair 'cenedl'. Nid yr un yw ei ystyr i bawb heddiw, ac yn sicr roedd gan y gair ystyron gwahanol iawn yn y canrifoedd a fu. Fel y nodir gan Lowri Lloyd (2000), yn yr Oesoedd Canol gallai'r gair gyfeirio at uned lai ei maint na'r genedl fodern. Noda Lloyd, er enghraifft, fod y beirdd yn arfer y term 'cenedl' wrth ddynodi'r llinach benodol y perthynai unigolyn iddi (2000: 39). Roedd arwyddocâd cyfreithiol i hyn: 'byddai pob unigolyn yn ymwybodol o'r garfan yr oedd yn perthyn iddi' a byddai'r garfan hon yn gyfrifol am gynnig cefnogaeth iddo mewn achosion cyfreithiol (2000: 37). Cyfeiria Lloyd hefyd at yr elfen diriogaethol o ddiffinio hunaniaeth, wrth i'r beirdd nodi 'y byddai aelodau'r genedl yn ymestyn ymhell o safbwynt daearyddol' (2000: 28). Dylid nodi bod diffiniad Saunders Lewis yntau o genedlaetholdeb beirdd yr Oesoedd Canol yn lled debyg: credai ef fod 'cenedlaetholdeb y beirdd yn beth diriaethol ... yr oedd y genedl yn amgenach na syniad haniaethol: casgliad o deuluoedd ydoedd y gwyddent yn fanwl gysylltiad pob un â'i gilydd' (1932: 123-4). Yn sicr felly, roedd ystyr y gair 'cenedl' yn wahanol i'r hyn ydyw heddiw ac o ganlyniad ni ellir profi bodolaeth cenedl yn yr ystyr fodern drwy chwilio am y gair 'cenedl' mewn testunau cynnar.

Ond beth yw cenedl 'yn yr ystyr fodern'? Gellir dadlau bod y gwahanol ffyrdd o ddehongli 'cenedl' yn deillio o ddwy ffrwd wahanol o syniadau. Ar un llaw, ceir ffrwd 'fodernaidd' sy'n honni mai ffenomen ddiweddar yw'r genedl nad oedd yn bodoli yn yr Oesoedd Canol fel y cyfryw. Ar y llaw arall, ceir ffrwd sy'n dadlau bod y

genedl yn ei hanfod, o dan ba enw bynnag, wedi dod i fodolaeth yn gynnar ac y gellir adnabod prif elfennau cenedl mewn sawl rhan o Ewrop yn yr Oesoedd Canol. Un o enwau amlycaf y ffrwd gyntaf yw Benedict Anderson, perchennog yr honiad enwog mai 'imagined political community' yw cenedl (1983: 15). Mae'r elfen ddychmygol hon yn dwyn i gof sylwadau J. R. Jones a ddadleuodd fod cenedlaetholdeb yn 'beth bwriadus, hunan-ymwybodol, meithrinedig' (1970: 145). Cyfeiria Anderson yn gyson at yr elfen 'ddychmygol' sy'n rhan o'r broses o ffurfio cenedl:

An American will never meet, or even know the names of more than a handful of his 240,000,000-odd fellow Americans. He has no idea of what they are up to at any time. But he has complete confidence in their steady, anonymous, simultaneous activity (1983: 31).

I greu'r ymwybod hwn, meddai Anderson, y mae'n rhaid wrth ffenomenau sy'n perthyn i'r oes fodern, megis gweisg argraffu ac iaith ysgrifenedig safonol y gellir ei deall gan drwch y boblogaeth. Nid annhebyg yw safbwynt hanesydd dylanwadol arall, Ernest Gellner, a ddadleuodd fod ffurfio cenhedloedd yn broses a ddatblygodd ar y cyd â'r Chwyldro Diwydiannol, pan oedd angen trefnu'r boblogaeth mewn ffordd addas ar gyfer datblygiad diwydiant a chyfalafiaeth (1983).

Gellir gweld tebygrwydd rhwng dadl Anderson am y gymuned ddychmygol nad yw'n gwybod beth y mae ei holl aelodau yn ei wneud ar unrhyw adeg ond sy'n hyderus o'r rhwymau sy'n eu clymu wrth ei gilydd, a dadl Saunders Lewis fod y genedl yn gasgliad o deuluoedd. Ond mae gwahaniaeth pwysig. Byddai teuluoedd Saunders Lewis yn gwybod yn benodol am fodolaeth ei gilydd, am eu henwau, am eu tiroedd, ac am hanes eu hynafiaid, mewn modd tra gwahanol i'r hyn sydd gan Anderson mewn golwg. Y cwestiwn sylfaenol, efallai, yw a fyddai'r teuluoedd mawr y cyfeiria Saunders atynt wedi ymuniaethu â haenau isaf y gymdeithas Gymreig, yn

fwy felly na chyda haenau uwch y gymdeithas Seisnig dros y ffin yn siroedd Amwythig neu Gaer, dyweder.

Beth oedd 'Cymru' yn yr Oesoedd Canol?

Mae'n amlwg fod yn rhaid i astudiaethau ôl-drefedigaethol yng Nghymru fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn. Os nad oedd Cymru'n uned bwysig ym meddwl ei phobl, neu os oedd ffyrdd eraill o ddiffinio hunaniaeth sy'n sylweddol fwy pwysig, yna bydd yn anodd cyfiawnhau model o ôl-drefedigaethedd sydd yn seiliedig ar y ddeuliaeth Cymru/Lloegr, y ddeuliaeth amlycaf ar gyfer trafodaethau ôl-drefedigaethol. Ar y llaw arall, os dadleuir bod angen profi bod Cymru'n genedl yn yr Oesoedd Canol, bydd ôl-drefedigaethedd canoloesol yn rhwym o fod yn llawforwyn i ddadl ehangach parthed cenedligrwydd, hunaniaeth a gwleidyddiaeth yn y byd sydd ohoni heddiw.

I ryw raddau, fel y gwelwyd eisoes, mae hanesyddiaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg yn hesb o safbwynt y cwestiynau hyn. Yng ngeiriau Rees Davies, 'Ni chafodd oes Dafydd ryw lawer o sylw gan haneswyr, ac nid yw'n anodd deall pam ... llwyd a digon digyswllt yw hanes gwleidyddol Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg' (1975: 58). Ond dyna, meddai Davies, yw gogoniant y cyfnod. Er bod bwrlwm gwleidyddol y goncwest Edwardaidd wedi pasio, roedd gwedd cymdeithas y cyfnod yn un diddorol a chyfnewidiol. Meddai Davies, 'bellach hanes cymdeithas, neu gymdeithasau, o bobl yw hanes Cymru' (1975: 58). Gwelir grwpiau gwahanol o bobl yn eu hamlygu eu hunain yn y cofnod hwn, a chan bob grŵp ei nodweddion diwylliannol unigryw a chyferbyniol. I'r perwyl hwn felly, cymdeithas ddynamig oedd cymdeithas Cymru yng nghysgod concwest 1282, cymdeithas a oedd yn llawn tensiynau diwylliannol yn ymrafael â'i gilydd. Fel y dywed Davies eto, 'Gwlad wedi ei darnio, felly, oedd

Cymru ... a gadawodd y darnio hwn argraff ddofn ar fywyd y wlad' (1975: 60). Sut y dylem ymateb i hyn? Cofleidio'r cenedlaetholdeb sydd ymhlyg yn y cyfeiriad at 'y wlad', ynteu ei chwalu drwy ganolbwyntio ar y 'darnio'?

O ystyried hanesyddiaeth a beirniadaeth lenyddol Gymraeg eu hiaith, gwelir yn fuan mai'r cyntaf o'r atebion hyn a ffafriwyd yn aml. Er enghraifft, yn ei erthygl 'Gwleidyddiaeth a Diwylliant Cenedl', mae J. Beverley Smith yn trafod cyfnod sy'n ymestyn 'o oresgyniad Cymru hyd at wrthryfel Owain Glyndŵr' (1975: 55), ac sydd felly'n cynnwys y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae teitl yr astudiaeth hon yn awgrym o un o'r casgliadau, sef bod y genedl eisoes yn ei lle yn y cyfnod dan sylw—roedd yn 'genedl a fu gynt yn rhydd' meddai Smith am y sefyllfa yn sgil y goncwest (1975: 55). Mae'n cydnabod bod elfen o ddarnio wedi digwydd—un o nodweddion y cyfnod, meddai, oedd 'ymlyniad llwyr â'r diwylliant Cymraeg a chydweithrediad ag awdurdod gwlad; cynnal y diwylliant cynhenid a gwasanaethu brenin ac arglwydd mewn swydd ac arfau' (1975: 57). Hela hefyd 'ai priodol yw sôn am "wleidyddiaeth" yn y cyfnod a drafodir gennym' (1975: 36), gan fod goresgyniad 1282 wedi rhoi terfyn ar y thema wleidyddol a oedd yn gynhaliath i'r genedl cyn cwmp Llywelyn, sef parhad llinach Gwynedd. Ond i Smith, mae'r genedl yn bodoli o gyfnod cynnar er gwaethaf y newidiadau a ddaeth yn sgil concwest 1282.

Dadleua J. E. Caerwyn Williams yntau (1993) fod ymwybod â chenedl ar waith yng Nghymru o gyfnod cynnar. Prif fyrdwn ei ddamcaniaeth yw bod i ymwybod hanesyddol le pwysig yn y broses a roes fodolaeth i'r genedl yn yr Oesoedd Canol. Ar un lefel, ceir damcaniaeth debyg i Anderson (1983) wrth i Williams grybwyll fod 'sentiment' yn rhan amlwg o'r 'genedl', 'sentiment yw cenedlaetholdeb

sy'n uno grŵp o bobl, sef cenedl, ar y sail wirioneddol neu ddychmygol eu bod wedi cyfranogi o'r un hanes' (1993: 5). Ceisia Williams, fodd bynnag, ddangos bod tystiolaeth hanesyddol i'r sentiment hwn o gyfnod cynnar, sef y 'teimlad o undod ymhlith aelodau'r genedl, a hwnnw'n deillio o fod wedi byw drwy hanes cyffredin yn y gorffennol' (1993: 5). Wrth grynhoi ei astudiaeth dywed,

Ni all neb ystyried yr holl ffeithiau hyn heb gael ei argyhoeddi bod y Cymry wedi dod i ymwybod eu bod yn genedl yn gynnar iawn yn eu hanes a bod cenedlaetholdeb wedi dod yn rhan o'r ymwybod hwnnw gryn amser cyn diwedd yr Oesoedd Canol (1993: 34).

Gwêl Williams fod y broses o lunio'r genedl eisoes yn ei lle cyn cyfnod Dafydd ap Gwilym, felly, ac os felly dyna sail posibl ar gyfer canfod cenedl yng ngwaith y bardd.

Dilyn trywydd tebyg wrth dynnu sylw at agweddau ar y syniad o genedl yn ôl tystiolaeth Beirdd yr Uchelwyr a wna Ann Griffiths (1988). Ceir trafodaeth ar y 'genedl' yn ôl tiriogaeth, bro a chymuned, a'r cysylltiadau a fodolai rhwng grŵp o bobl, megis iaith a thraddodiadau cyffredin. Dywed Griffiths, 'os derbynnir fod yr elfennau hyn yn creu "cenedl" yna y mae'n ffaith ddiymwad fod y "genedl" yn bodoli yn yr Oesoedd Canol, ond fod yr ymwybyddiaeth ohoni yn ei hamlygu'i hun mewn modd gwahanol i'n cenedligrwydd a'n cenedlaetholdeb ni' (1988: 9). Rhydd Griffiths bwyslais hefyd ar arwahanrwydd cenhedloedd a bod y 'genedl' yn 'uned o bobl a chanddi ymwybyddiaeth o wahaniaeth neu arbenigrwydd' (1988: 8).

Mae ymadrodd Griffiths 'os derbynnir fod yr elfennau hyn yn creu "cenedl"' yn codi cwestiwn pwysig sydd wrth wraidd yr holl astudiaethau a drafodwyd uchod. A derbyn bod uned hunaniaethol o'r enw Cymru yn bodoli yn yr Oesoedd Canol, ai cenedl yw'r term addas ar ei chyfer? Ni fyddai neb yn gwadu nad oedd ymdeimlad o

undod ac o berthyn yn bodoli yng Nghymru'r Oesoedd Canol—mae erthyglau J. E. Caerwyn Williams a J. Beverley Smith yn dangos hynny'n glir. Y cam dadleuol yw galw hynny'n genedl, gyda'r awgrym pendant fod yr ymdeimlad hwnnw i'w glywed trwy'r gymdeithas, ac nid ymhlith yr haenau uchaf a mwyaf addysgedig, sef yr haenau hynny y gwyddom orau amdanynt, yn unig. Yn sgil y dadlau cryf o blaid bodolaeth cenedl Gymreig yn yr Oesoedd Canol, a yw'r achos wedi ei brofi? Fel y nodwyd eisoes, mae hon yn ystyriaeth bwysig, oherwydd gall ryddhau ôl-drefedigaethedd o'r cyhuddiad nad yw ond yn llawforwyn ddichellgar i genedlaetholdeb pleidiol yr oes sydd ohoni heddiw.

Er mwyn edrych o'r newydd ar y maes hwn, defnyddiwn fethodoleg a gynigiwyd gan yr hanesydd Anthony D. Smith. Mae ef wedi bod yn feirniad cyson o'r safbwynt 'modernaidd' eithafol sy'n gwadu posibilrwydd bodolaeth cenedloedd yn yr Oesoedd Canol. Ar y llaw arall, mae ei waith yn cynnig sawl ffordd arall o ddehongli unedau gwleidyddol neu hunaniaethol canoloesol. Mewn trafodaeth ar genedlaetholdeb canoloesol, cynigia Smith (1995) sawl trywydd posibl wrth geisio diffinio cymeriad gwahanol grwpiau diwylliannol. Dadl sylfaenol Smith yw bod modd adnabod tri dosbarthiad sylfaenol sy'n berthnasol i'r syniad o genedl: 'the nation is a sub-category of, and development out of, the far more common phenomenon of the ethnic community, itself a development out of the global phenomenon of ethnic category' (1995: 28). Gall fod gan yr ymdriniaeth hon â chategori a chymuned ethnig a chenedl oblygiadau pwysig—pa un sy'n disgrifio Cymru orau?

Y categori ethnig yw'r man cychwyn, neu'r uned fwyaf eang. Ym marn

Smith, 'we start with a world divided into ethnic categories; that is cultural units of population with some sense of common kinship or ancestry ... they may lack a common name, historical memories, a common historic territory and a sense of solidarity' (1995: 28). Nid oes ond rhaid ystyried am ennyd i wybod bod mwy ar waith yng Nghymru'r Oesoedd Canol na'r categori ethnig. Gellir dangos hynny'n rhwydd ar sail gwaith Dafydd ap Gwilym. Ceir cyfeiriadau mynych yn ei waith at y Cymry, a cheir cyfeiriadau at y Saeson (a phobloedd eraill) sy'n brawf o ymdeimlad pendant o arwahanrwydd Cymreig. Cyfeirir at ledw enw da merch, 'a dwyn ei chlod drwy Gymru' (148.15). Cyfeirir at 'saerwaith Sais' (115.26) a'r 'pân Seisnig da ddigawn' (115.29). Mae 'Cymro ... yn rhodio yma'n rhydwyll' (73.57-8) yn y dafarn gan geisio osgoi, er mwyn ennill merch, 'Drisais mewn gwely drewsawr' (73.52). Yn sgil hynny, rhaid wrth ddehongliad arall a fydd yn gweddu i'r cysyniad o Gymru yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, oblegid roedd Cymru'n amlwg yn fwy na chategori ethnig.

Edrychwn felly ar y gymuned ethnig, sef y cam nesaf ym model Smith. Cyflwynir nodweddion y gymuned ethnig yn ôl hanes, traddodiadau a nodweddion diwylliannol cyffredin, tiriogaeth ac undod elitaidd:

We can therefore define the ethnic community or ethnie as a named human population with shared ancestry and myths, historical memories and common cultural traits, associated with a homeland, and having a sense of solidarity, at least among the elites (1995: 28–9).

Mae'r ffactorau hynny yn berthnasol iawn i drafodaeth ar rai o'r delweddau a geir ym marddoniaeth Dafydd. Mae ymwybod hanesyddol yn greiddiol i'r diffiniad hwn, yn ôl Smith: 'ethnic communities possess shared memories or ethno-history' (1995: 28). Amlygir yr ymwybyddiaeth hon drwy sawl agwedd ar farddoniaeth Dafydd. Ceir

cyfeiriadau at Arthur (1.10), ac at ffigyrau eraill sy'n deillio o Sieffre o Fynwy a Brut y Brenhinedd (Bromwich 1986: 89). Gwelir ymwybyddiaeth ddiwylliannol hefyd sy'n cydio yn y nodweddion diwylliannol a thraddodiadau cyffredin ym model Smith. Gwneir defnydd o gynnwys *Pedeir Keinc y Mabinogi*, er enghraifft (Bromwich 1986: 132-3). Ceir hefyd gyfeiriadau at Gwyn ap Nudd ac Annwn (Bromwich 1986: 146-7), a chyfeiriadau at seintiau Cymru, megis yn 'Galw ar Ddwynen' (48). Mae'r wedd ieithyddol yn bwysig yma hefyd gan y defnyddir yr iaith ar sawl lefel i gyfleu undod, megis yn y llinell enwog sy'n disgrifio ehangder enwogrwydd Ifor Hael: 'Hyd y mae iaith Gymraeg' (13.35). Wrth drafod tiriogaeth dywed Smith, 'ethnic communities ... keep an association with an historic territory or homeland, even where they no longer, for the most part inhabit it' (1995: 28). Cymru yw lleoliad y cyfan o gerddi Dafydd, a dengys wybodaeth fanwl ohoni, yn arbennig mewn cerdd megis 'Pererindod Merch' (129). Ond mae hefyd yn dangos gwybodaeth am yr Hen Ogledd, megis pan sonia am 'nawdd rugl neuadd Reged' (15.34; Bromwich 1986: 134, 141-3). Gallwn fod yn bur hyderus eto fod Cymru Dafydd ap Gwilym yn dangos y cyfan o'r nodweddion disgwylidig ar gyfer cymuned ethnig neu *ethnie*, a defnyddio'r term Ffrangeg.

Y 'genedl ddelfrydol' yw'r cam nesaf ym model Smith. Yn naturiol, anos yw cwrdd â'r gofynion ar gyfer y categori hwn. Ymhlith y nodweddion disgwylidig y mae elfen o undod economaidd. Cyfeiria Smith at 'the unification of local economic and social units into a single socio-economic unit based on a single culture and homeland for the unit of population' (1995: 27) fel elfen bwysig o genedl. Prin y mae hyn yn wir am Gymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Er enghraifft, yn economaidd, roedd perthynas agosach rhwng ardal Ifor Hael (Gwynllŵg) a Gwlad yr Haf ac ardaloedd cyfagos eraill yn Lloegr nag yr oedd rhwng Gwynllŵg a Cheredigion,

dyweder. Er bod nifer o elfennau diwylliannol o blaid uniaethu Gwynllŵg a Cheredigion, mae awdl Dafydd ei hun i Ifor yn awgrymu bod ardal Ifor yn perthyn yn bennaf i economi a oedd yn seiliedig ar Fôr Hafren, yn hytrach nag i economi Gymreig. Mae'r awdl yn llawn awgrymiadau fod cyswllt agos rhwng Ifor a'r môr, llongau a masnachu, megis pan elwir ef yn 'Newidiwr, trwsiwr trysor—moliant' (11.21). Cyd-destun sylwadau o'r fath yw'r cyswllt masnachol bywiog rhwng deddwyrain Cymru a de-orllewin Lloegr (Griffiths 1994: 19-29).

Mae undod o ran tiriogaeth a meddu ar dir yn annibynnol ar diriogaethau eraill yn ganolog i ddiffiniad Smith o genedl, ond gwelwyd eisoes mai gwlad ranedig oedd Cymru yn hytrach nag uned diriogaethol. Ffactor arall sy'n rhan o ymdriniaeth Smith o'r genedl ddelfrydol yw datblygiad un gyfundrefn gyfreithiol sydd â hawliau cyffredin i'r boblogaeth gyfan (1995: 27). Ceir adlais o'r ffactor hwn yn niffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o'r term 'cenedl': 'cymdeithas o bobl yn byw fel rheol dan yr un llywodraeth mewn gwlad arbennig ac a gysylltir ynghyd yn aml gan undod hanes a thraddodiad ac iaith, nasiwn' (GPC 461). Ond yng nghyd-destun y bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd amrywiaeth cyfreithiol eithafol, rhwng arglwyddiaethau a'i gilydd, rhwng arglwyddiaethau a thiroedd y Dywysogaeth, rhwng Tywysogaeth y De a Thywysogaeth y Gogledd, ac wrth gwrs rhwng caeth a rhydd, ac eglwyswr a lleyg. Rhwng popeth, ymddengys fod diffmiad Smith o genedl yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei weld yng Nghymru Dafydd ap Gwilym.

Er hynny, rhaid cofio bod Smith yn ein rhybuddio rhag model rhy gaeth o ddatblygiad cenedlaethol:

the overall picture represented by the course of medieval English

histories is not one of simple linear progression from ethnic category to ethnic community to nation. We see rather a series of movements into and out of socio-political structures approximating to the pure types of ethnies, ethnic state and nation (1995: 35)

Ni ddylai'r dadansoddiad a gafwyd uchod awgrymu bod Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg ar ei ffordd i fod yn genedl, ac ni ddylai ychwaith awgrymu na fuasai gan Gymru fwy o nodweddion cenedl yn y gorffennol. Ond mae cymhwyso syniadau Smith i Gymru yn gosod marc cwestiwn mawr dros fodolaeth cenedl Gymreig yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Mae dadleuon Smith yn aml yn adleisio rhai agweddau ar drafodaeth enwog J. R. Jones ar Gymreictod a chenedlaetholdeb, sef 'Y Syniad o Genedl'. Yn yr ysgrif honno, daw Jones i'r casgliad mai 'math o erthyl cenedligol' yw Cymru (1970: 148). Er hynny, dengys y cafwyd ymdrechion ar hyd y canrifoedd i *greu* cenedl o bobl Cymru. Dechreuodd hynny'n gynnar, yn nyddiau Merfyn Frych a Rhodri Mawr, ac ymlaen drwy gyfnod y ddau Lywelyn hyd at ddyddiau Owain Glyndŵr (1970: 143–6). Ond gan mai 'rhywbeth meithrinedig, yn gofyn sbardun cyson ac achles fu cenedlaetholdeb y Cymry' yng ngeiriau Jones (1970: 143–6), ni allai sefyll ar ei draed ei hun, a chyda'r newidiadau a fu yn oes y Tuduriaid, cafodd ergyd drom, onid marwol. Yng Nghymru, felly, ni chafwyd yr hyn y byddem heddiw yn ei alw'n 'genedlaethodlebanal' (Billig 1995). Cyn cyfnod y Tuduriaid, fodd bynnag, dadleua Jones fod cenedlaetholdeb yn bodoli, ond ei fod 'yn beth bwriadus, hunanymwybodol, meithrinedig. *A'r traddodiad diwylliannol*, sef oedd hwnnw yng Nghymru'r oesoedd canol y traddodiad barddol, a fu meithrinfa'r cenedligrwydd hwnnw' (1970: 145). Traddodiad elitaidd oedd y traddodiad barddol wrth gwrs, ac awgrym Jones felly yw bod cenedlaetholdeb Cymru'r Oesoedd Canol wedi ei gyfyngu i haenau uwch cymdeithas, yr haenau a chanddynt y gallu a'r cyfle i geisio

meithrin syniad megis cenedlaetholdeb Cymreig.

At ei gilydd, fodd bynnag, mae prif ffrwd hanesyddiaeth a beirniadaeth lenyddol Gymraeg ei hiaith yn gyson gefnogol i fodolaeth y genedl ganoloesol. Gwelwyd hyn eisoes yng ngwaith J. E. Caerwyn Williams, ac awgrymwyd mai anghytuno â'r pwyslais ar yr agwedd hon sydd yn rhannol gyfrifol am agwedd Dai Smith at ôl-drefedigaethedd. Fe'i gwelir hefyd yn y drafodaeth ddiweddaraf yn y maes. Yn *Proffwydoliaeth a'r Syniad o Genedl* (2007), mae Peredur Lynch yn ystyried a oedd cenedl Gymreig yn bodoli yn yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern cynnar, gan ddefnyddio canu darogan y Gymraeg fel modd i ddadlau o blaid ei bodolaeth. Rhagoriaeth trafodaeth Lynch yw'r modd y mae'n ymateb yn uniongyrchol i ddadleuon damcaniaethol y maes. Cyfeiria yntau at ddadleuon Anthony Smith, ond daw i gasgliad tra gwahanol i'r un a gafwyd uchod. Hanfod y mater yw'r cwestiwn a oedd yr ymdeimlad â chenedl yn yr Oesoedd Canol yn rhywbeth torfol. Cododd Smith hwn wrth ddiffinio'r grŵp ethnig: 'the elites, at least, of ethnies have a sense of solidarity' (1995: 28). Yr hyn sy'n nodweddiadol o genedl, dywed Smith, yw bod yr ymdeimlad hwn ar gael ym mhob haen o'r gymdeithas. Anodd fyddai profi hynny'r naill ffordd neu'r llall yn achos gwaith bardd uchelwrol megis Dafydd ap Gwilym. Ond defnyddia Lynch y canu darogan, a oedd yn is ei statws na'r canu caeth, er mwyn ceisio profi ymdeimlad torfol â chenedl.

Nid dyma'r lle i ymateb yn fanwl i ddadleuon Lynch. Ond er gwaethaf ei gyfraniad pwysig, mae lle i gredu bod bodolaeth cenedl yn yr Oesoedd Canol yn aros yn ansicr. Gellir nodi yn y lle cyntaf fod dadleuon Lynch o blaid cenedligrwydd torfol at ei gilydd wedi eu seilio ar dystiolaeth o'r Cyfnod Modern cynnar. At hynny,

cyfeddyf nad yw arwyddocâd y defnydd o'r geiriau 'Cymro', 'Brython' a 'Prydain' wedi ei archwilio'n fanwl hyd yn hyn (2007: 26). Diau fod hwn yn bwnc pwysig iawn, nid lleiaf oherwydd y duedd ganoloesol i gynnwys brenhinoedd Lloegr a haenau uchaf cymdeithas Seisnig oddi mewn i fydolwg Brydeinig a oedd wedi ei seilio ar oruchafiaeth y Brythoniaid. At hynny, nid eir i'r afael â'r ffaith fod Cyfraith Hywel yn diffinio 'Cymro' fel aelod rhydd o'r gymdeithas a oedd â hawl i ddal tir (GPC 770). O ganlyniad, a allai taeog fod yn Gymro? Wrth gwrs, erbyn y Cyfnod Modern cynnar roedd categori'r taeog wedi diflannu, ond roedd yn sicr yn bodoli yng nghyfnod Dafydd. Gwelir hyn yn y cerddi eu hunain, ac yn arbennig mewn llinell megis 'Nid neithior arf barf mab aillt' (88.12) sydd fel petai'n brawf fod y bardd yn gyfarwydd â defodau cymdeithasol y taeogion, a'r rheini'n rhai tra gwahanol i arferion yr uchelwyr. Mae angen ystyried hefyd apêl hunaniaeth ranbarthol, ac yn arbennig hunaniaeth Wyndodig, gan fod hunaniaeth wedi ei seilio ar Wynedd yn para'n bwysig yng nghywyddau brud y bymthegfed ganrif (e.e. Bryant-Quinn 2000, cerdd 4).

Yn olaf, mae diffiniad Lynch o'r term 'cenedl' yn eang iawn:

... arddelir y term cenedl [yn hytrach na grŵp neu gymuned ethnig] yn y drafodaeth Gymraeg hon, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf oll, oherwydd ei ddatblygiad semantaidd, y mae'r gair Cymraeg cenedl fel petai'n cyfuno'n hyfryd o amwys o'i fewn yr hyn a elwir yn *ethnie* (grŵp neu gymuned ethnig) mewn Ffrangeg a'r term Saesneg diweddar *nation*. Yn ail, petaem yn dechrau sôn yn y drafodaeth hon am 'grwpiau ethnig' yr Oesoedd Canol a 'chenhedloedd' yr oes fodern, y perygl fyddai creu'r argraff deleolegaidd fod y naill yn gam anorfod yn natblygiad 'naturiol' y llall. (Lynch 2007: 15)

Felly mae Lynch yn rhannol osgoi'r drafodaeth a gafwyd uchod ar gymuned ethnig a chenedl, drwy eu cyfuno'n un dosbarth—'cenedl'. Beth bynnag yw tarddiad y gair

‘cenedl’, y mae hynny yn ei gwneud yn anodd cymharu casgliadau Lynch â chasgliadau ysgolheigion eraill sy’n defnyddio termau eraill. Mae hefyd yn ei gwneud yn llawer haws dod i’r casgliad fod Cymru’r Oesoedd Canol yn genedl. Mae’r perygl teleolegaidd y cyfeiria Lynch ato yn berygl gwirioneddol, ond gwelwyd eisoes fod Anthony Smith ei hun yn ymwybodol ohono ac yn tynnu sylw at y ffaith na ddylid casglu bod yna ddatblygiad ‘naturiol’ o un categori i’r llall.

O safbwynt yr astudiaeth hon, byddai casgliadau Lynch yn gosod ôl-drefedigaethedd canoloesol mewn fframwaith o genedlaetholdeb. Dadleuwyd uchod, fodd bynnag, ar sail gwaith Anthony Smith, nad hwnnw yw’r unig gasgliad posibl. Ar y llaw arall, nid oes modd mynd mor bell â gwadu nad oedd hunaniaeth Gymreig yn ffactor bwysig i fardd fel Dafydd ap Gwilym. Gellir bod yn hyderus fod ei fydolwg yn rhannol wedi ei llywio gan y ffaith ei fod yn Gymro. Gall na fyddai’n ystyried bod taeogion Ceredigion hwythau’n Gymry, gan ei bod yn debyg fod Cymreictod yn nodwedd a oedd yn seiliedig ar uchelwriaeth, ac nid yn fater o genedligrwydd, fel y dywedem ni heddiw. Ond nid yw hynny’n berthnasol yma. Dangoswyd bod rhoi lle amlwg i Gymreictod (gan gofio nad math o genedlaetholdeb oedd hwnnw o anghenraid) yn strategaeth bosibl—yn strategaeth naturiol, yn wir—wrth drafod gwaith Dafydd, er y gallai’r Cymreictod hwnnw fod yn fater o ymdeimlad elitaidd â chymuned ethnig yn hytrach nag â chenedl fel y cyfryw. Mae ôl-drefedigaethedd yn rhagdybio, i ryw raddau, elfen o ymwybod hunaniaethol ar ran y sawl sy’n cael ei drefedigaethu, er nad yw’n gwadu na all y trefedigaethu hwnnw newid yr hunaniaeth honno’n bur sylfaenol. Ar y llaw arall, byddai gwthio’r cysyniad o genedl ar Gymru’r bedwaredd ar ddeg yn enghraifft bosibl o’r oes fodern yn ‘coloneiddio’ yr Oesoedd Canol. Byddai hefyd yn ateg i’r ddadl mai arf anghynnil braidd yn y frwydr o blaid

cenedlaetholdeb modern yw ôl-drefedigaethedd yng Nghymru—y ddadl y daethom ar ei thraws yng nghyd-destun sylwadau Dai Smith ar ddechrau'r bennod hon.

Disgrifio Cymru'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg

Yn adran gyntaf y bennod hon, edrychwyd ar yr ymateb y mae ôl-drefedigaethedd wedi ei dderbyn yng Nghymru, a hefyd ar berthnasedd deongliadau o hanes a diwylliant yr Oesoedd Canol i hynny. Ond rhaid hefyd gofio awgrym Bruce Holsinger (2000), sef bod hanfodion ôl-drefedigaethedd i'w cael yng Nghymru cyn i'r maes hwnnw ddatblygu i'w lawn dwf yn wythdegau a nawdegau'r ugeinfed ganrif. Enw Rees Davies yn anad neb sy'n berthnasol i'r awgrym hwn. Sut yr aeth ef ati i drafod yr Oesoedd Canol, a'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn benodol? Beth oedd ei fframwaith syniadaethol ef, o gofio nad oedd ôl-drefedigaethedd fel y cyfryw'n bodoli pan wnaeth ei gyfraniadau pwysig cyntaf i hanes Cymru?

Yn 1974, cyhoeddodd Davies erthygl o dan y teitl, 'Colonial Wales' ac fel y dywed Foster Evans (2006: 41) 'nid ar chwarae bach' y dewiswyd y teitl hwn. Mae amseriad cyhoeddi'r erthygl hon, ynghyd â'i erthygl 'Race Relations in Post-Conquest Wales: Confrontation and Compromise' yn 1973, yn arwyddocaol. Fe'u cyhoeddwyd mewn cyfnod o drafod a arweiniodd at lunio'r Ddeddf Cydraddoldeb Hil (Race Relations Act) yn 1976 ac yn ystod cyfnod o ddad-drefedigaethu'r gwledydd a fu gynt yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig. Roedd teitlau'r erthyglau yn cysylltu hanes canoloesol Cymru yn uniongyrchol â'r pynciau llosg hyn. Hanfod trafodaeth Davies yn yr erthygl a gyhoeddodd yn 1974 yw natur y berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson, y drefedigaeth a'r ymerodraeth. Ar ddechrau'r erthygl, ceir cyfeiriadau at berthynas y Cymry a'r Saeson yn seiliedig ar rym un garfan mewn cymdeithas a

gwendid y llall, ‘between settlers and natives ... that between conqueror and conquered’ (1974: 33). Trwy’r deuoliaethau a gyflwynir—yr ymsefydlwyr a’r brodorion, y concwerwyr a’r sawl sydd wedi’u concro—awgrymir bod hunaniaeth ethnig unigolion yn gysylltiedig â swyddogaethau penodol mewn cymdeithas. Dywedir bod gan y Cymry a’r Saeson rôl benodol i’w chwarae yn y berthynas—rôl y Saeson yw ymsefydlu a choncro, tra bo’r Cymry brodorol yn ymostwng i’r concwerwyr ac yn ymateb i’w harglwyddiaeth.

Fodd bynnag, cryfder mawr dadansoddiad Davies yw’r modd y mae’n tynnu sylw at y gor-symleiddio sydd ar waith mewn deuoliaethau o’r fath. Dywed, ‘we may easily exaggerate this “political” difference ... between English and Welsh, between conqueror and conquered. We may do so in part because we forget that Welshmen, like most other peoples, soon learn to adapt to conditions of conquest and come to terms with their conquerors’ (1973: 33). Sut felly y mae Davies yn mynegi’r cymhlethdod hwn?

Yn ei astudiaeth ar ‘Race Relations’ Cymru, â Davies ati i nodi’r nodweddion gwahanol a oedd yn fodd i wahaniaethu un hil oddi wrth y llall. Cyfeiria at iaith, traddodiadau, bwyd, gwisg, ac arfer y Cymry o gerdded yn droednoeth (1973: 36). Ond awgryma mai ystrydebau gor-syml yw’r rhain, i raddau o leiaf. Ceid digon o Saeson a fedrai’r Gymraeg, a digon o Gymry a wisgai esgidiau. Roedd yr ystrydebau hyn yn rhan o ddisgwrs trefedigaethol (Foster Evans 2006), a dengys Davies fod ystrydebau o’r fath yn fodd i gryfhau’r gwahaniaethau hiliol rhwng y Cymry a’r Saeson, er nad oeddynt o anghenraid yn cyfleu gwirionedd y sefyllfa feunyddiol ar lawr gwlad. Pwysleisia Davies yn gyson y ffaith fod tuedd i or-symleiddio’r

ddeuliaeth Cymro/Sais: ‘at the grass roots of society the rigid apartheid-like distinctions between English and Welsh were constantly being compromised by the supple facts of co-existence and adaptation’ (1973: 51). Mae addasu a chyd-fyw yn ein hannog i ailystyried natur y berthynas honno rhwng y Cymry a’r Saeson. Mae Davies yn ychwanegu, ‘Englishmen had to adapt themselves to living with Welshmen and Welshmen to living with their English neighbours’ (1973: 51). Nid pegynu diwylliannol yn unig a geir felly, ond cymylu ffiniau diwylliannol wrth i gymdeithasau gwahanol ryngweithio â’i gilydd. Mae Davies yn crynhoi ei erthygl trwy ddisgrifio hunaniaeth y Cymry fel a ganlyn: ‘they were, or rather most of them were, Welshmen living in a society where the distinctions between Welsh and English were, at various levels, profoundly important; but where the adjustments of daily life frequently blurred and emasculated those distinctions’ (Davies 1973: 56).

Mae trafodaeth Davies ar ddeuliaethau’n amlwg yn berthnasol i ôl-drefedigaethedd. Mwy amlwg eto yw perthnasedd yr erthygl ‘Colonial Wales’, wrth gwrs. Ynddi mae Davies yn mynd i’r afael â hanes Cymru fel trefedigaeth, gan ddweud, ‘the history of Wales displays at various stages most of the well-recognized features of a colonial society. Most obviously does it do so in the period extending from Edward’s conquest of Gwynedd 1282–3 to the outbreak of the revolt of Owain Glyn Dŵr in 1400’ (1974: 3). I Davies, felly, mae Cymru oes Dafydd ap Gwilym yn arddangos nodweddion trefedigaethol, a hynny heb unrhyw amheuaeth. Noda, ‘the settler-native dichotomy in Wales came to correspond more clearly and precisely with the racial dichotomy of Welsh and English’ (1974: 5) a chyfeiria at y gwahanol ffyrdd yr oedd y ddeuliaeth hon yn ei hamlygu’i hun, trwy gyfreithiau gwahanol, llysoedd

Cymreig a llysoedd Seisnig, trethi ar gyfer tir a thâl ar gyfer anifeiliaid, er enghraifft (1974: 12–13).

Lluniwyd erthygl Davies ar ‘Colonial Wales’ cyn twf theori ôl-drefedigaethol wrth gwrs, ond parhaodd y syniadau a amlinellodd ynddi yn themâu cyson yn ei waith mewn blynyddoedd diweddarach. Iddo ef, roedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyfnod pan oedd y tensiwn rhwng y Cymry a’r Saeson yn codi mewn disgysiau o wahanol fathau. Wrth ddisgrifio Cymru oes Dafydd ap Gwilym, dywed yn *The Age of Conquest*, ‘Wales in the fourteenth century may have been a country at peace, but it was also a country where the distinction between conqueror and conquered, settler and native, English and Welsh, was more clearly defined in formal and institutional terms than ever before’ (2000: 419). Dyna oedd nodweddion gwlad a oedd wedi’i choncro a’i darnio.

Ceir llawer o wybodaeth am hunaniaeth y grwpiau cymdeithasol cyferbyniol yng ngwaith Rees Davies. Heb amheuaeth, y rhaniad Cymro/Sais oedd y ‘rhaniad mwyaf sylfaenol oll’ yn y gymdeithas yn ôl Davies (1975: 63) ac er yr ystyrid y ddeuoliaeth hon yn un oesol, dywed Davies fod ‘y gwrthgyferbyniad rhwng Cymro a Sais yn llawer mwy eglur; yn fwy cenhedlig ei natur ac yn fwy difriol yn oes Dafydd ap Gwilym nag y bu cynt’ (1975: 63). Felly nid yn unig eglurdeb y gwrthgyferbyniad oedd wedi newid erbyn oes Dafydd, ond hefyd ei natur. Yn ei astudiaeth ‘Cymru yn oes Dafydd ap Gwilym’, awgryma Davies fod dwy elfen bosibl yn y berthynas hon, sef rhaniad cenhedlig a rhaniad gweinyddol (1975: 63–4). Mae’r rhaniad cenhedlig, yn ôl Davies yn seiliedig ar waed a thras ac yn ymddangos yn y lle cyntaf yn un pendant a digwestiwn. Ond fel y gwelir, ‘Yr oedd llawer i Gymro o waed coch cyfa

yn Sais yng ngolwg y Gyfraith ac ambell i Sais yn byw o dan delerau Cymreig' (1975: 63). Gan hynny, 'rhaniad gweinyddol, nid rhaniad cenedligol oedd yr un rhwng y Cymry a'r Sais, mewn gwirionedd' (1975: 64). Ac roedd y rhaniad hwnnw ar ei gryfaf yng nghyfnod Dafydd.

Cyflwynna Davies enghreifftiau o'r modd nad oedd pob Cymro na Sais yn glynu at eu deuoliaethau diwylliannol a hunaniaethol, 'yn bendifaddau nid yw drwgdeimlad yn cwmpasu y cyfan o'r berthynas rhwng Cymry a Saeson; roedd cydfyw, cydbriodi, cydweithio a chytuno yn elfen yr un mor bwysig ar y ddwy ochr' (1975: 65). Gellid bod yn Gymro o ran gwaed ond yn Sais o ran statws cyfreithiol, ac roedd teuluoedd Seisnig yn ymgymreigio a theuluoedd Cymreig yn ymseisnigo a phobl yn cydbriodi. Nodir ganddo, 'most Welshmen by blood lived in Welshries, used Welsh law and held their land by Welsh tenure. Most, but by no means all. And so some of the inner contradictions of racial division become apparent' (1978: 315). Gan hynny, 'the various definitions of race proved at best confusing, at worst contradictory' (Davies 1978: 315). Yr hyn sy'n bwysig yma, yw dull Rees Davies o drafod yr amwysedd diwylliannol. Pwysleisia'r ffaith fod gan y gymdeithas ganoloesol ei 'theori hil' ei hun, ond canolbwyntia ar fethiannau'r theori hon: dyma yw'r 'inner contradictions' y cyfeiria atynt.

Noda Davies hefyd fod trefedigaethu wedi effeithio ar dirlun Cymru, rhywbeth a welir yn glir yng nghyfeiriadau Dafydd ap Gwilym at fwrdeistrefi a chestyll: 'the towns of Wales were, almost without expectation, alien plantations largely inhabited by immigrant settlers' (1978: 319). Mae Davies yn trafod pwysigrwydd y cestyll fel arwyddion o rym ac awdurdod; er enghraifft, maent yn

'emblem and guarantor of domination ... headquarters of the land ... focus of settlement' (1990: 12). Ar un lefel, felly, roedd presenoldeb y trefi a'r cestyll yn cyfrannu at gryfhau'r ddeuoliaeth rhwng y Cymry a'r Saeson. Roedd y cestyll yno i gadarnhau awdurdod y Saeson, a swyddogaeth y trefi oedd gwasanaethu'r cestyll hynny. Cyfyng iawn oedd hawliau'r Cymry yn y cestyll a'r bwrdeistrefi fel ei gilydd. Ond unwaith eto, nid oedd y ddeuoliaeth honno mor glir â hynny ychwaith. Cyfeiria A. D. Carr at gysylltiadau estron y trefi, ond awgryma hefyd nad y wedd estron honno yn unig oedd i'w gweld yn y trefi: 'medieval Welsh towns have tended to be associated with English settlement, but Welsh men and women were very ready to live in them' (1995: 96). Trafodir hyn ymhellach ar ddechrau pennod Morgan T. Davies ar 'Dafydd ap Gwilym and the shadow of colonialism' (2005). Mae'n ymdrin â'r amwysedd diwylliannol yn Llan-faes wedi concwest 1282, gan ddyfynnu o ddeiseb a anfonwyd gan y bwrdeiswyr at Edward I: 'the burgesses of Llan-faes were at once both "oppressed by the Welsh" because of their reputed Englishness and "less favoured by the English" on account of their perceived Welshness' (2005: 249). Dyma'n union yr ansicrwydd a'r cymhlethdod sydd wrth wraidd gwaith Rees Davies, ac sydd yn y cefndir mewn sawl astudiaeth ar waith Dafydd ap Gwilym. Fel y dywed D. J. Bowen, roedd 'ordeiniadau Edward I yn gwahardd y Cymry rhag dal na thir na thrigfan yn y trefi ... oherwydd sefydliadau estron oedd y rhain bron yn ddieithriad, ac ymsefydlogwyr o Saeson oedd y bwrdeisiaid' (1977: 196). Roedd y rheolau hynny a natur estron a Seisnig y trefi felly'n ffin bendant rhwng y Cymry a'r Saeson. Ond ffin yn y dychymyg oedd honno i raddau: 'the racial orthodoxy was by no means rigidly observed in practice' meddai Davies (1978: 327). Ni ellir gwadu bodolaeth yr 'elfen Gymreig ym mhoblogaeth y fwrdeistref' (Bowen 1977: 197)—roedd y Cymry i'w gweld yn y trefi ac yn cyd-fodoli â'r Saeson.

Y drafodaeth fanylaf a gafwyd ar y trefi mewn barddoniaeth Gymraeg yw honno gan Helen Fulton, 'Trading Places: Representations of Urban Culture in medieval Welsh poetry' (1997). Yn y gwaith hwn y mae dylanwad hanesyddiaeth Rees Davies yn llawer amlycach nag y mae yn ei chyfrol gynharach *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (1989), fel y gwelir yn y bennod nesaf. Yn yr un modd â Bowen (1977), mae'r ddeuliaeth ddiwylliannol anghyflawn rhwng y Cymry a'r Saeson yn fan cychwyn i waith Fulton:

The evidence of the poetry suggests that the Welsh nobility were as much affected by the growth of urban markets and a consumer culture as the English burgesses, and that there was no simple dichotomy between land-based Welsh gentry and a town-based English bourgeoisie (1997: 221).

Yn ogystal â bod yn gyrchfannau ar gyfer cyfnewid cynnyrch, awgryma Fulton fod y trefi hefyd yn lleoedd pwysig o ran cyfnewid diwylliannol:

In the 'trading places' of the urban boroughs, Welsh merchants lined up with English burgesses, craftsmen and stallholders; and in another sense, many of the wealthy burgesses and land-based gentry were 'trading places' with each other in search of rural estates or urban riches (1997: 221).

Adlewyrchir hyn yn y farddoniaeth: 'the poems of the *cywyddwyr* express some of these allegiances and ambivalences in relation to the urban culture of medieval Wales' (1997: 224), a hynny mewn modd symbolaidd: 'the towns may have been symbols of oppression of the Welsh, and the focus of Welsh revolt, but they were also the path to prosperity for some Welshmen' (Fulton 1997: 229).

Gwedd arall ar yr elfen ddaearyddol yng ngwaith Rees Davies yw ei waith ar y Mers, ac yn arbennig y campwaith a gyhoeddodd yn 1978, *Lordship and Society in*

the March of Wales (1978). Mae'r gyfrol hon yn rhoi awgrym inni o elfen arall o'i fethodoleg, sydd yn caniatáu inni weld tebygrwydd a gwahaniaeth rhwng ei waith ac ôl-drefedigaethedd diweddarach. Diffinia'r Mers fel ardal ffiniol, 'a contested district between two countries' (1978: 3), ac o ran ei daearyddiaeth yn unig, felly, y mae'n chwalu'r ddeuoliaeth Cymru/Lloegr. Yn aml, nid oedd sicrwydd yn yr Oesoedd Canol a oedd ardal benodol yng Nghymru, Lloegr neu yn y Mers. Mae Davies yn tynnu ar ddisgrifiad Dorothy Sylvester (1969) o ddaearyddiaeth y Mers yn y cyswllt hwn. Dywed Sylvester, 'the Welsh borderland ... is the hybrid zone *par excellence* in all Britain' (dyfynnir yn Davies 1978: 9). Mae Rees Davies yn defnyddio'r syniad hwn o'r hybrid i drafod natur ddaearyddol y Mers ond hefyd—i bob pwrpas—yn ei ddefnyddio i ddisgrifio cymdeithas y ffin. Dywed Davies ei hun, wrth ddisgrifio pam y mae'r ardal hon yn *hybrid zone*, 'here the highland and lowland zones of Britain met, and so inevitably did the peoples of England and Wales' (1978: 9).

Mae hybrid, wrth gwrs, yn un o brif dermau ôl-drefedigaethedd. Ond fe'i defnyddir yma mewn ffordd wahanol i ddefnydd Bhabha ac eraill o'r term. I Davies, mae ardal y Mers yn hybrid am resymau daearyddol a hanesyddol amlwg. Mae Davies yn cyfyngu'r term i drafod ardal benodol, tra byddai Bhabha ar y llaw arall yn defnyddio'r term yn ehangach, fel y gwelwn. Sylwer bod y term 'hybrid' hwn yn codi dro arall yn nhrafodaeth Davies ar y Mers, yn ymwneud â chyfraith tir yn benodol: bodolai 'a hybrid system, known under the revealing name of English and Welsh division' (1978: 448).

Ond nid hybrid yw'r unig derm a geir gan Davies i ddisgrifio'r prosesau hanesyddol a oedd ar waith yn y cyfnod hwn. Defnyddir llawer o dermau gwahanol

ganddo, megis ‘cultural integration’, ‘assimilation’, ‘diffusion’, ‘intermixture’, ‘coexistence’. Mae termau o’r fath yn fodd i greu darlun o Gymru sy’n gymysgwch diwylliannol. O ran yr ymchwil hwn, mae termau o’r fath i gyd yn ymwneud â’r broses o danseilio deuoliaethau, sydd mor ganolog i faes ôl-drefedigaethedd a theori lenyddol ddiweddar yn gyffredinol. Trwy ddefnyddio’r termau hynny, mae haneswyr fel Davies ac A. D. Carr, er enghraifft, yn atgyfnerthu’r ddamcaniaeth honno a gyflwynodd Holsinger (2002) yn y bennod gyntaf, sef bod rhai o brif syniadau ôl-drefedigaethol yn bodoli yn hanesyddiaeth yr Oesoedd Canol ers degawdau.

Ond beth oedd arwyddocâd termau fel hyn i Davies a haneswyr eraill? Gellir oedi am ychydig i drafod cyfeiriad Davies at broses ‘acculturation’ yn ei gyfrol *Domination and Conquest* (1990). Mae’r broses hon, meddai Davies, yn amlwg mewn cymdeithas sydd o dan ddylanwad grymoedd estron, ac mae’n berthnasol i Gymru yn y ddeuddegfed ganrif a’r drydedd ganrif ar ddeg (1990: 16). Gellir yn hawdd alw’r term hwn yn un anghofiedig, gan ei fod erbyn heddiw—o leiaf ym maes beirniadaeth lenyddol—wedi ei fwrw’n llwyr i gysgod y termau hynny a gysylltir ag ôl-drefedigaethedd. Ond am gyfnod bu ‘ymddiwylliannu’ (*acculturation*) yn syniad amlwg iawn ym maes anthropoleg ddiwylliannol, ac yn fodd i drafod ymddygiad unigolion neu grwpiau wrth iddynt gwrdd â chymdeithas estron ac elfennau diwylliannol newydd. Yn wir, nid yw wedi diflannu o faes y gwyddorau cymdeithasol. Yn ei hanfod, felly, mae ymddiwylliannu yn cyfeirio at y broses sydd ar waith wrth i un diwylliant fabwysiadu nodweddion diwylliant arall. Yn ôl yr *Oxford English Dictionary* cyfeiria ‘acculturation’ at ‘the adoption and assimilation of an alien culture’. Crynhoir y broses yn y dyfyniad canlynol, ‘acculturation is a cultural process ... the process by which individuals of foreign or minority cultures

learn the language, habits and values of the standard or dominant culture' (Levinson ac Ember 1996: 112). Fel y mae Levinson ac Ember yn crynhoi ymhellach, 'both acculturation and assimilation are processes that by and large are demanded of minorities by the dominant society' (1996: 112).

Mae gan y broses o ymddiwyllynnu ganlyniadau penodol yn ôl Robert Redfield, Ralph Linton a Melville J. Herskovits (1974) mewn trafodaeth ar 'Acculturation'. Roedd y tri academydd hyn yn gynhyrchol iawn ym maes anthropoleg, yn benodol ym mherthynas gwahanol grwpiau diwylliannol â'i gilydd. Daethant ynghyd yn y 1930au i gynhyrchu *Memorandum for the Study of Acculturation* (1936). Yn eu hamlinelliad o'r broses hon, mae Redfield a'i gydweithwyr yn cynnig diffiniad o'r term ynghyd â thrafodaeth ar effeithiau a chanlyniadau'r broses. Yn gyntaf, rhaid wrth system o dderbyn: 'the acquiescence on part of the members of the accepting group, and as a result, assimilation by them not only to the behaviour patterns but to the inner values of the culture with which they have come into contact' (1974: 148). Dyna a welir i raddau yn nefnydd Rees Davies o'r syniad, sef bod y diwylliant lleiafrifol yn derbyn diwylliant y coloneiddwyr. Yn ogystal â derbyn grŵp diwylliannol arall, dywed Redfield a'i gydweithwyr fod addasu nodweddion diwylliannol yn ganolog i ymddiwyllynnu, 'where both original and foreign traits are combined so as to produce a smoothly functioning cultural whole which is actually an historic mosaic' (1974: 148). Ac yn olaf, cyfeiria'r astudiaeth hon at effaith ymddiwyllynnu: 'where because of oppression, or because of the unforeseen results of the acceptance of foreign traits, contra-acculturative movements arise' (1974: 148).

Wrth drafod effaith coloneiddio yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg â Davies ati i drafod yn fras beth yn union sy'n digwydd wrth i un diwylliant osod ei awdurdod ar y llall, gan gyfeirio at rym coloneiddio'r Saeson ar Gymru, Iwerddon a'r Alban. Dywed, 'Even without such colonization, however, it is clear that Ireland, Scotland and Wales would have been increasingly drawn—and indeed were so drawn—into a European and specifically north-west European, Anglo-Norman culture orbit in this very period' (1990: 15–16). Honna Davies fod proses benodol ar waith yn yr atyniad hwn, a honno'n broses o ymddiwylliannu: 'Acculturation can be an enriching experience; it brings one culture and its values into contact with another; it revivifies and redirects cultural energies' (1990: 16). Mae i'r profiad hwn ei fanteision felly. Gall 'acculturation' gyfoethogi diwylliant a rhoi iddo bwrbas newydd a gwerthfawr. Mae i'r broses ei nodweddion cadarnhaol a phositif, felly. Ond mae iddi hefyd ei hanfanteision wrth adael argraff ddinistriol ar y diwylliant lleiafrifol. Meddai Davies, 'it can also be an insidiously destructive experience, especially for the minority or subservient culture and for the political and social order which is associated with it' (1990: 16). Fel yr ychwanega Davies, 'the status of the existing culture is drained of its authority, and with its decline the political structure which sustained it, and was sustained by it, is undermined' (1990: 16).

Mae'n bosibl cysylltu defnydd Davies o 'acculturation' ag un o brif syniadau ôl-drefedigaethol, sef hybridedd (a chyfaddasu'r Saesneg *hybridity*). Mae'r ddwy broses yn tynnu sylw at berthynas gwahanol ddiwylliannau â'i gilydd, ond er gwaetha'r tebygrwydd sylfaenol hwn ceir gwahaniaethau hefyd. Model llawer iawn mwy unochrog a bygythiol yw'r hyn a gynigir gan *acculturation* sy'n canolbwyntio ar rym unochrog y diwylliant mwyaf a'r effaith y mae'n ei chael ar y diwylliant

gwannaf. Byddai'r defnydd o'r syniad o ymddiwyllynnu, felly, yn fodd i ganolbwyntio ar effaith negyddol yr addasu diwylliannol ar gymdeithas y Cymry. Gwir y gall ymddiwyllynnu ennyn gwrthryfel o du'r gymdeithas wannaf, ond canolbwyntio ar sut y dilëir gwahaniaeth a wna yn y pen draw. Mae ôl-drefedigaethedd, ar y llaw arall, yn ceisio gweithio'n wahanol i hynny.

Mae hybridedd ôl-drefedigaethol, fel y cawn weld, yn canolbwyntio ar y ffaith fod natur gymysg gan y diwylliannau gwahanol hyd yn oed cyn y cyfarfyddiad trefedigaethol. Nid yw hyn yn gwbl absennol o syniadau am ymddiwyllynnu, ond pwysleisia ôl-drefedigaethedd mai creadigaethau disgysaidd yw grwpiau megis 'y Cymry' neu 'y Saeson', ac na ddylem feddwl yn nhermau 'purdeb' diwylliannol sydd yn cael ei golli yn sgil trefedigaethu. Pwysleisia hefyd yr effaith y mae'r trefedigaethu yn ei chael ar y sawl sy'n trefedigaethu. Yn sgil hynny, gellid dadlau bod ôl-drefedigaethedd yn ein dallu i natur ormesol y berthynas rhwng y diwylliant cryfaf a'r un israddol, drwy bwysleisio sut y mae'r sawl sydd wedi ei drefedigaethu yn gallu brwydro'n ôl drwy gyfrwng gwahanol strategaethau disgysaidd. Y perygl yn hynny o beth yw bod tuedd i fod yn rhy gysurus wrth ddefnyddio termau megis hybridedd, a'r awgrym o gyfartaledd sydd ynddo. Gellid holi felly a yw ôl-drefedigaethedd yn perthyn i fyd ffasiynol amlddiwylliannedd cyfoes lle y rhoddir pwyslais ar ymgais y diwylliannau lleiafrifol i frwydro'n ôl, tra bo ymddiwyllynnu mewn gwirionedd yn fwy addas wrth drafod perthynas ormesol y diwylliannau mwyafrifol a lleiafrifol â'i gilydd? O edrych ar hanes y diwylliant Cymraeg dros y ddwy ganrif ddiwethaf, gellid yn hawdd ddod i'r ail gasgliad. Gan hynny ni ddylem anghofio ymddiwyllynnu fel term perthnasol i gyfnod Dafydd ap Gwilym.

Gellid hefyd ddadlau bod ‘ymddiwylliannu’ yn apelio at y sawl sy’n coleddu safbwynt cenedlaetholgar oherwydd, fel y nodwyd uchod, gwedd negyddol sydd i’r broses hon gan fwyaf. Bydd yr agwedd genedlaetholgar honno yn seiliedig ar feirniadu’r grymoedd allanol sy’n gosod eu hawdurdod ar y diwylliant cynhenid. Mae ôl-drefedigaethedd, ar y llaw arall, yn dueddol o ddathlu’r sefyllfa newydd sy’n codi o’r berthynas rhwng y coloneiddwyr a’r coloneiddiedig. A yw ôl-drefedigaethedd, felly, yn apelio yn eironig ddigon at unigolion nad ydynt yn coleddu safbwynt cenedlaetholgar amlwg? Os felly, gellid dadlau eto nad wyneb parchus ar genedlaetholdeb yw ôl-drefedigaethedd, fel yr awgrymodd Dai Smith (2004), oblegid mae’r broses hon yn gweld bod ochr bositif, greadigol, anorfod i’r berthynas rhwng y diwylliant cynhenid a’r diwylliant estron sy’n coloneiddio. Tybed a yw hyn yn cadarnhau ymhellach, felly, nad diben ôl-drefedigaethedd yw meithrin syniadau cenedlaetholgar?

O’r drafodaeth uchod, felly, gellir awgrymu bod y dulliau a ddefnyddir gan haneswyr ers tri degawd a mwy i drafod agweddau ar gymdeithas Cymru yn oes Dafydd ap Gwilym yn perthyn yn agos i rai o brif syniadau ôl-drefedigaethedd. Cyffyrddir â rhai o syniadau sylfaenol y theori yn y gweithiau beirniadol y cyfeiriwyd atynt, er nad gweithiau theoretig eu gogwydd ydynt, wrth gwrs. Cafwyd trafodaeth ar gymhlethdodau’r bedwaredd ganrif ar ddeg, hunaniaeth hybrid cymdeithas y cyfnod, ac ar gymylu’r ffiniau diwylliannol a chenedlaethol. Caiff y syniadau hynny eu trafod y tu allan i fantell ôl-drefedigaethedd, ond mae’n amlwg o natur y trafodaethau fod cysylltiad dilys rhwng y syniadau â theori ôl-drefedigaethol ei hun. Mae’r ffaith bod y syniadau hynny yn codi yn yr ymdriniaethau beirniadol yn awgrymu ei bod hi’n gam naturiol i drafod y portread o gymdeithas Cymru’r cyfnod yn ôl syniadau ôl-

drefedigaethol. Wrth gyfeirio at gymdeithas y bedwaredd ganrif ar ddeg, dywed Rees Davies, '[s]ocial facts did not fit into the straightjacket of racial theory' (1978: 315). Dangoswyd bod mwy ar waith yng Nghymru'r cyfnod na deuliaethau diwylliannol a chenedlaethol syml ac o'r herwydd mae'n bosibl awgrymu bod rhai agweddau ar yr ymdriniaethau beirniadol hynny yn rhai *proto* ôl-drefedigaethol. Os felly, onid cam naturiol yw defnyddio'r syniadau hynny yn ymarferol wrth drafod yr agweddau diwylliannol sy'n codi ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym?

Honna Davies mai yn y cymhlethdod a'r dryswch hwn y mae gwir berthynas y Cymry a'r Saeson yn ei hamlygu'i hun ac yn datblygu'n agwedd bwysig ar wead cymdeithas y cyfnod. Dyma un enghraifft o le y mae gwaith Davies yn ymdebygu i ôl-drefedigaethedd mewn modd amlwg iawn. Nid yn unig y mae Davies yn nodi bod sefyllfa rhai *unigolion* yn gymhleth, ond mae'n awgrymu mai yn y cymhlethdod hwnnw y mae *hanfod* y gymdeithas. Yma daw yn agos iawn at rai o syniadau'r damcaniaethwr ôl-drefedigaethol Homi Bhabha. Ym mhennod agoriadol *The Location of Culture* (1994), er enghraifft, dengys Bhabha nad gosod terfynau yw pwysigrwydd nac amcanion ffiniau, ond yn hytrach maent yn gyfrwng i esgor ar drafodaeth gymhleth ar berthynas grwpiau diwylliannol â'i gilydd. Mae Bhabha o'r farn fod gofod o ddigwyddiadau pwysig yn codi rhwng unrhyw ffiniau. Nid mater o drafod y diwylliannau fel endidau croes i'w gilydd sydd ynghlwm wrth ffiniau diwylliannol, ond y posibilrwydd fod y diwylliannau hynny yn gweu i'w gilydd yn gyson. Yn ôl Bhabha, 'the borderline engagements of cultural difference may often be consensual as conflictual' (1994: 2). Mae Rees Davies ei hun yn awgrymu bod mwy i berthynas y Cymro a'r Sais na phatrwm o ddeuliaethau gelyniaethus i'w gilydd. Bwrw golwg ar y berthynas gydsyniol hon yw mantais theori ôl-drefedigaethol, sef

dangos yr amwysedd a all godi rhwng diwylliannau wrth iddynt orgyffwrdd. Dyna hefyd yw gogoniant y bedwaredd ganrif ar ddeg i Rees Davies, sef bod cyd-fyw a chydlynio yn cyfrannu at dystiolaeth o gymdeithas gyfnewidiol. Er nad yw'n trafod hynny o fewn cyd-destun ôl-drefedigaethedd, dengys ymdriniaethau Davies fod cysylltiad naturiol rhwng ei syniadau ef â rhai o brif syniadau'r theori. Dyma'r berthynas naturiol honno y soniodd Holsinger (2002) amdani, fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf.

Pennod 4: Y Beirniaid cyn Ôl-drefedigaethedd

Yn y bennod ddiwethaf bwriwyd golwg ar sut y lluniodd haneswyr ddarlun o'r Oesoedd Canol Cymreig sydd yn hynod berthnasol i ôl-drefedigaethedd. Bwriad y bennod hon fydd ystyried yn fwy manwl gwestiwn cysylltiedig y cafwyd awgrym ohono eisoes—a yw beirniadaeth lenyddol draddodiadol ar Ddafydd ap Gwilym wedi ymwneud ag elfennau o ôl-drefedigaethedd—yn ddiarwybod iddi ei hun, fel petai.

Gwelwyd eisoes fod olrhain diwylliant y trefedigaethwyr a'r trefedigaethedig (a defnyddio termau ôl-drefedigaethol) yn rhan greiddiol o waith Rachel Bromwich. Mae ei hastudiaeth *Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1963 yn tynnu sylw at ddylanwad diwylliant traddodiadol ar Ddafydd ynghyd ag effaith y dylanwadau newydd a ddaeth i Gymru o Loegr a'r cyfandir. Rhoddir pwyslais ar y syniad o gyfuno'r traddodiadol a'r newydd a thrwy hynny tynnir sylw at y cyd-chwarae rhwng diwylliannau gwahanol sy'n nodwedd mor amlwg o farddoniaeth Dafydd. Mae hon hefyd yn thema ganolog i'w chyfrol, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (1986), sy'n cynnwys ailargraffiad o'r llyfryn uchod. Mae cymhlethdodau'r cyfnod o ran diwylliant a hunaniaeth yn greiddiol i gymeriad y bardd ei hun yn ôl Bromwich: 'Dafydd's exotic genius arose from that very state of traumatic flux in society and in politics, with all their disruptive implications for Welsh culture, which followed the conquest of 1282' (1986: xv). Ond beth yn union yw natur yr 'ideas and influences from the outside world [that] were flooding into Wales as never before' (1986: xv)? Cyfeiria Bromwich er enghraifft at ddefnydd Dafydd o eiriau benthyg yn ymwneud ag arian, y gyfraith, adeiladau a chelfi, megis 'fflwing' a 'iawn fwai' (1986: 83). Ar sail y defnydd hwn o eiriau



benthyg awgrymir y buasai Dafydd ei hun yn hyddysg yn y Saesneg a'r Ffrangeg (1986: 14), ac y byddai dau ddiwylliant Cymru'n gyfarwydd iddo: 'Dafydd may have from an early age familiarized himself simultaneously with the "two cultures"' (1986: 15). Yr hyn a welir yma yw ymdrech i olrhain y dylanwadau hyn ar Ddafydd ei hun. Mae elfen fywgraffyddol i'r feirniadaeth—ceisio olrhain profiadau bore oes Dafydd a wna Rachel Bromwich i ryw raddau, er bod y plentyndod a'r llencyndod hwnnw wedi eu colli am byth bellach. Nid cynnig darlenniadau manwl o gerddi Dafydd a wna Bromwich gan amlaf, er bod ganddi adrannau craff ond byr ar gerddi penodol. Yn hytrach, dull cyffredin ganddi yw olrhain y dylanwadau a roes fod i'r cerddi yn ei thyb hi: y gyfeiriadaeth chwedlonol, y motiffau, y geiriau benthyg ac ati. Nid dehongli'r cerddi a wna'n aml yn gymaint ag olrhain eu tras. Yn hynny o beth y mae Huw M. Edwards yn ei dilyn yn agos wrth drafod *Influences and Analogues* (1996) ar waith Dafydd.

Dulliau hanesyddol o ddehongli a geir gan amlaf yng ngwaith un arall o'r beirniaid pwysicaf ar waith Dafydd, sef D. J. Bowen. Mae'n cydnabod arwyddocâd symbolaidd rhai o'r nodweddion sydd i'w gweld yng ngwaith Dafydd, a hynny o fewn fframwaith o genedlaetholdeb, megis pan nodar ddechrau ei astudiaeth 'Dafydd ap Gwilym a'r trefydd drwg', y byddai symbolaeth y bwrdeistrefi a'r cestyll yng Nghymru'r cyfnod yn gwbl glir: 'ni ddynodai dim yn fwy clir mai cenedl orchfygedig oeddym erbyn hynny' (1977: 191). Ond eto, ceir elfen fywgraffyddol i'r drafodaeth, ac yn wir eir â hynny ymhellach wrth ystyried tras y bardd: 'er bod Dafydd ap Gwilym ei hun yn perthyn i deulu a oedd wedi gwasanaethu'r concwerwyr ers rhai cenedlaethau, nid yw hynny'n golygu bod y teimlad cenedlaethol ... yn gwbl farw bob amser yn eu plith' (1977: 192). Trywydd tebyg a ddilynodd R. M. Jones

(1998) wrth ofyn—yn chwareus ddigon—‘Tybed ai mantais ychwanegol o safbwynt barddoniaeth Gymraeg oedd bod Dafydd ap Gwilym, ein bardd mwyaf, yn perthyn i deulu o fradwyr?’ (1998: 123). Gwelir yma bwyslais ar gymeriad y bardd ei hun, a’i gefndir teuluol. Ni roddir yr un pwyslais ar brofiad y darllenydd, neu’r gynulleidfa wreiddiol. Dyma wrth gwrs un o nodweddion beirniadaeth lenyddol ddiweddar, a’r beirniad sydd wedi rhoi’r sylw manylaf i’r wedd hon yw Helen Fulton.

Ei chyfrol hi, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (1989), yw un o’r astudiaethau mwyaf diddorol a gwreiddiol ar waith Dafydd. Mae’n anodd dweud mai dyma un o’r astudiaethau mwyaf dylanwadol, gan nad yw’r thesis a gynigiodd wedi ei dderbyn yn gyffredinol, ac yn wir y mae ei gwaith diweddarach hi ei hun yn symud oddi wrtho, fel y nodwyd eisoes. Er hynny, mae’n gyfrol arwyddocaol a blaengar sy’n gwneud gwaith hynod bwysig wrth herio’r dulliau arferol o ddarllen barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol. Dehongliad sosio-economaidd o waith Dafydd a geir gan Fulton, sy’n cynnig disgrifiad o Gymru sy’n wahanol iawn i’r hyn a gafwyd eisoes gan haneswyr megis Rees Davies (1974).

Mae astudiaeth Fulton yn bwrw golwg fanwl ar y berthynas rhwng gwaith Dafydd a gwaith rhai o feirdd Ewropeaidd yr Oesoedd Canol. Ar yr olwg gyntaf, felly, gellid tybio y byddai’r drafodaeth yn mynd i’r un cyfeiriad â gwaith Bromwich neu Edwards, sef drwy olrhain dylanwadau. Ond mae dadl Fulton yn dra gwahanol. Er ei bod yn cydnabod bod llenyddiaeth Saesneg, neu Ffrangeg o bosibl, wedi dylanwadu ar Dafydd, iddi hi mae’r tebygrwydd rhwng ei waith a chynnyrch y trwbadwriaid yn anad dim yn gynyrrch sefyllfaoedd cymdeithasol tebyg. Mewn geiriau eraill, sail damcaniaeth Fulton yw’r gred fod cymdeithas Cymru yn y

bedwaredd ganrif ar ddeg yn debyg mewn nifer o ffyrdd i gymdeithas Ffrainc y ddeuddegfed ganrif. Hanfod yr astudiaeth wedyn yw bod swyddogaeth gymdeithasol i ganu serch Dafydd ap Gwilym. Y cyd-destun cymdeithasol yw man cychwyn ei dadleuon a'i deongliadau. Mae'r cyd-destun hwn yn fodd i fwrw goleuni ar y bardd ei hun ac ar y deongliadau o'i ganu serch. Dywed, 'Dafydd's poetry ... is determined not only by his bardic role but also by the contemporary social context' (1989: 187). Mae'r ergyd gymdeithasol hon yn cynnig fframwaith ar gyfer y dadansoddiadau ac yn cynnig methodoleg benodol ar gyfer ymdrin â cherddi serch Dafydd.

Nid darlenniad rhyddfrydol o'r gwaith a geir yn y gyfrol hon, felly. Ond mae'n cydnabod ei dyled i ddeongliadau rhyddfrydol y gorffennol. Cyfeiria at waith Chotzen fel man cychwyn y drafodaeth ar ddylanwadau Ewropeaidd yng ngwaith Dafydd. Caiff gweithiau Rachel Bromwich sylw hefyd, megis *Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (1972), wrth i Fulton gyfeirio at rai o brif gasgliadau Bromwich ynghylch dylanwad y traddodiad brodorol Cymreig a dylanwadau o'r cyfandir ar waith Dafydd. Ond yr hyn sy'n cael y sylw pennaf ar ddechrau ei thrafodaeth yw'r modd yr oedd barddoniaeth serch Ffrengig o'r ddeuddegfed ganrif yn gynnyrch math penodol o gymdeithas ffiwdal. Mae i'r astudiaeth ymwybyddiaeth Farcsaidd amlwg wrth iddi ganolbwyntio ar bwysigrwydd sylfaen economaidd y gymdeithas. Ond rhaid nodi hefyd, fodd bynnag, nad astudiaeth hunanymwybodol theoretig yw hon ychwaith. Nid yw Fulton yn cynnig theori Farcsaidd fel dull o ddehongli ar ddechrau eu hastudiaeth ac nid yw hyd yn oed yn crybwyll damcaniaethau Marcsaidd wrth eu henw yn ystod y gyfrol. Eto i gyd, mae newydddeb y drafodaeth a'r gogwydd damcaniaethol yn wahanol iawn i'r hyn a gafwyd yn y gorffennol.

Mae Fulton yn cynnig dehongliad o'r cerddi yn unol â'r tri grŵp cymdeithasol y mae'n dadlau bod y cerddi'n berthnasol iddynt: yr uchelwyr, y dosbarth arglwyddiaethol Eingl-Normanaid, a'r bwrdeiswyr. Mae tair pennod olaf ei hastudiaeth yn rhoi sylw i'r dosbarthiadau cymdeithasol hyn gan ganolbwyntio ar un grŵp ym mhob pennod. Mae ei phennod ar gerddi llys Dafydd yn fodd i gyflwyno cynulleidfa darged y bardd, sef haen uchaf y gymdeithas frodorol. Crybwyll presenoldeb a dylanwad yr Eingl-Normaniaid wna Fulton yn y bennod nesaf a thrafod y traddodiadau poblogaidd yng ngwaith Dafydd. Canolbwyntir ar ddosbarth y bwrdeiswyr yn ei thrafodaeth ar y cerddi digrif yn y bennod olaf. Er i Fulton roi sylw unigol i'r tri dosbarth, hanfod ei hastudiaeth yw'r berthynas rhwng y dosbarthiadau hynny a'u safle o fewn y gymdeithas. Mae gan y tri grŵp rôl benodol i'w chwarae ym methodoleg Fulton felly, ac yn ei hamgyffred o waith Dafydd ap Gwilym.

O ran ei methodoleg, gwelir bod Fulton yn mynd i'r afael â strwythur y gymdeithas; mae'r farddoniaeth iddi hi'n cynnig, 'insight into the structures of his society' (1989: 225). Dechreuwn â'r drafodaeth ar ddosbarth cymdeithasol yr uchelwyr. Rhydd Fulton ffocws arbennig ar safle a statws y gymdeithas uchelwrol honno yn ei phennod ar y cerddi llys. Sail diffiniad Fulton o ddosbarth yr uchelwyr yw'r pwyslais ar statws a safle'r dosbarth hwn yn y gymdeithas. Mae'r pwyslais cymdeithasol hwn yn fodd i gyflwyno'i methodoleg Farcsaid felly, er nad yw'n ei defnyddio'n uniongyrchol. Cyfeiria Fulton at waith Dafydd fel cyfrwng a oedd wedi'i anelu at gynulleidfa uchelwrol. Dywed, 'Dafydd's court-poems suggests that they were addressed to the contemporary ruling class' (1989: 106). Nid yw'n trafod beth yn hollol oedd cyfansoddiad y dosbarth hwn, er ei bod yn nodi 'descendants of the old

Welsh nobility and the newly elevated Welsh administrators had merged into the *uchelwyr* class' (1989: 106) ac yn cyfeirio'n gyson at ei gynulleidfa fel 'his *uchelwyr* audiences' (t. 170) neu 'a sophisticated audience' (t. 171). Yn fwy cyffredinol, cyfeirir at 'élite class structure', 'noble status', a 'ruling élite', a chanddynt 'an élitist contempt for the bourgeoisie' (t. 107) ac awydd i gydweithio â'r arglwyddiaeth Eingl-Normanaidd 'to unite their interests ... against the emergent bourgeoisie of the borough towns' (t. 106).

O ran y cerddi eu hunain, dadleua Fulton fod portread Dafydd o'r goedwig yn drosiad ar gyfer gwerthoedd a strwythur cymdeithasol yr *élite*—yr *uchelwyr*. Mae'n cyflwyno'r strwythur hwnnw ymhellach drwy fanylu ar ddelweddau serch Dafydd. Dywed Fulton mai cyfuniad o ddyheadau corfforol ac ymrwymiad ysbrydol sy'n arwain at garu llwyddiannus, ac mae'r cyfan yn ddrych i fuddiannau materol yr *uchelwyr*. Mae'r llwyddiant hwnnw i'w weld yng ngherddi Dafydd i'r llwyn. Mae'r goedwig yn fangre bositif ac yn llawn gwerthoedd sy'n berthnasol i'r byd *uchelwrol* y mae Dafydd a'i gynulleidfa darged yn rhan ohono. Mae'r portread o fyd y goedwig yn y cerddi wedi'i anelu'n benodol at gynulleidfa *uchelwrol*: 'the whole woodland context serves to epitomize and capture the noble structures of the *uchelwyr*' (1989:171). Mae'r syniad o awdurdod yr *uchelwyr* dros grwpiau cymdeithasol eraill yn ei amlygu'i hun ym mhortread Dafydd o'r goedwig, sydd yn llawn adeiladau trefnus ar ffurf y deildy ac adar sy'n gweithredu fel swyddogion cyfraith a threfn.

Mae gan ail ddsbarth cymdeithasol Fulton berthynas agos â'r delweddau uchod o'r *uchelwyr*. Cyfeirir at yr Eingl-Normaniaid yn ei chyflwyniad i ddsbarth yr *uchelwyr*, ond rhoddir sylw penodol iddynt yn ei phennod ar y traddodiadau

poblogaidd yng ngwaith Dafydd. Honna Fulton fod agweddau ar waith Dafydd yn adlewyrchu'r cynghreirio diwylliannol rhwng yr uchelwyr brodorol a'r arglwyddi Eingl-Normanaidd: 'his combination of native poetic traditions and Continental literary influences reflects noble Welsh culture as a synthesis of the native aristocracy with the ruling Anglo-Norman power-lords' (1989: 115). Yn ôl dehongliad Fulton, mae'r uchelwyr yn dymuno cynghreirio â'r Eingl-Normaniaid er mwyn eu heithrio'u hunain ymhellach oddi wrth y bwrdeiswyr. O safbwynt Marcsaidd, gwelir bod buddiannau dosbarth yn drech na buddiannau cenedlaethol neu ethnig. Wrth drafod perthynas yr uchelwyr â'r Eingl-Normaniaid, dywed Fulton:

this class itself [sef yr uchelwyr] was in the process of assimilating with the old Anglo-Norman baronial order ... The *uchelwyr* therefore wanted to preserve the traditions, culture and status of their Welsh predecessors, while also needing to unite their interests with those of the Anglo-Norman rulers against the emergent bourgeoisie of the borough towns (1989: 106).

Mae'r uno hwn yn bwysig er mwyn cadarnhau safle cymdeithasol: 'maintaining an elite class structure in the face of a rapidly growing bourgeoisie' (1989: 228). Gwelir yr uchelwyr yn ymgynghreirio â'r Eingl-Normaniaid er mwyn cadarnhau statws a chadw pellter rhag y bwrdeiswyr.

Y grŵp olaf sy'n cael sylw gan Fulton yw'r bwrdeiswyr. Hwn yw'r dosbarth sy'n wrthbwynt llwyr i safle a gweithrediadau'r ddau grŵp arall. Unwaith eto, ymdrinnir â'r cerddi a'u portread cymdeithasol o safbwynt cynulleidfa uchelwrol y bardd, 'the *uchelwyr* attitude towards the emerging bourgeoisie and the "new rich" among the heterogeneous society of fourteenth century Wales is clearly conveyed through humour and irony in Dafydd's poems' (1989: 187). Mae'n trafod natur ymateb yr uchelwyr i ddosbarth cymdeithasol sy'n israddol iddynt hwy: 'a group of

humorous and satirical poems express an elitist contempt for the bourgeoisie, largely comprising English settlers in the borough towns of Wales' (1989: 107). Yn ei thrafodaeth ar yr uchelwyr a'r Eingl-Normaniaid, dadleua Fulton mai hwy oedd cynulleidfa Dafydd. Ond awgryma nad oedd Dafydd yn rhan o gylchoedd cymdeithasol y bwrdeiswyr. Dyna sy'n sail ar gyfer ei ymateb negyddol a dychanol i'r dosbarth hwnnw.

Er bod gwahanol gerddi, ym marn Fulton, yn cynnig sylwebaeth ar wahanol garfanau cymdeithasol, rhaid cofio bod y cyfan wedi ei anelu at un rhan yn unig o'r gymdeithas. Ac i Fulton, yn groes i'r rhan fwyaf o feirniaid, bardd hanfodol geidwadol yw Dafydd:

His three kinds of verse, the courtly eulogies, the popular love-poems, and the humorous verse, are all directed towards the same kind of audience, despite their varying levels of language and mood. Dafydd is composing for his own class, the *uchelwyr*, and is offering, not the conflicts associated with *fin' amors* and social change, but rather a consensual viewpoint which endorses and justifies the existence of an élitist minority while disguising the materialism by which its status is maintained. (1989: 231)

I Fulton, felly, y mae'r grwpiau cymdeithasol hyn yn bwysicach na'r genedl, neu'r gymuned ethnig. Ond beth felly am berthnasedd gwaith Fulton i'r ymchwil hwn ac i drafodaeth ôl-drefedigaethol? Mae ei hawgrym parthed cynghreirio rhwng yr uchelwyr a'r arglwyddi Eingl-Normanaidd yn ddamcaniaethol ddiddorol, gan fod cydweithredu o'r fath yn gwbl nodweddiadol o sefyllfaoedd trefedigaethol. Ond mae problem bur sylfaenol gyda'i dadansoddiad yma. Mae'r ffaith ei bod yn dehongli ar sail tri grŵp gwahanol yn mynd yn groes i'r astudiaethau hanesyddol a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf. Mae Rees Davies yn dadlau'n bendant mai dwy genedl neu grŵp ethnig a oedd i'w gweld yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sef y Cymry a'r

Saeson. Er i'r sefyllfa fod yn fwy cymhleth yn gynharach yn yr Oesoedd Canol, yn arbennig yn y ddeuddegfed ganrif pan oedd Cymry, Saeson, Ffrancwyr a Ffleminiaid yn trigo yng Nghymru, erbyn oes Dafydd, 'Sais a Chymro, rhydd a chaeth: dyna'r dosbarthiadau y dosrennid y gymdeithas iddi' (1975: 70), 'a'r rhaniad mwyaf sylfaenol oll, wrth gwrs, yw'r un rhwng Saeson a Chymry' (1975: 63).

Yn anffodus, nid yw Fulton yn cyfiawnhau ei defnydd o'r term 'Anglo-Norman'. Yn ei adolygiad ar gyfrol Fulton dywed Dafydd Johnston, 'I think it would have been helpful if Dr Fulton had provided a general account of the society of fourteenth-century Wales, giving particular attention to the changes as a result of the Edwardian conquest, and to the nature and functions of the new *uchelwyr* class, which was surely far less homogenous than she implies' (1991-2: 279). Pam y mae'r term 'Anglo-Normans' yn ddadleuol, felly? Yr ateb syml yw mai barn gyson haneswyr yw nad oeddynt yn bodoli yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Os edrychwn ar erthygl Rees Davies ar 'Colonial Wales' er enghraifft, ni cheir unrhyw sôn am Eingl-Normaniaid. Cyflwynna gefndir cychwynnol i hanes coloneiddio yng Nghymru, gan gyfeirio at yr Eingl-Sacsoniaid yn y seithfed ganrif er enghraifft, a'r goncwest Normanaidd yn yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif. Ond erbyn y goncwest Edwardaidd, fodd bynnag, y Cymry a'r Saeson yn unig oedd yn trigo yng Nghymru. Nid oes lle i Eingl-Normaniaid.

Yn wir, nid ymddengys eu bod yn bodoli yn unrhyw le erbyn hynny. Yn ôl John Gillingham yn ei astudiaeth *The English in the Twelfth Century* (2000), roedd yr 'Eingl-Normaniaid' (os bu erioed y fath garfan) wedi mabwysiadu hunaniaeth Seisnig erbyn canol y ddeuddegfed ganrif. Ymhellach, '[historians] have shied away from the

notion of an “Anglo-Norman” national identity, doubtless for the very natural reason that there is no extant evidence that anyone in the eleventh or twelfth centuries ever used the term “Anglo-Norman” (2000: 124). Yn sicr, erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, er y byddai nifer o Saeson wedi hawlio tras Normanaidd a’u cysylltai ag arwyr 1066, go brin fod dosbarth Eingl-Normanaidd yn bodoli. Ond yng Nghymru, ac yn arbennig yn y Gymraeg, mae’n para’n arfer i sôn am Eingl-Normaniaid, a chlywir droeon am Owain Glyndŵr yn brwydro yn erbyn arglwyddi Eingl-Normanaidd.

Ar y llaw arall, diau *fod* Dafydd yn gyfarwydd â diwylliant Ffrengig. Fel y dywed Fulton, ‘The historical and social context in which Dafydd was composing suggests that he was familiar with French or Anglo-Norman’ (1989: 146). Yn sicr, roedd elfennau Ffrengig i’w cael yn niwylliant y cyfnod, a hynny’n sgil dyfodiad yr ‘Eingl-Normaniaid’ ganrifoedd ynghynt. Gwêl Dafydd y diwylliant Ffrengig fel un cadarnhaol ac fe’i gwelir yn ymateb yn bositif i’r agweddau Ffrengig sy’n codi yn y cerddi. Mae’n canmol ei waith fel bardd, er enghraifft, drwy’i gymharu â gwaith ‘pibydd ffraeth o Ffrainc’ (91: 29). Nid yw’r diwylliant Ffrengig hwn yn tanseilio nac yn bygwth y diwylliant Cymreig fel y gwna’r un Seisnig.

Beth yw oblygiadau’r diwylliant hwn o ran y ddeuoliaeth ethnig yng ngwaith Dafydd ac yng Nghymru’r cyfnod, felly? Nodwyd eisoes mai presenoldeb tri grŵp ethnig gwahanol a geir yn nisgrifiad Fulton o Gymru’r cyfnod, tra bo R. R. Davies ar y llaw arall yn cyfeirio at fodolaeth dau grŵp, y Cymry a’r Saeson. Nid tystio i fodolaeth trydydd grŵp a wna’r elfennau Ffrengig. Yn hytrach gellid cynnig eu bod yn perthyn i ail grŵp Davies, sef y Saeson. Yr oedd yr iaith Ffrangeg a’i diwylliant yn rhan o’r diwylliant Seisnig, ac felly’n wedd ar yr hunaniaeth Seisnig, yn sicr ymhlith

haenau uwch cymdeithas. Mae'r ffaith bod Dafydd yn ymateb yn bositif i'r nodweddion hynny yn fodd i awgrymu man cyfarfod posibl ar gyfer Cymreictod a Seisnigrwydd. O dderbyn y syniad hwn, gellid dadlau nad integreiddio â'r Eingl-Normaniaid y mae'r uchelwyr mewn gwirionedd ond integreiddio â'r Saeson—neu o leiaf ag elfen benodol o Seisnigrwydd. Ond mae'r syniad o integreiddio â'r Saeson yn mynd yn erbyn dadl Fulton wrth gwrs, gan ei bod hi'n eu hunaniaethau ag elfennau is cymdeithas. Seilir ei dadl hi ar ddyhead yr uchelwyr i gadw draw rhag bwrdeistrefi'r Saeson. Ond os integreiddio â'r Saeson a geir mewn gwirionedd yna mae'r syniad hwn o begynu cymdeithasol yn troi'n amwys ac ansicr. Mae dehongliad o'r fath yn ein harwain yn ôl at bresenoldeb y ddau grŵp diwylliannol yn nehongliad Rees Davies yn hytrach nag at dri grŵp Fulton. Try'r nodweddion Ffrengig, felly, yn fodd i drafod y broses o agosáu at garfanau cymdeithasol ac ymbellhau oddi wrthynt. Mae dehongliad o'r fath yn mynd â dadl Fulton i gyfeiriad gwahanol. Gall ôl-drefedigaethedd fod yn fodd i fwrw golwg ar y broses o integreiddio diwylliannol a chenedlaethol gan symud oddi wrth greadigaeth begynol Fulton.

Beth am ymdriniaeth Fulton â dosbarth y bwrdeiswyr? I Fulton, roedd Dafydd a'i gynulleidfa yn bodoli y tu allan i gylch cymdeithasol y bwrdeiswyr. Roedd byd yr uchelwyr a byd y bwrdeiswyr am y pegwn croes â'i gilydd. Ond tybed a oedd y bwrdeiswyr yn rhan o fyd Dafydd mewn gwirionedd? Cyfeiria Saunders Lewis at ymwneud Dafydd ei hun â'r bwrddais: bu'n 'ymwelydd mynych yn "lletyau cyffredin" ac yn "nhefyrn gwin" y trefi ac ymdaflai i ganol y cwmni cymysg ... o lawer dosbarth' (1932: 76). Ymhlith cymeriadau'r dref y mae Eiddig, 'gŵr bwrddais' Dafydd yn ôl Saunders Lewis (1932: 76). Dywed Lewis ymhellach, 'yn y bywyd hwnnw y cafodd Dafydd a'i gyd-gywyddwyr ddefnyddiau a phatrymau a chefnidir i gywyddau a

fodlonai i'r dim y chwaeth a oedd ar gymaint cynnydd ymysg yr uchelwyr' (1932: 76). Os yw Dafydd yn ymwneud gymaint â'r trefi onid yw hyn yn awgrymu bod y bwrdeiswyr hyn, ac Eiddig ei hun o bosibl, hefyd yn rhan o gynulleidfa darged y bardd? Dyma gwestiwn nad yw'n cael sylw gan Fulton, ond un sy'n greiddiol ar gyfer deall yr amwysedd hunaniaethol a geir yng ngwaith Dafydd ac a welir mewn dehongliad ôl-drefedigaethol.

Cryfheir yr ansicrwydd hwn gan y cefndir hanesyddol. I Fulton mae'r bwrdeistrefi at ei gilydd yn cynrychioli'r diwylliant Seisnig, 'English borough towns' (t. 187) ydynt yn ôl ei dehongliad hi. Mae'r gymdeithas Seisnig hon felly yn wrthbwynt llwyr i gymdeithas yr uchelwyr a'r Eingl-Normaniaid. Ond eto, wrth droi at rai o'r sylwadau hanesyddol ynghylch y bwrdeistrefi, rhai nad yw Fulton ei hun yn eu defnyddio, gwelir bod cryn amwysedd ac ansicrwydd ynglŷn â nodweddion hunaniaethol y grŵp hwnnw hefyd. Mae Morgan T. Davies yn ei erthygl 'Dafydd ap Gwilym and the shadow of colonialism' (2005), yn agor ei astudiaeth drwy gyfeirio at hunaniaeth ym mwrdeistref Llan-faes. Cyfeirir at wedd Seisnig y bwrgais hwnnw a thuedd trigolion yr ardal i bwysleisio'u tras a'u hunaniaeth Seisnig. Yn ôl Davies fodd bynnag, yr eironi yw mai Cymry oeddent mewn gwirionedd, 'they were not "English of blood and nationality" at all; they were Welsh' (2005: 249). Mae'r syniad o wadu un hunaniaeth ar draul y llall yn arwydd o'r tensiynau a fodolai yn y cyfnod, 'it also hints at the special problematics of identity that is a consequence of the colonial encounter. The burgesses of Llan-faes were at once "oppressed by the Welsh" because of their reputed Englishness and "less favoured by the English" because of their perceived Welshness' (Davies 2005: 249). Mae'r amwysedd hunaniaethol hwn yn creu rhaniad amlwg o fewn cymdeithas y bwrgais.

Dylid nodi bod Fulton yn cydnabod nad mater syml o ffiniau a rhaniadau diwylliannol clir a geir yng nghymdeithas Dafydd ap Gwilym, 'such a distinction was not possible in the context of fourteenth century Wales when the *uchelwyr* generally co-operated with the existing system of English administration' (1989: 225). Eto i gyd, hanfod dadl Fulton yw'r rhaniadau cymdeithasol hynny, ac mae'r grwpiau cymdeithasol yn dychwelyd i'w pegynau eithaf drwy gydol ei hastudiaeth. O gofio sylwadau Morgan T. Davies uchod, gellid awgrymu bod modd mynd â dadl sylfaenol Fulton i gyfeiriad gwahanol gan drafod yr amwysedd diwylliannol a geir o fewn y bwrtais ei hun. Gellid hefyd ddefnyddio'r cyd-destun hanesyddol i godi cwestiynau ynghylch hunaniaeth yr uchelwyr eu hunain. Dywed Morgan T. Davies ymhellach:

one might expect the matter of identity to have been more vexed for the Welsh gentry than for their social inferiors, for whatever feelings of deprivation and estrangement they were laboring under were further compounded by the fact that they found themselves dependent on various forms of complicity or collaboration with their conquerors and colonizers in order to maintain or enhance their status in society (2005: 251).

Mae sylwadau Anthony Smith (1995) hefyd yn berthnasol yma. Honnodd Smith fod gan y bonedd hunaniaeth gadarn fel rhan o'r gymuned ethnig, 'a sense of solidarity' (1995: 28). Dengys realiti'r oes felly fod hunaniaeth yr uchelwyr yn gallu bod yr un mor amwys â hunaniaeth y bwrdeiswyr. Mae amwysedd hunaniaeth yr uchelwyr yn brawf pellach bod modd symud i mewn ac oddi allan o strwythurau cymdeithasol a gwleidyddol y cyfnod, yn union fel yr honnodd Smith (1995) y gellid ei wneud.

Dengys y drafodaeth uchod felly fod gan astudiaeth Fulton lawer i'w gynnig i'r broses o drafod gwaith Dafydd ap Gwilym yng ngoleuni theori ôl-drefedigaethol. Ond gwelwyd mai un o wendidau astudiaeth Fulton, sy'n derbyn beirniadaeth gan

Dafydd Johnston (1989, 1991–2), yw'r ffaith na roddir digon o sylw i'r cefndir hanesyddol i gefnogi'r model cymdeithasegol y mae'n ei gyflwyno. Nid yw'n diffinio'r dosbarthiadau cymdeithasol yn ddigonol, nac yn cynnig enghreifftiau ymarferol o bwy oedd y bobl a oedd yn perthyn i'r dosbarthiadau hynny, ac mae ei defnydd o'r 'Eingl-Normaniaid' fel dosbarth cymdeithasol yn un amheus. Mae'r dosbarthiadau a'r gwrthdaro cymdeithasol yn bodoli 'mewn gwagle' o'r herwydd (Johnston 1989: 43). Dengys dadansoddiadau hanesyddol Rees Davies fod gwendidau yn nefnydd Fulton o dri dosbarth cymdeithasol i gynrychioli natur cymdeithas Dafydd ap Gwilym.

Ond mae cryfderau amlwg i waith Fulton hefyd. Un ohonynt yw'r modd y mae'n ymwrthod yn llwyr â beirniadaeth fywgraffyddol ar gerddi Dafydd, sydd mewn gwirionedd yn ffynhonnell hesb ar gyfer dehongli ei waith, fel y mae sawl beirniad wedi ei nodi. Er bod ei defnydd o'r grŵp Eingl-Normanaidd yn broblemataidd, y mae'r modd y mae hi'n ei drafod yn dra pherthnasol i ddehongliad ôl-drefedigaethol o'i waith. Pwysigrwydd yr Eingl-Normaniaid i Fulton yw bod yr uchelwyr yn cynghreirio â hwy er mwyn cadw eu buddiannau materol yn ddiogel rhag bwrdeiswyr ymwithiol, a bod cynnyrch y cynghreirio hwnnw i'w weld yng ngwaith Dafydd. Er bod ystyriaethau hanesyddol yn cwestiynu bodolaeth Eingl-Normaniaid, gall deongliadau ôl-drefedigaethol holi cwestiynau am hunaniaeth Dafydd a'i gynulleidfa mewn modd mwy radical. A ellir uniaethu ei farddoniaeth ag unrhyw garfan sosio-ethnig o gwbl? Ynteu ai mynegiant cymhleth o hunaniaethau cymysg y bedwaredd ganrif ar ddeg a geir ganddo, boed yn Gymreig, Seisnig neu Ffrengig? Dyma un o'r cwestiynau y byddwn yn eu hystyried yn adran nesaf y traethawd hwn, wrth inni droi i edrych ar waith Dafydd yn fwy manwl o safbwynt ôl-drefedigaethol.

Pennod 5

Y bardd 'ar herw' yn y Trydydd Gofod

Wrth ddefnyddio theori ôl-drefedigaethol i geisio lleoli Dafydd ap Gwilym, gofynnir beth yw natur ei berthynas â'r ddau ddiwylliant y dywedir yn gyffredin ei fod yn etifedd iddynt, sef y diwylliant Cymreig a'r diwylliant Seisnig (neu Eingl-Normanaid). Gwelsom eisoes fod rhai agweddau ar theori ôl-drefedigaethol wedi pwyso'n drwm ar yr angen i wahaniaethu rhwng diwylliannau fel hyn. Gwrthgyferbynnu pegynol rhwng y coloneiddwyr a'r coloneiddiedig, er enghraifft, yw un o nodweddion amlycaf gwaith cynnar Edward Said. Yn *Orientalism* (1978), honna Said: 'The Orient is not only adjacent to Europe ... In addition the Orient has helped to define Europe (or the west) as its contrasting image, idea, personality, experience' (1978: 1-2). Roedd y ddadl sylfaenol hon yn dra dylanwadol; fel y dywed Leela Gandhi, 'it is commonly regarded as the catalyst and reference point for postcolonialism' (1998: 64). Yn wir, dadleuwyd eisoes y gellir dehongli hanes canoloesol Cymru yng ngoleuni pegynu o'r fath, o gofio mai'r 'rhaniad mwyaf sylfaenol oll' ynddi oedd y rhaniad rhwng y Saeson a'r Cymry (Davies 1975: 63).

Ond, fel y dywed Leela Gandhi, cam cyntaf yn unig oedd hyn: '*Orientalism* represents the first phase of postcolonial theory' (1998: 64). Yr hyn sy'n greiddiol i theori ôl-drefedigaethol ddiweddarach, ar y llaw arall, yw'r ffaith nad yw ffiniau diwylliannol yn rhai clir. Ym mhennod agoriadol ei gyfrol, *The Location of Culture* (1994), dengys Bhabha nad gosod terfynau a wna ffiniau, ond gweithredu'n gyfrwng i esgor ar drafodaeth gymhleth o berthynas grwpiau diwylliannol â'i gilydd. Fel y

dywed Michael Heidegger (geiriau a ddyfynnir gan Bhabha ar ddechrau pennod agoriadol ei gyfrol), ‘a boundary is not that at which something stops but ... is that from which something begins its presencing’ (1971: 152–3). Nid yw’r ffin yn rhywbeth pendant a sicr. Mae’n gyflwr ansefydlog sy’n paratoi’r ffordd ar gyfer cyflwr newydd a gwahanol. Mae Bhabha o’r farn fod gofod o ddigwyddiadau pwysig yn codi rhwng unrhyw ffiniau, ‘these “in-between” spaces’ (1994: 1) fel y’u gelwir, a bod gan y gofod hwnnw oblygiadau tyngedfennol. Dywed, ‘it is in the emergence of the interstices—the overlap and displacement of domains of difference—that the intersubjective and collective experiences of nationness, community interest or cultural values are negotiated’ (1994: 2). Golyga wrth hynny fod gwahaniaethau a gwerthoedd diwylliannol a chymdeithasol yn gyson yn cael eu negydu wrth iddynt orgyffwrdd â’i gilydd. Mae’r syniad hwn o negydu (‘negotiation’) yn codi droeon yng ngwaith Bhabha ac mae’n esbonio’r syniad fel a ganlyn, ‘the insertion or invention of something that takes on new meaning’ (1994: 191). Mae’r datblygiad newydd hwn yn fodd i edrych o’r newydd ar berthynas diwylliannau â’i gilydd ac yn seiliedig ar bresenoldeb gofod penodol lle gwelir diwylliannau yn gweu i’w gilydd.

Mae’r gwahaniaethau diwylliannol hyn, y ‘cultural differences’ fel y’u gelwir gan Bhabha, yn ganolog i’r drafodaeth ar ffiniau. Dywed McLeod, ‘We must recognise the porous borders between cultures, the fact that they are always leaking into each other, criss-crossing supposed borders’ (2000: 228). Mae’r cyfeiriad at ‘supposed borders’ yma yn tynnu sylw at y ffaith nad yw unrhyw ffin yn un sicr, i’r fath raddau nad ydynt yn bodoli. Yn ogystal â hynny, y mae Bhabha yn ein hannog i feddwl am natur perthynas y diwylliannau hynny. Nid ein hannog i drafod diwylliannau fel endidau croes i’w gilydd a wna’r ffiniau diwylliannol bellach, ond

mynnu ein bod yn rhoi sylw i'r posibilrwydd bod y diwylliannau a'r ffiniau hynny yn gweu i'w gilydd. Ac yn ôl Bhabha, 'the borderline engagements of cultural difference may as often be consensual as conflictual' (1994: 2). Mae'n anorfod bod diwylliannau yn brwydro yn erbyn ei gilydd; mae hynny'n rhan hanfodol o'r broses o ddiffinio nodweddion a rhagoriaethau honedig diwylliannau ar ei gilydd. Yn wir, dadl Bhabha yw mai dyma sy'n rhoi bodolaeth i ddiwylliannau yn y lle cyntaf—nid yw'r gwrthdaro hwn yn gynnyrch diwylliannau gwahanol, ond fel arall. Yng ngeiriau David Huddart, 'the important point to recognize is that cultures are always *retrospective* constructions, meaning that they are consequences of historical process' (2006: 124). Felly wrth edrych ar Ddafydd ap Gwilym, tybed a ddylem ystyried ei fod ef a'i waith yn ganlyniad i orgyffwrdd diwylliannol, fel y mae nifer o ysgolheigion wedi ei wneud yn y gorffennol? Yn hytrach, a ddylem ystyried yn ofalus sut y mae ei waith yn creu deuoliaethau a'u chwalu wedyn? Os felly, rhaid synied am ei waith fel rhan o'r broses hanesyddol, ac nid fel canlyniad iddi. Gall syniadau o'r fath fod yn fodd i ateb cwestiwn Davies pan nododd ei bod hi'n deg inni ofyn 'pa mor sylfaenol mewn gwirionedd oedd y rhaniad rhwng Saeson a Chymry ym mywyd y wlad yn oes Dafydd ap Gwilym' (1975: 64).

Mae'r syniadau hyn o eiddo Bhabha wedi bod yn dra dylanwadol. Yng ngeiriau Bill Ashcroft, Gareth Griffiths a Helen Tiffin, 'much contemporary post-colonial theory has been directed at breaking down various kinds of binary separation' (1998: 26). Ceisia Bhabha ddangos bod rhaid torri'n rhydd rhag y pegynu a chanfod y gofod rhwng y deuoliaethau. Mae Ashcroft *et al.* yn crynhoi fel a ganlyn:

It may be argued that the very domain of post-colonial theory is the region of 'taboo'—the domain of overlap between these imperial binary oppositions, the area in which ambivalence,

hybridity and complexity continually disrupt the certainties of imperial logic. (1998: 25–6)

Y gofod tabŵ hwn yw'r 'Third Space' y mae Bhabha yn cyfeirio ato (1994: 36). Yn groes i ddamcaniaethau Said, y Trydydd Gofod yw man cychwyn unrhyw drafodaeth ar ddeuliaethau, ym marn Bhabha. Yn y gofod hwn y ffurfir deuoliaethau diwylliannol. Dywed, 'for me the importance of hybridity is not to be able to trace two original moments from which the third emerges, rather hybridity to me is the "third space" which enables other positions to emerge' (1991: 211).

Dyma'r '*inbetween* space—that carries the burden of the meaning of culture' (1994: 38). Dywed Bhabha hefyd nad cymysgu diwylliannau sy'n bodoli eisoes a fydd yn bwysig yn y gofod hwn, ond yn hytrach, natur sylfaenol gymysg pob diwylliant:

For a willingness to descend into that alien territory—where I have led you—may reveal that the theoretical recognition of the split-space of enunciation may open the way to conceptualizing an *international* culture, based not on multiculturalism or the *diversity* of cultures, but on the inscription and articulation of culture's *hybridity* (1994: 38).

Gwêl fod y diwylliannau yn y Trydydd Gofod hwn yn gweu i'w gilydd fel endid hybrid. Gwrthyd gysyniadau 'multiculturalism' neu 'diversity', sydd mor boblogaidd mewn trafodaethau gwleidyddol cyfoes, gan eu bod yn awgrymu bod diwylliannau unffurf, pur yn dod at ei gilydd i greu amrywiaeth. Fel y dywed Childs a Williams, 'Bhabha sees the Third Space as a place of agency and intervention because it is here that all cultural meaning is construed, and in that sense located. The necessary Third Space shows that there is no original "meaning" or cultural "purity" ... instead there is cultural difference' (1997: 142). Golyga hynny fod purdeb diwylliannol y pegynau, sef y deuoliaethau gwahanol hynny sy'n seiliedig ar un diwylliant neu hunaniaeth, yn

gynnyrch diwylliant cymysg y Trydydd Gofod. Fel y noda Huddart wrth grynhai syniadau Bhabha ynghylch yr hybrid, '[f]or Bhabha, there are no cultures that come together leading to hybrid forms; instead cultures are the consequence of attempts to still the flux of cultural hybridities' (2006: 7).

Dangoswyd, felly, fod llawer mwy ar waith mewn unrhyw sefyllfa drefedigaethol na'r ymgais i osod ffiniau rhwng y diwylliannau. Dyma, yn ôl Huddart, yw un o brif gyfraniadau Bhabha at y ddadl ynghylch perthynas amwys y coloneiddwyr a'r coloneiddiedig. Dywed, 'there is simultaneous anxiety built into the operations of colonial knowledge ... that anxiety troubles the source of colonial authority' (2006: 55). Mae'r pryder hwn y cyfeiria Huddart ato yn seiliedig ar y ffaith nad un math o awdurdod a geir ac yn y Trydydd Gofod hwn y caiff y pryder hwn ei fynegi. Syniad allweddol yn y broses honno, ac un sy'n cyfrannu at yr ansicrwydd a geir yn y Trydydd Gofod amwys y cyfeiriodd Bhabha ato uchod, yw dynwared.

Dynwared

Mae Bhabha yn dechrau ei drafodaeth ar y syniad o ddynwared â geiriau Jacques Lacan, 'The effect of mimicry is camouflage ... It is not a question of harmonizing with the background, but against a mottled background, of becoming mottled—exactly like the technique of camouflage practised in human warfare' (Lacan 1977, dyfynnir yn Bhabha 1994: 85). Yn ôl Lacan, mae dynwared, yn ei hanfod, yn ymwneud â'r syniad o guddio. Ac eto, nid cuddio'n llwyr ac ymdreiddio i gefndir unffurf, ond yn hytrach, fritho'r cefndir hwnnw ag awgrym o bresenoldeb gwahanol. Mae hyn yn tynnu'n groes i'r syniad 'synnwyr cyffredin' mai cydymffurfio yw dynwared. Mae'r cysylltiad rhwng y cuddio a'r syniad o frwydro yn un arwyddocaol,

oblegid awgryma Lacan nad oes modd creu harmoni trwy gydymffurfio. Cynnyrch gwrthdaro ydyw i raddau helaeth, ac mae'r wedd hon ar y syniad yn un ganolog i'r broses drefedigaethol. Caiff dynwared sylw manwl mewn pennod iddo'i hun yn y gyfrol *The Location of Culture* (1994). Dengys Bhabha fod dynwared yn ganolog i'r berthynas drefedigaethol: 'mimicry emerges as one of the most elusive and effective strategies of colonial power and knowledge' (1994: 85). Ac yn ganolog i'r drafodaeth ar ddynwared, y mae'r frwydr drefedigaethol, sef y frwydr honno rhwng grymoedd diwylliannol anghyfartal, 'the unequal and uneven forces of cultural representation' (1994: 171). Mae dwy ochr gyferbyniol yn eu hamlygu eu hunain felly, y grymoedd diwylliannol sydd â'r awdurdod a'r diwylliannau sy'n ildio i'r awdurdod hwnnw. Try'r anghyfartaledd yn y berthynas honno yn sail ar gyfer brwydr, ac mae'r frwydr honno yn greiddiol i'r broses o ddynwared, fel yr honnodd Lacan.

Gosodiad pwysig arall Bhabha am ddynwared yw: 'mimicry represents an *ironic* compromise ... colonial mimicry is the desire for a reformed, recognizable Other, as a subject of difference that is almost the same but not quite' (1994: 86). Yn bennaf, felly, mae dynwared yn ymwneud â bod yn debyg i'r coloneiddwyr a chydabod tebygrwydd ynghyd â gwadu tebygrwydd ar yr un pryd, '*almost the same but not quite*'. Wrth gyflwyno defnydd Bhabha o'r term dywed Childs a Williams, 'mimicry is ambivalent because it requires a similarity and a dissimilarity ... It relies on resemblance, on the colonized becoming like the colonizer but always remaining different' (1997: 130). Anelir at gadw arwahanrwydd diwylliannol yn ogystal â lleihau'r arwahanrwydd hwnnw. Un o ganlyniadau dynwared, felly, yw bod yna dynnu i sawl cyfeiriad. Rhaid mynegi perthynas â'r naill begwn ac â'r llall ar yr un pryd. O ran y berthynas drefedigaethol, dyma'r dyhead i ymdebygu i'r sawl sy'n

rheoli, ac ochr yn ochr â hynny, i gadw ar wahân i'r awdurdod hwnnw. Mae hefyd yn ymwneud ag angen y trefedigaethwyr i rai o'r trefedigaethedig ymdebygu i'r trefedigaethwyr eu hunain er mwyn gallu rheoli gweddill y boblogaeth. Ond mae'r ymdebygu hwnnw yn cwestiynu'r holl gyfiawnhad dros y prosiect trefedigaethol, sef y ffaith fod diwylliant y trefedigaethwyr yn rhagori (yn ddamcaniaethol) ar eiddo'r trefedigaethedig, a bod bwlch diadlam rhyngddynt. O ganlyniad, cwyd tensiwn yn y berthynas ffiniol, i'r fath raddau fod y syniad o ffin ei hun yn amwys. Mae dynwared hefyd yn seiliedig ar amwysedd, fel y dywed Bhabha, 'the discourse of mimicry is constructed around an *ambivalence*; in order to be effective, mimicry must continually produce its slippage, its excess, its difference' (1994:86).

Mae gan ddynwared, hefyd, rôl flaenllaw ac arwyddocaol i'w chwarae o ran y syniad o rym ac awdurdod. Daw dynwared yn fodd i asesu ymateb diwylliannau i'w gilydd drwy ganolbwyntio ar ymateb y coloneiddiedig i'r awdurdod y maent yn ei dderbyn. Dywed Huddart, '[mimicry] examines the ways that the colonized retain their power to act despite the apparent domination of the colonizer' (2006: 10). Wrth i'r pegynau diwylliannol agosáu at ei gilydd, fodd bynnag, dengys dynwared fod yr awdurdod hwnnw yn y fantol, 'the effect of mimicry on the authority of colonial discourse is profound and disturbing' (Bhabha 1994: 86). Dadl Bhabha yw bod dynwared yn gweithio ar ddwy lefel, cofier ei chwedl uchod, '*almost the same but not quite*' (1994: 86). Ar y naill law, fe'i gwelir yn cydnabod tebygrwydd. Trwy ddynwared yr awdurdod, awgrymir bod yn rhaid derbyn yr awdurdod hwnnw. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae'r ymdebygu yn fygythiol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n lleihau'r bwlch rhwng y trefedigaethwr a'r trefedigaethedig. Ac mae'r ffaith nad yw'r dynwared byth yn gwbl lwyddiannus yn codi cwr y llen ar lu o bosibiliadau

eraill i'r sawl sy'n cael ei drefedigaethu. Dyma'r '*menace of mimicry*' yn ôl Bhabha (1994: 88). O gyfuno'r ddwy wedd hyn, try dynwared yn arf pwerus yn erbyn awdurdod. Fel y dadleua Bhabha, 'it is from this area between mimicry and mockery, where the reforming, civilizing mission is threatened by the displacing gaze of its disciplinary double, that my instances of colonial imitation come' (1994: 88). Mae yma fygythiad felly i'r sawl sydd â'r awdurdod, 'the colonisers are faced with the worrying threat of resemblance between coloniser and colonised' (McLeod 2000: 55). Y mae gwrthrych y coloneiddio yn ymateb i'r awdurdod drwy frwydro yn ôl. Noda Huddart, 'the returned look of the colonized ... is what reminds the colonizer (and, for Bhabha, us also) that the colonized is a subject as well as an object' (2006: 67). Wrth i'r coloneiddiedig ddod yn oddrych â'r gallu i weithredu yn ogystal â gwrthrych, tanseilir grym y coloneiddwyr a chaiff hyn effaith ar eu hunaniaeth. Fel y dywed Huddart ymhellach, 'a consequence of mimicry is the undermining of the colonizer's apparently stable, original identity' (2006: 76). Nid yw hunaniaeth nac awdurdod yn sefydlog felly, ac o'r herwydd daw dynwared yn fodd i bwysleisio'r ansefydlogrwydd hwnnw. Mae dynwared, felly, yn gyfrwng ar gyfer trafod perthynas amwys y trefedigaethwr â'r trefedigaethedig. Yn yr un modd, try'n fodd i atgyfnerthu'r ffaith nad yw'r awdurdod yn llwyr yn nwylo'r trefedigaethwyr. Dyma dystiolaeth bellach nad oes modd ymdrin â'r trefedigaethwr a'r trefedigaethedig fel endidau croes i'w gilydd. Mae'r naill begwn yn ymdreiddio i'r llall unwaith eto, ac mae'r gofod amwys rhwng y pegynau, y 'Trydydd Gofod' pwysig hwnnw, yn ofod byw a chynhyrchiol, lle mae effaith 'camouflage' Lacan yn ei hamlygu'i hun.

Beth, felly, am berthynas y dynwared hwn â Chymru oes Dafydd ap Gwilym ac yn benodol â chywyddau'r bardd? Awgrymwyd eisoes sawl ffordd y gall hyn fod yn berthnasol, ond yng ngweddill y bennod hon ac yn y bennod nesaf y bwriad yw

archwilio'r syniadau yma yng ngoleuni tri o gywyddau Dafydd, sef 'Y Cleddyf' (71), 'Trech a gais nag a geidw' (112) ac 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116). Cynigir deongliadau unigol o'r cywyddau hynny er mwyn archwilio'r posibiladau a gynigir gan y syniadau ôl-drefedigaethol uchod. Er mai tri dadansoddiad annibynnol ar ei gilydd a geir, mae i'r tri chywydd nodweddion cyffredin sy'n sail ar gyfer eu dewis yma. Mae'r cywyddau, mewn gwahanol ffyrdd, yn mynd i'r afael â thema gwrthdaro. Daw'r gwrthdaro hwn i'r amlwg trwy ddiwyddiadau penodol megis portread y bardd o berthynas y carwr ag Eiddig, ynghyd â'r gwrthdaro diwylliannol cysylltiedig. Yn ôl dehongliad ôl-drefedigaethol, ac fel y gwelwyd uchod, mae unrhyw drafodaeth ar wrthdaro neu frwydr yn gweithio ar ddwy lefel, ar y naill law yn drafodaeth ar berthynas ffiniol gwrthrychau'r frwydr, ac ar y llall, yn drafodaeth ar gymylu'r ffiniau hynny. Mae'r gwrthdaro a geir yn y tri chywydd dan sylw yn eu cynnig eu hunain i ddeongliadau o'r fath.

'Meistr wyf': Dafydd ap Gwilym a'r Cleddyf (71)

Mae cywydd Dafydd i'w gleddyf yn un o'r cywyddau sy'n ymdrin â'r cymeriad cyfarwydd hwnnw, Eiddig. Nid yw'n bosibl trafod perthynas y bardd ag Eiddig, ei elyn yn ei ymdrechion i ennill ac i feddiannu ei gariadferch, heb drafod y syniad o gystadleuaeth. Seilir y berthynas ar ddyhead y naill gymeriad i ennill goruchafiaeth ar y llall ac o'r herwydd mae'r elfen gystadleuol yn hydreiddio'r portread a geir o'r ddau. Daw'r gystadleuaeth i'w phenllanw yn 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116), fel y gwelir yn y man, wrth i'r bardd ddyheu am roi diwedd ar y frwydr a chael gwared ar Eiddig am byth. Ceir trafodaeth debyg yn y cywydd hwn i'r cleddyf. Bydd yr adran hon felly yn archwilio'r berthynas rhwng y bardd ac Eiddig yn 'Y Cleddyf',

gan osod y drafodaeth yng nghyd-destun damcaniaethau Bhabha am y Trydydd Gofod.

Y cleddyf ei hun yw canolbwynt y sylw o'r cychwyn. Yn ei hanfod, y mae'r syniad o'r cleddyf yn berthnasol i un o brif themâu barddoniaeth ganoloesol Gymraeg, sef milwriaeth. Mae milwriaeth yn elfen amlwg o waith Dafydd yntau, ond yn bennaf mewn cerddi mawl i unigolion megis Ifor Hael, gŵr y dywed Dafydd amdano: 'Hir dy gledd, hëir dy glod' (13.38). Yn ei gerddi sy'n ymwneud â serch, ar y llaw arall, fe'i cawn weithiau yn gwadu milwriaeth yn uniongyrchol, megis yn 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra' (72). Ond mae agoriad 'Y Cleddyf' a'i ffocws ar yr arf ymosodol, 'Rhyhir wyd a rhy gyflun, / Rho Duw, gledd ar hyd y glun' (1-2) yn gosod y gerdd, a'r bardd, ym mhrif ffrwd y traddodiad uchelwrol. Ac fel yr awgrymwyd eisoes wrth drafod hunaniaeth a chenedlaetholdeb y cyfnod hwn, gellir dadlau bod prif ffrwd y traddodiad uchelwrol yn gyfwerth â Chymreictod i fardd fel Dafydd ap Gwilym.

Ond mae elfen amlwg arall i agoriad y gerdd hon. Mae'r ymadrodd 'ar hyd y glun' a hefyd y cwpled nesaf 'Ni ad dy lafn, hardd-drafn hy, / Gywilydd i'w gywely' (3-4) yn llawn isleisiau rhywiol, a daw'r cleddyf i fod yn symbol ffalig amlwg (Edwards 1996: 145–6). Ar unwaith felly, y mae'r uchelwriaeth draddodiadol Gymreig yn cael ei haddasu mewn modd chwareus. Dyna sy'n pennu awyrgylch gweddill y cywydd. Â'r gerdd rhagddi fel a ganlyn:

Cadwaf i di i'm deau,
Cedwid Duw y ceidwad tau.
Mau gorodyn, mygr ydwyd,
Meistr wyf a'm grymuster wyd. (5–8)

Mae'r pwyslais yma yn amlwg ar yr angen i gadw, ac i amddiffyn. Mae'r defnydd o ffurfiau ar 'cadw' yn drawiadol, ac mae'r awgrym bod y bardd yn 'feistr' eto yn cyfleu'r syniad mai ganddo ef y mae'r awdurdod yma, ac mai diben y cleddyf fydd ei amddiffyn rhag y rheini a hoffai ddwyn yr awdurdod hwnnw oddi arno. Nid arf, na geiriau, ymosodol sydd yma, ond rhai amddiffynnol, ceidwadol.

Ond mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwyrddroi gan y llinell nesaf, 'Gŵr fy myd ni gâr fy myw'. Am y tro cyntaf cawn wybod beth yn benodol yw'r bygythiad i einioes y bardd, sef gŵr ei gariad. Ef yw'r grym ymosodol y mae'n rhaid i'r bardd ei amddiffyn ei hun rhagddo. Ond ar yr un gwynt, sylweddolwn fod y sefyllfa'n gyfnewidiol. Yr unig reswm dros ymddygiad ymosodol y gelyn yw'r ffaith fod y bardd yn ceisio dwyn ei wraig oddi arno. Nid oes cyfiawnhad cyfreithiol i hyn (er diau y dywedai'r bardd fod cyfiawnhad moesol), a gwelir bod y pwyslais ar gadw ac ar amddiffyn a gafwyd ar ddechrau'r gerdd yn gamarweiniol. Yn hyn o beth, y bardd yw'r grym bygythiol, a chan hynny mae awgrym bod safleoedd y bardd a'r gŵr yn ansefydlog ac yn ymgyfnewid.

Parhau a wna'r amwysedd hwn yn ail adran y gerdd. Yn llinell nesaf y cywydd, geilw'r bardd ei elyn yn 'gerddor ystryw'. Eto, dyma ddelwedd annisgwyl. Mae Thomas Parry yn cynnig y termau 'gwneuthurwr' a 'lluniwr' ar gyfer 'cerddor' (1979: 568), ac felly'n awgrymu bod y gelyn yn un sy'n creu cyfrwystra. Ond mae gan y term hwn hefyd ystyron ehangach, a'r rhain mewn gwirionedd yw'r rhai mwyaf naturiol. Gall gyfeirio at unrhyw grefft sy'n ymwneud â'r broses o greu ('crefftwr' yw aralleiriad DG.net), a gellir ei ddefnyddio'n gyfystyr â 'phrydydd', 'gŵr wrth gerdd' neu 'gyfarwydd' (GPC 466). Mae Dafydd ap Gwilym yn amlwg yn gerddor yn ei rôl

fel bardd, yn union fel y mae ei elyn yn gerddor yn ei rôl fel un sy'n creu twyll. Unwaith eto, y mae swyddogaethau'r bardd a'i wrthwynebydd yn ymglyfnwid. Anodd yw lleoli'r naill na'r llall mewn gofod sefydlog.

Ymddengys na all Dafydd ychwaith roi cyfri cyson am weithredoedd ei elyn. 'Tawedog, enwog anwyh' ydyw meddai'r bardd, 'Tew ei ddrwg, mul wg mal ych' (11–12). Ond ymhen dim y mae'n newid ei farn am y disgrifiad hwnnw: 'Gweithiau y tau, amod da, / Ac weithiau y'm bygythia' (13–14). Mae'r gelyn yn 'dawedog', dro arall mae'n llafar yn ei fygythiadau yn erbyn y bardd. Er hynny, ni chawn glywed ei eiriau ef yn y gerdd. Yn hytrach, cawn gofnod manwl o fygythiadau'r bardd yntau:

Tra'th feddwyf, angerddrwyf gwrdd,
Er ei fygwth, arf agwrdd,
Oerfel uwchben ei wely (15–17).

O ddarllen hyn yn llythrennol, gellid dadlau bod yma fygythiad i ymosod ar Eiddig ac yntau'n dal yn ei wely, ac felly heb gyfle i'w amddiffyn ei hun. Fe'n hatgoffir bod y bardd yn ystyried y cleddyf yn 'gywely' (4) iddo, ond mewn gwirionedd y bardd ei hun, ac nid Eiddig a'i gymheiriaid, fydd yn ymosod yn llechwraidd ar ei elyn. Mae'r awgrym hwn o drais ger gwely'r gelyn yn tanseilio unrhyw awgrym o filwriaeth draddodiadol ac anrhydeddus a gafwyd ar ddechrau'r gerdd hon.

Wrth gwrs, rhaid cofio am y modd y mae Dafydd yn llunio persona iddo'i hun sydd yn aml yn gwahodd gwawd y darlennydd neu'r gwrandawr. Mae'r llinellau nesaf yn cyfleu'r hiwmor hunanddychanol hwn yn berffaith:

A phoeth fo dy feistr o ffy
Nac ar farch, dibarch dybiaw,
Nac ar draed er y gŵr draw,
Oni'm pair rhag deuair dig

Gan atgoffa'r gwrandawr o englynion Llywarch Hen a'i fab Gwên, dywedir yn ddigamsyniol y dylai'r bardd fynd i uffern pe bai'n ffoi dan unrhyw amgylchiadau, boed ar geffyl neu ar draed. Ond wedyn ceir y cwmp bathetig—nid yw hynny ond yn wir os nad yw'r gelyn yn peri cosb iddo mewn unrhyw ffordd. Dan yr amgylchiadau hynny, rhaid tybio y byddai'r bardd yn ei heglu hi. Fel y dywedwyd, y mae sylwadau o'r fath yn nodweddiadol o waith Dafydd, ond maent eto yn tansilio'r ddelweddaeth bendant ei milwriaeth a gafwyd ar ddechrau'r gerdd. Mae'r llinellau hyn yn gorffen gydag ychwanegiad arwyddocaol—maent yn cyflwyno enw'r gelyn, Eiddig.

Yn y drafodaeth uchod, pwysleisiwyd natur amwys yr awdurdod corfforol a moesol a gyflwynir yn y gerdd hon. Er bod agoriad y gerdd yn gosod y bardd mewn safle pur bendant fel un sydd ag iawn ar ei ochr ac un a fydd yn defnyddio grym er mwyn ei amddiffyn ei hun mewn modd moesol dderbyniol, gwelwyd mai buan iawn y tansilir hynny. Nid yn unig y mae moesoldeb ac awdurdod yn amwys yn y gerdd, ond mae'r disgrifiad o'r bardd a'i elyn yn gyfnewidiol, ac ar adegau bron na welir y naill yn ymdreiddio i'r llall. Heb amheuaeth felly, rydym yn troedio tir neb sydd mewn rhai ffyrdd yn gyfarwydd yng ngoleuni'r drafodaeth uchod ar Drydydd Gofod Bhabha. Ond a oes cyfiawnhad pellach dros osod hyn oll yng nghyd-destun dehongliad ôl-drefedigaethol?

Nodwyd uchod fod delweddaeth filwrol agoriad y gerdd yn awgrymu ei bod yn cyfranogi o ddisgwrs milwrol a oedd yn nodweddiadol o uchelwriaeth Gymreig. Gan hynny, gellid llunio dadl ar sail y modd y mae'r uchelwriaeth honno'n gwegian yn y sefyllfa drefedigaethol yr oedd Cymru cyfnod Dafydd ap Gwilym yn ei chael ei

hun ynndi. Gellid dadlau bod methiant Dafydd i gynnal y traddodiad uchelwrol yn ddrych i brosesau trefedigaethol syml. Mae hwnnw'n sicr yn drywydd posibl. Ond dadleuir yma fod y bardd yn cynnig darlun cyfoethocach na hynny, ffaith a ddynodir gan y newid sydyn mewn delweddaeth, arddull, ac ieithwedd yn rhan nesaf y gerdd.

Wedi crybwyll Eiddig am y tro cyntaf, yn hytrach nag ymhelaethu arno, y mae yngan ei enw fel petai'n gyrru Dafydd i gyfeiriad newydd wrth i'w sylw ddychwelyd at y cleddyf:

Catgno i gilio gelyn,
Cyrseus, cneifiwr dwyweus dyn,
Coethaf cledren adaf wyd;
Collaist rwd, callestr ydwyd.
Coelfain brain brwydr, treiglgrwydr trin,
Cilied Deifr, caled deufin,
Cyfylfin cae ufelfellt,
Cadwaf dydy i'th dŷ dellt.
Cwysgar wyd rhag esgar ym,
Cain loywgledd canoliglym. (23–32)

Try'r cyfeiriad at Eiddig yn gyfeiriad at y gelyn yn gyffredinol, 'Catgno i gilio gelyn' (ll. 23). Mae'r unigol wedi troi'n lluosog, ac Eiddig bellach yn rhan o grŵp ehangach o elynion. Mae i'r symudiad hwn arwyddocâd pwysig. Nid gelyniaeth bersonol sydd yma bellach ond gelyniaeth letach sy'n ymwneud â grwpiau o bobl ac nid unigolion. Mae arddull y darn hefyd yn newid. Yn hytrach na'r frawddeg amlgymalog a gafwyd yn yr adran flaenorol, ceir yma gyfres o linellau hunangynhaliol, bachog sy'n dyfalu'r cleddyf mewn modd llawn dychymyg. Mae'r cymeriad llythrennol ar 'c' yn rhan o arddull ffurfiol a chaeth, ac mae'r geiriau cyfansawdd niferus, megis 'catgno', 'cyfylfin', ac 'ufelfellt', yn perthyn i ieithwedd lawer llai sgysiol na'r hyn a gafwyd ar ddechrau'r gerdd, gyda'i ebychiad naturiolaid 'rho Duw' yn yr ail linell. Mae'r ymadrodd 'brain brwydr' yn ei hanfod yn nodweddiadol o'r Hengerdd ac o awdlau'r

Gogynfeirdd. Yn wir, nid yw arddull y rhan hon o'r gerdd yn ddieithr yng ngwaith Dafydd—fe'i ceir yn arbennig yn ei awdlau i Lywelyn ap Gwilym ac Ifor Hael. Mae'r ymadrodd 'treiglgrwydr trin' yn arbennig yn dwyn i gof yr enw cyfansawdd 'tariangrwydr' o'r awdl i Ifor Hael (11.45), ac felly hefyd yr ymadrodd 'cilied Deifr' o'r cywydd hwn o'i gymharu â 'Hardd ffysg Deifr unddysg' o'r un awdl (11.42). I Helen Fulton, y mae arwyddocâd hyn oll yn amlwg: 'There is an unmistakably contemporary analogy here, the inference that the English have stormed Wales by force just as the Saxons took over the Old North in the sixth and seventh centuries' (1989: 216). Mae'r gerdd felly wedi symud o fyd serch a charwyr i fyd gwleidyddiaeth genedlaethol neu ethnig yr Oesoedd Canol.

Mae'r cyfeiriadau at elyn a gelyn pennaf y bardd, sef Eiddig yn bwysig wrth drafod sylwadau Fulton a'r tensiynau diwylliannol posibl a welir yn y gerdd. 'Gŵr bwrdais' yw Eiddig yn ôl Saunders Lewis (1932: 76) a thrwy ddelweddau o'r fath, gellir awgrymu bod cysylltiad rhyngddo a'r diwylliant Seisnig. Fel y nodwyd eisoes, ac o dderbyn dehongliad Fulton, gall y bwrdeistrefi at ei gilydd gynrychioli'r diwylliant Seisnig; 'English borough towns' ydynt yn ôl Fulton (1989: 187). Felly hefyd y dywed Bowen; 'sefydliadau estron oedd y rhain yn ddieithriad, ac ymsefydlwyr o Saeson oedd y bwrdeisiaid fel arfer' (1977: 196). Os yw'n bosibl cysylltu Eiddig â'r trefi hyn, yna gellir dadlau bod nodweddion Seisnig yn gysylltiedig ag ef. Cyfeirir at gartrefi Eiddig fel cestyll, 'caer gawdd' (68.33) a charchardai 'carchar bardd' (68.127), ac mae'r rhain yn cryfhau'r cysylltiad posibl hwn â Seisnigrwydd. Ys dywed Bowen, 'ni ddynodai dim yn fwy clir mai cenedl orchfygedig oeddym erbyn hynny na'r cestyll na'r trefi oedd ynglyn â hwy' (1977: 191). Yng nghyd-destun y delweddau uchod yng nghywydd 'Y Cleddyf', felly, mae

modd awgrymu y daw Eiddig yn symbol rhannol o fyd y Saeson ar y naill law a daw'r cleddyf a'r bardd, ar y llaw arall yn arwydd rhannol o'r diwylliant Cymreig. Yn wir, wrth drafod y dylanwadau sydd i'w gweld yng ngwaith Dafydd, dywed Rachel Bromwich, 'The significance for Dafydd ap Gwilym of the Welsh legendary background of northern tradition was that yr Hen Ogledd symbolized ... national independence and opposition to the English invader' (1986: 141). Mae'r elyniaeth bersonol at Eiddig felly wedi troi'n elyniaeth genedlaethol lle gwelir y diwylliant Cymreig yn wrthbwynt posibl i'r diwylliant Saesneg. Cawn yma'r pegynu sydd fel petai'n llunio hunaniaethau cadarn, gwrthwynebus i'w gilydd.

A derbyn dadl Fulton fod yr adran hon yn cynnwys 'an unmistakably contemporary analogy', rhaid nodi bod o leiaf un elfen anghydnaws yn y llinellau hyn. Dywed Dafydd mai 'Cyrseus' (ll. 24) yw'r cleddyf sydd yn ei feddiant, sef cleddyf yr arwr Otfel o chwedlau Siarlymaen, testun Ffrangeg yn wreiddiol a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Fel y dywed Bromwich (1986: 147), nid yw'r cyfeiriad yn cyfleu o anghenraid fod Dafydd yn gyfarwydd â manylion y chwedl, gan fod y llawysgrifau yn cynnwys nifer o restrau o gleddyfau arwyr. Ond mae'r cyfeiriad at 'Hawt-clŷr' (ll. 44), cleddyf Olifer yn chwedl Siarlymaen, yn awgrymu bod yr elfen ryngwladol hon yn fwy na damwain. Yn union fel y gwelir y bardd yn galw am gymorth yr 'albrasiwr' Ffrengig yn 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116), felly hefyd y mae'n dibynnu ar gymorth y cleddyf Ffrengig yn y gerdd hon. Mae'r bardd yn croesawu'r diwylliant Ffrengig ac yn ei wneud yn rhan o'i ddiwylliant ef ei hun, gan gyfuno delweddau Ffrengig â deunydd sy'n adleisio'r Hengerdd. Gwelir cynghrair diwylliannol yn ffurfio, gyda'r diwylliant Cymreig a'r diwylliant Ffrengig yn cynghreirio yn erbyn y gelyn, sef Eiddig a'i ddiwylliant Seisnig.

Ond eto, wedi'r adran drawiadol hon, sydd fel petai yn gosod y gerdd gyfan
mewn cyd-destun cenedlaethol, neu ethnig, y mae'r cyfeiriad yn newid eto:

Llym arf grym, llyma faur gred,
Lle y'th roddaf llaw a thrwydded:
Rhag bod yng nghastell celli
Rhyw gud nos i'n rhagod ni,
Rhwyg mab o fuarth baban,
Rhed, y dur, fal rhod o dân. (33–8)

Rydym bellach yn ôl ym myd serch, er bod y ddelweddaeth filwrol yn parhau i ryw
raddau, diolch i'r 'castell celli'. Mae'r arddull yn newid, a'r ieithwedd hithau, wrth i'r
bardd ddychmygu y llecyn yn y goedwig lle y gall ef a'i gariad gael llonydd i ddiolch
i'r cleddyf a fydd yn eu hamddiffyn. Yn llinellau olaf y gerdd, â'r ddelweddaeth i
gyfeiriad arall:

Na chêl, ysgwyd Guhelyn,
Ar fy llaw o daw y dyn.
Glew sidell, gloyw osodau,
Rhyfel wyd, y metel mau.
Hwn a'm ceidw rhag direidwyr,
Ehuta cledd, wŷr Hawt-clŷr.
Ar herw byddaf ar hirwyl
Dan y gwŷdd, mi a'm dyn gŷyl.
Nid ansyberw ym herwa
Os eirch dyn, nid o serch da.
Talm o'r tylwyth a'm diaur,
Tew fy ôl ger tŷ fy aur.
Ciliawdr nid wyf, wyf Ofydd,
Calon serchog syberw fydd. (39–52)

Cawn yma gyfeiriadaeth fwy eclecticig. Nodwyd eisoes y cyfeiriad at y cleddyf Hawt-
clŷr, ond ceir hefyd gyfeiriad diddorol at darian y carwr ('ysgwyd Guhelyn'). Mae'n
debyg fod y darian hon yn gyfarwydd i Ddafydd a'i gynulleidfa, ond erbyn hyn ni
ellir bod yn siŵr beth yn union oedd ei harwyddocâd, fel y cydnabyddir gan
ysgolheigion megis Bromwich (1986) a Sims-Williams (1990).

Yn ôl ymdriniaeth Bromwich â'r enw, mae yma gyfeiriad at chwedl sy'n ymwneud â tharian yr arwr Gwyddelig Cú Cúchulinn. Er mai prin yw'r cyfeiriadau at darian 'Cuhelyn' yn y Gymraeg, dywed Bromwich amdanynt: '[these] allusions are a valuable addition to the evidence for the knowledge of some of the Old Irish tales in Medieval Wales' (1986: 141). Yn ôl un chwedl Wyddeleg, roedd grym hudol i darian Cú Chulainn ac os gellir derbyn damcaniaeth Bromwich yna gall y cyfeiriad hwn at ddiwylliant Gwyddelig gyfrannu at y gwahanol elfennau diwylliannol a welir yn y gerdd hon.

Ond gall fod dehongliad arall. Mae Patrick Sims-Williams (1990) yn amau'r cysylltiad rhwng Cuhelyn a'r arwr o Wyddel, er ei fod yn cydnabod y gallai'r enw fod yn addasiad Cymraeg o'r enw Gwyddeleg. Dywed Foster Evans yntau, 'ni all *Cuhelyn* fod yn fenthyciad o'r Wyddeleg *Cú Chulainn*, er nad yw'n gwbl amhosibl fod *Cuhelyn* wedi ei ddefnyddio yn y Gymraeg i gyfeirio at yr arwr Gwyddelig gan fod yr enwau'n lled debyg' (DG.net). Gan bwysu ar ddadleuon Sims-Williams, dywed Foster Evans ymhellach, 'dylid nodi fod unigolion eraill â'r enw *Cuhelyn* i'w cael yng Nghymru yn ôl tystiolaeth yr achau ... ac nid yw'n amhosibl y ceid gynt draddodiadau am darian o eiddo un ohonynt hwy' (DG.net). Wrth gwrs, roedd Dafydd ei hun yn ddisgynnydd i wŷr o'r enw Cuhelyn Fardd. O dderbyn y berthynas hon â'r diwylliant Cymreig, a bod y carwr felly yn defnyddio tarian sydd â chysylltiadau Cymreig ynghyd â chleddyf sy'n debyg i gleddyf Ffrengig, y mae'r ddelwedd hon yn gadarnhad pellach fod y carwr yn tynnu ar amrywiaeth eang o ffynonellau.

Yn adran olaf y gerdd, ceir darlun o'r carwr a'i gariad ymhell o sŵn y frwydr:

Ar herw byddaf ar hirwyl
Dan y gwŷdd, mi a'm dyn gŵyl. (45-6)

Awgrymir bod yn rhaid iddo gadw draw, ac felly, gadw'n dawel. O ganlyniad, daw'r syniad o ddynwared yn fodd i ddangos bod y carwr yn ymdebygu i Eiddig unwaith eto. Ymhellach, dywedir y bydd ôl gwaith y carwr yn drwchus, 'Tew fy ôl ger tŷ fy aur' (ll.50), sy'n ein hatgoffa o'r disgrifiad o gyfrwystra Eiddig ar ddechrau'r gerdd, 'Tew ei ddrwg' (ll.12). Y mae'r naill gymeriad mor ddrygionus â'r llall, felly, a'r syniad o ddynwared yn atgyfnerthu'r ffaith mai cam annoeth fyddai ymdrin â'r ddau fel petaent am y pegwn â'i gilydd.

Dehongli'r Trydydd Gofod

Un nodwedd ddiddorol o'r ymateb i waith Dafydd ap Gwilym yw bod trafodaethau manwl ar gerddi unigol yn gymharol brin, a bod nifer helaeth iawn o'r cerddi yn y corpws heb dderbyn nemor ddim sylw beirniadol. Mae 'Y Cleddyf' yn un o'r cerddi sydd yn y categori hwnnw. Trafododd Rachel Bromwich ffynhonnell rhai o'r cyfeiriadau chwedlonol ynddi (1986: 147), a chafwyd sylwadau gan Huw Edwards ar y modd y personolir y cleddyf, a hefyd ar islais rhywiol y disgrifio (1996: 145–6). Ond yr unig feirniad sy'n gosod y gerdd gyfan o fewn fframwaith deongliadol ehangach yw Helen Fulton.

I Fulton (1989), mae'r gerdd yn perthyn i'r categori a elwir ganddi yn 'Dafydd's Poems of Humnour and Irony' (teitl seithfed bennod ei hastudiaeth). Mae'r dosbarth hwn o gerddi, yn ei barn hi, yn gweithredu 'to reinforce the élitism of the aristocracy. The objects of satire are not the nobility themselves but the Church and the emergent bourgeoisie, both of whom seek social advancement, the former through

patronage and the latter through marriage and the possession of wealth' (1989: 187).

Perthyn i ddosbarth y 'bourgeoisie' a wna Eiddig, wrth gwrs, ac awgrym Fulton yw bod y dosbarth ymwithiol hwn yn fygythiad economaidd a chymdeithasol i oruchafiaeth yr uchelwyr, sef y dosbarth y perthyn Dafydd iddo. Gan hynny, nid yw'n anaddas fod Dafydd yn mynd i'r afael yn elyniaethus â chymeriad Eiddig drwy geisio dwyn ei wraig.

Mae rhai o'r cerddi yn y categori hwn yn portreadu'r carwr mewn modd gwatwarus neu chwerthinllyd, a dadleua Fulton fod 'Trafferth mewn Tafarn', er enghraifft, yn nodweddiadol o'r cerddi hyn (ond sylwer y bydd yr astudiaeth bresennol yn cynnig darlleniad ychydig yn wahanol ym mhennod 7). Mae 'Y Cleddyf', ar y llaw arall, yn cyfleu'r carwr fel unigolyn mwy hy ac ymosodol:

In order to satirize non-courtly marriage, Dafydd sometimes adopts for himself the persona of a boorish seeker of sensual pleasures. This persona, which has affinities with the character of Eiddig, pursues physical gratification in isolation from the refinements and restrictions of courtly love, a pursuit which represents the desire for material advantage through marriage without the moral commitment to a system of courtly values. The distinction between a noble love which has a social value, and a corrupting and ignoble lust which is socially sterile, and perhaps threatening, is therefore a primary function of Dafydd's humorous poems.' (1989: 188)

Sylwer bod Fulton yma'n nodi'r tebygrwydd rhwng cymeriad Eiddig a chymeriad y bardd, er nad yw'n rhoi sylw manwl i'r pwynt hwnnw. Iddi hi, ergyd gymdeithasol sydd i gerddi fel hyn, ac mae'r brwydro rhwng y bardd ac Eiddig yn dadlennu nifer o themâu sylfaenol: 'firstly, the spiritual emptiness of those who value material possession above intrinsic worth; secondly, the corruptness of a desire based only on lust; and finally, the inferiority of non-courtly marriage practices' (1989: 213–14).

Targed y dychan yw dosbarth y bwrtais, a oedd yn prysur ymgyfoethogi yn y cyfnod hwn gan ddod yn fygythiad i safle ac awdurdod yr uchelwyr.

Fodd bynnag, y mae'r ffaith fod y bardd ac Eiddig yn ymdebygu i'w gilydd yn ei gwneud yn anodd cyfiawnhau'r ddadl hon. Os dychanu'r bwrdeiswyr yw'r bwriad, pam y mae persona'r bardd yma yn debyg mewn sawl ffordd i gymeriad Eiddig? Oni fyddem yn disgwyl i'r ddau gael eu cadw ar wahân? Nid ymddengys fod y gerdd yn gyson wrth wawdio ffigwr y carwr, er bod hynny'n elfen ohoni ar adegau. Yn sicr, nid yw'n cau ar nodyn sy'n bychanu'r bardd. Mae'r llinell 'Calon serchog syberw fydd' yn bur urddasol. Byddem yn disgwyl portread mwy beirniadol o'r carwr petai yma neges i'r perwyl y dylai'r uchelwyr ymgadw rhag haenau is y gymdeithas rhag iddynt golli eu hawdurdod a'u grym.

Sylwer hefyd fod Fulton ei hun, fel y gwelwyd eisoes, yn tynnu sylw at un ffordd y gwahaniaethir rhwng y ddau ffigur, sef y modd yr uniaethir y bardd ag ieithwedd filwrol, draddodiadol, sydd, yn arbennig o'i chymryd ynghyd â'r cyfeiriad at 'Deifr', yn awgrymu bod y bardd ac Eiddig yn perthyn i grwpiau ethnig gwahanol: 'There is an unmistakably contemporary analogy here, the inference that the English have stormed Wales by force just as the Saxons took over the Old North in the sixth and seventh centuries' (1989: 216). Ond mae Fulton yn ymadael â'r gerdd gyda'r sylw hwnnw.

O safbwynt ôl-drefedigaethol, ar y llaw arall, gellir dadlau mai dyma graidd y gerdd. Yn y lle cyntaf, mae'r amwysedd hunaniaethol a geir ar ddechrau'r gerdd yn dwyn i gof eiriau Huddart: '[f]or Bhabha, there are no cultures that come together

leading to hybrid forms; instead cultures are the consequence of attempts to still the flux of cultural hybridities' (2006: 7). Nid yw llinellau agoriadol 'Y Cleddyf' yn aneglur neu'n amwys felly, ond yn hytrach y maent yn gwbl nodweddiadol o Drydydd Gofod Bhabha, sef y gofod hwnnw y mae pob diwylliant yn bodoli ynddo. Mae'r bardd yn traethu yn y gofod hwnnw amdano ef ei hun a'i elyn mewn modd sy'n tynnu sylw at eu tebygrwydd yn hytrach na nodi'r hyn sy'n eu gwahanu. Ar ddiwedd yr adran hon cawn enw'r gelyn—Eiddig—a dyna sydd fel petai'n gwthio'r gerdd i gyfeiriad newydd, yn llawn milwriaeth draddodiadol, onid hen ffasiwn, ac ieithwedd hynafol Gymreig.

Mae'r weithred o enwi Eiddig yn un o ddiffinio, wrth gwrs, yn enwedig felly gan fod enw'r cymeriad hwn hefyd yn ddisgrifiad o'i brif nodwedd. O ran strwythur y gerdd, mae fel petai'r weithred hon o ddiffinio'r gelyn yn esgor ar un arall, sef y deg llinell draddodiadol Gymreig eu harddull sy'n diffinio'r bardd. I Fulton, mae gan y llinellau hyn yr hyn a elwir yn 'mock heroic tone' (1989: 216). Ond eto, nid cymeriad i'w wawdio yw cymeriad y bardd yma—mae Fulton ei hun yn tynnu sylw at nodweddion ymosodol a chorfforol persona'r bardd yn y gerdd hon. Yn hytrach, gellid dadlau bod presenoldeb Eiddig, a'r modd y rhoir hunaniaeth bur bendant iddo, yn gwthio Dafydd o'r Trydydd Gofod i gyfeiriad ymdrech destunol i greu diwylliant Cymreig gan ddefnyddio'r gynhysgaeth farddol y mae wedi ei hetifeddu o'r gorffennol.

Mae'n drawiadol ei fod yn enwi'r cleddyf Cyrseus yn ail linell yr adran hon. Gall ei fod yn ei gysylltu ei hun â diwylliant uchelwrol, ysgrifenedig yma, gan ei bod yn dra phosibl mai fel testun ysgrifenedig y gwyddai Dafydd am chwedlau

Siarlymaen (os derbyniwn fod cynnwys y chwedlau eu hunain yn hysbys iddo yn y lle cyntaf). Ar y llaw arall, gall fod y cyfeiriad hwn, fel y cyfeiriad at Hawt-clŷr ac yn wir y cyfeiriad at Ofydd yn llinell olaf y gerdd, yn ymdrech i ynysu Eiddig mewn modd ehangach. Fodd bynnag, dros dro yn unig y gall Dafydd aros gyda'r ieithwedd hon, a buan iawn y mae'n ei gadael, symudiad y gellid ei galw'n enciliad anorfod o Gymreictod gwneuthuredig, anghynladwy, yn ôl i'r Trydydd Gofod. Yng ngwaith Bhabha, creadigaethau dros dro, amodol yw diwylliannau a grëir yn sgil ymdrech i godi ffiniau. Nid ydynt yn gynladwy, ac nid yw Dafydd yn para gyda'r ieithwedd honno'n hir.

Yn rhan olaf y gerdd, y mae Dafydd yn ysu am gael cilio ymhellach:

Ar herw byddaf ar hirwyl
Dan y gwŷdd, mi a'm dyn gŵyl.
Nid ansyberw ym herwa
Os eirch dyn, nid o serch da.
Talm o'r tylwyth a'm diaur,
Tew fy ôl ger tŷ fy aur.
Ciliawdr nid wyf, wyf Ofydd,
Calon serchog syberw fydd. (39–52)

Mae'r awydd hwn i fod ar herw eto yn cyfleu diffyg hunaniaeth bendant. Un diffiniad o 'herw' yw 'y cyflwr o fyw ar ffiniau cymdeithas a heb nawdd cyfreithiol' (GPC 1859). Cofiwn eto am waith Rees Davies, a nododd mai mater cyfreithiol oedd hunaniaeth i raddau helaeth yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn llygaid y gyfraith roedd yn rhaid bod yn Sais neu'n Gymro—dyna a bennai sut y byddai'r awdurdodau'n ymdrin â gwahanol unigolion. Mae'r cyflwr o fod ar herw nid yn unig yn golygu colli nawdd y gyfraith, ond i raddau helaeth yn cyfleu diffyg hunaniaeth. Awgrymir y bydd yn rhaid i deulu Dafydd, ei 'dylwyth', weithredu drosto, gan y bydd yntau wedi ffoi gyda'i gariad i'r coed. Yr unig beth sy'n ei boeni, fe ymddengys, yw a

fydd yn ymddangos yn ‘ansyberw’, yn daeogaidd, yn sgil ei weithredoedd. Ei dylwyth fydd yn ei arbed rhag y ffawd honno, meddai ef.

Ar ddiwedd y gerdd, honna na fydd, mewn gwirionedd, yn ‘giliawdr’. Er ei awydd i fynd ar herw, i ddianc i’r coed, nid yw’n derbyn bod hynny’n gyfwerth â chilio. Mae eisoes wedi disgrifio ei guddfan yn y coed fel ‘castell celli’, sydd fel petai’n arwyddo rhyw fath o awydd i barhau â’r brwydro. Ond at ei gilydd, ymddengys ei fod yn awgrymu mai’r cyflwr diwreiddiau, dihunaniaeth hwn yw ei gyflwr cysefin. Yr unig hunaniaeth y mae’n ei rhoi iddo’i hun ar ddiwedd y gerdd yw honno a gyflëir gan y geiriau ‘wyf Ofydd’. Mae hyd a lled gwybodaeth Dafydd am waith Ofydd yn fater dadleuol (Lewis 2008), ond gallwn fod yn weddol hyderus y gwyddai ei fod yn fardd serch Lladin a oedd yn ei flodau gryn ganrifoedd yn y gorffennol. Mae’r hunaniaeth hon yn un na ellir ei diffinio yn nhermau cymdeithas y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac mae yn ei hanfod yn un gymysg o safbwynt bardd Cymraeg. Nid anarwyddocaol felly mai gyda’r ddelwedd hon a’r gosodiad ‘Calon serchog syberw fydd’ y mae’r gerdd yn dod i ben.

Mae’r gosodiad ‘wyf Ofydd’ hefyd yn gwrthgyferbynnu â’r sylw cynharach a gafwyd, ‘Meistr wyf’. Rhwng y naill a’r llall o’r ymadroddion hyn, cafwyd ymdrech i lunio Cymreictod testunol yn wyneb bygythiad allanol, ond ymdrech nad arhosodd y bardd gyda hi yn hir ydoedd. Yn sgil ymadael â hi y mae ei obeithion o fod yn feistr yn diflannu. Rhaid ymadael â’r Trydydd Gofod i greu goruchafiaeth dros eraill, neu i greu disgwrs trefedigaethol, ac felly wrth ddychwelyd i ddisgwrs llai pendant ei hunaniaeth y mae’r gallu i reoli eraill yntau’n lleihau.

Mae'n drawiadol mai cyffyrddiad ag Eiddig, sydd â chysylltiadau Seisnig posibl yn sgil y gymhariaeth ymhlyg â 'the English [who] have stormed Wales by force', sydd yn gyrru Dafydd, am gyfnod byr, i Gymreictod o'i wneuthuriad ei hun. Perthnasol yma yw ystyried y geiriau gan Michael Heidegger a drafodwyd uchod ac a ddyfynnir gan Bhabha, 'a boundary is not that at which something stops but ... is that from which something begins its presencing' (1971: 152-3). Nid dangos lle y mae rhywbeth yn dod i ben a wna ffin, ond yn hytrach rhoi bodolaeth i'r peth hwnnw yn y lle cyntaf. Yn fframwaith y gerdd hon, y mae Eiddig yn rhoi bodolaeth i hunaniaeth Gymreig y siaradwr, er mai hunaniaeth ansefydlog dros dro yw honno.

I gloi, byddwn yn dadlau bod y gerdd hon yn cynnig patrwm uniongyrchol o'r Trydydd Gofod. Cyfeiriwyd eisoes at y sylwadau hyn o eiddo Bhabha:

For a willingness to descend into that alien territory—where I have led you—may reveal that the theoretical recognition of the split-space of enunciation may open the way to conceptualizing an *international* culture, based not on multiculturalism or the *diversity* of cultures, but on the inscription and articulation of culture's *hybridity*. (1994: 38).

Mae'r gerdd hon yn rhyngwladol ei chyfeiriadaeth—Cyrseus, Hawt-clŷr, Ofydd, Deifr—a diau fod Dafydd a'i gynulleidfa yn ymwybodol o hynny. Ond mae gwaith Bhabha yn awgrymu nad diwedd taith yw'r sefyllfa hon, taith sydd wedi arwain at lastwreiddio diwylliant cynhenid Cymreig yn sgil 'dylanwadau' allanol. Yn hytrach, mwy ffrwythlon yw derbyn y stad hon yn fan cychwyn, gan olrhain y modd y mae diwylliannau penodol a hunaniaethau gwahanol yn cael eu creu ohoni. O ystyried hynny, mae'r ffaith fod y gerdd hon (sy'n seiliedig ar wrthrych sydd yn ei hanfod yn creu gwrthdaro) yn agor ac yn cau yn y Trydydd Gofod yn tystio'n huawdl i ddefnyddioldeb syniadaeth Bhabha. Yn y bennod nesaf, byddwn yn dal gafael yn y

cysyniad sylfaenol hwn o'r Trydydd Gofod, gan fynd ymhellach i ystyried yn fwy manwl oblygiadau dynwared ôl-drefedigaethol i farddoniaeth Dafydd.

Pennod 6

Y Dynwardwr:

‘Un orchwyl pan ddisgwyliwyf ...’ (112. 11)

Yn y bennod ddiwethaf, rhoddwyd un o gysyniadau Bhabha ar waith er mwyn ceisio llunio dehongliad newydd o'r cywydd 'Y Cleddyf'. Awgrymwyd y gall cysyniad y Trydydd Gofod fod o fudd wrth ddarllen gwaith Dafydd, ac mai ymadael â'r gofod hwnnw a wna'r bardd yn y gerdd honno pan fydd yn llunio Cymreictod amlwg, traddodiadol. Os felly, gellir cynnig bod ei hunaniaeth, gan amlaf, yn llawer mwy amwys na'r Cymreictod cymharol syml hwnnw. I ddadlau'n fwy argyhoeddiadol am hunaniaeth gymysg Dafydd, fodd bynnag, rhaid archwilio rhagor o gerddi, a dyna yw bwriad y bennod hon. Rhaid cofio, wrth wneud hynny, nad diben barddoniaeth Dafydd oedd llunio na diffinio hunaniaeth fel y cyfryw. Ond ac yntau'n fardd o Gymro o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, y mae'n anorfod y bydd yn mynd i'r afael â'i hunaniaeth ei hun ar brydiau, boed o fwriad neu beidio.

‘Trech a Gais Nag a Geidw’ (112)

Megis yn achos 'Y Cleddyf', cerdd yn ymwneud â rhagoriaeth y bardd ar Eiddig yw hon, wrth i'r bardd bwysleisio bod y sawl sy'n ceisio (sef ef ei hun) yn drech na'r sawl sy'n cadw (sef Eiddig). Er hynny, cyfeiria rhan agoriadol y gerdd at y rhwystr sy'n wynebu'r carwr wrth iddo geisio ennill llaw Morfudd, sef goruchwyliaeth ofalus Eiddig drosti:

Cadw y mae Eiddig hydwyll
Ei hoywddyn bach hyddawn bwyll (3–4)

Megis yn ‘Y Cleddyf’, mae i’r gair ‘cadw’ le amlwg, ond y tro hwn Eiddig yw’r un sy’n cadw, a’r bardd sy’n ceisio:

Trech a gais, trwy awch a gwg,
Nog a geidw rhag direidwas (6–7)

Mae adlais arall o ‘Y Cleddyf’ yma—mae ‘direidwas’, sef enw’r bardd arno ef ei hun, yn ein hatgoffa o’r ‘direidwyr’ a welwyd eisoes (71.43). Ond er gwaethaf goruchwyliaeth Eiddig awgrymir mai’r carwr fydd yn drech yn y berthynas gystadleuol hon.

Mae adrannau eraill y gerdd yn dilyn patrwm tebyg trwy gyflwyno disgrifiadau o Eiddig yn cadw llygad barcud ar y ferch ar y naill law, ac yna ddisgrifiadau o ymdrechion y carwr i’w drechu ar y llall. Llunnir cymariaethau cyson rhwng y ddau gymeriad er mwyn tanlinellu natur y gystadleuaeth rhyngddynt ac er mwyn dangos bod y carwr yn ymhyfrydu yn ei allu i gael y gorau ar ei elyn. Yn yr ail adran, dywedir bod Eiddig yn parhau i warchod Morfudd yn ddygn:

Gwydn y mae ef, addef oedd,
Yn ei chadw, anwych ydoedd (13–14)

Llunnir cymhariaeth syml ac amlwg rhwng y ddelwedd hon a gweithredoedd y carwr—mae yntau yn fwy dygn eto yn ei ymdrechion: ‘Gwydnach yr wyf’ (ll. 15). Pwysleisir eto mai trwy frwydro am y ferch y gellir trechu’r un sy’n ei chadw.

Mae’r drydedd adran yn dilyn yr un patrwm ond y tro hwn y mae’n dechrau â disgrifiad o’r carwr. Yma, ceir delwedd unigol fwyaf cofiadwy y gerdd, sydd wedi ei chodi o ddihareb gyfarwydd. Mae’r carwr yn ei gymharu ei hun â march sy’n gweld y

ceirch ond heb weld y rhwystr rhyngddo ef a'r cnwd. Gan hynny, mae'r carwr yn debyg iawn

I'r march a wyl o'i warchae
Y ceirch ac ni wyl y cae. (23–4)

Mewn geiriau eraill, Dafydd yw'r march, Morfudd yw'r ceirch ac Eiddig yw'r cae neu'r gwrych nad yw'r march yn ei weld yn ei awch am gael blasu'r ceirch. Mae'r ddelwedd yn un drawiadol. Er hynny, rhaid nodi bod rhyw letchwithdod yn perthyn iddi yn y cyd-destun. Drwy gydol y gerdd y mae Dafydd yn cyfeirio at Eiddig a'i awydd i'w drechu—prin ei fod yn anweledig fel yr awgryma'r gymhariaeth hon. I'r gwrthwyneb, mae Eiddig yn bresenoldeb amlwg. Yn wir, ef mewn gwirionedd yw testun y gerdd. Mae Dafydd yma yn tystio i awydd arwynebol i'w anwybyddu, ond eto hebdo ni fyddai gan Ddafydd destun i'w gân.

Yn wir, dywed yn union wedi'r trosiad hwn y bydd 'heb ochel gelyn' (ll. 25), ac y mae trydedd adran y gerdd yn gorffen â disgrifiad o Eiddig a delwedd drawiadol arall. Cyfeirir ato fel cymeriad sy'n gwarchod ei ferch yn fwy gofalus nag unrhyw bennaeth gwlad yn gwarchod ei dir. Ond er gwaethaf yr wyliadwriaeth ofalus hon, mae'r carwr yn datgan ei hyder ac yn ymhyfrydu eto yn ei ragoriaeth. Dywed yn hyderus 'Trech ... / Wyf nog ef' (ll. 33–4), a nodi am Eiddig, 'ofn a gafas' (ll. 34). Dyma grisialu buddugoliaeth ymddangosiadol y carwr. Mae'r sawl a geisiodd y ferch wedi sicrhau buddugoliaeth dros y sawl a'i cadwai. Prin yw'r sylw a gaiff Morfudd, a bron na cheir yr argraff fod y gystadleuaeth rhwng y bardd ac Eiddig yn bwysicach na'r garwriaeth ei hun.

O ran ei harddull, nid yw'r gerdd hon yn amrywio cymaint ag 'Y Cleddyf'. Fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, y mae'r gerdd honno'n defnyddio ieithweddau amrywiol y gellir eu cysylltu â gweddau fwy neu lai ceidwadol a thraddodiadol Gymreig. Nid yw adeiladwaith y gerdd hon yn debyg i hynny, ond eto mae ynddi hi hefyd ddelwedd sy'n awgrymu bodolaeth tensiynau ethnig rhwng Eiddig a'r bardd, fel y gwelir yn y drafodaeth isod ar ddehongliad Fulton. Ar ddiwedd y drydedd adran, dywedir:

Mwy blyg ni bydd mablygad
Ym mhen gwledig, unben gwlad (31–2).

Cymhariaeth sydd yma rhwng Eiddig ac arglwydd neu arweinydd o ryw fath. Ond rhaid cyfaddef nad yw union ergyd y cwpled yn glir. Yn DG.net, fe'i haralleirir fel hyn: 'Ni fydd kannwyll llygad mwy cam / ym mhen [unrhyw] deyrn, arglwydd gwlad'. Dehongliad Helen Fulton yw 'No more askance will be the pupil in the eye of a chieftain's head, lord of a land' (1989: 214). Gwahanol yw esboniad Gwyn Thomas: 'the poet wishes *Jaloux* [sef Eiddig] to be cross-eyed' (2001: 149). Os felly, rhaid tybied ei fod yn dymuno hynny er mwyn amharu ar ei ofal am y ferch. Beth bynnag yw'r union ergyd, ymddengys yn glir fod y bardd yn cymharu Eiddig ag arglwydd neu dywysog sydd yn cadw llygad barcud ar ei diriogaeth.

Ceir trafodaeth fwy estynedig gan Helen Fulton ar y ddelwedd hon, gan ei bod yn ei hystyried yn greiddiol i'w dehongliad sosio-wleidyddol o'r cywydd hwn:

Eiddig guards his humble possessions far more assiduously than any great chieftain watches over his vast and wealthy acreages. This jealous possessiveness makes the gullible Eiddig appear paranoid and foolish—and there is an analogy here, as in many of the 'triangle' poems, with the great Welsh landowners confident of their inheritance and the English occupiers who need towns and castles to watch over and contain the native population. (1989: 214–15)

Mae Fulton felly yn uniaethu Eiddig â'r arglwyddi neu'r swyddogion Seisnig y mae'n rhaid iddynt wrth wyliadwriaeth ofalus er mwyn cynnal eu safle. Ni allant ymlacio, ac mae angen trefi a chestyll arnynt i sicrhau na fydd y trigolion brodorol—y Cymry—yn codi yn eu herbyn ac yn ailgipio'r tir oddi arnynt. Os felly, dyma unwaith eto wedd ethnig i'r gwrthdaro rhwng Eiddig a Dafydd. Ar y lefel fwyaf syml, wrth gwrs, mae dehongliad o'r fath yn caniatáu darlleniad ôl-drefedigaethol wrth i Ddafydd ymateb i'r Eiddig ormesol drwy ymdebygu iddo—ac yn wir ragori arno—yn ei wydnwch a'i gyfrwystra.

Fodd bynnag, y mae lle i gwestiynu'r dehongliad hwn. Yn y lle cyntaf, ai teg galw Eiddig yn 'paranoid' pan fo'r bardd yn mynd ati'n ddyfal i geisio dwyn ei wraig oddi arno? Mae'n ofni am reswm da—dyna yw ergyd sylfaenol y gerdd hon. Ond yn fwy sylfaenol, nid yw'r gymhariaeth ethnig heb ei phroblemau. Ai teg yw cysylltu Eiddig â'r oruchafiaeth Seisnig 'who need towns and castles to watch over and contain the native population'? Er mwyn cynnal y ddadl hon, y mae Fulton yn uniaethu Eiddig â'r 'gwledig' a'r 'unben gwlad' y mae Dafydd yn cyfeirio atynt. Gellid dadlau mai Saeson a oedd yn rheoli Cymru'r cyfnod hwn, a chan hynny mai naturiol yw tybio mai Sais a ddeuai i feddyliau cynulleidfa Dafydd wrth glywed y gair 'gwledig' neu 'unben'. Boed yn frenin, arglwydd yn y Mers neu swyddog lleol, ni fyddai'r termau hyn yn rhai cwbl anaddas i ddisgrifio Saeson. Ond eto, y mae dadl gref yn erbyn y dehongliad hwnnw hefyd, ac mae hynny unwaith eto yn seiliedig ar werthfawrogiad o'r ieithwedd a ddefnyddir yma. Termau cynhenid Gymreig yw 'gwledig' ac 'unben', termau ac arnynt flas barddonol neu draddodiadol. Buasent yn gyfarwydd i Feirdd y Tywysogion, er enghraifft, a hefyd i lenorion y cyfnod cyn y

goncwest Edwardaidd. Defnyddid ‘unben’ ar gyfer ‘rheolwr neu lywodraethwr sydd ag awdurdod absoliwt’ (GPC: 3704), a gallai gyfeirio felly at arglwydd, pennaeth ac uchelwr. Fe’i ceir yn aml yn y Mabinogi—ar ddechrau chwedl *Pwyll*, er enghraifft, fe’i hailadroddir ar ffurf cyfarchiad i’r arglwydd, ‘A unben’ (Williams 1996: 2, ll. 10). Caiff ‘gwledig’ yntau ei ddefnyddio i gyfeirio at arglwydd sydd â gwlad yn ei feddiant (GPC 1682), ac ystyr ‘gwlad’ yn wreiddiol oedd yr unedau gwleidyddol (megis Powys neu Frycheiniog) a ffurfiai strwythur gwleidyddol y Gymru frodorol.

Gan hynny, haws a mwy naturiol yw cymryd y cyfeiriadau at ‘unben’ a ‘gwledig’ fel cyfeiriadau at lywodraethwyr o Gymry. Nid oedd y termau hyn wedi llwyr ddiflannu yn sgil y goncwest Edwardaidd; yr oeddent yn dal yn rhan o eirfa’r beirdd ar gyfer uchelwyr. Ar y llaw arall, diau fod arnynt flas y gorffennol, a chyfnod y tywysogaethau annibynnol. Os felly, mae cyfeiriad Dafydd atynt yn ddadlennol. Ar yr olwg gyntaf fe’u defnyddir fel patrwm o oruchwyliaeth wyliadwrus—yr arweinydd yn cadw llygad gofalus ar ei gyfoeth. Ond gan mai colli eu hetifeddiaeth a wnaeth yr arglwyddi brodorol yn sgil y gwrthdaro â choron Lloegr, mae’r gymhariaeth mewn gwirionedd yn dangos gwendid. Os yw Eiddig yn debyg i’r tywysogion brodorol, yna mae’n analluog i gadw gafael ar yr hyn sydd yn ei feddiant. A Dafydd ap Gwilym yw’r un fydd yn dwyn ei eiddo oddi arno. Mae yntau unwaith yn rhagor mewn gofod annisgwyl o safbwynt Cymreictod traddodiadol.

Os felly, a ddylid llunio darlleniad o’r gerdd sy’n gwbl groes i’r un a gynigiwyd gan Fulton? Ai Dafydd bellach sy’n ymdebygu i’r Saeson, ac Eiddig yn cyfateb i’r Cymry brodorol a gollodd eu heiddo? Mae hynny hefyd yn gasgliad rhy syml, efallai, sy’n seiliedig ar fodolaeth deuoliaeth rhwng Cymry a Saeson na ellir ei

chynnal. Er bod tuedd i uniaethu'r Saeson â choncwest a'r Cymry ag ymdrechion y tywysogion brodorol i gynnal annibyniaeth, nid oedd y sefyllfa mor syml â hynny. Roedd hynafiaid Dafydd ei hun, fel y gwyddys yn dda, wedi cydweithredu ag arglwyddi o Saeson ac â'r Goron mewn amrywiaeth o ffyrdd yn erbyn yr arglwyddi brodorol yng Ngheredigion yn ystod y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg. At hynny, roedd haen o uchelwyr, gan gynnwys un o berthnasau Dafydd, Rhys ap Gruffudd, wedi ymelwa'n sylweddol ar ddiflaniad y tywysogion. Gellid dadlau bod yn y gerdd awgrym o'r sefyllfa gymhleth hon, sef y Cymreictod diwylliannol ynghyd â gwleidyddiaeth Seisnig sydd wrth wraidd profiad yr uchelwyr, ond na ddethlir yn agored ond un hanner ohoni gan amlaf ym marddoniaeth y beirdd.

Mae mwy i'r gerdd, fodd bynnag, na'r modd y mae'r carwr yn delweddu ei elyn, Eiddig. Ar ddechrau ail ran y gerdd, cawn weld y carwr o safbwynt Eiddig:

Nid hawdd cadw cymen wen wych
Rhag lleidr yn rhygall edrych (9–10)

O safbwynt Eiddig, lleidr yw'r carwr. Atgyfnerthir hynny gan y cyfeiriad at ei gyfrwystra: lleidr 'rhygall' ydyw. Yn ddadlennol, gelwir ffigwr y cariad yn 'lleidr' mewn cerdd arall, sef 'Trafferth mewn Tafarn', pan ddywed un o'r Saeson amdano 'lleidr yw ef' (73.59), a cheir cyfeiriad tebyg yn 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (trafodir y cywydd hwnnw isod; trafodir 'Trafferth mewn Tafarn' yn y bennod nesaf). Ond yn y cwpled nesaf o'r cywydd dan sylw yma gwelir hefyd fod Dafydd ei hun yn derbyn y ddelwedd hon:

Un orchwyl pan ddisgwyliwyf
Yn llywio drem â lleidr wyf (11–12)

Megis yn achos 'Y Cleddyf', y mae'r bardd yn ymwrthod ag awdurdod moesol yma, gan ymfalchïo yn rôl y lleidr. Unwaith eto, y mae'n uniaethu ag agwedd ymosodol,

reibus nad yw'n cyd-fynd â'r ddelwedd arferol o uchelwr hyderus yn ei feddiant a'i gyfoeth.

Fel y nodwyd uchod, mae hefyd debygrwydd cyson yn cael ei fynegi rhwng y carwr ac Eiddig:

Gwydn y mae ef, addef oedd,
Yn ei chadw, anwych ydoedd; (13–14)

Dywedir mai trwy fod yn gyndyn y mae Eiddig yn llwyddo i gadw Morfudd rhag crafangau Dafydd. Er iddo gyfeirio at y gwydnwch hwnnw fel dyfais wael, 'anwych', â'r bardd rhagddo i ddangos mai dim ond trwy fod yn wydn y gellir ennill y ferch.

Dywed y bydd yntau'n fwy cyndyn eto nag Eiddig:

Gwydnach yr wyf, trymglwyf trais,
Yn amgylch bun yn ymgais (15–16).

Ar y cyd ag ymgais i osod ffin rhwng y ddau ŵr drwy ddangos bod un yn rhagori ar y llall, ceir hefyd ymdebygu amlwg rhyngddynt, gan mai'r un rhinweddau y mae'r ddau'n ymgysraedd atynt. Nid yw'r bardd yn torri'n rhydd oddi wrth Eiddig, ond yn hytrach, fe'i gwelir unwaith eto yn agosáu at ei elyn. Mae'r bardd yn ymdebygu i Eiddig trwy droi'n lleidr ac ystyfnigo er mwyn cyrraedd y ferch. O ymdebygu i Eiddig, daw'r carwr yn gymeriad mwy pwerus yn hytrach na bod yn israddol iddo. 'Mimicry is at once resemblance and menace' meddai Bhabha (1994: 86), ond efallai fod y 'resemblance' yma'n 'menace' mewn ffordd fwy amlwg na'r hyn sydd gan Bhabha mewn golwg.

Delwedd o fyd amaeth yw honno sy'n diffinio'r rhwystr rhwng Dafydd a Morfudd. Wrth uniaethu Dafydd â march a Morfudd â chnwd o geirch, awgrymir bod y ddau yn bodoli mewn lleoliadau gwahanol. Mae'n ddelwedd y gellid dadlau ei bod

yn addas i fardd o Gymro, o gofio'r modd yr awgrymid na chyfranogai'r Cymry o'r bywyd trefol. Fodd bynnag, ym mhedwaredd ran y gerdd, cawn leoliad newydd:

Tramwyaf, lwyraf loywryw,
Trefi fy aur tra fwyf fyw (35-6)

Dywed y bardd y bydd yn cadw'n agos at drefi'r ferch tra bydd byw. Gall mai cyfeirio at gartrefi Morfudd a wneir yma, gan y gall 'tref' olygu 'cartref', ond rhaid nodi nad anghyffredin yng ngwaith Dafydd yw cael bod y ferch mewn lleoliad trefol. Yn 'Yr Wylan' fe'i lleolir mewn 'tref gastellog' (Johnston 2007: 45) ger y môr ac anfonir yr wylan yno â neges y carwr: 'cyrch ystum caer a chastell' (45.12). Cyfeirir at fydd masnach y trefi yn 'Dewis un o Bedair' (120). Dywedir bod Elen, er enghraifft, yn hoff o ddillad chwaethus a hosanau, 'Brenhines, arglwyddes gwlan' (120.19) ydyw. Nodir, hefyd, ei bod hi'n wraig i Robin Nordd, cymeriad a gysylltir ag Aberystwyth. Roedd y trefi hyn yn ganolfannau ar gyfer pob math o weithgarwch diwylliannol, ac fe'u cysylltir â dylanwad y diwylliannau estron a ddaeth i Gymru. Felly, gan mai rhodio'r trefi y bydd y carwr yn ei ymgais i ennill merch, awgrymir ei fod eto yn dilyn arferion gwahanol i'r hyn a gafwyd pan y'i cymharodd ei hun â march yn awchu am geirch. Ceir awgrym bod y diwylliant brodorol a'r diwylliant estron yn gorgyffwrdd, felly.

Yn yr un modd, gwelir tystiolaeth o gymysgu diwylliannol wrth i'r bardd gyfeirio at 'arfog swydd' (ll. 39). Gellid deall y gair 'swydd' mewn ystyr gyffredinol, megis 'swyddogaeth'. Ond gellir hefyd roi iddo'r ystyr o swydd oddi fewn i gyfundrefn wleidyddol, un y gellir ei chysylltu â'r drefn weinyddol newydd, ac un sy'n gofyn am rym arfau i'w chynnal. Gwelir y bardd yn cyfranogi o ddiwylliant amwys, unwaith eto, ac o ganlyniad gellid dadlau ei fod yn dod yn rhan o'r un gymdeithas ag Eiddig. Cymylir y ffin rhwng y diwylliannau gwahanol yn ogystal â'r

ffin rhwng y carwr ei hun ac Eiddig. Nid cymeriadau sydd am y pegwn croes â'i gilydd a geir felly, ond proses o ddisodli'r pegynau a chael bod y ddau gymeriad yn ymdebygu i'w gilydd. Felly hefyd y mae'r diwylliannau gwahanol a gyflwynir yng nghysgod y portread o'r ddau gymeriad.

Dwyseir y syniad hwn trwy'r hyn a elwir gan Bhabha yn *menace*, 'the *menace* of mimicry is its double vision which in disclosing the ambivalence of colonial discourse also disrupts its authority' (1994: 88). Mae awdurdod Eiddig yn y fantol wrth i'r carwr ymdebygu iddo. Fel y dywed Huddart, '[a] consequence of mimicry is the undermining of the colonizer's stable, original identity' (2006: 76). Felly hefyd y mae hunaniaeth Eiddig yn fregus wrth i'r carwr nesáu ato. Er y gellir ei ystyried yn symbol posibl o Seisnigrwydd trwy gyfres o wahanol ddelweddau, mae Eiddig hefyd yn cael ei uniaethu ag arweinyddion brodorol y Cymry, a thrwy hynny amlygir gwendid ei sefyllfa fel y sawl 'a geidw'. A chan fod y bardd yntau yn ei ddiffinio ei hun yn erbyn cymeriad sydd yn y pen draw yn gwbl ansefydlog, gwelir ei hunaniaeth ef hefyd yn ansefydlogi. Os Eiddig yw 'arall' y bardd, mae i amwysedd Eiddig oblygiadau tyngedfennol i'r bardd ei hun.

'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116)

Fel y gwelwyd uchod, mewn sawl un o'r cywyddau sy'n trafod anturiaethau carwriaethol y bardd, cyflwynir y frwydr gyfarwydd honno rhwng y carwr ac Eiddig. Mae amwysedd amlwg o ran hunaniaeth ethnig Eiddig, sydd yn ei dro yn cymhlethu'r portread o'r bardd neu'r carwr sy'n elyn iddo. Un o'r cywyddau sy'n tanlinellu'r elyniaeth honno'n glir yw 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116). Gwrthdaro ar sail

brwydr i garu merch yw cefndir yr elyniaeth yn y cywydd hwn, ond nid dyna'r unig frwydr ynddi ychwaith. Lleolir y gerdd mewn fframwaith sy'n ymwneud â rhyfel go iawn, ac y mae'r gerdd yn un o'r ychydig rai y mae modd ei gosod mewn cyd-destun hanesyddol gweddol bendant.

Dywed y bardd yn rhan gyntaf y gerdd fod Eiddig ar ei ffordd i frwydro yn Ffrainc gyda mintai o filwyr eraill. Yn eu plith mae '[b]rodyr ffydd a rhai maeth' (ll. 3) a 'cheraint' (ll. 4) i'r bardd, sef rhai o berthnasau a chyfeillion Dafydd. Er bod Eiddig yn un o'r fintai hon, fe'i dychenir gan y bardd yn yr ail ran gan gyfeirio ato fel gelyn 'I fardd bun ac i feirdd byd' (ll. 12). Bu'n rhaid i'r bardd ffoi rhag y gŵr hwn droeon ac o ganlyniad y mae'n datgan ei ddymuniad iddo farw cyn i'r brwydro yn Ffrainc ddod i ben. Cyflwynna'r bardd, yn sgil hyn, sawl sefyllfa lle y dymuna weld marwolaeth Eiddig. Mae'r gyntaf yn ymwneud â'r llong y teithia'r fintai arni (os bydd Eiddig yn ei chyrraedd yn fyw). Dymuna weld Eiddig yn cael ei wthio oddi ar ei bwrdd gan foddï yn y dŵr. Ond os llwydda i gyrraedd Ffrainc, mae Dafydd yn galw ar iddo gael ei grogi yno. Os nad hynny, hydera'r bardd y bydd saethydd bwa croes yn dod â'i oes i ben. A hyd yn oed os bydd Eiddig yn llwyddo i gyrraedd adref, gobaith Dafydd yw ei fod yn cyrraedd 'Wrth wyn ysgar' (ll. 65), sef wrth fodd ei elyn, yn farw.

Cerdd ac iddi gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol amlwg yw hon, o'i dechrau. Rhyfel y Can Mlynedd (1337–1453) yw'r cefndir, ac er mai ymrafael oedd hwnnw rhwng Ffrainc a Lloegr, roedd gan y Cymry ran bwysig i'w chwarae hefyd. 'The Hundred Years' War was something more than a feudal struggle between the kings of England and France', meddai A. D. Carr, 'Wales could hardly escape ... The

Welsh involvement was both military and political' (1968–9: 21). Mae hyn yn codi cwestiynau amlwg parthed rôl wleidyddol y Cymry. Ai cynghrair a gafwyd rhwng y Cymry a'r Saeson er mwyn herio'r gelyn yn Ffrainc? Ynteu ai gweision anfoddog i'r Goron oedd y Cymry a ymunodd â'r byddinoedd ar y cyfandir? Diau nad oes un ateb syml i'r cwestiynau hyn. Ond yn sicr, mae balchder a hyder yn nodweddiadol o'r Cymry sy'n hwylio dramor yn y cywydd hwn. Yng nghwpled cyntaf y gerdd, enwir arweinydd y fintai:

Ef aeth heddiw yn ddiwael
Gyda Rhys i gadw yr hael ... (1–2)

Tybir mai Rhys ap Gruffudd ap Hywel yw'r arweinydd hwn, 'arglwydd Narberth a pherthynas i Ddafydd' (Parry 1979: xxxiii). Yn ôl yr achau, roedd yn gefnder i dad Dafydd. Roedd iddo statws cymdeithasol uchel a rôl bwysig o fewn y llywodraeth—yn ogystal â dal nifer o swyddi eraill, bu'n ddirprwy brif ustus Tywysogaeth De Cymru deirgwaith. Roedd yn uchelwr hynod ddylanwadol. Fel y dywed Ralph Griffiths, 'his liberty was as regal in scope as that of any other Welsh baron after the Conquest' (1972: 10), gan ychwanegu '[he was] indispensable to royal government in South Wales' (1972: 144). Dywed A. D. Carr iddo fwynhau 'a long and honourable career in public life, being one of the most prominent members of that Welsh official class whose loyalty to Edward I and II was so pronounced a feature of the post-conquest period ... he was the chief royal servant in the southern Principality' (1968–9: 29). Roedd Rhys felly'n Gymro o dras uchel, yn arweinydd milwrol o bwys, ac yn enghraifft berffaith o lwyddiant dosbarth yr uchelwyr yn y cyfnod hwn. Mae'r fintai hon o filwyr sy'n teithio i Ffrainc gydag ef hwythau o linach uchelwrol: 'brehyrllin weilch' (ll. 7)—maent hwy, fel Rhys, yn perthyn i haenau uchaf y gymdeithas Gymreig. Cyflwynir darlun cadarnhaol o nodweddion uchelwrol y fyddin Gymreig

hon, felly, ac mae'r cyfeiriad at 'gadw yr hael' (ll. 2) hefyd yn awgrymog yn y cyswllt hwn. Anodd gwybod pwy yn union yw'r 'hael', ond gellir dweud bod haelioni yn un o'r rhinweddau sy'n diffinio'r uchelwyr yng ngolwg y beirdd. Yn y gerdd hon, felly, awgrymir y bydd y milwyr yn sefyll dros un tebyg iddyn hwy eu hunain drwy ymladd dros yr 'hael'. Mae hanfodion uchelwriaeth Gymreig yn ymdreiddio drwy'r delweddau cadarnhaol hyn.

Gosodir y darlun diwylliannol hwn mewn cyd-destun penodol wrth i'r fintai o filwyr fynd 'i ymwrdd â Ffrainc' (ll. 5), ac yn ddiweddarach yn y gerdd cyfeiria'r bardd at Eiddig yn teithio ar donnau'r môr i Ffrainc:

O don-i-don, edn sugndraeth,
Od â i Ffrainc y du ffraeth... (39–40)

Gesydd y diwylliant Cymreig a'r diwylliant Ffrengig am y pegwn croes â'i gilydd, gyda ffin bendant rhyngddynt. Ond o gofio rhybudd McLeod: 'borders are important thresholds, full of contradiction and ambivalence' (2000: 217), gall mai ymddangosiadol yn unig yw hyn.

Mae lleoliad Eiddig a'r carwr yn y cyd-destun hanesyddol a diwylliannol hwn yn dra arwyddocaol. Er gwaethaf y darlun positif a gafwyd o Gymreictod uchelwrol ar ddechrau'r gerdd hon, awgrymir bod y carwr ei hun y tu allan i'r darlun hwnnw. Gwelir hynny trwy'r defnydd anghyfarwydd o'r ail berson lluosog 'chwi': 'Gyda chwi, o gedwch, wŷr' (ll. 10). Cyfeirir at gynulleidfa yma, ond mae'r carwr yn cyfarch y gynulleidfa honno o bell. Nid yw'n rhan uniongyrchol o gylch y milwyr felly, nac efallai o'u Gymreictod uchelwrol. Nid 'ni' yw'r term, ond 'chwi', ac mae sefyllfa'r carwr yn un amwys o'r herwydd. Dwyseir yr amwysedd hwn gan sefyllfa

Eiddig. Nodir ar ddechrau'r gerdd fod Eiddig yn teithio gyda'r milwyr i Ffrainc. Ar y dechrau fel hyn, caiff Eiddig ei gyflwyno fel rhan o'r darlun uchod o Gymreictod traddodiadol. Mae ef ymhlith milwyr ac arweinwyr bonheddig a pherthnasau i'r carwr, yn wahanol i'r carwr ei hun, sy'n edrych megis o bell ar y garfan Gymreig hon o filwyr. Ymddengys yn wir fod Eiddig yn cael ei dderbyn ganddynt; 'o gedwch' meddai'r bardd, ac nid oes awgrym nad yw'r fintai wedi gadael i Eiddig ymuno â hwy. Eto, o droi at ail ran y gerdd gellid awgrymu bod y carwr yn gwneud ei orau i gau Eiddig yntau allan o'r syniad o Gymreictod. Dywed y carwr mai 'mab gogan' (ll. 9) ydyw, sef cymeriad sy'n llawn dirmyg, sy'n wrthgyferbyniad llwyr i'r delweddau cadarnhaol o'r fyddin yn yr adran gyntaf: 'Breinolion, brodorion brwydr' (ll. 8). Mae ansicrwydd sylfaenol yn lleoliad y carwr ac Eiddig ac mae'r ansicrwydd hwn yn codi cwestiynau ynghylch hunaniaeth ddiwylliannol y cymeriadau, gan ein hatgoffa eto o eiriau John McLeod, 'we must recognise the porous borders between cultures, the fact that they are always leaking into each other, criss-crossing supposed barriers' (2000: 228). Mae'r carwr ac Eiddig yn rhannu'r un lleoliad neu'r un gofod, heb fod yn perthyn i Gymreictod amlwg y llinellau agoriadol.

Mae'n arwyddocaol o ran cynnig darlleniad ôl-drefedigaethol mai'r gofod hwn yw man cychwyn y gerdd. Er bod amser y gerdd braidd yn amwys—mae'r bardd yn cyfarch y fintai er nad yw yn ei phresenoldeb—mae'n dechrau gyda'r ffaith bod y milwyr wedi mynd eisoes: 'Ef aeth heddiw yn ddiwael' (ll. 1). Erbyn ail ran y gerdd ymunwn â'r criw ar fwrdd y llong, ond yn nychymyg y carwr yn unig y gwnawn hynny. Mae'r symud hwn o'r gorffennol at y presennol, ac o'r pendant i'r ansicr (sylwer ar y defnydd o 'o[d]' yn llau. 10, 23 a 40), yn bwysig wrth ystyried lleoliad y carwr ac Eiddig. Mae'r ffaith fod Eiddig a'r carwr y tu allan i Gymreictod y rhan

gyntaf yn awgrymu bod gofod arall yn bresennol yn y gerdd hon. Gan fod y fyddin wedi gadael am Ffrainc eisoes ar ddechrau'r gerdd, a'r disgrifiadau o uchelwriaeth yn ffordd o edrych yn ôl yn amseryddol, awgrymir mai'r gofod hwn y mae Eiddig a'r carwr ynddo yw'r man cychwyn. I Bhabha, fel y dadleuwyd eisoes, y gofod hwn yw dechrau unrhyw drafodaeth ar berthynas diwylliannau â'i gilydd. Lleoliad y carwr ac Eiddig y tu allan i ddelweddau diwylliannol y rhan gyntaf felly yw Trydydd Gofod Bhabha. Mae'r delweddau agoriadol o uchelwriaeth Gymreig a'r cyfeiriadau at Ffrainc a Lloegr yng nghorff y gerdd yn codi o'r angen i greu grwpiau a hunaniaethau gwahanol. Ond erys y cymeriadau sydd yn y blaendir, sef y carwr ac Eiddig, y tu hwnt iddynt.

Mae sawl agwedd arall ar y gerdd gyfoethog hon sy'n cadarnhau'r argraffiadau hyn. Gwelir, er enghraifft, fod anghysondebau yn y modd y cyflwynir y sefyllfa hanesyddol, wrth i'r carwr ofyn am gymorth y Ffrancwyr i drechu Eiddig. Nid ymddengys Ffrainc fel gelyn yma felly, ac mae hynny'n tansilio'r naratif disgwylidig mewn cerdd am ryfela ar y cyfandir. Ond er gwaethaf y cyd-destun hanesyddol penodol a gyflwynir ar ddechrau'r cywydd hwn, buan iawn y mae'r adleisiau hanesyddol yn ildio i brif ffocws y gerdd, sef perthynas gystadleuol y carwr ag Eiddig. Â Dafydd ati yn yr ail adran i fynegi'r elyniaeth honno a fodola rhwng y ddau gymeriad, gan rybuddio'r fintai o filwyr sydd ar fwrdd y llong fod 'bygegyr' (ll. 9) yn eu plith, sef gwenynen ormes sy'n bwyta'r mêl heb helpu i'w gasglu (GPC 363). Mae'r cymeriad hwnnw'n peri digofaint, 'cymynaid cawdd' (ll. 13). Hefyd, 'Un llygad ... / Ac unclust yw ar ganclawdd' (ll. 14). Fel y byddid yn ei ddisgwyl, mae clawdd yn gosod ffin benodol rhwng dau beth, yn union fel y gwna'r clawdd enwocaf oll, Clawdd Offa. Yn wir, hawdd fyddai cymryd bod y cyfeiriad hwn at glawdd yn

awgrym o'r bwlch diadlam rhwng y carwr ac Eiddig. Ar y llaw arall, mae'r cyfeiriadau at 'unclust' ac 'un llygad' (ll. 13) yr Eiddig yn dynodi ei allu ef, o leiaf, i glywed ac i weld y tu hwnt i'r ffin honno—i groesi'r ffin honno felly. Ac mewn gwirionedd, nid un ffin sydd yno ond yn hytrach 'ganclawdd', gan chwalu unwaith eto y ddeuoliaeth ddisgwyledig.

Mae'r cyfeiriadau at feirdd yn ail ran y gerdd yn tanlinellu'r tensiwn sy'n bodoli rhwng y carwr ac Eiddig yn ogystal â bod yn fodd i bwysleisio amwysedd y berthynas. Mae cymeriad Eiddig

Yn elyn dianwylyd
I fardd bun ac i feirdd byd (11–12)

Trwy'r ddelwedd hon, gwelir bod Dafydd yn elyn i Eiddig nid yn unig fel cariad, ond hefyd fel bardd. Yn wir, mae beirdd yn eu cyfanrwydd yn elynion i Eiddig. Mae'r syniad o gymdeithas o feirdd yn clymu â'r delweddau hynny a gafwyd ar ddechrau'r gerdd o'r byd uchelwrol. Mae'r bardd o bosibl yn ceisio'i gysylltu ei hun â'r byd hwnnw drwy grybwyll y diwylliant barddol, yn ogystal â'i osod ei hun ar wahân i ddiwylliant Eiddig. Eironi'r sefyllfa, wrth gwrs, yw bod y carwr ac Eiddig y tu allan i'r math o Gymreictod a fynegwyd ar ddechrau'r gerdd, ac o ran hynny, mae'r ddau yn ymdebygu i'w gilydd.

Delwedd arall sy'n codi yn y cerddi ar berthynas y carwr ag Eiddig yw honno o'r lleidr. Cofier mai'r bardd ei hun yw'r lleidr yn 'Trafferth mewn Tafarn' (73). Yn y gerdd honno, cysylltir delwedd y lleidr â hunaniaeth genedlaethol. Cafodd ystrydeb y lleidr ei defnyddio i drafod y Cymry. Yn y gerdd hon, fodd bynnag, Eiddig yw'r lleidr. Wrth iddo alw ar yr 'albrasiwr' i'w saethu dywed y bardd, 'Brath y lleidr yn ei

neidrwydd' (ll. 51). Term ar gyfer saethwr â bwa croes yw 'albrasiwr' ac mae'n debyg mai ffigwr is ei statws cymdeithasol, o'i gymharu â marchog neu filwr troed arfog ('man at arms') dyweder, fyddai hwn. Ceir yma agwedd ddilornus wrth i'r bardd greu portread o berson di-werth yn cael ei ladd gan berson yr un mor ddi-werth. Ar un lefel mae defnydd y bardd o'r term 'lleidr' yn crisialu'r dicter a deimla tuag at ei elyn ac yn ymgais pellach ganddo i wadu unrhyw debygrwydd rhyngddo ef ac Eiddig. Eto, nid yw'r bardd yn gwrthod y weithred o ladrata yn llwyr oblegid fe'i gwelir ef ei hun yn galw ar ei gynghreiriaid i weithredu mewn dull tebyg i Eiddig ac i droi'n lladron. Yn y gobaith y bydd Eiddig yn cael ei saethu, dywed y bardd, 'Dydd a ddaw, da oedd ei ddwyn' (ll. 60). Gellir (er nad oes rhaid) cysylltu'r gair dwyn â lladrata eiddo. Yma fe'i defnyddir i gyfeirio at ddwyn Eiddig ei hun:

Diddestl farf ffanugl gruglwyn,
Dydd a ddaw, da oedd ei ddwyn (59-60).

Wedi cael gafael ar Eiddig daw'r dydd pan fydd y carwr ar ei ennill. Yr eironi, wrth gwrs, yw mai trwy ddynwared Eiddig fel lleidr y daw'r fuddugoliaeth honno ac nid trwy ddilyn ei weithredoedd ei hun. Tybed ai gwir fuddugoliaeth dros Eiddig fydd honno felly, ynteu arwydd pellach fod y ddau gymeriad a'u diwylliannau wedi cyfaddawdu a chadarnhad bod y ddau yn rhannu'r un gofod, y Trydydd Gofod hwnnw y dadleua Bhabha yn ei gylch?

Fodd bynnag, dengys dynwared nad yw'r darlun pegynol hwnnw mor ddu a gwyn â hynny, ac fel y gwelwyd Dafydd yn ymdebygu i Eiddig yn ei ddyhead i'w ladd, felly hefyd y mae'r bardd yn gweithredu'n debyg i Eiddig 'a'i dylwyth' (ll. 22). Cyfeirir at aelodau'r grŵp hwnnw fel medelwyr, 'A'i dylwyth fal medelau' (ll. 20), delwedd o'r cynhaeaf, o fedi'r tir a chlirio'r caeau. Defnyddir y term hwn hefyd yn ôl

GPC ‘yn ffigurol am rywun sy’n lladd’ (GPC 2391). Ceir enghreifftiau o’r defnydd hwn yng Nghanu Aneirin yn y cyfeiriad at laddwr mewn brwydr, ‘oed eruit uedel’ (Williams 1961, XVII. 161). Ym ‘Marwnat Owain’ a briodolir i Daliesin (Williams 1960, X) cyfeirir hefyd at ‘Medel galon geueilat’ (Williams 1960, X.9) sy’n llunio delwedd o filwyr yn dal eu gelynyon a’u lladd. Mae i’r gair gynodiadau arwrol, ac mae’r cyfeiriad at ‘medelau’ yng ngherdd Dafydd ap Gwilym, felly, yn cryfhau’r ddelwedd o berthnasau Eiddig fel grŵp o bobl sy’n dymuno lladd eu gelynyon, ac yn yr achos hwn, lladd y carwr. Ond mae’n gwneud hynny mewn modd sydd eto yn awgrymu nad yw Eiddig mor isel ei statws ag yr hoffai’r carwr iddo fod. Mae Eiddig yn elyn ‘i fardd bun ac i feirdd byd’ (ll. 12), sy’n awgrymu y bydd am gael gwared â’r bardd ei hun yn ogystal â’r garfan ehangach o feirdd. Ar un llaw, dengys y bardd ei ddiacter at hynny, ac ar y llall, fe’i gwelir yn mabwysiadu gweithredoedd tebyg i’r medelwyr wrth ddyheu am gael gwared ag Eiddig.

Ceir patrwm tebyg yn y delweddau canlynol sy’n chwarae â’r syniad o gaethiwed a rhyddid. Yn yr ail adran, awgrymir bod Eiddig yn caethiwo’r bardd a’i gariad. Nodwyd eisoes ei fod yn cadw golwg barcud arnynt dros ‘ganclawdd’ (ll. 14). Mae’r cloddiau hynny yn arwyddocaol, felly i’r syniad o gaethiwed wrth rwystro’r bardd rhag cael gafael ar ei gariad. Wrth i Eiddig ddefnyddio’r cloddiau er budd iddo ef ei hun, fe’i gwelir yn caethiwo’r carwr rhag cyrraedd ei nod. Yn ogystal â chaethiwo’r bardd, gellir awgrymu bod Eiddig am gaethiwo’r ferch hefyd, drwy’i chadw yn ei grafangau a’i rhwystro rhag ymwneud â’r bardd. Mae’r syniad o gaethiwed hefyd i’w gweld yn y bedwaredd ran. Y tro hwn, fodd bynnag, y carwr ei hun sy’n caethiwo, ac felly’n dynwared Eiddig. Dywed:

Y sawl anghenfagl y sydd,
Hoenyn fo ddihenydd (41–2).

Mae'r carwr yn galw ar yr holl faglau sydd ar gael i ddal Eiddig fel y gellir ei ladd. Unwaith eto, felly, gwelir y carwr yn galw am gymorth i drechu Eiddig. Wrth drafod y ddelwedd uchod, dywed Thomas Parry (GDG 75. 41), fod 'hoenyn' yn gyfystyr â magl, sef 'llinyn a chwlwm rhedeg arno mewn magl neu drap i ddal aderyn' (GPC 2317–18). Yma, Eiddig sy'n cael ei gaethiwo gan rwyd yr aderyn. Ond mewn ambell ddelwedd arall yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, mae'r carwr ei hun yn cael ei gaethiwo gan y rhwydi hyn. Yn y cywydd 'Yr Adarwr' (131) er enghraifft, defnyddir y portread o'r daliwr adar i ddisgrifio'r carwr yn cael ei rwymo gan gariad y ferch:

Hualwyd, cadwynwyd cof,
Hual dawn, heolied ynof (43–4)

Disgrifia Bromwich y portread o'r carwr yn y gerdd hon fel a ganlyn, 'he presents himself as caught by a girl's eyes like a bird trapped in bird-lime beside a pool' (1986: 74). O ran 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116) mae'r carwr yn caethiwo Eiddig trwy'r ddelwedd hon yn union fel y gwelwyd Eiddig yn caethiwo'r bardd a'r ferch yn ail ran y gerdd. Ceir yma hefyd awgrym o gyfrwystra'r bardd wrth iddo gynllwynio i osod trap i ddal Eiddig. Onid yw hyn eto yn ymdebygu i gyfrwystra Eiddig y bu Dafydd yn ei ddisgrifio ar y dechrau, 'A chorn celwydd-dwyll pwyll pŵl' (ll. 15)? Wrth i'r bardd chwarae gêm debyg i Eiddig, fe'i gwelir yn ymdebygu i'w elyn. Ymhelaethir ar y thema hon ar ddiwedd y gerdd, lle y ceir rhyddid yn ffocws y carwr. Daw rhyddid iddo ar yr amod na fydd Eiddig yn dychwelyd adref:

Diddaly y bardd, a hardd yw hyn,
Diddel adref i'w dyddyn (61–2)

Trwy ddynward, fodd bynnag, mae'n bosib gofyn a yw'r rhyddid hwnnw yn codi o'r ffaith fod y bardd ac Eiddig erbyn hyn wedi ymdebygu i'w gilydd, a bod y ffin arwynebol honno a fodolodd rhyngddynt wedi diflannu?

Dengys y delweddau uchod, nad oes modd i'r carwr gael y gorau ar Eiddig heb gael cymorth, yn union fel y bu'n rhaid i Eiddig ddibynnu ar ei dylwyth ef i drechu'r bardd. Daw'r llong, hefyd, i gynorthwyo'r carwr drwy ymateb i bresenoldeb Eiddig:

Llonydd ni hir gydfydd hi,
Llun ei hwyl yn llawn heli (25-6)

Dywed y carwr na fydd y llong yn aros yn llonydd ar y dŵr bywiog, a thra bydd Eiddig ar ei bwrdd, 'Ni cherdda, ni hwylia hi' (ll. 29). Rhydd hyn gyfle i donnau'r môr ddod i gynorthwyo'r carwr, a gwthio Eiddig 'dros y bwrdd ar draws y banc' (ll. 32),

Y don hael, adain heli,
Y tâl a ddlywn i ti (33-4)

Geilw ar y môr i sicrhau na fydd modd i Eiddig ddychwelyd i'r tir ac i'w fygwth ef a'i gariad:

Saethffrwd aig, trywanwraig trai,
Saig nawton, a'i sugn atai (37-8)

Ni all y naill ennill goruchafiaeth ar y llall heb dderbyn cymorth. Yn yr un modd, gellir dadlau bod y delweddau uchod yn fodd i drafod amwysedd y berthynas ddiwylliannol sy'n codi yn sgil gweithredoedd y ddau.

Mae'n bosib mynd â'r delweddau hynny o'r llong gam ymhellach a chanfod tystiolaeth bellach o'r rhyngweithio diwylliannol â'r Trydydd Gofod hwn. Ar yr wyneb, ac fel y noda Parry yn ei nodiadau (1979: 504), dyfaliad o'r llong a geir gyda'r cyfeiriad at Wasgwyn yn Ffrainc: 'Gwasgwynes y gwaisg ganawl' (ll. 28). Mae'r llong, felly, fel march o ardal Gwasgwyn, ond tybed a oes modd ystyried y

ddelwedd hon fel trosiad ar gyfer y ferch y mae Eiddig a'r carwr â'u bryd arni? Gall 'gwaisg ganawl' fod yn gyfeiriad at gorff siapus a phrydferth y ferch, ac mae'r disgrifiad o'r benwisg, sy'n wisg a briodolir i ferch fel rheol, hefyd yn fodd i atgyfnerthu'r lled awgrym mai merch sydd yma mewn gwirionedd, 'Gwisg ei phen fo'r ffrwd wen wawl' (ll. 27). Mae'r cysylltiad hwn â Ffrainc, a Gasgwyn yn benodol, yn codi dro arall yng ngwaith y bardd. Yn y cywydd 'Cyfeddach' (126) er enghraifft, mae'r bardd yn dychmygu rhannu gwin gyda'i gariad yng Ngwasgwyn. O dderbyn y wedd Ffrengig hon ar gymeriad y ferch, gwelir triongl diwylliannol ar waith, gyda'r ferch yn cael ei thynnu rhwng dau ddyn, a'i diwylliant yn symud rhwng dau ddiwylliant arall. Ceir yn y gerdd hefyd ddelweddau ac iddynt gynodiadau rhywiol sy'n cryfhau'r cysylltiad rhwng y delweddau uchod â'r darlun o ferch, megis y ddelwedd honno sy'n awgrymu gweithred rywiol bosibl rhwng y ferch ac Eiddig, sef darlun o'r ferch 'a'r trwch ynnddi' (ll. 30). Mae'r bardd, fodd bynnag, yn galw am gymorth y ferch hon i wthio Eiddig ymaith. O dderbyn y cysylltiadau Ffrengig sydd gan y ferch hon, ceir yma ddarlun o'r bardd, unwaith eto, yn cydnabod ac yn derbyn diwylliant estron yn ei frwydr am gariad y ferch. Mae'n defnyddio'r byd Ffrengig er budd iddo ef ac i gynghreirio yn erbyn Eiddig. Ar ddechrau'r gerdd gwelwyd Cymreictod yn gwrthdaro â'r diwylliant Ffrengig, ond yma, trwy roi ei fryd ar ferch Ffrengig mae'r bardd yn agosáu at y diwylliant hwnnw. Dyma'r 'borderline engagements' y soniodd Bhabha (1994: 2) amdanynt, lle gwelir croes-daro a chydyniad yn bodoli o fewn y ffiniau hynny. Nid diwylliannau croes ydynt bellach, ond diwylliannau sy'n rhyngweithio â'i gilydd ac amwysedd yn codi o ganlyniad i'r rhyngweithio hwnnw. Mae'r syniad o '*ironic compromise*' (Bhabha 1994: 86) yn berthnasol yma hefyd. Mae Ffrainc wedi troi o fod yn elyn i fod yn gefnogwr, a thrwy'r uniaethu hwnnw yn unig y gall y carwr obeithio am fuddugoliaeth.

Ceir yn y gerdd hon, felly, gynghreirio diwylliannol amrywiol. Rhoddir lle amlwg i'r syniad o deithio, a chroesir ffiniau gwledydd mewn modd llythrennol, ac ar ddiwedd y gerdd cyfeirir at y daith adref. Ceir taith lythrennol rhwng y ffiniau pegynol felly. Mae'r symud cyson hwn yn berthnasol i'r gofod hwnnw sy'n bodoli rhwng ffiniau. Fel y dywed Ania Loomba, 'colonial identities—on both sides of the divide—are unstable, agonised and in constant flux' (1998: 178). Mae'r ansefydlogrwydd hwn yn greiddiol i'r gofod amwys hwn rhwng y deuliaethau. O'r dystiolaeth uchod, gwelwyd bod y bardd wedi agosáu at y diwylliant Ffrengig, yn ogystal ag at ddiwylliant Seisnig Eiddig. Nid am y pegynau croes â'i gilydd y mae'r tri diwylliant hyn bellach. Mae'r frwydr rhwng y ddau unigolyn wedi troi'n drafodaeth ar berthynas tri diwylliant: Cymru, Ffrainc a Lloegr.

I gloi

Mae'r deongliadau a gafwyd yn y bennod hon yn dra gwahanol i'r deongliadau arferol ar ddeuliaethau yng ngwaith Dafydd. Dywed Lynne Jones fod 'patrwm o wrthyferbyniadau' (1997: 11) yn greiddiol i waith Dafydd: 'ceir pegynu cyson ganddo [Dafydd] rhwng yr haf a'r gaeaf, y dydd a'r nos, y cyfannedd a'r anghyfannedd, y cyfaill a'r gelyn, ieuenctid a henaint' (1997: 10-11). Yr hyn sydd yn wahanol yn yr ymdriniaeth bresennol yw'r ystyriaeth a roddir i'r modd y creir y deuliaethau hyn yn y lle cyntaf. Dadleuir eu bod yn greadigaethau disgwrs trefedigaethol. Y ddeuliaeth enwocaf y cyfeiria Rachel Bromwich ati, dybiwn i, yw honno rhwng y deildy â'r gymdeithas ddynol: 'the *deildy* is the antithesis of the conventional man-made dwelling ... the calculated opposite of normal gregarious human society' (1986: 4). Mae'r deildy hwn felly yn ddihangfa i'r carwr rhag

rhwystrau'r gymdeithas ddynol. Y mae'r carwr yn perthyn i'r deildy hwn felly ac fe'i gwelir yno y tu hwnt i fyd Eiddig. Eto, y mae a wnelo'r deongliadau hyn o 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig', 'Y Cleddyf' a 'Trech a Gais nag a Geidw' â dulliau o ddehongli gwaith Dafydd sydd yn symud y tu hwnt i'r patrwm pendant hwn o begynau ac felly'n gwyrddroi'r patrwm o ddehongli a geir mewn astudiaethau tebyg i Jones (1997) a Bromwich (1986). Gwneir hynny yng nghyd-destun rhyng-berthynas y carwr ac Eiddig, y cyfaill a'r gelyn, a'u hethnigrwydd. Barddoniaeth hynod o ethnoganolog yw gwaith Beirdd yr Uchelwyr ar ei hyd, ond nid mater syml o 'adlewyrchu' bywyd eu noddwr a'u cynulleidfaoedd yw'r farddoniaeth. Yn hytrach, rhaid creu Cymreictod allan o ddiwylliant cymysg, newidiol a chymhleth. Nid yw Cymreictod yn cael sylw mor amlwg gan Ddafydd â chan rai beirdd, ond eto nid yw hynny'n golygu na cheir unrhyw drafodaeth ar berthynas ffiniol diwylliannau ychwaith. Cofier am y delweddau o uchelwriaeth a gafwyd yn rhan gyntaf y gerdd trwy'r cyfeiriadau at 'frodyr ffydd a rhai maeth / A cheraint' (116. 3-4), am y pegwn croes â'r awgrymiadau am Seisnigrwydd Eiddig. Fel y nodwyd eisoes, crëir y deuoliaethau hyn mewn ymdrech i greu grwpiau diwylliannol gwahanol a fyddai'n brawf o arwahanrwydd Eiddig a'r carwr. Er hynny, thema gyson yn y cerddi hyn yw tebygrwydd sylfaenol y carwr ac Eiddig. Y tebygrwydd hwnnw yw'r 'region of "taboo"—the domain of overlap between these imperial binary oppositions, the area in which ambivalence, hybridity and complexity continually disrupt the certainties of imperial logic' (Ashcroft *et al.* 1998: 25-6). Y gofod hwn hefyd sy'n fodd i ddangos pa mor gymhleth ac amlhaenog yw Cymru Dafydd ap Gwilym ac sy'n gwyrddroi ein hamgyffred o hunaniaeth y carwr yn ei farddoniaeth.

Nid trwy nodi deuoliaethau syml y crëwyd y portread o hunaniaeth yn y bennod hon. Gwelwyd mai o'r Trydydd Gofod y daeth hunaniaeth o fath arbennig i'r amlwg yn y portread o'r gystadleuaeth rhwng Eiddig a'r carwr am oruchafiaeth. Yn y Trydydd Gofod amwys y mae'r gystadleuaeth honno ar waith, yn yr '*inbetween space*—that carries the burden of the meaning of culture' (Bhabha 1994: 38). Ac mae dynwared yn y Trydydd Gofod yn sail ar gyfer edrych o'r newydd ar y gystadleuaeth, cystadleuaeth sydd yn fodd i ddangos bod y carwr ac Eiddig yn rhannu hunaniaeth hybrid. 'Ar herw' (71.45) y mae Dafydd a'i gymeriadau yn y bennod hon. Maent yn troi mewn gofod y tu hwnt i'r byd o ddeuoliaethau. Yn y gofod hwn y mae'r hunaniaeth hybrid, sy'n gyfuniad o Gymreictod, Seisnigrwydd ac agweddau Ffrengig, yn fodd i wyrdroi'r pegynu cyson a welir rhwng diwylliant Cymreig a Seisnig y carwr ac Eiddig. Gellid holi a yw'r diwylliannau hyn gyfwerth â'i gilydd yn y Trydydd Gofod, ond efallai nad dyna'r cwestiwn cywir, os o'r Trydydd Gofod y bydd y diwylliannau eu hunain yn deillio. Mae'r Trydydd Gofod felly yn ffordd o ddangos pa mor ddiwylliannol gymhleth yw Cymru Dafydd ap Gwilym.

Pennod 7

Yr hybrid: 'tewi yn y tywyll' (73.66)

Yn y ddwy bennod ddiwethaf dangoswyd sut y gall cysyniadau ôl-drefedigaethol megis y Trydydd Gofod a dynwared daflu goleuni ar rai o gywyddau Dafydd ap Gwilym. Wrth wneud hynny, edrychwyd ar dri chywydd nad ydynt, efallai, ymhlith yr enwocaf o gerddi Dafydd. Ond os yw ôl-drefedigaethedd yn mynd i gyfrannu'n sylweddol i'n dealltwriaeth o waith Dafydd, rhaid iddo gynnig darlleniadau newydd o gywyddau cyfarwydd.

Gan hynny, bwriad y bennod hon yw cynnig dehongliad newydd o gywydd enwocaf Dafydd, sef 'Trafferth mewn Tafarn' (73). Mae ei boblogrwydd yn ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys ei bresenoldeb di-dor ar faes llafur Safon Uwch Cymraeg ers degawdau. Gan hynny, mae'n gyfarwydd i filoedd o siaradwyr Cymraeg, mor gyfarwydd yn wir nes bod teitl y gerdd erbyn hyn yn slogan ar grysau-T. Ond mae ei enwogrwydd hefyd yn ganlyniad i'r modd deheuig yr adroddir am fethiannau carwriaethol y bardd mewn arddull sy'n troi'r sangiad o fod yn faen tramgwydd i ddarllenwyr cyfoes yn rhan gofiadwy ac anhepgor o'r traethu, a hynny oll gyda dogn helaeth o hiwmor.

Perthyn i ddosbarth y cywyddau rhwystr a wna'r gerdd hon, ac fel y dywed Gwyn Thomas, mae 'rhwystrau tragwyddol ar lwybrau serch i Dafydd' (1976: 156). Ymddengys y rhwystredigaethau hyn droeon yn y cerddi. Mae Eiddig wrth gwrs yn rhwystr amlwg yn y cerddi triongl serch. Ef yw'r gŵr 'traglew' yn 'Y Cwt Gwyddau' (67.9), er enghraifft, sy'n tarfu ar Forfudd a'r carwr. Mae'r 'clo a roed ar ddrws y tŷ'

(98.1) yn rhwystr llythrennol yn ymgais Dafydd i fynd i gartref Eiddig a'r ferch yn 'Dan y Bargod' (98), yn union fel y mae'r 'ci glew' (68.7), y 'ddôr ddig' (68.9) sy'n gwichio, a'r wrach 'heinus ddolurus ddig' (68.13) yn 'Tri Phorthor Eiddig' (68). Ar un lefel, awgryma'r rhwystrau mai byd y tu hwnt i'w reolaeth yw byd y carwr yng nghyd-destun ei anturiaethau carwriaethol.

Ar eu ffurf fwyaf syml, y mae'r cerddi hyn yn ymdrin ag anturiaethau serch lle y mae'r carwr yn ceisio mentro i fyd gwahanol, byd Eiddig a'r ferch, gan amlaf. Mae'r rhwystrau yn ei atal rhag cyrraedd y byd hwnnw ac yn sgil ei fethiant gorfodir ef i ddychwelyd i'w fyd ei hun. Yn 'Tri Phorthor Eiddig' (68), er enghraifft, y mae'r carwr yn cael dihangfa yn ei fyd ei hun, sef y goedwig:

Rhydd y mae Duw yn rhoddi
Coed briglaes a maes i mi. (68.65–6)

Yn 'Trafferth mewn Tafarn', fodd bynnag, y ceir y rhwystrau ar eu mwyaf niferus ac amlweddog. Mae stôl, bwrdd, padell a manion eraill bywyd pob dydd yn cynllwynio yn erbyn Dafydd, ac felly hefyd holl drigolion y llety, gan gynnwys y tri Sais enwog 'mewn trafferth am eu triphac'. Gan hynny y mae'r gerdd yn cynnig lluo o wrthdrawiadau posibl sy'n faes ffrwythlon iawn ar gyfer trafod y tensiynau hynny sy'n rhan annatod o farddoniaeth fawr. Yma, y bwriad fydd defnyddio un o ddamcaniaethau enwocaf Homi Bhabha—hybridedd—er mwyn darllen y cywydd hwn o'r newydd.

Hybridedd

Hybridedd, a bathu term Cymraeg ar gyfer yr 'hybridty' Saesneg, yw un o gysyniadau pwysicaf ôl-drefedigaethedd. Yn ei hanfod, mae'r term hwn yn deillio o

faes bywydeg ac yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at y broses o greu endid newydd o ddwy rywogaeth wahanol: 'a hybrid is a cross between two species', fel y noda Robert J. C. Young (1995: 8). Bellach, defnyddir y term hwn i drafod ymwneud gwahanol bobl, cymdeithasau a diwylliannau â'i gilydd. Dywed Atar Brah ac Annie E. Coombes:

much contemporary criticism has focused on hybridity as the sign of the productive emergence of new cultural forms which have derived from apparently mutual 'borrowings', exchanges and intersections across ethnic boundaries (2000: 9).

Er bod y term, yn ei hanfod, yn perthyn i fyd botaneg a bywydeg, daeth i chwarae rôl flaenllaw ym maes beirniadaeth lenyddol, ac o ran yr astudiaeth hon, bu'n ganolog i ddamcaniaethau Homi Bhabha ar berthynas ôl-drefedigaethol diwylliannau â'i gilydd, a'r gofod hwnnw sy'n codi rhwng y trefedigaethwyr a'r trefedigaethedig. Ond mae syniad Bhabha yn llawer mwy cymhleth na'r diffiniad biolegol uchod o'r hybrid, fel y gwelir yn y man.

Yn ôl Robert Young, 'hybridity is a making one of two distinct things' (1995: 22–3), ac yng ngeiriau Ashcroft *et al.*, 'hybridity commonly refers to the creation of new transcultural forms within the contact zone produced by colonization' (1998: 118). Felly gall fod a wnelo hybridedd â chymysgu diwylliannol, gyda ffurfiau diwylliannol newydd yn dod i fodolaeth yn sgil y cydgyffwrdd sy'n rhan hanfodol o'r sefyllfa drefedigaethol. Ond o safbwynt y trefedigaethwyr, gall yr hybrid fod yn broblem. Mae disgwrs trefedigaethu yn ffafrio sefyllfaoedd syml, gyda ffin bendant rhwng y trefedigaethwyr a'r sawl a reolir ganddynt. Nid yw'r disgwrs hwn yn dymuno gweld bodolaeth endidau sy'n cymylu'r ffiniau amlwg hyn. O ran y berthynas drefedigaethol, felly, mae'r hybrid yn bodoli er gwaethaf ymdrech y

trefedigaethwyr i'w ddileu. Dywed Peter Childs ac R. J. Patrick Williams, 'colonial authority requires a marking out of differences (such as 'Englishness' or 'whiteness') in order to circumscribe its operation—through whom and over whom' (1997: 134). Yn ôl Childs a Williams, felly, ceir ymgais i lunio gwahaniaethau a thrwy hynny daw'r angen i greu hunaniaethau 'pur' ac iddynt wrthgyferbyniad llwyr â hunaniaethau eraill. Bydd y trefedigaethwyr am greu hunaniaeth bur iddynt eu hunain drwy osod gwahaniaethau clir rhyngddynt a'r sawl y byddant yn eu trefedigaethu. Mae'r ymgais ymwybodol hon i greu hunaniaeth bur yn gallu bod yn berthnasol i wrthrych y trefedigaethu hefyd, a hynny yn ei ymdrech i sicrhau parhad i'w ddiwylliant brodorol yn wyneb y gormes sydd arno. O ganlyniad i'r broses gymhleth hon o greu hunaniaethau gwahanol ac unigryw, gosodir y gwahaniaethau y cyfeiria Childs a Williams atynt am y pegwn croes â'i gilydd. Dyna un o nodweddion pwysig y berthynas rhwng y trefedigaethwyr a'r trefedigaethedig.

Er bod ymdrech amlwg i greu pegynau a deuoliaethau yn nisgrifiad Childs a Williams uchod, mae diffiniad Bhabha o'r hybrid yn mynd gam ymhellach na hyn. Iddo ef, cartref yr hybrid yw'r Trydydd Gofod y cyfeiriwyd ato yn y ddwy bennod flaenorol. Gan hynny, yr hybrid yw'r man cychwyn diwylliannol, ac mae unrhyw endidau eraill yn deillio o'r hybridedd hwnnw. Dywed Bhabha ymhellach, 'the margin of hybridity, where cultural differences "contingently" and conflictually touch, becomes the moment of panic which reveals the borderline experience. It resists the binary opposition of racial and cultural groups' (1994: 207). Yr hyn sydd wrth wraidd sylwadau Bhabha yma yw bod yr hybrid yn gyfrifol am gael gwared â'r syniad o ddeuoliaethau. Bydd y pegynau yn diflannu, ac mi fydd y sylweddoliad hwnnw yn codi braw ar y trefedigaethwr. Dyma'r 'moment of panic' y cyfeiria

Bhabha ato uchod. Nodwyd eisoes sylwadau Bhabha am y modd y mae'r sefyllfa drefedigaethol yn creu 'an *international culture*, based not on the exoticism of multiculturalism or the *diversity* of cultures, but on the inscription and articulation of culture's *hybridity*' (1994: 38). Nid diwylliannau gwahanol yn dod at ei gilydd i greu cymysgedd egsotig mo'r hybrid, ond man cychwyn pob diwylliant.

Daw'r hybrid hwn, hefyd, yn fodd i fygwth awdurdod. Fel y nododd Childs a Williams wrth grynhoi dadleuon Bhabha, 'hybridity shifts power, questions discursive authority and suggests, contrary to the implication of Said's concept of Orientalism, that colonial discourse is never wholly in the control of the colonizer' (1997: 136). Mae'r hybrid yn gyfrifol am gwestiynu awdurdod a'i symud i le newydd yn y Trydydd Gofod. Bydd hyn yn bwysig wrth feddwl am sefyllfa Cymru Dafydd ap Gwilym. Fel y nodwyd ar ddechrau'r astudiaeth, gwlad wedi'i choncro ydoedd ac yn sgil hynny roedd y Cymry yn wrthrych awdurdod y Saeson. Golyga damcaniaeth Bhabha ynghylch yr hybrid, fodd bynnag, nad oes modd trafod awdurdod y Saeson fel rhywbeth unochrog. Mae'r hybrid yn gyfrifol am greu math o awdurdod newydd sy'n tynnu ar gyfraniad y trefedigaethedig, yn ogystal â'r trefedigaethwyr. Yng nghydestun Dafydd ap Gwilym, felly, mae'r hybrid yn fodd i drafod awdurdod y Cymry yn ogystal â'r Saeson.

Gall yr hybrid hefyd godi cwestiynau ynghylch natur hunaniaeth. Dywed McLeod: 'the concept of hybridity has proved very important for diaspora peoples ... as a way of thinking beyond exclusionary, fixed, binary notions of identity based on ideas of rootedness and cultural, racial and national purity' (2000: 219). Nid oedd Cymry'r Oesoedd Canol yn perthyn i ddiaspora, wrth gwrs, er nad amherthnasol nodi

eu bod ar adegau yn gallu meddwl amdanynt eu hunain mewn termau nid annhebyg, megis yng ngosodiad enwog Hywel Goch o Fuellt fod y Cymry ‘yn godef poen ac achenoctit ac alltuded yn eu ganedic dayar’ (Roberts 1966: 227). Ond gall hybridedd gwestiynu’r modd yr ydym yn synio am hunaniaeth hyd yn oed mewn cerdd megis ‘Trafferth mewn Tafarn’ lle yr ymddengys ar yr olwg gyntaf fod hunaniaethau amlwg a chadarn yn cael eu cyflwyno i’r gynulleidfa.

I Bhabha, fodd bynnag, nid rhywbeth sy’n berthnasol i deimladau mewnol unigolion yw’r hybrid. Mae’n wedd ar wrthsafiad y trefedigaethedig a’u hymgais i ddod o hyd i’w llais yn wyneb y gorthrwm sydd arnynt. Mae hybridedd yn tynnu sylw at natur sylfaenol ansefydlog disgwrs trefedigaethu: ‘the paranoid threat from the hybrid is finally uncontainable because it breaks down the symmetry and duality of self/other, inside/outside’ (Bhabha 1994: 38). Nid yw hybridedd yn gyflwr taclus a chlir, a chan hynny y mae’n tansilio nid yn unig drefedigaethedd ond hefyd ymdrechion i’w wrthwynebu sy’n seiliedig ar ddisgyrsau syml o genedlaetholdeb. Ys dywed McLeod: ‘Hybrid identities are never total and complete in themselves, like orderly pathways built from crazy-paving. Instead they remain perpetually in motion, pursuing errant and unpredictable routes, open to change and reinscription’ (2000: 219).

Y brif gŵyn yn erbyn hybridedd yw ei fod, er gwaethaf ymdrechion Bhabha, yn glynu’n styfnig wrth y ddelwedd fotanegol sy’n sail iddo. Mae hybrid yn deillio o ddwy rywogaeth wahanol, ond onid yw diwylliant yn gynnyrch pob math o ddylanwadau gwahanol a ddaw o bob cyfeiriad? Defnyddia Ashcroft *et al.* gysyniad arall er mwyn ceisio rhoi cyfrif am y cymhlethdod ehangach hwnnw, sef ‘synergedd’

(1998). Defnyddir y term ym myd gwyddoniaeth i ddisgrifio cydberthynas rhannau gwahanol o'r corff (OED). Yn syml, mae'r term yn cyfeirio at y broses o gydweithio, ond erbyn yr ugeinfed ganrif cysylltid y term â'r syniad bod cydweithio yn sicrhau gwell perfformiad. Mewn geiriau eraill, mae'n derm sy'n mynegi'r gred fod y cyfanwaith fel un endid yn fwy llwyddiannus, effeithiol neu werthfawr na swm y rhannau sy'n cyfrannu iddo.

I Kirsti Bohata, cynigia'r term hwn bosibiliadau newydd o safbwynt astudio llenyddiaeth Saesneg Cymru nad yw hybridedd yn eu caniatáu. Yng ngeiriau Bohata, 'the term "synergy" provides a more positive alternative to the problematic "hybrid", as it emphasizes the productive qualities of complex and multiple forces (rather than the two essential strands which are implied through the biological reproductive elements of hybridity)' (2004: 130). Mae'r hybrid hefyd yn broblematic i Bohata oherwydd nid yw'n rhoi ystyriaeth fanwl i anghyfartaledd diwylliannol. Fel y mae Ashcroft *et al.* yn crynhoi, 'it usually implies negating and neglecting the imbalance and inequality of the power relation it references' (1998: 119). A yw hybridedd yn cyflwyno delwedd ry gyfforddus o'r modd y gall y trefedigaethedig ymateb i'r trefedigaethu? Honnodd Brah a Coombes uchod fod yr hybrid yn greadigaeth sy'n ddibynnol ar gyfraniad cyfartal dau endid gwahanol, 'apparently mutual "borrowings", exchanges and intersections across ethnic boundaries' (2000: 9). Ym mherthynas y trefedigaethwyr a'r trefedigaethedig, mae'n anorfod fod y rhan fwyaf o'r grym ar un ochr, sef gyda'r trefedigaethwyr, oblegid dyna sy'n rhoi bodolaeth i'r broses o drefedigaethu. Os felly, gallai cyfraniad y trefedigaethwyr at greadigaeth yr hybrid fod yn fwy sylweddol na chyfraniad y trefedigaethedig.

Gall synergedd, ar y llaw arall, geisio datrys y broblem honno drwy asesu a chymharu cyfraniad y grymoedd eraill sydd ar waith yn y broses hon. Mae'n esgor ar ddarlun mwy cymhleth, ac yn achos Dafydd ap Gwilym byddai'n gallu ystyried dylanwadau diwylliant Ewropeaidd, Lladin ei iaith, neu ddiwylliant Gwyddelig, ar y farddoniaeth. Yn ei thrafodaeth, â Bohata ati i drafod addasrwydd y term synergedd ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru:

This idea of synergetic cultural production might be especially helpful in the Welsh context, since one of the most limiting discourses of Welsh cultural identities has been that which is confined to binary constructions of Welshness as being reciprocally linked to degrees of difference from, or similarity to, Englishness (2004: 130).

Mae hwn yn rhybudd pwysig. Ond ar y llaw arall, gall cryfder synergedd fod yn wendid iddo. Mae'n derm sy'n cyfleu cysyniadau amrywiol iawn, ond nid yw'n cynnig methodoleg amlwg i'r sawl sydd am ei ddefnyddio'n ymarferol. Un o fanteision mawr gwaith Bhabha yw bod ei athronyddu am hybridedd wedi esgor ar nifer helaeth o drafodaethau ymarferol ar lenyddiaeth mewn modd nad yw'n wir am synergedd. Rhaid nodi hefyd mai trafod llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif a wna Bohata. Yn yr Oesoedd Canol, ac yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn benodol, fel y dengys gwaith Rees Davies, yr oedd y ddeuoliaeth Cymro/Sais yn llawer pwysicach nag yr oedd yn ddiweddarach. Nid oedd modd ei hosgoi—roedd yn rhan sylfaenol o system gyfreithiol y wlad. Gweld y tu hwnt i'r ddeuoliaeth hon yw un o amcanion y traethawd hwn, ac felly bydd hybridedd Bhabha yn arf dra defnyddiol yn yr ymdrech honno.

Trafferth mewn Tafarn (73)

A hithau'n un o gerddi mwyaf adnabyddus Dafydd ap Gwilym, mae cynnwys 'Trafferth Mewn Tafarn' (73) yn gyfarwydd iawn i'r rhan fwyaf o bobl. Yn syml, ceir

yma hanes anturiaeth garwriaethol. Mae'r carwr yn cyrraedd llety mewn dinas ac mae merch brydferth yn dal ei sylw yno. Mae yntau'n rhoi ei fryd ar gael perthynas gorfforol â'r ferch ac yn mynd ati i'w hudo. Yn sgil creu argraff arni mae'r ddau yn cytuno y deuai'r carwr at ei gwely ar ôl i drigolion eraill y llety fynd i gysgu. Ar ôl gwneud cytundeb â hi mae'r olygfa wedi ei gosod ar gyfer taith lwyddiannus i ddod o hyd i wely'r ferch, ond nid felly y mae. Daw'r carwr hwn ar draws sawl rhwystr yn ystod y daith gan greu twrw a llanast ar hyd y llety a deffro'r lletywyr eraill o'u gwelyau. Rhaid iddo ddychwelyd i'w wely ei hun yn waglaw, heb gariad y ferch. Try'r anturiaeth garwriaethol yn fethiant llwyr a'r gerdd yn ei chyfanrwydd yn fynegiant croyw o'r rhwystrau lluosog sy'n wynebu'r carwr.

O'r crynodeb cyffredinol uchod, mae'n ddigon hawdd ystyried y gerdd hon fel stori garu a aeth o le. Fodd bynnag, ceir yn y gerdd hon sawl cyfeiriad uniongyrchol at ddiwylliant ac at hunaniaeth. Mae'r carwr yn pledio'i hunaniaeth drwy'r ebychiad 'Cymry a'm câr' (ll. 50), ac cwrdd â'r cymeriadau Seisnig sy'n elynion iddo, 'Drisais mewn gwely drewsawr' (ll. 52). Nid un llais yn unig a glywir ychwaith, gan fod y tri Sais hwythau'n llefaru ac yn dangos eu hymateb i bresenoldeb y carwr: 'Cymro ... Lleidr yw ef' (llau. 57–9). Yng nghanol y stori garu hon felly, ceir adleisiau o'r tyndra diwylliannol a fodolai rhwng Cymry a Saeson gyda chymeriadau'r gerdd hon yn pledio'u hunaniaeth drwy ffafrio un diwylliant a dangos gelyniaeth at y llall. Ceir yma felly sylwebaeth ddiwylliannol sy'n rhoi dimensiwn ychwanegol i'r gerdd adnabyddus hon am anawsterau serch.

Dyna yw craidd y ddwy drafodaeth bwysicaf ar y gerdd hon, y naill gan Tony Conran a'r llall gan Helen Fulton. Gan eu bod ill dau yn dadansoddi rhai themâu

canolog i ystyriaethau ôl-drefedigaethol, fe'u defnyddir yma'n sbardun ar gyfer darlleniad ôl-drefedigaethol. Wrth drafod 'Trafferth mewn Tafarn' ac 'Athrodi ei Was' (sef 'Sarhau ei Was' yn DG.net, 74), dywed Fulton: 'the persona ... is of a young squire, representing the urban population of the Welsh boroughs, with aspirations to nobility, and his loss of dignity represents the nobility's reluctance to accept these pretensions' (1989: 211). O gofio dadl Fulton mai ar gyfer cynulleidfa uchelwrol y cyfansoddai Dafydd, mae'n drawiadol nad yw persona'r bardd yma'n uchelwrol, er gwaethaf ei gyfoeth a'i statws economaidd. Mae ganddo was a'r gallu i brynu gwin drud a bwyd o safon, ond er hynny nid oes ganddo'r statws cymdeithasol yr hoffai ei gael. A chan fod yr uchelwyr fel dosbarth yn edrych i lawr ar fwrdeiswyr trefol, beth bynnag fo eu cyfoeth economaidd, y mae methiant y carwr a'r modd y mae'n colli'r urddas a ddengys yn llinellau agoriadol y gerdd yn cadarnhau safle'r uchelwyr fel dosbarth cymdeithasol elitaidd sydd â'r gallu i rwystro grwpiau eraill rhag cystadlu ag ef. Mewn geiriau eraill, 'Dafydd is making a clear distinction between noble society, which is that of his audience, and the bourgeois environment of the borough towns and settlements' (1989: 213). I Fulton, mae'r agweddau hyn yn eu hamlygu eu hunain drwy'r rhwystrau a roddir yn ei lwybr:

The detailed description of the course of events, with its emphasis on physical contact between the poet and an assortment of mundane domestic appliances, underlines the non-courtly nature of his love-pursuit which is motivated purely by physical desire. It is only when he is safely back in his room, having roused the entire household, that he thankfully prays to God for forgiveness, a blatantly expedient use of religious support. (1989: 213)

Nodwyd eisoes mai'r goedwig, i Fulton, sy'n cynnig llwyfan ar gyfer caru ysbrydol yn ogystal â chorfforol ei natur, ac sydd drwy hynny'n ddrych i werthoedd ysbrydol a materol yr uchelwyr. Mae'r dodrefn a'r offer tŷ 'mundane' yn wrthbwynt i hynny, ac

yn cynnig beirniadaeth foesol ar y gŵr ifanc sy'n cynrychioli cymdeithas drefol y bwrdeistrefi Seisnigaidd: 'The lover's loss of dignity during the course of his adventures, including the waking of the "drisais mewn gwely drewsawr"', meddai Fulton, 'is a judgement on his social pretensions and his uncourtly lust' (1989: 213).

Yn wahanol i Fulton, seilia Conran ei ddadleuon ef yn fwy uniongyrchol ar y gwahaniaethu hunaniaethol a diwylliannol a grybwyllir yn y gerdd, yn hytrach nag ar ddsbarth cymdeithasol. Yn ôl Conran, mae Dafydd yn mabwysiadu rôl Sais ar ei daith i geisio'r ferch:

Dafydd's playing at being a fine aristocrat at a tavern in a town was, therefore, an Anglo-Norman kind of behaviour; and his irony is on himself playing the Englishman right from the start (2003: 57)

Gwelwn eto y defnydd o'r term 'Anglo-Norman', ond yma ymddengys fod Conran yn ei ddefnyddio mewn modd sydd fwy neu lai'n gyfystyr â'r term 'English'. Dadl Conran yw bod Dafydd, y Cymro, wedi ymadael â'i ddiwylliant uchelwrol Cymreig wrth droedio i fyd y ddinas, gan fabwysiadu dull o ymddwyn sy'n fwy cydnaws ag ymddygiad Sais cefnog sy'n prynu gwin drud a chig rhost costus. Mae'r carwr hwn felly yn symud o begwn Cymreictod at begwn Seisnigrwydd. Ar ddiwedd y gerdd, fodd bynnag, awgryma Conran fod Dafydd yn dychwelyd i'w ddiwylliant a'i hunaniaeth frodorol ei hun: 'Is he not saying that, anyway for one night, he will be content to be poor and Welsh, because that at least is safe?' (2003: 58). Ni cheir cyfaddawd rhwng y pegynau ac mae 'Trafferth mewn Tafarn' i Conran, felly, yn fynegiant o arwahanrwydd sylfaenol Cymreictod a Seisnigrwydd, a goruchafiaeth y Saeson.

Diddorol yw oedi am ychydig i ystyried y ddau ddehongliad hyn. Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhyngddynt. I Fulton, persona'r bardd yw 'a young squire, representing the urban population of the Welsh boroughs, with aspirations to nobility' (1989: 211). Nid yw ei hunaniaeth ethnig yn gwbl glir, gan fod y bwrdeistrefi yng Nghymru'r cyfnod yn bur gymysg—er mai Saeson yn ddamcaniaethol oedd preswylwyr y trefi at ei gilydd, roedd elfen Gymreig gref hefyd yn y boblogaeth, fel y nodwyd eisoes. Yn hytrach, statws sosio-economaidd y llefarydd yw'r sail ar gyfer y gerdd. I Conran, hunaniaeth ethnig y llefarydd fel Cymro uchelwrol yw craidd y gerdd. Mae hyn yn wahaniaeth go sylweddol, wrth gwrs, gan fod dehongliad Conran o'r cymeriad yn cyfateb yn bur agos i'r hyn y dywed Fulton sydd y tu hwnt i'w gyrraedd, sef statws uchelwr.

Ar y llaw arall, mae cryn debygrwydd rhwng dehongliad Fulton a dehongliad Conran, gan eu bod ill dau yn ymwneud ag ymdrechion y llefarydd i'w osod ei hun mewn cyd-destun newydd. I Fulton, cyd-destun sosio-economaidd newydd yw nod y llefarydd; 'isio bod yn Sais' (chwedl Huw Jones) y mae'r un cymeriad ym marn Conran. Methiant i gyrraedd y cyd-destun newydd hwn yw testun y gerdd i'r ddau feirniad, ac yn hynny o beth maent yn awgrymu mai moeswers o fath yw'r gerdd yn ei hanfod sy'n pregethu yn erbyn ymdrechion hy y llefarydd i newid hunaniaeth. Ac mewn oes sylfaenol geidwadol, pan oedd disgwyl i unigolion dderbyn yn raslon yr ystâd yr oedd Duw wedi ei rhoi iddynt, mae'r darlleniadau hyn, er gwaethaf y gwahaniaethau ynddynt, yn atyniadol.

Nid bwriad hyn o drafodaeth yw ffafrio'r naill ddehongliad na'r llall, wrth gwrs, er y gellid nodi bod dechrau'r gerdd ('Deuthum i ddinas dethol ...'), sy'n

awgrymu bod y llefarydd yn dod i'r dref o rywle arall, yn awgrym posibl nad bwrdeisiwr ifanc mohono. Yn hytrach, trwy gyfrwng y cysyniad o hybridedd, gobeithir cwestiynu'r hunaniaethau y mae Conran yn awgrymu eu bod yn gyson a digwestiwn, sef Cymreictod a Seisnigrwydd. Man cychwyn y trafodaethau uchod, ac yn arbennig ymdriniaeth Conran, yw bod y 'pegynau' hyn yn bodoli'n ddigwestiwn ac nad oes angen eu harchwilio'n fanwl. Ond tybed a yw'r darlun mor syml â hynny? Gwelwyd eisoes nad yw'r syniad o ddeuliaethau yn un cwbl ddilys a bod unrhyw fynegiant o hunaniaeth yn denu trafodaeth ar berthynas y pegynau â'i gilydd. Ydyw, mae'r carwr yn mentro i fyd y bwrgais yn yr adran agoriadol hon ac yn ei gael ei hun yn rhan o ddiwylliant Seisnig, ond a yw cymaint â hynny allan o'i le yno? A oes dehongliad arall yn bosibl ar gyfer yr elfennau hunaniaethol sydd mor amlwg yn y gerdd 'Trafferth mewn Tafarn'?

Awn yn ôl at ddechrau'r gerdd. Yn ogystal â chyflwyno'r olygfa mae gan y delweddau agoriadol hyn arwyddocâd arbennig wrth gyflwyno darlun o gymdeithas benodol. Mae'r carwr wedi cyrraedd 'dinas' ac mae ganddo was yn gwmni iddo:

Deuthum i ddinas dethol
A'm hardd wreang i'm hôl. (1-2)

Mae'r cyfeiriad penodol at gyrraedd dinas yn awgrymu ei fod wedi teithio o rywle arall a bod y lle hwnnw yn wahanol i'r 'ddinas dethol'. Mae awgrym yn y llinell gyntaf o symud ac o newid, a gall fod y symud corfforol hwn yn drosiad ar gyfer newid o fath arall, diwylliannol efallai. Gall y defnydd o'r gair 'dinas' hefyd fod yn arwyddocaol. Gall olygu 'caer, amddiffynfa, cadarnle' (GPC 1019), ac mae'n air sydd yn aml â chysylltiadau llenyddol a chwedlonol. Fe'i gwelir yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*, er enghraifft, pan ddywedir i Llew Llaw gyffes gael ei fagu yn Ninas

Dinllef, ‘amddiffynfa fawr o bridd ar lan y môr i’r De o Abermenai’ (Williams 1996: 278, 81.10). Nid ymddengys ei fod yn air ‘pob dydd’ cyfystyr â ‘tref’. Gall fod elfen chwedlonol i’r gair ‘dinas’ yng nghyd-destun ‘Trafferth mewn Tafarn’, felly, ac yn sicr mae’r gair yn cyfleu safle amddiffynnol o ryw fath. Mae awgrymusedd y gair ‘dethol’ ei hun yn awgrymu nad ar hap a damwain y teithiodd y carwr i’r lle hwn. Nid teithio ar ei ben ei hun a wna ychwaith; mae ganddo gwmni gwas. Rhoddir pwyslais ar statws y cymeriad trwy’r ffaith fod ganddo was ifanc yn gwmni iddo ar ei daith ac mae’r modd y mae’r gwas hwnnw’n dilyn y carwr hefyd yn pwysleisio’r statws uchelwrol hwnnw: ‘A’m hardd wreang i’m hôl’ (ll. 2). Caiff y statws hwnnw ei danlinellu eto drwy ebychiad y carwr, ‘balch o febyd fûm’ (ll. 4). Cafodd fagwraeth dda ac mae’n gosod bri ar hynny. Cyflwynir darlun cadarnhaol o fyd yr uchelwyr, felly. Ac nid yw’r carwr yn swil wrth fynegi ei falchder, ei chwaeth, a’i statws uchel.

Ond wedyn, dywed mai ‘llety, urddedig ddigon, / Cyffredin’ (ll. 5–6) sy’n rhoi to ei uwch ben ef a’i ‘wreang’. Ac wedi iddo ddechrau sgwrsio â’r ferch, dywed:

Prynu rhost, nid er bostiaw,
A gwin drud, mi a gwen draw. (11–12)

Y dehongliad arferol o hyn yw mai arwydd o ffuantrwydd y siaradwr yw’r gosodiad nad yw’n ymffrostio wrth brynu rhost a gwin drud. Yn ôl dehongliad Conran, byddai’r benthyciad Saesneg neu Ffrangeg ‘rhost’ a ‘bostiaw’ yn arwydd o’r ffaith fod y carwr yn ceisio mabwysiadu Seisnigrwydd mursennaidd, a’r gynghanedd lusk yn cadarnhau’r cysylltiad rhwng y ddau air. Yng ngeiriau Gwyn Thomas, ‘dyma Dafydd yn dechrau dangos ei hun, er ei fod o’n gwadu hynny—“nid er bostiaw”’ (1980: 80). Ond tybed ai dyna’r unig ddehongliad posibl? Gwelsom eisoes fod Dafydd yn ddigon hapus i gyfeirio at ei was a’r balchder a feddai ers iddo fod yn

blentyn. Nid yw'n cuddio ei gyfoeth na'i gefndir breintiedig. Ymhellach, mae'n ddigon parod i nodi mai mewn 'llety ... cyffredin' y bydd yn aros, yn hytrach nag mewn neuadd neu gartref ysblennydd. Mae tŷn ffeithiol a di-lol i ddechrau'r gerdd. Wrth gwrs, nid amhosibl fod Dafydd yn newid ei strategaeth rethregol wrth sŷn am y gwin a'r rhost, ond mae'r ffuantwrwydd honedig yn dra gwahanol i'r traethu agored ac ymddangosiadol onest a gafwyd ar ddechrau'r gerdd.

Gan hynny, mae lle i ddadlau y dylid cymryd y carwr wrth ei air pan ddywed 'nid er bostiaw'. Ond pam y cyfeiriad at ymffrostio yn y lle cyntaf os nad dyna mewn gwirionedd yw'r hyn y mae'r carwr yn ei wneud? Un ateb posibl yw bod y carwr yma'n ymateb i ddisgwrs sy'n seiliedig ar ystrydebau trefedigaethol. Cyn archwilio'r syniad hwn, edrychwn ar un o ddiffiniadau Bhabha o ddisgwrs trefedigaethol:

It is an apparatus that turns on the recognition and disavowal of racial/cultural/historical differences. Its predominant strategic function is the creation of a space for a 'subject people' through the production of knowledges in terms of which surveillance is exercised and a complex form of pleasure/unpleasure is incited. It seeks authorization for its strategies by the production of knowledges of colonizer and colonized which are stereotypical but antithetically evaluated. The objective of colonial discourse is to construe the colonised as a population of degenerate types on the basis of racial origin, in order to justify conquest and to establish systems of administration and instruction. (1994: 70)

Er bod y ddadl yma'n dra chymhleth—fel y mae yn aml yn achos gwaith Bhabha—gellir nodi'n syml fod rôl amlwg a gweithredol i'r ystrydeb wrth gyfiawnhau concwest a sefydlu cyfundrefnau llywodraethol ac addysgol, a bod ymdrechion i wadu dilysrwydd ystrydebau yn gymaint rhan o ddiwylliant trefedigaethol ag y mae'r awydd i'w creu.

Ac yng Nghymru'r Oesoedd Canol, roedd ystrydebau o'r fath yn sicr ar waith. Dyna yw craidd trafodaeth Foster Evans (2006) ar 'Y Pwll Mawn', wrth iddo lunio darlleniad o'r gerdd ar sail yr ystrydeb ganoloesol nad oedd y Cymry'n gwisgo dim am eu traed. O safbwynt 'Trafferth mewn Tafarn', gellir nodi bodolaeth ystrydeb ddigon tebyg a fodolai ymhlith y Saeson, sef y ddelwedd o'r Cymry fel pobl dlawd nad oedd ganddynt na'r awydd na'r gallu i fwynhau pleserau materol bywyd. Y mynegiant croywaf o hyn yw gwaith Gerallt Gymro. Honna nad yw'r Cymry yn gosod pwyslais ar bethau materol, megis bwyd ac yfed gwin drud: 'nid ymroddant nac i feddwdod nac i gyfeddach; ni ddangosant foethusrwydd o gwbl, nac yn eu bwyd nac yn eu dillad' (1938: 181). Er bod y geiriau hyn ddwy ganrif yn gynharach na chyfnod Dafydd nid oedd y syniad wedi newid yn sylfaenol erbyn oes y bardd, ac ni fyddai'n newid am amser go faith wedi hynny ychwaith (os yw wedi newid o gwbl). Gellid bwrw amcan pur hyderus y byddai trigolion trefi Seisnig Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn ddigon parod i gadw'r hen ystrydeb hon yn fyw. Ac mae defnydd Dafydd o'r gair 'dinas' yn awgrymu mai tref gaerog, Seisnig yw lleoliad y gerdd hon.

Gan hynny, tybed nad yw'r carwr yma yn edrych arno'i hun drwy lygaid y trefedigaethwyr? Mae'n Gymro sydd mewn tref Seisnig, a diau yn ymwybodol o sut y bydd y Saeson yn edrych ar y Cymry. Mae'n gyfarwydd â'u hystrydebau trefedigaethol (fel cynulleidfa'r gerdd hithau mae'n siŵr, o gofio sut y mae'r tri Sais yn uniaethu'r Cymro â lleidr yn y man) ac o fod mewn lleoliad trefedigaethol, mae'n teimlo'r angen i'w amddiffyn ei hun rhag cyhuddiadau cyn iddynt gael eu mynegi. Gŵyr ei fod yn ymddwyn yn groes i'r ystrydeb, ac mae'n teimlo'r angen i gyfiawnhau hynny. Nid er mwyn 'bostiaw' y mae'n prynu gwin drud a rhost, ond yn hytrach am mai dyna a fyddai'n naturiol i Gymro o'i gefndir a'i dras ef ei wneud, er

gwaethaf yr ystrydeb a fynnai wadu ei soffistigedigrwydd. Wedi'r cyfan, mae'r traddodiad barddol Cymraeg yn gyforiog o gyfeiriadau at noddwyr yn yfed gwin a'i rannu gyda'u pleidwyr a'u beirdd.

Mae'r awgrym hwn yn dwyn i gof syniadau Franz Fanon, ffigwr pwysig iawn yn hanes cynnar theori ôl-drefedigaethol. Wedi iddo symud i Ffrainc o Martinique yn y Caribî, daeth yn ymwybodol o'r modd yr oedd pobl wyn yn pwyntio bys ato, yn galw enwau arno, ac yn diffinio ei hunaniaeth drosto. Yng ngeiriau McLeod mewn trafodaeth ar ysgrif Fanon 'The Facts of Blackness':

He [Fanon] is forced to see himself not as a human *subject*, with his own wants and needs ... but an *object*, a peculiarity at the mercy of a group that identifies him as inferior, less than fully-human, placed at the mercy of their definitions and representations. The violence of the 'revision' of his identity is conveyed powerfully in the image of amputation. Fanon feels abbreviated, violated, imprisoned by a way of seeing him that denies him the right to define his own identity as a subject. Identity is something that the French *make for him*. (2000: 21)

Wrth nodi hyn, deawn wyneb yn wyneb ag un o broblemau pennaf ôl-drefedigaethedd, sef perygl gwneud cysylltiadau rhy hawdd rhwng sefyllfaoedd sydd yn gwbl wahanol i'w gilydd. Nid bwriad y drafodaeth bresennol yw cyffelybu profiad Fanon a phoblogaeth groenddu Ewrop yn yr ugeinfed ganrif i brofiad Dafydd ap Gwilym fel Cymro yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond hoffwn awgrymu bod Dafydd ar ddechrau'r gerdd hon yn llunio unigolyn sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r hunaniaeth a grëir iddo gan grŵp mwy pwerus, sef y Saeson.

Wrth drafod y gerdd hon, dywed Dafydd Johnston fod y carwr yn 'ymhonni'n fawreddog er mwyn gwneud argraff ar y ferch ar y dechrau ac yn edrych yn wirion erbyn y diwedd' (2005: 157). Ond mae darlleniad ôl-drefedigaethol yn awgrymu nad

yw'r carwr yn 'ymhonni', ond yn hytrach mae'n ymddwyn mewn ffordd naturiol iddo ef mewn lleoliad sydd yn drwm dan ddylanwad disgwrs trefedigaethol ac sy'n ceisio ei ddiffinio fel Cymro tlawd, diurddas. Mae'n prynu rhost a gwin drud oherwydd dyna sy'n nodweddiadol o'i gymeriad. Mae ei ymddygiad yn gwbl naturiol a disgwylidig. Nid brolio y mae o gwbl, er ei fod yn ymwybodol y bydd ei weithredoedd yn mynd yn groes i'r syniad o'i hunaniaeth a grëir iddo gan eraill. Mae'r gwin a'r rhost, er gwaethaf y ffaith eu bod yn tarddu yn eu hanfod o ddiwylliant arall, yn rhan annatod o gymeriad a hunaniaeth y carwr. A hunaniaeth hybrid, a defnyddio'r term yn yr ystyr a rydd Bhabha iddo, yw honno.

I ddatblygu'r drafodaeth hon ymhellach, mae angen nodi ymateb y carwr i gymeriadau eraill y dafarn. Ceisia ei osod ei hun ar wahân i yfwyr ifainc y llety, ond nid am resymau yn ymwneud â hunaniaeth ethnig. Y rheswm, yn ôl y carwr, yw bod y cymeriadau hynny'n rhai swllyd: 'Gwaraeau a gâr gwŷr ieuainc' (ll. 13) meddai ef yn ddigon amyneddgar. Mae yntau, ar y llaw arall yn barod i wrando—mae'n 'ŵr hy astud' sy'n siarad yn dawel gyda 'hustying' (ll. 17) a 'deuair o hud' (ll. 18) yng nghlust y ferch. Mae hunaniaeth y ferch ei hun yn gallu cyfrannu at greadigaeth yr hybrid hefyd. Dyma'r ferch, sydd yn ôl y carwr, o 'liw haul dwyrain' (ll. 9), neu '*full of Eastern promise*' fel y dywed Gwyn Thomas yn gellweirus (1980: 80). Cysylltir y ferch hon, felly, â'r dwyrain a gall fod yma awgrym o'i hunaniaeth Seisnig. Ond nid yw ethnigrwydd y ferch yn rhywbeth y mae'r carwr yn teimlo'r angen i roi sylw iddo.

Dim ond pan fo'r carwr yn ceisio gwneud trefniant i gwrdd â hi y gwelwn awyrgylch y gerdd yn dechrau newid:

Gwneuthur, ni bu segur serch,

Amod dyfod at hoywferch
Pan elai y minteioedd
I gysgu; bun aelddu oedd. (21–4)

Fel arfer, cysylltir y term ‘minteioedd’ â’r syniad o ryfela neu osgordd o filwyr ar faes y gad, ac felly mae’r defnydd o’r term yng nghyd-destun cymeriadau’r llety yn dechrau peri anesmwythyd.

Hyd yn hyn felly, mae’r stori yn symud yn ôl bwriad a dyhead y carwr. Llwydda i greu ‘amod’ gyda’r ferch a threfnu y byddai’n mynd at ei gwely gyda’r nos. Ond fel gyda phob stori dda, ceir trobwynt, ac yn y drydedd adran daw diwedd ar lwyddiant y carwr. Gyda’r lletywyr i gyd yn eu gwelyau, â’r carwr ati ar ei daith i ddod o hyd i wely’r ferch, ond ‘alar fu’ (ll. 28). Mae’r sioc hwn yn ein paratoi ar gyfer disgrifiad bywiog o’r rhwystrau y daw’r carwr ar eu traws, i gyd yn ei atal rhag cyrraedd ei ‘hoywferch’ (ll. 22). Cafodd ‘gwymp dig’ (ll. 30) ac wrth godi tarodd ei goes yn erbyn stôl:

Briwais, ni neidiais yn iach,
Y grimog, a gwae’r omach,
Wrth ystlys, ar waith ostler
Ystôl groch ffôl, goruwch ffêr. (31–4)

Nid dyna ddiwedd y troeon trwstan ychwaith. Mae’n taro’i dalcen ‘wrth ben y bwrdd’ (ll. 38) ac o ganlyniad mae padell yn syrthio i’r llawr gan greu sŵn anferth:

Rhoi diasbad o’r badell,
I’m hôl y’i clywid ymhell. (43–4)

Mae’r sŵn i’w glywed drwy’r llety, felly. O gofio mai’r tafarnwyr eraill a ddaeth o dan feirniadaeth y carwr am gadw reiat ar ddechrau’r gerdd, y carwr ei hun sy’n

creu'r twrw y tro hwn. Mae'r ymgais i'w osod ei hun ar wahân i'r cymeriadau hynny, felly, wedi methu'n llwyr.

Fodd bynnag, o droi at y troeon trwstan sy'n amharu ar daith y carwr at ei gariad, ceir cyfeiriad uniongyrchol at hunaniaeth. Ar ôl taro ei goes yn erbyn 'ystôl groch ffôl' (ll. 34), mae'r carwr yn ei ddryswech a'i drybini yn datgan, 'Cymry a'm câr' (ll. 50). I Gwyn Thomas, nid oes arwyddocâd i hyn y tu hwnt i elfen o hiwmor sydd wedi ei seilio ar ledneisrwydd yr ymadrodd o'i gymharu â'r hyn yr hoffai'r bardd ei ddweud: 'Ystyriwch yr hyn a ddywedech chwi petaech chi wedi taro eich bys â morthwyl. Ie, yr union eiriau—"Cymry a'm câr!", yn lle rheg neu waedd o enbydrwydd. Mi ddylai'r anaddasrwydd fod yn ddigrif' (1980: 81). Ond efallai fod yr ymadrodd anghyffredin hwn yn gofyn am ragor o drafod na hynny, yn sicr mewn cydestun ôl-drefedigaethol.

O safbwynt dehongliad Conran, gellid awgrymu bod yr ymadrodd yn mynegi sylweddoliad y carwr mai Cymro ydyw wedi'r cyfan, ac mai Cymry yn unig a fydd yn ei gefnogi. Bydd y Cymry yn achubiaeth iddo rhag y ddinas a'i dodrefn, sydd wedi rhwystro'r carwr rhag cyrraedd ei nod. Ond o dderbyn mai Cymro hybrid yw'r carwr, gellid deall yr ymadrodd fel mynegiant o'r ffaith fod y Cymry fel grŵp neu genedl yn cymradwyo ei ddiwylliant hybrid. Mae'n drawiadol mai cwrdd â sefyllfa anffafriol sy'n peri mynegi'r ymwybyddiaeth hon o Gymreictod, mewn modd nid annhebyg i'r hyn a ddigwyddodd yn 'Y Cleddyf' a drafodwyd ym mhennod pump. Mae'r hunaniaeth hybrid yn rhan barhaol o gymeriad y carwr ac o bosibl, yn cwmpasu Gymreictod yn ei chyfanrwydd, er gwaethaf ystrydebau y trefedigaethwyr o Saeson a geisiai gadw'r Cymry yn eu lle drwy gyfrwng eu disgwrs trefedigaethol. Ymhlyg yn y

dehongliad hwn, felly, ceir awgrym nad yw'r diwylliannau hynny yn endidau sydd am y pegwn croes â'i gilydd. Llunia'r carwr gymeriad amwys ohono'i hun sy'n awgrymu bod ei genedligrwydd hefyd yn amwys, neu yn hytrach ei fod yn Gymro ond yn Gymro hybrid. Disgwrs trefedigaethol wedyn sy'n creu Cymreictod syml ac unffurf, ond nid dyna yw profiad y carwr.

Mae'r hybridedd diwylliannol hwn i'w gweld ymhellach yn y cyfeiriadau at y tri chymeriad sy'n fygythiad pellach i'r carwr. Ar ôl syrthio a tharo yn erbyn y dodrefn uchod, mae'r carwr yn taro ar dri Sais mewn gwely:

Lle'r oedd garllaw muroedd mawr
Drisais mewn gwely drowsawr (51–2)

Yma, gwelir ymateb nodweddiadol y Cymry tuag at y Saeson, ac efallai ôl ymdrech y Cymry hwythau i lunio ystrydebau i darfu ar y disgwrs trefedigaethol arferol. Cyflwynir darlun negyddol o'r tri Sais yn drewi yn y llety, a dywedir bod un ohonynt yn ddreflog: 'delff soeg enau' (ll. 55). Roedd y ddelwedd hon o Sais dreflog yn dra chyfarwydd yn yr Oesoedd Canol. Dywed Hugh M. Thomas fod 'a devotion to eating and drinking' (2003: 299) yn nodwedd a gysylltid yn benodol â'r Saeson yn yr Oesoedd Canol: 'the English drank a lot' (2003: 301). Mae'n bosibl mai rhagfarn sy'n gyfrifol am ymateb y carwr yntau i'r 'trisais' hwnnw, felly, yn enwedig o gofio mai yn y tywyllwch y digwydd y strach yma, yn ôl pob golwg. Ceir yma ymwybyddiaeth ethnig ac ymgais i wahaniaethu'n ddiwylliannol wrth i'r carwr ei osod ei hun ar wahân i'r tri chymeriad hyn.

Nid darlun unochrog mo hwn ychwaith, oblegid bod y Saeson yn ymateb i gynnwrf y Cymro. Dywed y gwas dreflog hwnnw:

'Mae Cymro, taer gyffro twyll,
Yn rhodio yma'n rhydwyll;
Lleidr yw ef, os goddefwn
'Mogewlch, cedwch rhag hwn.' (57–60)

Yn union fel y mynegodd y carwr ei ymateb i'r Saeson, felly hefyd y mae gan y tri Sais rywbeth i'w ddweud am eu perthynas â'r Cymry. Gelwir y carwr yn 'lleidr' (ll. 59) ac mae'r Saeson am eu gwarchod eu hunain rhag crafangau'r lleidr hwnnw, "'Mogelwch, cedwch rhag hwn'". Unwaith eto, fel y nododd Gwyn Thomas (1980: 82), mae'r syniad fod y Cymro'n lleidr yn hen ystrydeb, ac nid yw'n syndod ei fod yn codi ei ben yma.

Ar yr wyneb, y mae'r Saeson hyn yn poeni y bydd y Cymro'n dwyn eu heiddo, fe ymddengys. Ond mwy buddiol yw ystyried eu hymateb yng nghyd-destun disgwrs trefedigaethol. Maent yn galw'r carwr yn Gymro ac yn lleidr ar yr un gwynt, gan gysylltu'r ddau derm â'i gilydd. Wrth wneud hynny maent yn lleoli'r Cymro mewn disgwrs trefedigaethol sydd yn pennu ei israddoldeb ac yn datgan yn groyw ei ddiffygion moesol. Mae'r Cymro fel lleidr yn hen ystrydeb (ond sylwer mai fel lladron yr ystyriai Cymry'r Oesoedd Canol y Saeson oll, gan iddynt 'ddwyn' Ynys Prydain oddi ar y Brythoniaid, ei pherchnogion cyfiawn). Os yw'r Cymro yn lleidr, mae hynny yn cyfiawnhau presenoldeb y Saeson yng Nghymru gan fod yn rhaid i rywun unioni diffyg moesoldeb y brodorion. Ymhellach, mae'r rhybudd "'Mogelwch, cedwch rhag hwn'" yn fwy na chynghor ymarferol. Mynegiant ydyw o ofn y trefedigaethwr y bydd y trefedigaethedig yn dod yn rhy debyg iddo, ac felly'n bygwth ei awdurdod. Dyma nodwedd gyffredin o sefyllfa drefedigaethol, ac roedd y Saeson yn yr Oesoedd Canol yn dra ymwybodol o beryglon closio at y trefedigaethedig. Yr enghraifft glasurol o hyn yw Statud Cill Chainnigh (1366),

dogfen sy'n mynegi ofn, panig efallai, ymhlith y Saeson yn Iwerddon eu bod yn dechrau colli eu hunaniaeth drwy ymdebygu i Wyddelod. Roedd ofnau o'r fath ar gael yng Nghymru, ac fe'i mynegwyd yn fwyaf clir yn sgil Gwrthryfel Glyndŵr (Davies 1995: 322). Diau eu bod hefyd yn bodoli yng nghyfnod Dafydd.

Mae'r elfennau uchod o gydnabod hunaniaethau gwahanol ac adnabod cymeriadau yn ôl eu hunaniaeth yn ddiddorol o ran creadigaeth yr hybrid. Ar ddechrau'r gerdd, ni cheir unrhyw awgrym o hunaniaeth y carwr na chymeriadau'r llety. Mae'r carwr yn mentro i'r dafarn heb ddenu sylw ato'i hun am fod yn Gymro. Mae'n dod yn rhan annatod o'r dafarn, yn union fel y mae'r cymeriadau eraill yn rhan annatod ohoni. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yfwyr y dafarn yn gwybod mai Cymro ydyw, er yn ymarferol diau y byddai hynny'n amlwg i bawb. Mae'r cyfeiriad at dywyllwch ar ddiwedd y gerdd hefyd yn arwyddocaol. O gofio ei bod hi ganol nos, mae'n debyg na fyddai'r cymeriadau eraill yn gallu gweld Dafydd o gwbl heb sôn am allu adnabod y cymeriad hwn yn ôl ei Gymreictod. Ar ôl dianc o olwg Hicin, Siencin a Siac rhaid i'r carwr gadw'n dawel mewn cornel dywyll. Fe'i gwelir 'yn tewi yn y tywyll' (ll. 66). Gellid cynnig bod y tywyllwch hwn yn gadarnhad pellach o sefyllfa a hunaniaeth hybrid y carwr—mae'n ofod amhendant, annelwig nad oes modd ei ddiffinio, er gwaethaf ymdrechion y cymeriadau i wneud hynny.

Mae adran olaf y gerdd yn gadarnhad pellach o'r hybrid diwylliannol sy'n ei amlygu ei hun yn y gerdd hon. O ganlyniad i'r twrw a'r cyffro mae cymeriadau'r llety i gyd wedi diuno ac yn mentro i chwilio am Ddafydd:

Gygus oeddynt i'm gogylch
Bob naw i'm ceisiaw o'm cylch (63–4)

Mae Dafydd yn gorfod dianc o’u gafael, ac felly’n ei gael ei hun mewn cuddfan, ‘dan gêl’ (ll. 68) ond yn waglaw heb ei drysor o ferch, ‘heb sâl’ (ll. 72). Mae’r cymeriad hwn wedi gorfod dychwelyd ar ei ben ei hun i’w wely wrth hen wâl, ‘fy henwal fy hun’ (ll. 72). Yn ôl Tony Conran, ceir yma ymwybyddiaeth o Gymreictod. O ddychwelyd i’w wely heb y ferch, honna Conran fod Dafydd wedi bodloni ar fod yn dlawd am fod hynny’n rhoi diogelwch iddo. Yn fwy na hynny, mae’r tlodi a’r diogelwch hwnnw yn arwydd ei fod yn Gymro, ‘Is he not saying that, anyway for one night, he will be content to be poor and Welsh, because that at least is safe?’ (2003: 58). Awgryma Conran fod y delweddau uchod yn cyferbynnu â sefyllfa’r carwr ar ddechrau’r gerdd ac â’r ‘ddinas dethol’ (ll. 1) y daeth Dafydd iddi. Hanfod dadl Conran, felly, yw bod cymeriad Dafydd wedi teithio o fod yn Gymro i fabwysiadu nodweddion Sais, ond ei fod ar ddiwedd y gerdd yn dychwelyd at ei Gymreictod.

I Bhabha, fodd bynnag, gwelwyd bod y pegynau hynny yn troi’n gysyniadau amodol a’r Trydydd Gofod hybrid yn dod yn fodolaeth fwy real yn eu lle. O droi at dystiolaeth yr adran olaf, mae’r Trydydd Gofod hwn yn dod fwyfwy i’r amlwg ac arwahanrwydd pegynau Conran uchod yn cael ei gwestiynu. Er bod y carwr ar ei ben ei hun, heb gariad y ferch, ar ddiwedd y gerdd, ni cheir unrhyw awgrym ei fod wedi gadael y llety, na thystiolaeth i awgrymu ei fod wedi gadael y ddinas ychwaith. Dianc i’w guddfan ei hun yn y llety wnaeth Dafydd ac nid dianc o’r llety’n gyfan gwbl. Atgyfnerthir hynny gan awgrymusedd y ddelwedd, ‘Cael i minnau ... fy henwal fy hun’ (ll.71–2). Mae’r carwr wedi dod yn ôl i’w ‘wâl’ ac yn ymroi i fod ar ei ben ei hun, yn union fel yr oedd ar ddechrau ei ymgais i ddod o hyd i’r ferch. Mae’r term ‘henwal’ ei hun yn awgrymu parhad o ryw fath, oblegid y mae’r carwr yn dychwelyd at y gwely y bu ynddo ar ddechrau’r noson. Nid oes dim wedi newid o ran sefyllfa’r

carwr. Mae'r carwr wedi aros yn yr un lle heb newid byd na hunaniaeth, fel yr awgryma Conran. Nid dychwelyd i Gymreictod y mae'r carwr felly, ond parhau yn ei sefyllfa a'i hunaniaeth hybrid.

Hyd yn hyn, cynnwys y gerdd a fu'n sail ar gyfer trafod hunaniaeth yn y gerdd hon. Ond mae ffurf y gerdd hefyd yn berthnasol wrth drafod 'Trafferth mewn Tafarn' yng ngoleuni hybridedd ôl-drefedigaethol. Mae'n anorfod fod gan y cywydd hwn nodweddion amlwg sy'n ei gysylltu ef, a cherddi tebyg, â'r traddodiad barddol Cymreig. Mae ffurf y cywydd yn gysylltiad amlwg ac mae'r gynghanedd hithau yn dilysu Cymreictod. Ond fel y nododd Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym accomplished a daring and original synthesis by intergrating selected elements from European tradition with the equally ancient and indigenous tradition of Celtic poetry' (1986: 2). Gall fod dylanwadu penodol sy'n cyfuno agweddau ar y traddodiad barddol Cymreig a dylanwad gweithiau o'r cyfandir. Yma, hefyd, y troedir i fyd sydd y tu hwnt i ddylanwad y diwylliant Seisnig yn unig ac at ddylanwad y diwylliant Ffrengig. Mae'r dylanwadau Ffrengig, wrth gwrs, i'w gweld o bryd i'w gilydd yn y defnydd o eiriau estron a ddefnyddir. Gall fod dylanwad y cyfandir hefyd ar ffurf y gerdd. Mewn trafodaeth ar serch fabliau a serch cwrtais, dywed Peter Dronke, 'ymysg cerddi serch Dafydd, mae yna yn amlwg nifer sydd â thebygrwydd rhyngddynt fabliau'r cyfandir' (1975: 3). Mae gan y math hwn o gerdd, a ddaeth yn rhan amlwg o ganu Hen Ffrangeg, nodweddion stoc penodol a gellid dadlau bod y nodweddion hynny wedi treiddio i waith Dafydd ap Gwilym ac i'r gerdd hon. Maent yn straeon am gariad, fel arfer yn cynnwys tri chymeriad, y gŵr neu Eiddig, y wraig a'r cariad (Bromwich 1986: 44), ac yn cynnwys hanesion ynglŷn ag anturiaethau'r cariad i ennill llaw'r ferch a'i ddadlau gydag Eiddig. Wrth drafod *fabliaux* Dafydd noda Dronke mai'r hyn

sy'n 'anghyffredin a nodedig ynglŷn â'r fabliaux ... yw eu bod yn cael eu hadrodd yn y person cyntaf ... Dafydd ei hun yw'r arwr-ddioddefydd, yr un sy'n bwriadu hudo'r ferch ond yn cael ei rwystro a'i waradwyddo' (1975: 3). Mae Dafydd Johnston yn crynhoi fel a ganlyn, 'Er na ellid disgwyl gweld enghraifft o'r fabliau gan Ddafydd, gan mai cerddi naratif yn y trydydd person oedd y *genre* hwnnw, mae'n amlwg bod ysbryd y straeon digrif am gyfrwystra mewn helyntion serch i'w weld yn "Trafferth mewn Tafarn"' (2005: 116).

Gall fod ôl dylanwad cerddi'r cyfandir i'w weld ar waith Dafydd felly, ac yn benodol yn y gerdd hon. Dywed Bromwich ymhellach, 'poems such as these are the ones whose themes most obviously reflect the poet's awareness of corresponding European themes' (1986: 44), ac mae'n disgrifio'r *fabliaux* fel a ganlyn, 'those short, episodic, and generally ribald narrative poems, based upon the timeless literature of jest and anecdote, which were undoubtedly one of the most widespread sub-literary currents in medieval literature' (1986: 94). Yn yr un modd ag y mae'r carwr yn ymdebygu i 'arwr-ddioddefydd' y fabliaux, felly hefyd y mae'r cellwair a'r dull episodig sydd i'r gerdd yn perthyn yn agos i ffurf y *fabliau*. Nid amhosibl felly fod ffurf y cywydd, yn ogystal â'i gynnwys, yn cyfleu hybridedd Dafydd ap Gwilym, ac efallai yn wir synergedd ei farddoniaeth.

I gloi

Yng ngeiriau'r carwr ei hun, 'chwedl dybryd' (ll. 62) oedd hon. Chwedl arwynebol syml ydyw am ddyn yn rhoi ei fryd ar ferch ac yn mynd i'w chanfod, ond stori sy'n tyfu yn chwedl gymhleth am ddiwylliannau a chymdeithasau gwahanol yn ymrafael, yn cydfodoli ac yn cydweithio â'i gilydd. Nid dehongliad yn ôl deuoliaethau ethnig a

chymdeithasol Conran (2003) a Fulton (1989) a gafwyd yn y pen draw, ond dadansoddiad ôl-drefedigaethol sy'n pwysleisio hybridedd diwylliant Cymru'r Oesoedd Canol. Daeth hybridedd Bhabha yn gyfrwng ar gyfer dadansoddi natur cymeriad y carwr, y digwyddiadau a geir yn ystod ei anturiaeth at y ferch, a'r cyfeiriadau diwylliannol a geir yn ystod y digwyddiadau hynny. Mae'r carwr yn perthyn i'r Trydydd Gofod o'r cychwyn cyntaf ond mae ymdrechion cyson i'w dynnu oddi yno yn sgil y cyd-destun trefedigaethol sy'n gefnlen i'r cywydd. Er gwaethaf y llinell enwog 'Prynu rhost, nid er bostiaw', nid cymeriad ffuantus mohono, ac mae'r bwyd a'r gwin a'r ddinas 'dethol' i gyd yn greiddiol i'w ffordd o fyw. Ond mae'r pegynau diwylliannol yn cael eu creu trwy ddigwyddiadau'r gerdd ac ar daith y carwr at wely'r ferch. Mae ystrydebau o'r Cymry fel lladron a'r Saeson drewllyd yn ymdrechion i greu hunaniaethau pur, neu o leiaf syml ac unffurf, o hunaniaethau hybrid y Trydydd Gofod. Yn syml felly, seilir 'Trafferth mewn Tafarn' ar bresenoldeb hybrid y carwr mewn cymdeithas hybrid, ond cymdeithas sy'n gorfodi unigolion i feddwl am begynau diwylliannol ac eto gymdeithas sy'n parhau yn ei chyflwr hybrid ar ddiwedd y gerdd. Yn hynny o beth, mae'n drosiad ardderchog am sefyllfa Cymru'r bedwaredd ganrif ddeg yn ei chyfanrwydd.

Pennod 8

Awdurdod Hollt

Yn y bennod ddiwethaf, bwriwyd golwg ar gerdd gyfarwydd gan Ddafydd ap Gwilym o safbwynt hybridedd Homi Bhabha. Y mae'r drafodaeth ar y cyflwr hybrid hwn yn parhau yn y bennod hon, ond yma bwrir golwg ar agwedd wahanol ar y frwydr rhwng y cymeriadau a'r diwylliannau gwahanol a welir yng ngwaith Dafydd. Mae'n anorffod bod y drafodaeth ar berthynas diwylliannau sydd dan gysgod concwest yn ymwneud ag ymdriniaeth â'r ymrafael am rym ac awdurdod. Eto i gyd, hyd yn hyn ni roddwyd sylw uniongyrchol i 'awdurdod' ei hun. Bwriad y bennod hon yw agor y drafodaeth honno gan ganolbwyntio ar yr ystyriaethau ôl-drefedigaethol o 'awdurdod', a hynny yng ngoleuni cywydd sydd yn ymwneud ag un o'r gweddau mwyaf amlwg ar awdurdod, sef y gyfraith.

Dechreuwn gyda gosodiad cyfarwydd o waith Bhabha:

Postcolonial criticism bears witness to the unequal and uneven forces of cultural representation involved in the contest for political and social authority within the modern world order (1994: 171)

Mae'r crynodeb hwn yn un a ddyfynnir droeon mewn ymdriniaethau cyflwyniadol yn y maes ac mae wedi'i ddyfynnu eisoes yn yr ymchwil hwn. Ond mae'n osodiad pwysig sy'n tynnu sylw at hanfodion beirniadaeth ôl-drefedigaethol. Yn ogystal â chyfeirio at yr ansefydlogrwydd a'r anghyfartaledd diwylliannol sy'n bodoli rhwng cymdeithasau a diwylliannol gwahanol, cyfeirir at y 'contest' am awdurdod sydd yn ffactor cyson mewn sefyllfa drefedigaethol. Yng ngeiriau Bhabha eto, 'the concept of

cultural difference focuses on the problem of the ambivalence of cultural authority' (1994: 34), a theg fyddai honni mai'r amwysedd hwn, yr 'ambivalence of cultural authority', yw prif gynhysgaeth y gyfrol *The Location of Culture*. Mae'r ansefydlogrwydd sy'n bodoli ym mherthynas y coloneiddwyr a'r coloneiddiedig yn arwain yn y pen draw at awdurdod diwylliannol amwys. Wrth drafod perthynas cymdeithasau â'i gilydd, felly, rhaid wrth drafodaeth ar awdurdod.

Daw syniadau Bhabha ar awdurdod i'r amlwg mewn trafodaeth ar hunaniaeth a sut y mae hunaniaeth mewn sefyllfa drefedigaethol yn cael ei chreu i raddau helaeth gan eraill. Archwilir y syniadau hynny yn ei bennod ar Franz Fanon, 'Interrogating Identity: Frantz Fanon and the Postcolonial Perogative' (Bhabha 1994). Cyfeiriwyd at Fanon yn y bennod ddiwethaf, ac mae ei waith yn fan cychwyn i sylwadau Bhabha ar hunaniaeth ac yn berthnasol i'r drafodaeth yr wyf i am ei chynnig ar awdurdod. Nodwyd hefyd yn y bennod ddiwethaf nad yw'r defnydd hwn o waith Fanon yn golygu bod cymhariaeth amlwg i'w gwneud rhwng sefyllfa dyn croenddu yn yr ugeinfed ganrif a sefyllfa Cymry'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Er hynny, gall gwaith Fanon awgrymu sawl llwybr ffrwythlon inni wrth ddehongli gwaith Dafydd ap Gwilym.

Yn ei astudiaeth enwog *Black Skin, White Masks* (1986), mae Fanon yn trafod perthynas y dyn gwyn a'r dyn du. Cyfeirir at y berthynas honno fel perthynas y meistr â'i gaethwas, neu'r 'master-slave dialectic' fel y dywed Glenn Jordan yn ei erthygl 'Immigrants and Minorities in Wales' (2005: 72). Mae Kirsti Bohata'n crynhoi fel a ganlyn: 'Fanon's constructions of whiteness and blackness are also signifiers of cultural attributes and the dynamics of power' (2004: 23). Mae Fanon yn trafod

profiadau'r dyn du, y 'caethwas', neu'r coloneiddiedig o safbwynt ei brofiadau ei hun fel dyn du mewn gwlad Ewropeaidd. 'For the black man', meddai, 'there is only one destiny. And it is white' (1985: 12). Mae'r dyn du yn dyheu am fod yn wyn; mae'r ffigwr israddol yn dyheu am ragoriaeth. Ond eto, nid yw'n dymuno bod yn feistr gwyn ei hun. Yng ngeiriau Leela Gandhi, 'rather than see itself *as*, or in the image of, the master, the slave is now urged to see itself *beside* the master' (1998: 21). Nid yw'n dymuno bod yn feistr fel y cyfryw, a cholli ei hunaniaeth, ond mae'n dyheu am yr awdurdod sydd gan y meistr hwnnw. Nid yw safle'r gwas hwn yn un sicr felly. Ym marn Gandhi, 'the racialisation of the master-slave relationship breeds a new and disabling content. For whenever the black slave faces the white master, s/he now experiences the disruptive charge of envy and desire' (1998: 20). Canlyniad hyn yw bod y cysyniad o 'awdurdod' yntau yn ansefydlog. Mae'r gwas yn dyheu am awdurdod tebyg i'w feistr, ond eto nid mater syml o efelychu'r meistr a meddiannu ei awdurdod yw hynny, fel y gwelwn yn y man.

Ceisia Bhabha drafod natur cymhlethdod y ddeuoliaeth meistr/caethwas fel a ganlyn: 'the very place of identification, caught in the tension of demand and desire, is a space of splitting' (1994: 44). Mae Bhabha yn dadlau bod y berthynas drefedigaethol yn seiliedig ar y ffaith fod unigolion yn cael eu tynnu i ddau gyfeiriad ar unwaith, gan gael eu dal rhwng dau fyd, rhwng byd y coloneiddwyr a'r coloneiddiedig. Dyma'r 'splitting' y cyfeiria ato uchod, y cyflwr o beidio â bod y naill beth na'r llall, 'neither "one" or the "other"' (1994: 127). Wrth ymhelaethu ar hyn yng nghyd-destun gwaith Fanon dywed: "'Black Skin, White Masks" is not a neat division, it is a doubling, dissembling image of being in at least two places at once' (1994: 44). Gan hynny, meddai Bhabha, 'the fantasy of the native is precisely to

occupy the master's place while keeping his place in the slave's avenging anger' (1994: 44). Mae'r caethwas yn dyheu am gael bod yn feistr a meddu ar ei awdurdod ef, ond eto mae ef am barhau yn ei statws israddol er mwyn cadw'r hawl i ddial. Ni all y caethwas fodoli mewn un safle sicr felly. Caiff ei dynnu i ddau gyfeiriad ac mae hynny'n ei rwystro rhag bodoli fel endid unedig. Fel y dywed Bhabha ymhellach, '[he] desires not merely to be in the place of the white man but compulsively seeks to look back and down on himself from that position. Equally the white racist cannot merely deny what he fears and desires by projecting it on "them"' (1994: 60). Yn yr un modd ag y mae'r coloneiddiedig yn ansicr ei safle, felly hefyd mae'r coloneiddiwr yn endid amwys: 'in demanding "Turn white or disappear"—the colonizer is himself caught in the ambivalence of paranoid identification, alternating between fantasies of megalomania and persecution' (1994: 61). Safbwynt y dyn du, y caethwas, y coloneiddiedig oedd sail astudiaeth Fanon, ond yma awgrymir bod modd i hunaniaeth y coloneiddiwr yntau gael ei amwyso. Ond yn yr astudiaeth hon ymateb y coloneiddiedig sy'n fwyaf perthnasol. Ac fel y dywed Childs a Williams yn syml ddigon: 'Bhabha notes that this is a splitting (wanting to remain the same but be like another) and a doubling (desiring to be in two places at once)' (1997: 125).

Beth sydd gan y syniadau hyn i'w gynnig i'r drafodaeth ar waith Dafydd ap Gwilym, felly? O gofio sylwadau R. R. Davies, gwyddom mai 'gwlad wedi'i darnio' oedd Cymru yn oes Dafydd ap Gwilym (1975: 60). Roedd hi hefyd yn wlad 'gymysg o ran ei phoblogaeth' (1975: 64) ac felly'n wlad ac iddi raniadau cymdeithasol a diwylliannol. Mae syniadau Bhabha ar yr hollt, neu 'splitting', yn seiliedig ar ei drafodaeth ar y broses o greu hunaniaeth, wrth gwrs. Felly yn ogystal â bod yn fodd i drafod y portread o awdurdod yng ngwaith Dafydd, gall y syniad hwn fwrw goleuni

pellach ar natur yr hunaniaethau gwahanol a welir yn y cerddi. Bydd yn fodd i drafod perthynas cymeriadau'r cerddi ag awdurdod ac yn gyfrwng i asesu'r modd y mae 'awdurdod' yn ganolog i ddisgwrs trefedigaethol.

'Y Ceiliog Bronfraith' (49)

Edrychwn yn awr ar un o gywyddau Dafydd, sef 'Y Ceiliog Bronfraith' (49). Cywydd llatai yw hwn ac ar sawl lefel mae'n dilyn patrwm tebyg i'r cywyddau eraill o'r math hwn. Mae'r bardd yn cyfarch ac yn disgrifio'i wrthrych, yn cydnabod ei rôl fel negesydd serch ac yn anfon ei latai â'i neges at y ferch. Ceir golygfa yn disgrifio'r ymgais i drosglwyddo'r neges, ac yna dychwelir at gyfarchiad i'r ceiliog bronfraith ei hun ar ddiwedd y gerdd. Ar un olwg, felly, y mae'n gywydd digon uniongyrchol sy'n seiliedig ar bersonoli'r aderyn mewn modd cyfeillgar ac edmygus. Fel y gwelir isod, gwneir hynny drwy ddefnyddio amrediad o swyddogaethau dynol yr awgrymir bod yr aderyn yn ymgymryd â hwy. Yn eu plith mae swydd y siryf, un o'r swyddi pwysicaf dan y gyfundrefn Seisnig newydd. Er mai hawdd fyddai dadlau bod arwyddocâd cymdeithasol neu wleidyddol i hyn, ymddengys nad yw Fulton yn ystyried bod y gerdd hon yn arbennig o amlhaenog: '[Dafydd] refers ... in his poems to the offices and institutions of the English administration with apparent lack of irony and indeed affectionate familiarity, such as his description of the cock-thrush as sheriff' (1989: 226). Cymharol ychydig o sylw a gafodd y cywydd hwn hyd yn hyn felly, gydag eithriad pwysig erthygl R. Geraint Gruffydd 'A Glimpse of Welsh Medieval Court Procedure' (1996), sy'n canolbwyntio ar natur y ddelweddaeth gyfreithiol yn y gerdd hon.

O ran ei strwythur, gellir rhannu'r gerdd yn sawl adran. Mae'n agor fel a ganlyn:

Y mae pob Mai difeioed,
Ar flaenau canghennau coed,
Cantor hydr, ar gaer wydr gyll,
Esgud dan wyrddion esgyll,
Ceiliog, teg reg rhag organ,
Bronfraith drwy gyfraith a gân. (1–6)

Mae'r bardd felly'n dechrau â disgrifiad o'r aderyn ei hun. Mae'r aderyn hwn yn ymddangos ar ganghennau'r coed yn 'ddifeioed', sef yn brydlon ym mis Mai. Mae'n canu ac yn symud yn sionc o gwmpas y coed. Dyma agoriad digon nodweddiadol o gywyddau serch Dafydd, felly, sy'n disgrifio ac yn canmol rhinweddau'r aderyn.

Yn ail ran y gerdd disgrifir yr aderyn hwn drwy gyfrwng cyfres o drosiadau neu ddyfaliadau:

Pregethwr maith pob ieithoedd,
Pendefig ar goedwig oedd.
Sieri fydd ym medwydd Mai
Saith ugeiniaith a ganai,
Iustus gwiw ar flaen gwiaail,
Ystiwart llys dyrys dail,
Athro maith fy nghyweithas,
Ieithydd ar frig planwydd plas,
Cywirwas ar friglas fry,
Cydymaith mewn coed ymy,
Ceiniad yw goreuryw gân
A gynnull pwyll ac anian. (7–18)

Mae'r aderyn bellach yn 'bregethwr', yn 'bendefig', yn 'sieri', 'iustus', 'ystiwart', 'athro', 'ieithydd', ac yn 'gydymaith'.

Yn nhrydedd ran y gerdd â'r bardd rhagddo i drafod yr hyn wnaeth yr aderyn, sef hedfan at y ferch a dweud ei neges wrthi. Mae'r bardd yn parhau i ganmol yr aderyn:

Hyder, a balch ehedeg,
A wnaeth â dewiniaeth deg,
O blas i blas drwy draserch,
O lwyn i lwyn er mwyn merch,
Dysg annerch, a disgynnu
Lle'r oedd y fun, llariaidd fu. (21–6)

Hedfanodd yr aderyn hwn yn gryf ac yn falch er mwyn cyrraedd y ferch. Dysgodd 'annerch' neu araith, sef neges y bardd, a disgyn wrth y ferch er mwyn cael dweud y neges wrthi'n dyner.

Yn y bedwaredd ran, mae'r aderyn yn trosglwyddo ei neges a hynny mewn golygfa sy'n ymdebygu i achos llys. Mae'r olygfa hon felly yn cydio yn y disgrifiadau a gafwyd eisoes o'r aderyn fel cymeriad a oedd yn debyg i swyddogion y gyfraith. Bellach, mae'r aderyn hwn yn rhoi ei statws fel stiward, ustus a siryf ar waith yn ymarferol. Mae'r aderyn yn ymgymryd â sawl rôl wahanol ac yn defnyddio iaith ac offer cyfreithiol i drosglwyddo neges y bardd, sy'n ymwneud â difrawder y ferch:

Dangos a wnaeth, cydfaeth cant,
Y gwir yn ei lythr gwarant.
Darlleodd ymadrodd mydr,
Deg lwysawd, o'i dŷ glaswydr. (29–32).

Ni cheir diweddglo swyddogol i'r achos llys, fodd bynnag. Mae Dafydd yn ffyddiog na fydd ei gariad at y ferch yn diflannu, ac felly y bydd ei gŵyn ef hefyd yn parhau:

Cyd collwn, gwn, o gynnydd,
Dirwyon dan wyrddion wŷdd,
Ni chyll traserch merch i mi,

Cain nerthoedd, na'm cwyn wrthi. (37–40)

Ar ddiwedd y rhan hon, mae'r bardd hefyd yn gobeithio y bydd yr aderyn yn llwyddiannus wrth ddwyn cyhuddiad yn erbyn y ferch:

O bydd cymen y gennad,
O brudd, ef a gais ei brad. (41–2)

Try'r bardd yn ôl at ddelweddaeth grefyddol yn y rhan olaf gan ofyn i Dduw am gymorth i wobrwyo'r ceiliog bronfraith am ei waith. Gofyn Dafydd y tro hwn am greu cytundeb, 'amod rhwydd' (ll. 45), a bydd y cytundeb hwn yn fodd i wobrwyo'r aderyn am ei waith fel llatai. Y wobr honno fydd cael lle ym Mharadwys, am mai dyna'r lle sy'n gweddu orau i'r creadur hwn:

Ei adael ef a'i lef lwys,
Brydydd serch, i baradwys,
Ynad, mygr ganheiliad Mai,
Enw gwiwddoeth, yno y gweddai. (47–50)

Heb amheuaeth, mae hwn yn gywydd amlweddol ei gyfeiriadaeth, sydd yn gofyn am gryn ddealltwriaeth o gefndir gwleidyddol a gweinyddol y cyfnod i'w lawn werthfawrogi. Bydd darparu hynny'n angenrheidiol cyn gallu ei ystyried mewn fframwaith ôl-drefedigaethol. Wrth wneud hynny, cynigir rhai sylwadau ar ddelweddaeth y gerdd o safbwynt beirniadaeth 'ryddfrydol', draddodiadol, cyn symud ymlaen i gynnig dehongliad newydd.

Cyfraith, swyddogion ac awdurdod

O'r cychwyn cyntaf, y mae delweddaeth y gerdd yn awgrymu bod gan yr aderyn ei hun gysylltiad agos â grym ac awdurdod. Cyflwynir ni iddo ac yntau 'ar flaenau canghennau coed' (ll. 2), yn gorfforol uwchlaw gweddill y goedwig. Sefydlir ei

awdurdod ar unwaith, ac mae gweddill y gerdd yn caniatáu inni rannu'r delweddau a ddefnyddir yn dair carfan ar sail natur yr awdurdod a fynegir ganddynt: awdurdod crefyddol, awdurdod diwylliannol ac awdurdod cyfreithiol.

Dechreuwn â'r agweddau crefyddol sy'n amlwg yn rhan gyntaf y gerdd. Disgrifir yr aderyn fel 'Cantor, hydr ar gaer wydr gyll' (ll. 3) yn y llinellau agoriadol. Cerddor yw ystyr 'cantor', ond gall hefyd gael ei ddiffinio fel 'clerigwr mewn eglwys gadeiriol yn arwain y gân' (GPC 418). Mae hyn yn cysylltu'r aderyn â'r eglwys, felly, ac â ffigur sy'n arweinydd yn ei briod faes. Dwyseir y wedd grefyddol hon gan y cyfeiriad at 'teg reg rhag organ' (ll. 5)—dywed y bardd fod yr aderyn hwn yn anrheg well nag organ eglwysig. Mae'r aderyn hefyd yn bregethwr ar ddechrau'r ail ran, 'Pregethwr maith pob ieithoedd' (ll. 7). Mae gan yr aderyn hwn rym ac awdurdod crefyddol felly. I Fulton, awgryma hyn fodolaeth 'a religion of love which is encouraged by God' (1989: 165). Ond o fewn cyd-destun canoloesol, rhaid cofio'n benodol fod yr eglwys yn gorff a chanddo rymoedd cyfreithiol amlwg a hefyd ei lysoedd ei hun. Cryfheir y wedd gyfreithiol hon gan y cyfeiriad uniongyrchol cyntaf a geir at y gyfraith:

Ceiliog, teg reg rhag organ,
Bronfraith drwy gyfraith a gân. (5–6)

Trwy'r ddelwedd hon awgrymir bod y ceiliog bronfraith yn ffigur a chanddo awdurdod eglwysig. Mae ganddo hawl cyfreithiol i ganu ar ganghennau'r coed; fel y dywed Rachel Bromwich yn ei disgrifiad o'r ddelwedd hon, 'by singing he asserts his legal right to his individual territory' (1982: 93). Gall ganu yn ôl y gyfraith a gosod ei awdurdod ar fydd natur o'i amgylch. Yn y disgrifiadau agoriadol hyn felly, gwelir bod

gan yr aderyn hwn rym crefyddol, a bod ganddo hawl gyfreithiol ar yr awdurdod hwnnw.

Dwyseir y disgrifiadau ohono fel ffigwr pwerus gan y cyfeiriadau at awdurdod diwylliannol yn ail ran y gerdd. Mae'r aderyn hwn yn feistr ar bob math o ieithoedd—mae'n bregethwr 'maith pob ieithoedd' (ll. 7), yn canu mewn sawl iaith, 'saith ugeiniaith a ganai' (ll. 10), ac yn 'Ieithydd ar frig planwydd a plas' (ll. 14). Gall amlieithrwydd fod yn bwysig i'r rhai mewn grym, wrth gwrs, ac roedd amlieithrwydd yn nodweddu sefyllfa ieithyddol Cymru yn y cyfnod, gyda Saesneg, Ffrangeg a Lladin oll i'w clywed, yn ogystal â Chymraeg. Awgrymir hefyd fod yr aderyn hwn yn athro—'athro maith fy nghyweithas' (ll. 13). Eto, gall y cyfeiriad hwn at athro gydio yn y delweddau eglwysig hynny a gafwyd eisoes. Ond gall y cyfeiriad hwn berthyn hefyd i'r diwylliant cynhenid Cymreig, os y'i deallir i olygu athro barddol. Ymddengys mai cyfeirio y mae Dafydd at yr aderyn fel athro ar gwmni ('cyweithas') o feirdd, cwmni y gellid ystyried Dafydd ei hun yn rhan ohono, wrth gwrs. Yn hynny o beth mae gan yr aderyn hwn awdurdod diwylliannol amlweddol. Mae'n meddu ar sgiliau amlieithog, ond mae ganddo hefyd nodweddion penodol sy'n amlwg Gymreig.

Ar ôl dweud mai 'pendefig' Cymreig oedd yr aderyn (ll. 8), ceir cyfres o ddelweddau ychwanegol sy'n cydio'r portread o'r aderyn hwn wrth fyd gweinyddiaeth Lloegr. Yn y lle cyntaf, mae'r ceiliog bronfraith yn ymgorffori rôl prif swyddog y Goron ym mhob sir, sef y siryf. Hwn oedd 'the most prominent officer in shire government in medieval England, administratively, financially and judicially', meddai Griffiths, gan nodi fod siryfion wedi eu penodi i siroedd Caerfyrddin a Cheredigion yn y bedwaredd ganrif ar ddeg (1972: 47). Mae'r symud yn y ddwy linell

sy'n cyflwyno'r ddelwedd hon yn ddiddorol ynddo'i hun: 'Pendefig ar goedwig oedd. / Sieri fydd ym medwydd Mai'. I ddechrau, felly, mae'r aderyn hwn yn bendefig, a chan hynny fel petai'n perthyn i'r byd Cymreig. Ond yn y llinell nesaf mae'r gyfeiriadaeth yn newid ac fe droediwn i fyd gweinyddol Coron Lloegr. O fewn dwy linell, felly, neidiwn o ddiwylliant Cymreig traddodiadol i fyd o swyddogion Seisnig. Wrth drafod yr aderyn fel 'pendefig' y goedwig defnyddir ffurf amhenodol y ferf 'bod', a hynny mewn ystyr amherffaith, mae'n debyg: 'Pendefig ar goedwig oedd' (ll. 8). Ond wedyn: 'Sieri fydd ym medwydd Mai' (ll. 9). Mae'r llinell hon fel petai'n awgrymu dechreuad newydd o ryw fath. Er bod y cywyddwr yn gallu amrywio amser berfau heb resymau amlwg, gall yr amrywiaeth yn amser y ferf uchod awgrymu bod tensiwn diwylliannol yn codi yn y gerdd hon, a hynny rhwng y gorffennol a ystyrir yn gynhenid Gymreig a'r presennol a ystyrir yn Seisnig. Ar un lefel, felly, gall y berfau uchod awgrymu bod y diwylliant cynhenid a'r diwylliant estron yn rhai sy'n tynnu'n groes i'w gilydd. Ond fel y dywed Ania Loomba, 'in reality any simple binary oppositions between "colonisers" and "colonised" or between races is undercut by the fact that there are enormous cultural and racial differences within each of these categories as well as cross-over borders between them' (1998: 105). Daw'r wedd hon i'r amlwg maes o law.

Mae'r aderyn hefyd yn 'Iustus gwiw ar flaen gwaiail' (ll. 11). Swydd arall nodweddiadol o'r gyfundrefn Seisnig oedd hon, un uwch ei statws eto na swydd y siryf. Wrth drafod swyddogaeth yr ustus, dywed Griffiths, 'during the two and a half centuries after 1280 the justiciar was the political and judicial head of the royal government in South Wales, ultimately and directly responsible to the king' (1972: 21). O ran swyddogaeth yr ustus, a'r math o awdurdod a oedd gan yr aderyn felly,

roedd ganddo rôl benodol i'w chwarae mewn achosion llys, ac mae'r cyfeiriad hwn yn ein paratoi ar gyfer yr achos llys sy'n codi yn ail hanner y gerdd. Dywed Griffiths ymhellach, 'much of the justiciar's early power sprang from the turbulent condition of post-conquest Wales, when an experienced soldier and ruthless governor with extensive authority was needed to induce the Welsh to submit' (1972: 24). Dyma swydd a chwaraeodd ran amlwg yn sicrhau concwest felly, ac wrth bersonoli'r ceiliog bronfraith yn ustus ar ganghennau'r coed, mae Dafydd yn ymateb yn bositif i'w swyddogaeth ac yn gweld gwerth i'w rymoedd.

Mae'r darlun o fyd gweinyddol y drefn Seisnig yn parhau gyda'r portread o'r aderyn fel stiward: 'Ystiwart llys dyrys dail' (ll. 12). Roedd y stiward yn swydd amlwg yng ngweinyddiaeth arglwyddiaethau'r Mers, ond roedd hefyd yn bodoli dan nawdd y Goron (neu dywysog Cymru) mewn ardal fel Ceredigion; cyfeiria Ralph Griffiths (1972: 51) at stiwardiaid yn ardal Llanbadarn yn y blynddoedd ar ôl 1280. Swyddog oedd y stiwart a oedd yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau'r llysoedd. Cyfeirir at Rys ap Gruffudd fel is-ustus yn Llanrhystud, Ceredigion yn 1321–2, er enghraifft, ac yna fel stiward yng Ngheredigion. Felly, mae'n bur sicr bod Dafydd ei hun yn gyfarwydd iawn â'r drefn weinyddol newydd a oedd ohoni, a'r unigolion a'i cynhaliai. Yn nisgrifiadau Ralph Griffiths o Syr Rhys ap Gruffudd, gwelir portread o Gymro a oedd yn gyson driw i goron Lloegr, fel yr awgrymir yn 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116), lle y cyfeirir ato fel un o'r fintai o filwyr a aeth i frwydro yn Ffrainc. Mae'n ddigon posibl fod y ceiliog bronfraith ei hun yn y gerdd hon yn meddu ar hunaniaeth gymysg debyg i'r hyn a oedd yn nodweddu Syr Rhys ap Gruffudd. Yn achos 'Ystiwart llys dyrys dail' (ll. 12), tybed nad yw'r dail yn cyfateb i'r dryswch

diwylliannol a fodolai yn y cyfnod, gyda'r 'ystiwart' hwn yn ceisio rhoi trefn arnynt wrth eu goruchwyllo?

Ar un lefel, felly, mae'r cyfeiriad at swyddi'r Goron yn awgrymu mai'r diwylliant Seisnig oedd â'r llaw uchaf yn y berthynas ddiwylliannol hon. Ond trwy fynd â'r darlenniad ôl-drefedigaethol gam ymhellach, gellir cynnig nad yw'r darlun mor syml â hynny ychwaith.

Yn union fel yr oedd ganddo hawl gyfreithiol i ganu yn y rhan gyntaf, felly hefyd y mae gan y ceiliog bronfraith hawl gyfreithiol i ddweud ei neges yn nhrydedd ran y gerdd. Gwelir yr hawl hwnnw 'yn ei lythr gwarant' (ll. 30). Mae'r achos llys honno yn awgrymu nad neges sydd gan y bardd ond cyhuddiad, oblegid dyna fel rheol yw sail unrhyw achos cyfreithiol. Ceir tystiolaeth bellach o hyn pan ddywedir mai 'cwyn' (ll. 40) sydd gan y bardd yn erbyn y ferch. Nid ymhelaethir ar gynnwys y cyhuddiad ond tybir mai cwyn ydyw yn erbyn y ferch am briodi rhywun arall, fel yr awgryma R. Geraint Gruffydd (1980: 57), neu yn syml, am nad yw'r ferch wedi dangos cariad tuag at Dafydd. Mae'r aderyn yn dangos ei lythyr gwarant, sy'n caniatáu iddo gynnal yr achos, ac yn darllen cyhuddiad Dafydd cyn galw arno o'r rhôl gyfreithiol i ymddangos o flaen y llys. Ond nid yw'n ymddangos, a chaiff ei ddirwyo am ei absenoldeb.

Mae R. Geraint Gruffydd yn ei astudiaeth 'A Glimpse of Welsh Medieval Court Procedure' (1996) yn canolbwyntio'n benodol ar olygfa'r achos llys yn ail hanner y gerdd ac yn tynnu sylw at yr agweddau cyfreithiol sydd yn codi yn y rhan honno. Rhydd ffocws arbennig ar berthynas y drefn weinyddol Gymreig a'r drefn

Seisnig, a'r cymysgu sylfaenol rhyngddynt. 'The whole episode', meddai 'illustrates graphically the complex but fascinating legal situation in Wales during the centuries after the conquest' (1996: 172). Yn dilyn ei absenoldeb o'r llys, caiff Dafydd 'ddirwy dremyg' (ll. 36), ac fel y dywed Gruffydd, 'the term used to describe the fine is impeccably Welsh: *dirwy dremyg* ... the cock-thrush is therefore punishing Dafydd according to Welsh law, although he is apparently holding an English court' (1996: 171). Mae Gruffydd yn dangos yn glir fod yna orgyffwrdd rhwng y cyfreithiau gwahanol, a gall ymdriniaeth ôl-drefedigaethol o'r gorgyffwrdd hwnnw fynd â ni ymhellach.

Hollti

Mae'r agweddau amlddiwylliannol a welwyd uchod yn ymdreiddio i'w gilydd felly, a gallwn droi yn ôl at sylwadau Bhabha ar hybridedd a'r Trydydd Gofod amwys yma. Cofiwn, wrth gwrs, mai yn y Trydydd Gofod hwn, yn ôl Bhabha, y mae agweddau ar hunaniaeth yn eu hamlygu'u hunain. Cred Bhabha fod angen rhoi ffocws ar y gofod hwnnw:

[to] focus on those moments or processes that are produced in the articulation of cultural differences. These 'in-between' spaces provide the terrain for elaborating strategies of selfhood—singular or communal—that initiate signs of identity (1994: 1).

I Bhabha, yn y 'cyd-rhwng' y mae hunaniaeth yn cael ei chreu, a rhywbeth amodol, at bwrpas arbennig, yw'r 'strategies of selfhood' hynny, yn hytrach na chreadigaethau safadwy, diamod. Fel y dywed McLeod, 'the concept of hybridity ... [is] a way of thinking beyond exclusionary, fixed, binary notions of identity based on ideas of rootedness and cultural, racial and national purity' (2000: 219). Hyn, yn fyr, sydd ar waith yn y portread uchod o'r aderyn hwn a'i hunaniaeth amlddiwylliannol. Nid yw'n

meddu ar hunaniaeth ‘bur’ ond mae’n symud rhwng diwylliannau, ac ar sail hynny gall greu Cymreictod neu Seisnigrwydd amodol wrth iddo fabwysiadu hunaniaethau newydd a chymhleth iddo’i hun.

Trown yn ôl at dystiolaeth ail ran y gerdd, felly. Ar sail portread y bardd o awdurdod y ceiliog bronfraith, gellir dod i’r casgliad fod ganddo rym diwylliannol, cyfreithiol a chrefyddol, ond mae’r awdurdod hwnnw yn llawer mwy cymhleth na goruchafiaeth drefedigaethol un diwylliant ar y llall. Ar un lefel, mae’r cyfeiriadau diwylliannol gwahanol yn gosod y nodweddion Cymreig a Seisnig yn groes i’w gilydd. Trwy’r delweddau o ‘sieri’, ‘iustus’ ac ‘ystiwart’ awgrymwyd bod yr aderyn hwn yn ffigwr awdurdodol sy’n meddu ar nodweddion Seisnig. Ymhellach, defnyddia’r awdurdod hwn i geisio rhoi trefn ar fyd natur yn ogystal ag ar gymdeithas y bardd. Ond ar adegau mae’r aderyn hwn yn ffigwr cynhenid Gymreig hefyd, megis pan fo’n ‘athro maith’, yn ‘bendefig’ ac yn ‘ynad’ (ll. 49) ar ddiwedd y gerdd. Fodd bynnag, nid llunio cysylltiad rhwng Cymreictod a Seisnigrwydd a wneir yn y gerdd hon, ond dangos mor anodd yw eu gwahanu—mae’r gyfraith yn farddoniaeth; mae’r gyfraith a’r farddoniaeth yn cynrychioli un diwylliant cymysgryw. Ceir sefyllfa gyfatebol yn yr achos llys. Wrth ddefnyddio’r drefn weinyddol Seisnig gyda’r drefn Gymreig, mae’r ddwy gyfraith yn gweu i’w gilydd. Nid oes modd gwahaniaethu un diwylliant oddi wrth y llall ac felly hefyd ni ellir gwahaniaethu un math o awdurdod oddi wrth y llall. O ran yr aderyn, felly, mae ganddo hunaniaeth gymysgryw yn ogystal ag awdurdod cymysgryw, a hynny ar sawl lefel, yn ddiwylliannol, yn grefyddol ac yn gyfreithiol. Mae ganddo reolaeth amlweddog ar y gymdeithas felly, yn union fel y byddai gan frenin ac arglwydd.

Mae gan y portread hwn gysylltiad agos â sefyllfa ddiwylliannol beirdd yr uchelwyr a sefyllfa'r uchelwyr eu hunain. Roedd yn fyd lle'r oedd Cymreictod a Seisnigrwydd yn cyson weu i'w gilydd, a'r ddau ddiwylliant yn rhan annatod o gymeriad a hunaniaeth yr uchelwyr a'u beirdd. Roedd yr uchelwyr yn driw i'w hetifeddiaeth Gymreig ond hefyd yn ffyddlon i frenin Lloegr, ac fel y mae A. D. Carr yn crynhoi, 'loyalties were personal rather than national and those who went over to Edward I in 1282 did not feel they were betraying their inheritance. To accept Edward did not make them any less Welsh and they lost none of their influence; indeed, in some way they were gainers' (1997: 3). Mae portread uchelwrol o'r fath i'w weld yng ngherddi rhai o gyfoeswyr Dafydd ap Gwilym. Yng ngherdd Llywelyn Goch ap Meurig Hen, 'Moliant Hywel a Meurig Llwyd o Nannau' (Johnston 1998), er enghraifft, cyflwynir disgrifiad o rai o nodweddion yr uchelwyr, megis y ffaith eu bod yn ffyddlon i gyfraith Lloegr:

Darllain cyfraith, rugliaith raid,
Sifil, i'm cyfneseifiaid (8.45–6)

Yma cyfeirir hefyd at allu gydag iaith, sy'n dwyn i gof amlieithrwydd y ceiliog bronfraith. Yn ogystal â bod yn rhugl mewn iaith ac yn gyfarwydd â'r gyfraith mae'r uchelwr yn meddu ar nodweddion diwylliannol eraill sy'n gysylltiedig â Chymreictod. Bydd yr uchelwr, yn ôl Llywelyn Goch, yn mwynhau clywed disgrifiad o'i gariad:

Rhydebygu Lleucu Llwyd
I hardd flodeuros gardd gain (52–3)

Mae'r ceiliog bronfraith yntau yn 'brydydd serch' ar ddiwedd cerdd Dafydd ap Gwilym, ac felly'n ymdebygu i'r portread o ddiwylliant uchelwrol yng ngherdd Llywelyn Goch ap Meurig Hen. Mae Iolo Goch yn ei gywydd 'I'r Brenin Edward y

Trydydd' (Johnston 1988) hefyd yn pontio diwylliannau wrth fawrygu grym y Goron. Yn y gerdd hon, ceir disgrifiad o berthynas amwys y bardd â'r brenin, ac mae'r portread hwnnw yn berthnasol i'r math o ddarlun a grëir o awdurdod breiniol y ceiliog bronfraith. Mewn cerdd sy'n canmol ymdrechion milwrol Edward III, dengys Iolo Goch ei fod yn derbyn awdurdod y brenin yn llwyr. Ceir yma agweddau o genedlaetholdeb Seisnig ond wedi'u mynegi'n Gymraeg. Mae'r pontio diwylliannol hwn yn fodd i greu hunaniaeth a diwylliant amwys, yn union fel y ceir yng ngerdd Dafydd ap Gwilym.

Awdurdod hollt yr achos llys

Dadleuwyd uchod fod awdurdod y ceiliog bronfraith yn y cywydd hwn yn deillio o sawl man, gan gynnwys coron Lloegr a hefyd y traddodiad uchelwrol Cymreig. Wrth gymysgu'r elfennau hyny gyda'i gilydd, gellir dadlau bod yr aderyn hwn yn ffigwr hybrid. Ond gwelwyd uchod wrth drafod Fanon a Bhabha y gall y sefyllfa drefedigaethol greu hollt oddi mewn i unigolyn a orthrymir, yn ogystal ag yn y coloneiddiwr ei hun. Nid yw dadlau bod cymeriad yn hybrid gyfystyr a dweud ei fod wedi ei hollti yn y dull hwn, a chan hynny fy mwriad yn awr yw chwilio am olion hollti trefedigaethol.

Ym mhedwaredd ran y cywydd, mae'r ceiliog bronfraith, drwy'r awdurdod gweinyddol y mae'n meddu arno, yn cynnal achos llys yn y goedwig, gan ddwyn cyhuddiad ar ran y bardd yn erbyn y ferch. Fel y gwelwyd eisoes, cryfheir y darlun o awdurdod yr aderyn hwn wrth iddo ddangos llythyr gwarant fel tystiolaeth o hawl gyfreithiol i ddwyn achos yn erbyn y ferch,

Dangos a wnaeth, cydfaeth cant,

Y gwir yn ei lythr gwarant. (29-30)

Mae'r cyfeiriad hwn at 'lythr gwarant' yn rhoi naws swyddogol i weithredoedd yr aderyn, yn union fel yr oedd yn ofynnol mewn achos llys. Fel y dywed R. Geraint Gruffydd, 'the term most probably refers to the royal commissioner and letters patent authorizing Justiciars and Sheriffs to hold their courts' (1996: 169). Gwelwyd eisoes fod y ceiliog bronfraith yn gymeriad tebyg i'r ddau swyddog gweinyddol hyn, ac yma mae'n gweithredu'n *ymarferol* yn debyg iddynt. Dywed Gruffydd ymhellach, 'the court that Dafydd ap Gwilym's cock-thrush is establishing therefore, would seem to be an English court of the sort decreed by the Statute of Wales, 1284' (1996: 169). Mae'r aderyn hwn yn llwyr feddiannu trefn weinyddol y diwylliant estron felly, ac yn gweithredu'n naturiol yn ôl y drefn honno. Yn ogystal â meddu ar statws swyddogion y llys a gweithredu yn ôl trefn y llysoedd Seisnig, mae gan yr aderyn hwn bellach offer cyfreithiol. Mae'n galw ar Ddafydd i ymddangos, ac fe ddarllena ei enw 'o'r rhôl' (ll. 34), sef dogfen ysgrifenedig a ddefnyddid i gofnodi gweithrediadau cyfreithiol y llysoedd. Mae'r ddelwedd hon yn cysylltu â'r ddelwedd a gafwyd eisoes o'r aderyn fel stiward, gan mai darllen o'r rhôl fyddai un o'i swyddogaethau ef mewn achos llys.

Hyd yn hyn, llys yn ôl y drefn weinyddol Seisnig yw hon, fe ymddengys, ond o droi at gosb Dafydd, mae'r gyfraith Seisnig hon yn troi'n gyfraith amwys unwaith eto. Ar ddechrau'r broses gyfreithiol, gwelir yr aderyn yn darllen y cyhuddiad sy'n sail ar gyfer yr achos llys. Mae'r disgrifiad o'r cam hwn, ar yr wyneb, yn perthyn i'r drefn Seisnig. Try'r aderyn i ddarllen cyhuddiad y bardd yn erbyn y ferch, '[d]arlleodd ymadrodd mydr' (ll.31). Yn ôl Gruffydd, 'the "statement of verse" which the cock-thrush proceeds to read out may perhaps be equated with the reaction of the

plaintiff's count at the beginning of action' (1996: 169). Dafydd fyddai'r un sy'n cwyno, ac felly, yma gwelir yr aderyn yn darllen cyhuddiad Dafydd. Fel yr awgrymodd Gruffydd (1996), mae'r broses hon yn perthyn i'r drefn Seisnig unwaith eto (ll. 31). Ond mae'r aderyn hwn yn darllen y gŵyn mewn arddull benodol, a honno'n arddull bardd, sef yn ôl mydr. Fel y dywed Bhabha, 'in the very practice of domination the language of the master becomes hybrid—neither the one thing or the other' (1994: 33). Wrth lefaru yn yr achos llys hwn, mae'r aderyn yn cymryd arno gymeriad y bardd, yn hytrach nag ieithwedd ddisgwylidig y llys Seisnig. Dyma'r hollt, neu'r 'splitting' y cyfeiriodd Bhabha ato (1994: 44). Yma, wrth gwrs, creadigaeth y bardd yw'r aderyn hwn, yn hytrach nag endid a chanddo ei hunaniaeth benodol ei hun. Er mwyn gweld hollti ar waith yn fwy uniongyrchol, rhaid troi at sefyllfa'r bardd ei hun.

Awdurdod hollt Dafydd

Hyd yn hyn, felly, awgrymwyd bod y ceiliog bronfraith yn symbol posibl o'r cymysgwch diwylliannol a gwleidyddol oedd i'w weld yng Nghymru'r oes a oedd ohoni, ac yn hynny o beth hefyd yn ffigwr wedi ei hollti. Ond er mai'r aderyn sydd â rheolaeth lwyr dros y goedwig, mae gan y bardd hefyd ei awdurdod ei hun. Er bod ei rym ef yn llai amlwg na grym yr aderyn, mae presenoldeb Dafydd yn y gerdd, neu ei absenoldeb i bob cyfryw, yn ganolog i'w berthynas â'r aderyn ac i'w gysylltiad â grym ac awdurdod. Yn rhan gyntaf y gerdd cafwyd cyfres o ddelweddau a oedd yn disgrifio'r aderyn fel cymeriad awdurdodol sy'n meddu ar rym crefyddol, diwylliannol a chyfreithiol. Mae ganddo swyddogaeth bwysig fel stiward, ustus a siryf, ac mae'r disgrifiadau ohono yn gofalu am ei goedwig yn llunio portread awdurdodol ohono. Ond mae eironi sylfaenol yma. Er mai'r aderyn sydd yn rheoli ar

yr wyneb, Dafydd ei hun sy'n rhoi gorchmynion iddo—dyna yw hanfod y gerdd, wrth gwrs. Mewn geiriau eraill, y bardd sy'n rhoi gorchymyn i'r aderyn hwn sy'n ymgorfforiad o swyddi'r ustus, y stiward a'r siryf. Mae Ralph Griffiths (1972: 23) yn nodi mai dim ond y brenin ei hun (neu dywysog Cymru) a oedd â mwy o bŵer na'r ustus, er enghraifft, ac o ystyried hynny, gellid awgrymu bod yr awdurdod sydd gan yr aderyn yn ail i awdurdod llywodraethol Dafydd. Hyd yn hyn, ystyriwyd bod Dafydd yn cael ei reoli gan yr aderyn drwy gael ei alw i ymddangos mewn achos llys ger ei fron, ond bellach gwelwn mai ei was ef yw'r aderyn hwnnw mewn gwirionedd, a Dafydd sy'n meddu ar yr awdurdod. Dyma Dafydd yntau mewn dau le ar unwaith, felly, yn cael ei reoli ond hefyd yn rheoli. Ar un lefel gormodiaith fyddai cymharu hyn â'r gosodiad gan Bhabha a drafodwyd eisoes: 'the fantasy of the native is precisely to occupy the master's place while keeping his place in the slave's avenging anger' (1994: 44). Ond eto, mae strwythur y cywydd hwn yn caniatáu i Ddafydd ei osod ei hun o flaen ei well ac ar yr pryd yn caniatáu iddo lywio'r holl berfformiad. Mae'n crisialu sefyllfa ddeublyg dosbarth yr uchelwyr—yn wrthrych concwest ar y naill law, roeddent mewn sawl ffordd yn y cyfnod hwn yn mwynhau mwy o rym nag y gwnaethent erioed o'r blaen.

Mae ystyriaeth o'r cywydd llatai hwn wedi troi'n drafodaeth gymhleth ar awdurdod, felly. Nododd R. R. Davies fod dryswch diwylliannol yn hydreiddio Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac i bob cyfryw, mae'n bosib gweld dryswch o'r fath yn y gerdd hon. Mae'r drafodaeth ar awdurdod amwys ac ansefydlog yn cydio yn sefyllfa wleidyddol, gymdeithasol a diwylliannol y cyfnod. Mae'n bosib ei chysylltu â'r ymrafael am rym a phŵer a oedd i'w gweld yng Nghymru wedi concwest 1282. Mae'r bardd a'r aderyn ill dau yn cynrychioli pegynau eithaf yr

ymrafael am bŵer, ond maent hefyd yn symbol o'r ffaith na ellir cadw grym yn gyfan gwbl o ddwylo'r trefedigaethdig.

Pennod 9: Eiddig—ar yr ymyl ac yn y galon

Gwelwyd yn y penodau blaenorol mai hanfod rhai o brif syniadau theori ôl-drefedigaethol yw'r broses o osod ffiniau rhwng diwylliannau a chymdeithasau gwahanol. Mae'r frwydr drefedigaethol, wrth reswm, yn ymwneud â goruchafiaeth un gymdeithas neu ddiwylliant ar y llall. Bydd y coloneiddwyr yn anelu at osod eu hawdurdod ar y coloneiddiedig ac y mae'n anochel, felly, fod unrhyw drafodaeth ar frwydr am awdurdod yn ymwneud ag ymdriniaethau ar ddeuliaethau a ffiniau gwahanol. Ar yr wyneb, bydd y coloneiddwyr a'r coloneiddiedig yn eu lleoli eu hunain a'i gilydd mewn manau penodol mewn disgwrs trefedigaethol, gyda'r gweiniaid ar yr ymylon a'r cryfion yn y canol. Yn ôl Ashcroft *et al.* 'centre/margin (periphery) has been one of the most contentious ideas in post-colonial discourse, and yet it is at the heart of any attempt at defining what occurred in the representation and relationship of peoples as a result of the colonial period' (1998: 36). Bydd y disgwrs trefedigaethol yn ceisio lleoli'r grym yn y canol: 'the colonial mission [was] to bring the margin into the sphere of influence of the enlightened centre' (1998: 37). Nod y disgwrs yw gwthio'r gymdeithas wan at yr ymylon a'i gorfodi wedyn i ildio i rym y canol pwerus, a rhan o waith beirniaid ôl-drefedigaethol yw archwilio a thanseilio'r disgwrs hwn. Yng ngeiriau Ashcroft *et al.*: 'post-colonial theorists have usually used the model to suggest that dismantling such binaries does more than merely assert the independence of the marginal, it also radically undermines the very idea of such a binary' (1998: 37). Yn wir, 'in this sense the dismantling of centre/margin (periphery) models calls into question the claims of any culture to possess a fixed, pure and homogenous body of values, and exposes them all as historically constructed, and thus corrigible formations' (1998: 37).

Rhwng y deuoliaethau ceir yr hyn y mae Bhabha yn ei alw'n 'these "in-between" spaces [which] initiate new signs of identity' (1994: 1). I Bhabha, mae'r gofod hwn rhwng deuoliaethau gwahanol yn fodd i gynnig posibiladau newydd wrth drafod diwylliant a hunaniaeth: 'it is in the hybrid gap, that produces no relief, that the colonial subject *takes place*' (1994: 58). Mae'r chwarae hwn ar yr ymadrodd 'takes place' yn amhosibl yn y Gymraeg—mae gormod o flas Cymraeg anystwyth a Seisnigaidd oes Fictoria ar 'cymryd lle'. Ond mae'r chwarae geiriol yn ymwneud â'r ddadl mai yn yr 'hybrid gap' y mae'r trefedigaethedig yn gallu gweithredu, a thrwy hynny'n rhoi bodolaeth iddo'i hun ac yn hawlio ei le. Cafwyd trafodaeth fanwl ar yr hybrid yn y seithfed bennod pan ddadleuwyd mai hybridedd sydd wrth wraidd 'Trafferth mewn Tafarn'. Bydd cymhwyso'r syniad hwn o hybridedd a phwysigrwydd yr 'in-between spaces' y cyfeiria Bhabha atynt uchod at fodel y canol a'r ymyl yn fodd i fwrw golwg newydd ar agwedd arall ar farddoniaeth Dafydd, sef ei daearyddiaeth a'i thirlun mewnol.

Eiddig a'r carwr: yn y galon ac ar yr ymyl?

Mae ystyriaeth o ddaearyddiaeth cerddi Dafydd yn ddadlennol mewn sawl ffordd. Un o'r pethau amlycaf yw'r ffaith fod Dafydd yn fardd crwydrol, fel y gwelir mewn cerddi megis 'Y Pwll Mawn' (59) ac 'Y Don ar Afon Dyfi' (51). Mae'r crwydro hwnnw yn gallu digwydd mewn ardal gymharol gyfyng, megis yn achos 'Taith i Garu' (96), sydd wedi ei leoli yn ardal enedigol Dafydd (fe dybir) yng nghanolbarth Ceredigion. Ond mae cerddi eraill yn dangos y gallai'r bardd ymgymryd â theithiau hwy o lawer. Yn y cywydd 'Basaleg' (14), er enghraifft, cyfeirir at daith o Forgannwg i Fôn, ac mae'r cywydd 'Pererindod Merch' (129) yn dangos ymwybyddiaeth o'r

pergylon a wynebai'r sawl a fynnai deithio o'r de i'r gogledd ar hyd arfordir Cymru. O gymryd y cerddi i gyd fel cyfangorff, gwelir fod Dafydd yn gyfarwydd â theithio drwy Gymru benbaladr.

Ond fel y gwelwyd eisoes, mae'r Gymru hon wedi ei phoblogi gan Saeson yn ogystal â chan Gymry. Fodd bynnag, fel rheol ni fydd cyfeiriadau at Saeson yn cyfeirio at unigolion penodol o gig a gwaed. Sonnir, er enghraifft, am 'serch anwydful Sais' (14.16), am fenig 'Seisnig Sais' (15.56), am 'sawtring Sais', ac am 'saerwaith Sais' (115.6). Nid unigolion penodol sydd dan sylw yma, ond yn hytrach defnyddir y term Sais mewn ystyr gyffredinol, anfanwl. Felly y mae hefyd yn achos yr ansoddair 'Seisnig', a welir mewn cyfeiriadau at y 'pân Seisnig' (115.29) ac at y 'crwth cerrig Seisnig' (62.29). Sylwer hefyd nad yw'r cyfan o'r cyfeiriadau hyn yn rhai dilornus. A phan fo Saeson yn chwarae rhan weithredol mewn cywydd, megis yn 'Trafferth mewn Tafarn', mae'n arwyddocaol eu bod wedi eu lleoli mewn llety dros-dro, yn hytrach na bod yn drigolion parhaol o'r 'dinas dethol'.

Felly er bod cyfeiriadau at Saeson a phethau Seisnig yn ddigon cyffredin gan Ddafydd, nid ydyw yn eu lleoli gyda phendranrwydd yn ei Gymru ef. Maent yno, fel petai, ond eto heb eu gwreiddio. Nid yw Dafydd yn manteisio ar y cyfle amlwg i greu cerddi ffraeth a difri ar sail gwrthdaro uniongyrchol rhwng Cymry a Saeson, boed wrth brynu a gwerthu mewn trefi neu wrth geisio ennill a chadw cariadon, ac eithrio 'Trafferth mewn Tafarn'. Ond fel y nodwyd uchod, Saeson ansefydlog, digartref yw'r trisais sy'n ymddangos yn y cywydd hwnnw. Yn yr un modd, yn 'Dewis Un o Bedair', nid Saesnes mo Elen: mae ganddi 'lediaith lud' (120.18), ond awgrym arall o hybridedd ei chymeriad yw hynny, yn hytrach na Seisnigrwydd digamsyniol.

Yn yr un modd mae Lloegr hithau yn absennol o gerddi Dafydd. Yr unig dro y'i henwir hi yw yn yr awdlau mawl traddodiadol eu harddull i Lywelyn ap Gwilym (5.10, 6.98). Fel arall mae Lloegr, a lleoliadau penodol yn Lloegr, yn cael eu hanwybyddu gan Ddafydd. Ymddengys ar un olwg fod ei fyd ef yn dod i ben yng Nghlawdd Offa, ond ni olyga hynny nad yw'r byd hwnnw'n eang ac yn llawn o bosibiliadau di-ri: 'Hyd y mae iaith Gymræg' (113.35), meddai Dafydd mewn cyfres o olyniadau sy'n cyfleu'r modd y mae enwogrwydd Ifor Hael yn cyrraedd pen draw'r byd. Ar adegau, fodd bynnag, ceir argraff o bryder am Gymreictod ei wlad ei hun, megis pan gyfeiria mewn modd eithafol braidd at 'Gymroaidd wlad Gymræg' (108.38), fel petai'n rhaid cyfiawnhau hunaniaeth y wlad a'i phobl.

Er gwaethaf y ffaith ddiymwad fod Cymru wedi ei choncro, a bod trefn weinyddol newydd wedi ei chyflwyno (rhywbeth a awgrymir droeon yn y cywyddau hyn), mae Dafydd, i raddau helaeth, yn dewis anwybyddu Lloegr a'r Saeson. Mae'n eu diwreiddio, gan lunio byd yn ei farddoniaeth sydd gyfled a chyfuwch â Chymru yn unig. Ni fyddid yn disgwyl i fardd mawl roi lawer o sylw i'r Saeson, ond gyda bardd sydd â *repertoire* mor eang â Dafydd, mae hynny'n syndod. Nodwyd droeon mor chwannog yw Dafydd i gyfuno'r hen a'r newydd, ond nid yw'r newydd-ddyfodiaid o'r ochr arall i Glawdd Offa yn ennyn fawr o ymateb ynddo, o leiaf nid yn uniongyrchol. Yn wir, yr unig eithriadau i'w Gymreictod unplyg yn hyn o beth yw'r cerddi sydd wedi eu lleoli, boed yn y dychymyg neu beidio, yn Ffrainc, a Gwasgwyn yn benodol. Cyfeiriwyd at y rhain eisoes, sef 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' a 'Cyfeddach'. Yn y naill mae Dafydd yn dymuno bod milwr o Ffrainc yn lladd Eiddig, ac yn y llall mae'n dychmygu mor bleserus fyddai cael rhannu gwydraid o win gyda'i

gariad yn Ngwasgwyn; dengys hyn nad yw awen Dafydd yn gwbl gaeth i Gymru. O ran y dychymyg daearyddol, mae 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' yn arbennig o drawiadol yn y modd y mae'n anwybyddu Lloegr. Yn y cyfnod hwn, byddai milwr o Gymru a oedd am groesi i'r cyfandir yn ymgynnull yng Nghymru yn y lle cyntaf cyn teithio i un o borthladdoedd Lloegr a hwylio oddi yno i Ffrainc. Er bod Dafydd yn dychmygu sawl cam ar y daith i Ffrainc, mae'r wedd Seisnig ar y daith yn cael ei llwyr anwybyddu. Nid yw'r bardd yn galw am farwolaeth Eiddig ar yr orymdaith anorfod drwy Loegr; yn wir, anwybyddir hynny'n llwyr.

Yn hanesyddol, wrth gwrs, yr hyn a unai Gymru a Gwasgwyn y cyfnod hwn oedd coron Lloegr. Trwyddi hi, roeddynt yn perthyn i'r un uned wleidyddol estynedig. Wrth gwrs, roeddynt hefyd yn ymylol i'r goron honno, gan fod gan Loegr a'i choron hunaniaeth nad oedd yn ddibynnol ar y ddwy diriogaeth y tu hwnt i'w ffiniau cydnabyddedig. Ond ar y llaw arall, roedd Cymru a Gwasgwyn yn rhan bwysig o fydolwg gwleidyddol y Saeson yn yr oes hon, fel y gwelir o'r rhyfeloedd niferus a fu o'u herwydd yn y drydedd ganrif a'r ddeg a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Un nodwedd o ganu Dafydd felly yw'r modd y mae'n datganoli grym oddi wrth Loegr. Daw ymylon eithaf tiroedd coron Lloegr yn llwyfan ddigon cartrefol i Ddafydd, boed yng Nghymru neu, ar adegau, yng Ngwasgwyn. Nodwyd eisoes sylw Ashcroft *et al.* mai 'the colonial mission [was] to bring the margin into the sphere of influence of the enlightened centre' (1998: 37). Yn nhermau Cymru'r bedwaredd ar ddeg, golygai hyn fod Lloegr yn llunio disgwrs a oedd yn cyfiawnhau dwyn Cymru dan ei dylanwad er mwyn ei diwyllio. Mae daearyddiaeth cerddi Dafydd yn gwrthdroi hyn, ac yn diberfeddu coron Lloegr, gan greu cymundeb clòs rhwng Cymru ac un o ranbarthau mwyaf nodedig Ffrainc.

Ni ellir honni, felly, fod ymateb i Seisnigrwydd fel y cyfryw yn elfen amlwg yng ngwaith Dafydd. Er hynny, mae ymdriniaethau ar leoliadau gwahanol yng ngwaith Dafydd fel rheol yn ymrannu'n drafodaeth ar y goedwig ac ar y dref, a'r olaf yn aml yn cael ei chysylltu â Seisnigrwydd. Mae gan fyd natur gysylltiad agos â'r portread o'r carwr: caiff y cymeriad hwn ei gysylltu â byd y goedwig, ac yno y mae'n cadw oed gyda'i gariad ac yng nghanol byd natur y mae'n teimlo'n gartrefol ac yn hapus ei fyd. Ond mae'r byd bwrdeisiol hefyd yn codi droeon a thro yng ngwaith Dafydd, a hwnnw sydd fel rheol yn cael ei ystyried yn ffynhonnell dylanwadau estron, fel y nodwyd yn y bumed bennod. Cyfeiria D. J. Bowen at y cysylltiad rhwng y trefi yng Nghymru a choncwest: 'yr oedd cynifer â 87 o fwrdeistrefi yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, ac yr oedd i bedair o bob pump ohonynt gastell i'w hamddiffyn; ni ddynodai dim yn fwy clir mai cenedl orchfygedig oeddym erbyn hynny na'r cestyll a'r trefi oedd ynglŷn â hwy' (1977: 191). Mae natur Seisnig y bwrdeistrefi hyn yn bwysig wrth drafod ymateb y Cymry iddynt, meddai Bowen: 'Gellid mynd heibio i'r bwrdeistrefi heb daro i mewn iddynt, bid siŵr, a diau mai eu gochel a'u gwyllo a wnâi'r Cymro lawer tro ... Oherwydd sefydliadau estron oedd y rhain bron yn ddieithriad, ac ymsefydlwyr o Saeson oedd y bwrdeisiaid fel arfer' (1977: 196). Ond nid 'gochel' y trefi hyn a wnaeth Dafydd, ym marn Saunders Lewis: 'Uchelwr oedd Dafydd, magwyd ef yn fonheddig a dysgodd gelfyddyd bendefigaidd ... ond nid un a ochelai dref oedd ef ychwaith' (1932: 75-6). Yn wir, '[y] peth newyddaf yng nghanu bwrdeisiol Dafydd ap Gwilym yw'r syrffed a'r coegni yn gymysg ag anedifeirwch' (1932: 79). Cyfuniad o deimladau gwahanol sydd yn eu hamlygu'u hunain, felly, yn ymateb y bardd i fyd y bwrgais.

Gŵr bwrgais yw Eiddig yntau, ac ymddengys mai'r dref, gyda'i phrysurdeb a'i masnach, yw ei gartref arferol. Yn ei thrafodaeth ar gywydd 'Y Carw' (GDG 116, sef DG.net 46 'Yr Iwrch'), nodâ P. Lynne Williams fod geiriau'r bardd, 'Na'th gig nis caiff Eiddig gau' (ll. 46), yn awgrymu bod Eiddig yn barod i ddwyn rhannau mwyaf gwerthfawr y carw, sef ei gig. Cysyllta Williams y ddelwedd hon â'r byd masnachol: 'yr oedd gwerth masnachol sylweddol i geirw yn yr hen gyfnod ... ac ymddengys mai cynrychioli'r hen syniadaeth honno y mae Eiddig yma yn hytrach na choleddu'r byd uchelwrol ar ei newydd wedd fel y gwna Dafydd, Dyddgu a'r carw' (2000: 87). Yn hynny o beth mae Eiddig yn trosi'r iwrch, symbol o ryddid y goedwig a'i hegni naturiol, i fod yn wrthrych ac iddo werth masnachol. Hawdd yw bychanu Eiddig am y weithred hon, ond eto rhaid cofio nad yw gwaith Dafydd yn brin o gyfeiriadau am dderbyn tâl o wahanol fathau am ei farddoniaeth, a gall fod creu darlun o'r bardd fel gŵr arallfydol nad yw cyfoeth materol yn apelio ato yn enghraifft arall o'r duedd i'w ddehongli yng ngoleuni Rhamantiaeth rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn wir, roedd hela â chwn yn arfer a gysylltid â haenau uwch cymdeithas, ac os yw Dafydd yn poeni y bydd Eiddig yn cymryd cig y carw yna gellid awgrymu nad yw Eiddig ychwaith yn gwbl amddifad o nodweddion uchelwrol.

Mae'r fwrdeistref hefyd yn gefndir i daith y carwr tuag at y ferch yn 'Caru yn y Gaeaf' (55). Mae'r fwrdeistref hon yn gartref i Eiddig, a chaiff ei ddihuno o'i gwsg gan y carwr sydd y tu allan i'w ffenestr. Fodd bynnag, nid yw'n adnabod y cariad ac mae'n cymryd mai cardotyn crwydrol sydd yno:

Tybio bod trwy amod rhai
Meinwas yn ceisio mwna. (33-4)

Cawn awgrym arall o gybydd-dod Eiddig yma, wrth iddo ymateb yn chwym i ymddangosiad y cardotyn honedig, ac rydym yn cydymdeimlo â'r carwr wrth iddo

gael bai ar gam i'r fath raddau nes bod trigolion y dref oll yn troi arno. Ond eto, tric rhethregol gan y bardd sydd yma. Nid yw'r carwr yn ddiuog—mae yn y dref er mwyn pechu drwy odinebu â gwraig Eiddig, ac mae'r pechod hwnnw'n llawer gwaeth na chardota. Mae'n haeddu'r driniaeth a gaiff, ond llwyddir eto i ddangos bod Eiddig yntau'n pechu oherwydd ei gybydd-dod. Ac nid Eiddig yn unig sy'n pechu, gan fod ei ymateb ef yn un a rennir gan drigolion y fwrdeistref. Ond er hynny, ni ellir honni bod y darlun a roddir o'r fwrdeistref o anghenraid yn fwy negyddol na'r portread a geir o'r goedwig, sydd hithau wedi colli ei hapêl yn sgil oerfel a llymder y gaeaf:

Tybiaswn fod, clod cludreg,
Y tyno dail a'r to'n deg,
A mân adar a'm carai
A merch a welswn ym Mai.
Yno nid oedd le unoed
—Llyna gawdd!—mewn llwyn o goed,
Nac arwydd serch nac arail
Na'r dyn a welswn na'r dail.
Nithiodd y gaeaf noethfawr,
Dyli las, y dail i lawr. (49–58)

Mae'r gerdd felly'n gorffen drwy nodi tebygrwydd y goedwig a'r fwrdeistref, yn hytrach na'i wadu.

Ond mae hefyd ffiniau diriaethol yn gwahanu'r ddau fyd y mae'r bardd ac Eiddig yn perthyn iddynt. Mae'r ffiniau hyn yn ffenestri a phyllau, yn greaduriaid a phorthorion. Gesyd y ffiniau diriaethol rhwng ardaloedd bellter rhwng y ddau gymeriad, ac felly hefyd y diwylliannau y maent yn gysylltiedig â hwy. Mae ardal Eiddig gan amlaf yn ardal waharddedig. Cyfeirir at hynny yng nghywydd 'Y Gwynt' (47): 'Caeth yw'r wlad a'i maeth i mi' (ll. 18). Dywed Thomas Parry, 'dweud y mae yn y llinell hon fod gwlad y Bwa Bach yn waharddedig iddo; ni chaiff fynd yn agos i dŷ y Bwa Bach a Morfudd' (1976: 53). Yma felly, gellir awgrymu bod ardal Eiddig

(os gellir ei uniaethu â'r Bwa Bach) y tu hwnt i'r carwr; mae'r carwr felly ar yr ymyl ac yn ddiymadferth.

Ceir cyfeiriadau at nodweddion cartref Eiddig, ac mae'r rheini yn fodd i greu darlun pellach o'r fro y mae'n rhan ohoni. Yn 'Gwahanu' (139), fel mewn sawl cerdd debyg, gwelir y carwr yn aros am ei gariad. Mae'n 'rhodio' (ll. 3) y tu allan i gartref Eiddig, 'ger llys Eiddig a'i briod' (ll. 5). Mae'r cyfeiriad at lys yn bwysig ac yn creu darlun penodol o gartref Eiddig fel un ac iddo statws a gwerthoedd penodol, ac nid anheddle bychan trefol mohono. Caiff y carwr ei atal rhag troedio i mewn i'r llys hwn ac mae'n gorfod aros y tu allan i furiau'r 'tew gaer' hon (ll. 8). Rhaid iddo edrych drwy ffenestr y 'gaer' er mwyn cael gweld ei gariadferch: 'Cannwyf drwy ffenestr wydrlen' (ll. 9). Yma eto, ceir ffin ddiriaethol, sydd yn symbolaidd o gyfoeth a chwaeth, yn gwahanu'r carwr a'r cariad, a ffin ydyw sy'n ei gadw allan o gartref Eiddig. Gwelir y ffin ddiriaethol hon yn y drydedd ran pan ddywed nad yw'n barod i fanteisio ar ei ferch, ei wobwr. Mae'n bodloni ar roi ochenaid:

Dwy uchenaid a roesom
A dorrai'r rhwym dur yrhôm. (27-8)

Mae'r bariau haearn, y 'rhwym dur yrhôm' yn awgrym pellach o'r ffin rhwng y carwr a'r ferch, a'r carwr ac Eiddig. Eto, mae Eiddig wedi'i leoli'n ofalus mewn sefyllfa o awdurdod y tu hwnt i gyrraedd y bardd, a'r sefyllfa honno yn gyfoethog ac yn uchelwrol (sylwer ar y geiriau 'llys' a 'caer').

Ond un o nodweddion barddoniaeth Dafydd yw'r modd y mae ffiniau yn cael eu chwalu'n gyson. Mae diwedd 'Gwahanu' yn enghraifft o hyn. Awgryma'r carwr y byddai'n siŵr o fethu yn ei ymgyrch i ennill y ferch petai'n mynd ati i'w cheisio. O fynd y tu draw i'r ffenestr, muriau'r castell a'r bariau haearn, a chamu yn llwyr i fro

Eiddig, byddai'n aflwyddiannus. Ond wedyn clywn am ochenaid y carwr a'r ferch yn torri trwy'r bariau haearn. Gall mynegiant o emosiwn dorri'r mur sy'n amddiffyn Eiddig. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hynny drwy rym arfau:

Ni cheisiais wall ar f'anrhaith.
Pe ceisiwn, ni chawsw'n 'chwaith. (25-6)

Mae tanseilio grym Eiddig yn amhosibl ar un lefel, ond ar lefel arall, lefel mynegiant barddol a chariad, efallai, mae modd gwneud hynny.

Ceir portread pellach o fyd Eiddig yn y gerdd 'Tri Phorthor Eiddig' (68). Mae'r rhwystrau yn y gerdd hon yn rhai penodol iawn, ac Eiddig ei hun sy'n gyfrifol amdanynt. Daw cartref Eiddig yn un gwaharddedig i'r carwr, yn union fel ag yr oedd yng nghywydd 'Y Gwynt' (47). Gwelir tri phorthor yn gwarchod y cartref, y 'ci glew llwfrddrew llafarddrud' (ll. 7), y 'ddôr ddig' (ll. 9), a'r wrach 'heinus ddolurus ddig' (ll. 13). Mae'r syniad o daith yn ei amlygu'i hun eto yn y gerdd hon. Dywed y carwr:

Deuthum echnos, dunos dig,
Afrwyddwr, i fro Eiddig. (23-4)

Mae'r carwr wedi teithio o leoliad gwahanol er mwyn cyrraedd bro Eiddig. Cartref Eiddig yw 'carchar bardd' (ll. 27) meddai, delwedd sy'n codi'r syniad o gaethiwed o fewn carchar swyddogol bwrdeistref. Mae'n fyd na all y carwr hwn berthyn iddo, ac mae'r ddelwedd o'r carwr mewn carchar o fath yn codi'n aml yn y cerddi. Mae bariau haearn yn gwahanu'r ferch a'r carwr yn 'Gwahanu' (139) ac yn 'Dan y Bargod' (98) cyffelybir cartref Eiddig i'r carchar yng Nghastell Caernarfon:

Ni bu'n y Gaer yn Arfon
Geol waeth nho'r heol hon. (27-8)

Mae'r carchar hwn ym mwrdeistref Caernarfon. Mae bro Eiddig, felly, yn caethiwo'r carwr.

Ond nid yw'r ddeuliaeth hon mor glir â hynny ychwaith. Fel y gwelwyd eisoes, mae'r ddelwedd o gartref Eiddig fel caer, 'caer gawdd' (68.33), yn un gyffredin. Ond yn 'Tri Phorthor Eiddig' (68), mae cartref y carwr hefyd yn gaer. Bu'n rhaid i'r carwr ddianc rhag bro Eiddig gan fod y ci, y wrach a'r drws wedi ei atal rhag cyrraedd ei wobwr o ferch. Wrth ddianc o'r ardal honno, dywed iddo redeg 'am y gaer loywglauer lân' (ll. 49). Mae cartref y carwr yn y goedwig yn gastell hefyd. Mae'r cywydd 'Caer rhag Cenfigen' (122) hefyd yn ymdrin â'r ddelwedd hon o gastell yn ôl cysylltiad â'r carwr. Yma y ferch ei hun yw'r castell: 'Ungwr.../A gadwai gastell, cell cerdd' (122.25-26). Mae'r carwr hwn felly ar adegau yn gweithredu mewn modd tebyg i Eiddig, yn ei amddiffyn ei hun oddi mewn i gastell cadarn. Mae'r naill gastell yn gweithredu fel amddiffynfa rhag bygythiad y llall, yn un enghraifft o'r modd y mae Dafydd yn chwarae gyda delweddaeth ddaearyddol yn ei gerddi.

Hyd yn hyn felly, trafod byd Eiddig a wnaethpwyd a thaith y carwr i mewn i'r fro honno, ond nid taith y carwr yn unig sydd i'w gweld yn y cerddi. Felly hefyd y mae Eiddig i'w weld yn mentro i fyd y carwr. Yn yr un modd ag y mae presenoldeb y carwr yng nghynefin ei elyn yn codi cwestiynau ynghylch awdurdod, felly hefyd y mae'r portread o Eiddig yn y goedwig yn fodd i gyfoethogi'r agweddau diwylliannol amwys sy'n codi yng ngwaith Dafydd. Cyfeiriwyd uchod at y modd y mae Eiddig yn symbol o ryw ganol pwerus. Dywed Saunders Lewis, 'Gŵr bwrtais yw ei Eiddig gan amlaf' (1932: 76). Mae'n ffigwr sy'n cael ei gysylltu â byd masnach y trefi, felly, ond mae'r geiriau 'gan amlaf' yn sylwadau Lewis yma yn bwysig ac yn ddiddorol wrth ddilyn patrwm ôl-drefedigaethol o ddehongli. Mae cywydd 'Yr Eos' (155) yn enghraifft o hyn. Yn ei nodiadau ar y cywydd hwn, cyfeiria Lake at y dadlau sydd

ynghylch ei awduriaeth ac yn y golygiad electronig newydd o waith Dafydd ap Gwilym (2007) y mae'r cywydd wedi ei osod ymhlith y cywyddau y mae eu hawduriaeth yn ansicr. Cyfeiria Lake, er enghraifft, at farn Thomas Parry (1979) sy'n awgrymu mai cywydd gan Ddafydd yw hwn ond bod 'dadl o blaid priodoli'r cywydd hwn hefyd i Fadog am fod y rhan fwyaf o'r geiriau yn cael eu priodoli iddo' (Lake 2007: DG.net.155). Cynigia Lake, fodd bynnag, 'yn y testun a gynigir yma Dafydd yw'r prif lefarwr ac o'r herwydd y mae'n haws dadlau mai ei gywydd ef ydyw hwn' (Lake 2007: DG.net.155), a dyma a wneir yn yr astudiaeth hon hefyd. Gwelir cysylltiad rhwng Eiddig a'r goedwig yn y gerdd sy'n golygu ei fod wedi symud o fyd y bwrgais erbyn hyn. Dywedir bod Eiddig wedi difetha'r coed,

Amau'r wyf i ei ddiosg,
Heb ymladd, heb ladd, heb losg,
O Eiddig—oerfel iddaw!—
Â'i gaib—wb o'i raib!—a'i raw.' (11-14)

Ar un lefel, dyma gadarnhau awdurdod Eiddig y tu hwnt i'w gynefin ei hun. Ond dengys y delweddau canlynol nad hynny yw'r achos, oblegid ni all y cymeriad hwn ladd na difetha, na chyflawni unrhyw weithredoedd o'r fath yng nghoedwig Dafydd, mewn gwirionedd, 'Nis llysg ac nis diysg dyn' (ll. 18). Caiff awdurdod Eiddig ei ddileu yma ac ni all ennill goruchafiaeth ar Ddafydd. Mae awdurdod yn newid dwylo unwaith eto felly a chaiff ei dynnu i ddau gyfeiriad ar unwaith. Gellid awgrymu bod Eiddig a'r carwr/Dafydd yn feistri ar eu hardaloedd eu hunain gan osod eu rheolaeth dros y tir hwnnw. Yn y 'Serch Dirgel' (78), er enghraifft, dywedir na fydd Eiddig yn gallu distrywio nyth y cariadon:

Ni fedr Eiddig anfadwr
Ar y nyth hwn ... (21-22)

Y carwr sydd â goruchafiaeth y tro hwn felly. Mae awdurdod yn newid dwylo felly, yn troi'n gyflwr cyfnewidiol a dynamig.

Yr Ystrydeb—yn y galon ac ar yr ymyl

Cyn ymadael â chymeriad Eiddig, rhaid nodi un pwynt sylfaenol am y portread ohono, sef mai cymeriad stoc, neu ystrydeb, ydyw. Mae hynny'n gwbl glir o'i enw yn anad dim arall. Nid cymeriad unigol, diffiniedig mohono. Mae gwaith Dafydd (ac nid ei gerddi mawl a marwnad yn unig) yn llawn o unigolion y gwyddom eu bod yn bodoli, megis Robin Nordd a Dyddgu ferch Ieuan. Mae Eiddig yn wrthbwynt llwyr i hynny, er gwaethaf yr awgrym ar adegau mai ef yw'r gŵr a elwid yn Bwa Bach. Cymeriad yw Eiddig sy'n arddangos un dull syml o feddwl ac o weithredu, a hwnnw wedi ei seilio ar ei eiddigedd parhaol ac ystrydebol. Mae Huw Edwards yn crynhoi rhai o nodweddion y cymeriad hwn, sydd hefyd yn adnabyddus o lenyddiaeth Ffrainc:

the typical *jaloux* of the French *malmariées*, like the jealous husbands who are the butt of the joke in so many of the fabliaux, is a wealthy but despicable villain who beats his wife and is obsessively watchful. His moral and social deficiencies are matched by his physical shortcomings: as well as being old and often impotent, he is likely to be grotesquely ugly or pox-ridden. (1996: 272)

Gwelir y cyfan o'r nodweddion hyn yng ngwaith Dafydd. Cyfeirir at ei anadl yn difetha prydfferthwch y ferch yn 'Llychwino Pryd y Ferch' (115): 'anadl fal mwg banhadlen' (ll. 21), er enghraifft, a chyflwynir prydfferthwch Morfudd ochr yn ochr â phryd a gwedd hyll Eiddig yn 'Gwallt Morfudd' (114). Mae'r cymeriad yn ei hanfod yn ystrydeb. Gellid dadlau bod cymeriadau o'r fath yn nodweddiadol o lenyddiaeth yr Oesoedd Canol, wrth gwrs. Ond a oes rheswm arall dros bwysigrwydd cymeriad Eiddig i farddoniaeth Dafydd?

Egyr Bhabha ei bennod ar yr ystrydeb, 'The Other question: Stereotype, discrimination and the discourse of colonialism', gyda thrafodaeth ar y syniad o 'fixity'. 'An important feature of colonial discourse is its dependence on the concept of "fixity"', meddai, '[and] fixity ... is a paradoxical mode of representation: it connotes rigidity and an unchanging order as well as disorder, degeneracy and daemonic repetition' (1994: 66). Mae'r cysyniad hwn yn ymwneud â threfn bendant ond un lle y mae wastad berygl y bydd yn dirywio'n anhrefn beryglus. At hynny, 'the stereotype ... is a form of knowledge and identification that vacillates between what is always "in place", already known, and something that must be anxiously repeated' (1994: 66). Mae'r ystrydeb yn greadigaeth gymhleth fel y gwelwyd yn y trafodaethau yn yr ail bennod a'r seithfed. Ar y naill law, gweithreda fel cyfrwng sy'n lleihau'r bwllch rhwng y coloneiddwyr a'r coloneiddiedig, ac ar y llall, pwysleisia arallrwydd y coloneiddiedig er mwyn cadw'r pellter rhwng y rhai sydd â grym a'r sawl sydd o dan ormes. Nid yw'r naill garfan na'r llall yn meddu ar un lleoliad cyson ac o'r herwydd dywed Bhabha fod yn rhaid ailadrodd ystrydebau yn gyson. Yng ngeiriau McLeod, 'the *repetition* of the colonial stereotype is an attempt to secure the colonised in a fixed position, but also an acknowledgement that this can never be achieved' (2000: 54). Daw hyn â ni yn ôl at sylwedd yr wythfed bennod: 'as a form of splitting and multiple belief, the stereotype requires for its successful signification, a continual and repetitive chain of other stereotypes... the stupidity of the Irish *must* be told (compulsively) again and afresh, and are differently gratifying and terrifying each time' (Bhabha 1994: 77). Mae McLeod yn crynhoi fel a ganlyn,

on the one hand, stereotypes translate the unfamiliar into coherent terms by seeming to account for the strangeness of other peoples... The distance between the colonisers and the colonised is *lessened*, as the colonised are brought within the boundaries of Western knowledge. But, on the other hand, colonial stereotypes also function contrariwise

to *maintain* this sense of distance. The colonisers must never admit that other peoples are not really very different from themselves, as this would undercut the legitimacy of colonialism (2000: 53).

Ac fel y dywed Ashcroft *et al.*, 'The stereotype is therefore a complex belief: simultaneously a recognition and a disavowal of difference' (1998: 127). Ac yn ogystal â'i chymhlethdod, mae'r ystrydeb yn ei hanfod yn ei gwrth-ddweud ei hun: '[it is] a complex, ambivalent, contradictory mode of representation, as anxious as it is assertive' (Bhabha 1994: 70).

O ystyried yr uchod, ceir awgrym o un rheswm pam y ceir cymaint o sôn am Eiddig, sef yr angen i ailadrodd ystrydeb ar ran y bardd o Gymro. Wrth gwrs, nid ef yw'r trefedigaethwr yma, ond eto mae lleoli ffigwr Eiddig mewn gofod penodol yn weithred angenrheidiol er mwyn i'r bardd ei leoli ef ei hun, boed ar yr ymylon neu beidio. Rhaid cofio er hynny mai persona a grëwyd gan y bardd yw'r carwr sy'n ymddangos yn y cerddi, a thrwy lygaid y carwr hwnnw yn unig y gwelwn Eiddig. Nawr, mae defnydd Dafydd o bersona yn ei gerddi yn fater dadleuol. Daliai Helen Fulton (1989) fod y persona yn newid yn unol â natur cywyddau unigol a'r dosbath o gymdeithas yr oedd y gerdd benodol yn ymwneud ag ef. Ond fel y gwelwyd eisoes, cafwyd cryn anghytundeb am hyn, yn arbennig o du Gwyn Thomas:

This individual [h.y. y syniad o Ddafydd a geir o'r farddoniaeth] may or may not have been like the 'real' or 'historical' Dafydd as he seemed to his contemporaries; the poems are not necessarily biographical in a literal way. What Dr Fulton has done is to obliterate this individual and iron out any inconsistencies by compartmentalizing the poet so that he speaks through various personae. (1990: 64)

Ond hyd yn oed pe derbynnid awgrym Thomas fod Fulton yn gweld gormod o *personae* ym marddoniaeth Dafydd, rhaid derbyn fod ffigwr y carwr yn greadigaeth

lenyddol yn hytrach nag yn adlewyrchiad syml o'r Dafydd 'go iawn'. A hanfod y cerddi yw bod y greadigaeth lenyddol honno yn creu cymeriad arall, sef Eiddig. Nid yw Dafydd yn fardd sy'n defnyddio llais neu safbwynt niwtral hollwybodus yn ei gerddi—mae ef wastad yn gymeriad ynddynt, wastad yn cymryd rhan. Bron na ddylid gosod dyfynodau o gwmpas y cyfan o'i gerddi serch. Gan hynny, nid yw Eiddig yn ddim ond cynnyrch y disgrifadau ohono a geir gan ffigwr y carwr.

At hynny, cawn ar adegau arwyddion clir iawn o ymwybyddiaeth gan Ddafydd ei fod yn creu ystrydebau drwy gyfrwng ei farddoniaeth. Mae 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra' (72) yn enghraifft o'r modd y mae'r carwr yn ceisio ymbellhau oddi wrth ei elyn. Nid enwir y gelyn yn Eiddig yma, ond mae'r darlun o'r milwr oeraidd yn debyg iawn i Eiddig mewn rhai ffyrdd, yn arbennig o gofio ei fod ef, mewn cerdd arall, yn ymuno â'r milwyr sy'n heidio i Ffrainc. Ceir yma frwydr seicolegol bron wrth i'r carwr geisio argyhoeddi'r ferch ei fod yn meddu ar briodweddau gwell nag Eiddig. Yn y bôn, ceisia'r carwr hwn ei osod ei hun am y pegwn croes â'i elyn. Dywed wrth y ferch nad yw'n beth da caru 'gwas dewr' (ll. 24) gan nodi ei bod yn well gan hwnnw frwydro na charu'r ferch: 'Rhyfel ac oerfel a gâr' (ll. 28). Dywed ymhellach y byddai'n gadael y ferch yn syth pe byddai'n clywed am frwydr:

O chlyw fod, catorfod tyn,
Brwydr yng ngwlad Ffrainc neu Brydyn,
Antur gwrdd, hwnt ar gerdded
Yn ŵr rhif yno y rhed. (29-32)

Yn y bôn, ac fel yr awgryma R. Geraint Gruffydd (1980: 50) wrth drafod y gerdd hon, 'ceisio'i argyhoeddi ei hun' fod ei elyn yn garwr annheilwng y mae, yn hytrach nag argyhoeddi'r ferch. Mae'r persona yn datgelu ei wendidau, ac mae'r gwendidau hynny yn amlwg o ran yr effaith a gânt ar y portread o elyn y carwr. Yma y mae'r

bardd yn ein galluogi i weld y broses o ystrydebu ar waith. Mewn geiriau eraill, mae'r carwr yma'n creu ystrydeb er mwy llunio hunaniaeth iddo ef ei hun.

Ond ar adegau y mae'r ffin rhwng Eiddig a'r carwr yn lleihau, os nad yn diflannu. Mae modd chwerthin am ben y carwr ei hun yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, ac yn sgil y troeon trwstan niferus y mae'r carwr yn rhan ohonynt gellid awgrymu bod y carwr yr un mor chwerthinllyd ag Eiddig. Yn wir, fel y dywed Helen Fulton, 'Dafydd sometimes adopts for himself the persona of a boorish seeker of sensual pleasures ... this persona has affinities with the character of Eiddig' (1989: 188), a dywed ymhellach, 'the persona of the lover is as unsympathetic as the husband' mewn rhai cerddi (1989: 190). Trafodwyd eisoes y modd y gall y ddau gymeriad hefyd ymrithio'n lladron. Y carwr ei hun sy'n ymgorffori'r ddelwedd hon yn 'Trafferth mewn Tafarn' (73). Yno, cysylltir delwedd y lleidr â'r ddelwedd o fod yn Gymro. Daw'r lleidr yn ystrydeb ar gyfer y diwylliant hwn gan drigolion bwrgais y llety, cymdeithas y mae Eiddig ei hun yn perthyn iddi yn aml iawn. Eithr nid y carwr yn unig yw'r lleidr yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Yn 'Rhag Hyderu ar y Byd' (108), mae'r bardd yn cwyno ar ddechrau'r gerdd fod Eiddig wedi dwyn ei gyfoeth—y tro hwn felly, Eiddig yw'r lleidr. Y cyfoeth hwn yw cariad y ferch sydd yn drech nag unrhyw gyfoeth materol. Mae cenfigen yn dod i'r fei yma, a chenfigen y carwr yn yr achos hwn. Cyfeirir at Eiddig fel lleidr, 'Eiddig leidr, Iddew gwladaidd' (ll. 4). Ystyrid yr Iddewon, wrth gwrs, yn bobl ddiwreiddiau heb deyrngarwch i wlad na brenin, a chan hynny mewn rhai ffyrdd yn ddihunaniaeth. Arwyddocaol felly yw bod cymhariaeth rhwng Eiddig ac Iddew yma, er nad oes cymhariaeth uniongyrchol rhwng Eiddig a Sais. Cwyna'r bardd fod Eiddig wedi dwyn ei gyfoeth. Mae'r carwr yn melltithio'r cymeriad hwn am beri iddo fethu, 'mefl iddo a'm aflwyddawd!' (ll. 2).

Mae ystrydeb y lleidr yn fodd i gadarnhau goruchafiaeth Eiddig ar ddechrau'r gerdd hon. Ond er gwaetha'r ffaith i Eiddig ddwyn ei gyfoeth, sef ei ferch, ni fydd y carwr yn dlawd ychwaith. Dywed Fulton, 'the poet finds material reward, not through his pursuit of Morfudd, but in his work as a praise-poet to the native *uchelwyr*.' (1989: 220). Mae ganddo'i farddoniaeth felly, sy'n eiddo i Gymru:

Gan nad oes, duunfoes deg,
Gymroaidd wlad Gymræg
Hyd na chaffwyf, bwyf befriaith,
Durfing was, da er fy ngwaith; (37-40)

Yn ôl Fulton, 'this emphasis on nationality implies that the poet sees a distinction between his own culture and that of the English settlers introduced into Wales' (1989: 220). Mae ystrydeb y lleidr yn peri bod y bardd yn creu delwedd draddodiadol uchelwraidd-Gymreig iddo ef ei hun. Ar yr wyneb, Eiddig sydd â'r llaw uchaf yn y berthynas oblegid ef wnaeth ddwyn cyfoeth oddi ar y carwr a dod yn gyfoethog ei hun. Ond erbyn diwedd y gerdd wrth gwrs, dywed y carwr na fydd ef yn dlawd. Bydd ganddo ef gyfoeth hefyd. Mewn cerdd arall mae'r carwr yn gellweirus ac yn cyfeirio ato'i hun fel lleidr, megis yn 'Serch Dirgel' (78):

Myfi y sydd, deunydd dig,
Leidr y serch dirgeledig (1-2)

Mae'r ystrydeb yn cael ei throsglwyddo o un cymeriad i'r llall, felly, a gellid cynnig nad yw hunaniaethau'r ddau yn bodoli am y pegwn croes â'i gilydd.

Y mae'r delweddau uchod, felly, sy'n cynnwys ystrydebau gwahanol, yn fodd i gadarnhau nad yw lleoliad y carwr nac Eiddig yn bendant. Caiff awdurdod ei drosglwyddo o'r naill gymeriad i'r llall wrth iddynt gyfnewid lleoliadau a mentro i fydoedd gwahanol, sef y goedwig a'r fwrdeistref. Nid endidau cyferbyniol mohonynt ac yn yr un modd, mae'r drafodaeth uchod yn atgyfnerthu'r posibilrwydd nad

cymeriadau croes i'w gilydd yw'r carwr ac Eiddig. Er bod ymgais i bwysleisio'u harwahanrwydd drwy gyfrwng ffiniau a rhwystrau diriaethol, megis y bariau a'r ffenestri, caiff y ffiniau hyn eu dileu wrth i'r ddau gymeriad droedio o un byd i'r llall. Mae hyn oll yn cadarnhau felly bod y carwr ac Eiddig yn rhannu'r un gofod amwys ac yn meddu ar hunaniaeth ddiwylliannol debyg.

Y casgliad amlwg am Eiddig yw ei fod yn *alter ego* i'r bardd. Nid yw'n cynrychioli bygythiadau allanol i'r bardd ac i ddosbarth yr uchelwyr yn gyffredinol, fel y myn Fulton. Nid yw ychwaith yn fygythiad o ran Cymreictod fel y cyfryw. Er gwaethaf y delweddau sy'n ei gysylltu â Seisnigrwydd, daw'n amlwg yma nad Sais pur mohono o bell ffordd. Mae Dafydd yn gyson wrth beidio â nodi'n bendant mai Sais ydyw, er y gallai'n hawdd fod wedi gwneud hynny pe bai'n dymuno, fel y gwelwyd yn y bumed a'r chweched bennod. Gall mai Cymro—ond Cymro hybrid—yw Eiddig, er cymaint y gwahaniaeth rhyngddo a chymeriad y bardd yn y cerddi. Gan hynny gellid dadlau bod ei hunaniaeth ef yn cyfleu llwybr arall o'r Trydydd Gofod. Nid yw'n gefnogwr o farddoniaeth draddodiadol, nid yw—gyda rhai eithriadau—yn byw mewn modd tebyg i'r uchelwyr cyffredin, ond eto ni all fod yn ddim ond Cymro. Math cyfyng iawn o Gymreictod a lunnir gan Ddafydd ap Gwilym wrth gyflwyno cymeriad y carwr yn y cerddi, ond hyd yn oed wedi dweud hynny rhaid nodi eto mor debyg yw'r carwr ac Eiddig yn aml iawn. Cymreictod wedi ei seilio ar werthfawrogiad o ddiwylliant a gwerthoedd y gyfundrefn farddol a geir gan Ddafydd, yn gwbl naturiol felly. Gan hynny, camgymeriad mawr fyddai tybio bod y Cymreictod hwnnw yn berthnasol i bawb a fyddai wedi eu hystyried eu hunain yn Gymry yn ystod yr Oesoedd Canol. Holwyd yn gynharach yn yr astudiaeth hon a oedd y fath beth â chenedl yn bodoli yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Mae'n bosibl

dadlau y byddai'n anodd iawn llunio diffiniad ohoni ar sail barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, a'r hollti amlwg sydd i'w weld ynghlwm wrth gymeriad Eiddig.

Casgliadau

Mewn erthygl sy'n trafod gwaith Dafydd ap Gwilym o safbwynt ôl-drefedigaethol, cyfeiria Foster Evans at Ddafydd fel 'Bardd arallwlad' (2006: 39). Ymadrodd yw hwn o'r cywydd 'Y Pwll Mawn' (59) sy'n disgrifio'r bardd fel crwydryn ar goll mewn ardal ddieithr. Fel y dywed Foster Evans, 'nid unrhyw grwydryn mohono, ond bardd' (2006: 53), ac fel 'arallwlad' (59.19) y cyfeirir at yr ardal ddieithr honno a gyflwynir yn ei gerdd ei hun. Dadleuir bod llawer mwy ar waith yn y gerdd hon na'r ddelwedd syml o fardd ar goll. Yn yr 'arallwlad' hon y gwelir arwyddocâd syniadau ôl-drefedigaethol fel dull o ddehongli, oherwydd bod y lleoliad hwn yn rhyw fath o Drydydd Gofod arbennig. Fel yr awgryma Foster Evans, 'nid arallwlad ddaearyddol, o anghenraid, mo'r "arallwlad" hon. Yn hytrach, gall fod yn adlewyrchiad o statws diwylliannol amwys y bardd' (2006: 55). Y mae'r cyfeiriad hwn at 'arallwlad' felly yn codi cwestiynau ynghylch lleoliad yr adroddwr, ac o bosibl Dafydd ap Gwilym ei hun. Mae lleoliadau amwys o'r fath wedi bod yn greiddiol i'r traethawd hwn ac yn fan cychwyn i ddangos pa mor berthnasol y gall Trydydd Gofod Bhabha a syniadau ôl-drefedigaethol eraill fod i gynnwys cerddi Dafydd ac i'n hamgyffred o Gymru'r Oesoedd Canol. Felly hefyd, yn y lleoliad newydd hwn, y Trydydd Gofod os mynnwch, y mae canfod gwerth ôl-drefedigaethedd fel fframwaith meddyliol ac i ganfod oblygiadau'r ymchwil hwn ar ei hyd.

Yr Estheteg Gymreig? Gwyrdroi Dafydd ap Gwilym

Yn ôl Saunders Lewis, mewn cyfrol ar Williams Pantycelyn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1927, y cyfnod 1330–1640 a 'welodd grisialu y meddwl Cymreig am farddoniaeth. Wedi'r cyfnod hwnnw ni fu meddwl Cymreig pur' (1991: 16). Cwmpo i'r cyfnod Cymreig 'pur' hwn y mae Dafydd ap Gwilym, felly, ac o'r herwydd, gellid disgwyl

i'w waith gyfrannu at y 'meddwl Cymreig pur' y cyfeiria Lewis ato. Hanfod cyfrol Lewis yw'r 'estheteg Gymreig'. Gesyd bwyslais ar feddwl Cymreig y traddodiad llenyddol yng Nghymru a dywed mai'r Oesoedd Canol oedd y cyfnod 'a luniodd lôn Cymru' (1991: 1). Rhoddir pwyslais ar unoliaeth y traddodiad a'i unffurfiaeth: 'mae llenyddiaeth Cymru hyd at yr ail ganrif ar bymtheg yn *un peth*' (1991: 2). Sylfaen y ddamcaniaeth hon yw'r gred bod parhad a thraddodiad yn elfen bwysig yn hanes barddoniaeth Gymraeg ar hyd yr oesoedd. Mae'r unoliaeth a'r unffurfiaeth hon yn cyfrannu at lunio'r 'estheteg Gymreig' (1991: 8), a dyma yn ei hanfod yw 'cyfrinach' llenyddiaeth Gymraeg.

Yn ei gyfrol *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (1932) mae Lewis yn trafod lle Dafydd a'i barddoniaeth yn nhraddodiad llenyddol Cymru. Mae neilltuo pennod ar gyfer Dafydd ap Gwilym yn awgrym fod gan y bardd hwn gyfraniad sylweddol at gyfrinach llenyddiaeth Gymraeg. Mae Lewis yn cyfeirio at y datblygiadau newydd a welir yng ngwaith Dafydd, megis defnydd Dafydd o eironi, 'y peth newydd hwnnw mewn cerdd dafod Gymraeg' (1932: 79). Ond dengys Lewis mai ffordd o gadarnhau ymwybod Dafydd â Chymreictod yw'r eironi hwn, 'ni allai bywyd bas ac eironi fodloni un a oedd, er ei holl grwydro, mor Gymreig ei fagwraeth.' Daw byd natur Dafydd hefyd yn symbol o'r ymwybod Cymreig a welir yn rhai o'i gerddi: 'yma nid oes na choegni nac eironi' (1932: 80). I Lewis felly, mae barddoniaeth Dafydd yn greiddiol i'r elfen lywodraethol honedig honno yn y meddwl Cymreig, sef undod ac unoliaeth.

O safbwynt ôl-drefedigaethol, mae cefndir Saunders Lewis a'i fagwraeth ac addysg Seisnig yn ei wneud yn ffigwr hynod ddiddorol, a hynny am ei fod wedi ei

leoli rhwng dwy wlad a dau ddiwylliant. Ac er iddo raddio mewn llenyddiaeth Saesneg, ni cheisiodd ddarganfod cysylltiadau rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Saesneg yn yr Oesoedd Canol, ond, yn hytrach, aeth ati'n ymwybodol i'w gwahanu oddi wrth ei gilydd. Gellir dweud hefyd fod ei ymdrech i greu 'estheteg Gymreig' yn brosiect unigryw ac uchelgeisiol na chafodd lawer o efelychwyr. Ys dywed R. M. Jones, 'ychydig yw'r rhai—ni allaf feddwl ar hyn o bryd ond am Dafydd Glyn Jones—a geisiodd estyn yn effeithiol y math o ddiffinio neu hunaniaethu diwylliannol a gafwyd o bryd i'w gilydd gan Saunders Lewis pan fyddai ef yn ceisio trafod yr "estheteg Gymreig" (1998: 400). Wrth gwrs, gellid dadlau bod ymdrechion Lewis yn hyn o beth yn ymateb cwbl nodweddiadol o'r sefyllfa drefedigaethol, yn gamau cyntaf yn y frwydr i ymryddhau rhag y grym imperialaidd. Ond mae mwy i'w ddweud na hynny.

Ni allai Lewis honni fod Cymreictod diamod yn perthyn i lenyddiaeth Gymraeg ar ei hyd. Felly aeth ati i ddiffinio cyfnod y gallai honni iddi gynhyrchu barddoniaeth, o leiaf, a oedd yn gynnyrch meddwl cwbl Gymreig. Gwyddai'n iawn fod rhyddiaith Gymraeg yr Oesoedd Canol yn drwm o dan ddylanwad llenyddiaeth Ffrainc yn arbennig, a bod chwedlau megis 'Y Tair Rhamant' yn gynnyrch y cyfarfyddiad rhwng traddodiadau Cymreig a barddoniaeth Ffrangeg. Gwyddai ymhellach am y cyfieithiadau a'r addasiadau niferus, megis Brut y Brenhinedd, a luniasai fydolwg y Cymry canoloesol, gan gynnwys y beirdd. Ymhyfrydai hefyd yn y diwylliant crefyddol cyffredin a geid yng Nghymru ac yng ngweddill gorllewin Ewrop, ac wrth drafod y bardd Siôn Cent yn y *Braslun* (1932: 95–114) dadleuodd ei fod o dan ddylanwad diwinyddion 'Ysgol Rhydychen' (syniad na dderbyniwyd gan

ysgholheigion diweddarach). Er hynny, honodd fod estheteg barddoniaeth Gymraeg (er nad ei chynnwys, o anghenraid) wedi para'n bur a Chymreig am ganrifoedd.

Gwnaeth hynny'n rhannol gan fod defnydd ymarferol ganddo ar gyfer y 'traddodiad' hwnnw. Yng ngeiriau R. M. Jones, canfu rym 'mewn Traddodiad fel offeryn chwyldro' (2003: 34). Ac oni bai fod y 'Traddodiad' hwnnw'n cael ei ystyried yn gwbl Gymreig, ni fyddai ganddo'r grym angenrheidiol. Rhaid oedd canfod purdeb yn Nhrydydd Gofod llenyddiaeth Gymraeg. Yn ymarferol, go brin y gellid honni bod estheteg y beirdd Cymraeg, neu eu syniadau am farddoniaeth, wedi eu hynysu rhag effaith y cymysgedd diwylliannol o'u cwmpas, ac a nodweddai eu syniadau am eu hanes a'u tras hwy eu hunain. Ond roedd prosiect beirniadol Saunders Lewis yn mynnu mai felly yr oedd.

I R. M. Jones ei hun, ar y llaw arall, fel y nodwyd ar ddechrau'r astudiaeth hon, cafwyd modd i ymdrin â chymhlethdod diwylliannol drwy gyfrwng tra gwahanol, sef 'gwahuniaeth', y cysyniad sy'n ceisio cymhathu gwahaniaeth ac undod. Ond erys Cymreictod yn sylfaenol i'r syniad hwnnw yntau, ac eto am resymau sydd yn y pen draw yn rhai ymarferol. Ys dywed Simon Brooks, 'mae R. M. Jones, er ei fod yn seilio'r ddadl dros genedligrwydd ar yr egwyddor o amrywiaeth oddi mewn i undod, yn dal bod yn rhaid i genedl gael cenadwri i'w dwyn gerbron y byd' (2004: 116). Man cychwyn syml yn y bôn sydd i syniadaeth R. M. Jones parthed cenedlaetholdeb; fe'i geilw ei hun yn 'un sy'n credu bod y genedl Gymreig barhaol yn eithriadol bwysig i ddynoliaeth [ac yn] greadur sy'n parchu'i bodolaeth' (1998: vii).

Y mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dra arwyddocaol o ran y meddwl Cymreig y cyfeiria Lewis a Jones ato. Wrth gwrs, mae syniadau Lewis wedi cael eu beirniadu o sawl cyfeiriad, ac mae cenedlaetholdeb yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn mewn rhai cylchoedd ers degawdau. Ond yr hyn y mae'r traethawd hwn yn ceisio ei wneud yw dangos *bod* materion yn ymwneud â hunaniaeth grŵp yn sylfaenol bwysig, hyd yn oed yn yr Oesoedd Canol, ond bod yr hunaniaethau hynny yn cael eu mynegi mewn ffyrdd mwy cymhleth nag a feddylir gan amlaf. Mae Dafydd ap Gwilym yn 'datblygu meddwl am hunaniaeth Gymreig', chwedl Bobi Jones (1998: 435), ond nid un syniad o Gymreictod sydd ganddo—mae'n cynnig mwy nag un model inni. Yng ngoleuni damcaniaethau ôl-drefedigaethol, nid delwedd bur o Gymreictod a gawn, ac nid yw'r undod na'r unoliaeth y cyfeiria Lewis atynt ychwaith. Mewn gwirionedd, rhaid ailfeddwl yn bur sylfaenol am beth yw 'diwylliant Cymreig'. Dengys Bhabha inni na all purdeb diwylliannol fodoli yn y berthynas drefedigaethol a welir yn ei Drydydd Gofod. Fel y nododd Childs a Williams, ac fel y gwelwyd eisoes yn y traethawd, 'the necessary Third Space shows that there is no original "meaning" or cultural "purity"... instead there is cultural difference' (1997: 142). Yn y gofod hwn y rhydd Bhabha bwyslais ar y cyflwr hybrid a'r Trydydd Gofod 'based not on multiculturalism or the *diversity* of cultures, but on the inscription and articulation of culture's *hybridity*' (1994: 38). Ni all 'purdeb' y diwylliant Cymreig fodoli yn y gofod hwn. Wrth gwrs, fel y dywedwyd eisoes, ni honnai Lewis nad oedd beirdd y cyfnod wedi dod o dan ddylanwad diwylliant y Sais. Ond ei awgrym yw bod eu *syniadau* am farddoniaeth wedi eu cadw rhag y dylanwad hwnnw, a bod perthynas glòs iawn rhwng y syniadau hynny a Chymreictod. Fodd bynnag, yng ngoleuni Trydydd Gofod Bhabha, mae ymwybod Dafydd â Chymreictod wedi symud y tu hwnt i nodweddion unffurf yr estheteg Gymreig. Wrth gwrs, ni ddadleuir yma na ellir galw rhai elfennau

ar ddiwylliant Dafydd yn Gymreig heb deimlo'r angen i amodi hynny. Cyfansoddodd ei gerddi yn yr iaith Gymraeg, ac ni fyddai neb yn gwadu nad yw'r iaith yn nodwedd sylfaenol mewn Cymreictod canoloesol (er nad yw'r Cymreictod hwnnw o anghenraid yn cyfateb i genedlaetholdeb neu genedligrwydd). Yn hytrach, yr hyn yr wyf wedi ceisio ei wneud yw dadansoddi'r modd y ffurfir y Cymreictod hwnnw. Y safbwynt a gymerwyd yw mai ffenomen destunol yw Cymreictod, sy'n cael ei ffurfio a'i hamodi mewn modd arbennig ac o fewn amgylchiadau hanesyddol penodol.

Theori a'r gofod amseryddol/hanesyddol

Y mae'r ffordd newydd hon o ddarllen rhai o gerddi Dafydd a'u hymwneud ag elfennau diwylliannol gwahanol i'w gweld ar sawl lefel yn yr astudiaeth hon. Roedd penodau cychwynnol yr ymchwil yn fodd i gael gwared â'r cysylltiad haearnidd a wneir rhwng ôl-drefedigaethedd a'r Oes Fodern, a hynny felly yn sail ar gyfer cymhwyso'r theori yn ymarferol at y cerddi. O ran y drafodaeth ar Gymru ac ôl-drefedigaethedd, gwelwyd bod cryn ddadlau ynghylch defnyddio'r theori fel dull o ddehongli llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth o Gymru. Mae'r dadl a gafwyd yng nghyfnodolyn y *New Welsh Review* yn chwarae â'r syniad nad oes lle i ôl-drefedigaethedd fel dull o ddehongli gwaith o gyfnodau cynharach. Dywedodd Dai Smith, heb unrhyw amheuaeth, nad oes sail ar gyfer trafod Cymru mewn dull ôl-drefedigaethol am nad oes tystiolaeth hanesyddol i gefnogi'r defnydd o'r theori. Fel y nodwyd eisoes, seilir ôl-drefedigaethedd, yn ei farn ef, ar 'a history that never happened to this people in this way, then or now' (2004: 29). Eto, dangoswyd bod modd defnyddio'r theori hon yn ymarferol fel dull o ddehongli. Nid trwy wyrdroi ffeithiau hanesyddol y gwnaethpwyd hynny. Yn hytrach, trwy roi sylw i natur hanesyddiaeth ar yr Oesoedd Canol, yng Nghymru a thu hwnt, gwelwyd bod sylfaen

gref ar gyfer ymdrin â thestunau canoloesol yn ôl damcaniaethau ôl-drefedigaethol. Mae'r ymchwil hwn yn fodd i gyfrannu at y ddadl honno a welwyd yn y *New Welsh Review*, felly, a chais gadarnhau bod ôl-drefedigaethedd yn ddull ymarferol, dilys o drafod gweithiau o gyfnodau llawer cynharach nag oes y theori ei hun, yn ogystal â bod yn fodd i fwrw goleuni ar lenyddiaeth o Gymru. Ar drywydd sylwadau Bohata yr aethpwyd mewn gwirionedd wrth ymdrin ag ôl-drefedigaethedd fel cyfrwng i drafod syniadau perthnasol yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac yng ngwaith Dafydd: 'the relevance of postcolonial criticism in Wales is not dependent on monolithic postcolonial political models—on proving that Wales is/was a colony and is/will be postcolonial—but it is to be found in specific and detailed engagement with the array of postcolonial ideas in the context of Welsh literary and cultural specificities' (Bohata 2004: 29).

Deuoliaethau a thu hwnt: Gwyrdroi'r drafodaeth ar Ddafydd ap Gwilym

Agwedd arall sy'n fodd i ddangos y tir newydd hwnnw y mae'r astudiaeth hon yn ei gyrraedd yw'r drafodaeth ar Ddafydd a'i waith, ac yn benodol ei ymdriniaeth â chymeriad Eiddig. Yn yr ymdriniaeth â gweithiau beirniadol ar Ddafydd, gwelir bod yr astudiaeth hon nid yn unig yn cynnig patrwm gwahanol ar gyfer dehongli rhai o gerddi Dafydd, ond yn fodd i godi cwestiynau newydd ynghylch ymwneud Dafydd â'r deuoliaethau gwahanol. Gwelwyd bod ymdriniaethau megis rhai Chotzen (1927), Bromwich (1986) ac Edwards (1996) yn seiliedig ar bresenoldeb deuoliaethau sylfaenol, megis traddodiad a newydd-deb, elfennau brodorol ac estron, a deuoliaethau diwylliannol, megis y Cymry a'r Saeson. Bu'r gweithiau hyn yn anhepgor fel man cychwyn ar gyfer yr astudiaeth bresennol. Ond yn hytrach na meddwl am sut y mae Dafydd yn creu barddoniaeth yn seiliedig ar y deuoliaethau

hyn, ceisiwyd yn hytrach drafod sut y mae Dafydd yn *creu* y deuoliaethau hynny, a hefyd eu chwalu.

Yn erbyn y patrwm hwn o ddehongli y daeth ôl-drefedigaethedd yn gyfrwng i fynd y tu hwnt i'r deuoliaethau a chael bod llawer mwy ar waith yng ngwaith Dafydd na phatrwm o eithafion gwahanol. Y mae'r ymdrech hon i wyrddroi'r drafodaeth ar Ddafydd ap Gwilym i'w gweld, yn bennaf, wrth gymharu methodoleg Helen Fulton (1989), sef yr hyn a drafodwyd yn y bedwaredd bennod. Er iddi nodi nad yw'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn cyflwyno darlun clir inni o ffiniau a rhaniadau diwylliannol—'such a distinction was not possible in the context of fourteenth century Wales' (1989: 225)—mae ei hastudiaethau yn ddibynnol ar osod gwahanol gerddi mewn cyd-destunau penodol iawn sy'n seiliedig ar raniadau cymdeithasol. Dyna sydd i'w weld yn ei chyfeiriad at dri grŵp cymdeithasol gwahanol, er i'r ymdriniaethau hanesyddol nodi mai presenoldeb dau brif ddiwylliant oedd yng Nghymru'r cyfnod. Mantais ôl-drefedigaethedd, yn hynny o beth, yw'r ffaith ei fod yn cynnig methodoleg y gellir ei defnyddio wrth drafod cymdeithas wedi ei rhannu'n ddwy. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'n fethodoleg sy'n tynnu sylw cyson at beryglon deuoliaethau gor-sym.

Y Gofod hanesyddol: Dafydd ap Gwilym a Chymdeithas

Mae profiadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn rhai y cyfeiriwyd atynt drwy gydol yr ymchwil hwn. Dechreuwyd gyda hanesyddiaeth yn y drydedd bennod trwy ganolbwyntio ar sut yn union y mae nodweddion y ganrif honno ac oes Dafydd ap Gwilym yn cael eu trafod. Hanfod y bennod hon a man cychwyn y drafodaeth oedd y berthynas rhwng ôl-drefedigaethedd a Chymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Roedd

astudiaethau R. R. Davies (1973, 1974, 1975) ar Gymru yn greiddiol er mwyn gallu trafod y cyfnod yn ôl syniadau ôl-drefedigaethol. Craidd yr astudiaethau hynny oedd yr amryfal gyfeiriadau at Gymru fel 'gwlad gymysg', 'wedi'i darnio' gan bresenoldeb y diwylliant Cymreig cynhenid a dylanwadau'r diwylliant Seisnig. Cofier am y cyfeiriad arwyddocaol hwnnw at y 'rhaniad mwyaf sylfaenol oll' yn y gymdeithas yn ôl Davies (1975: 63), sef hwnnw rhwng y Cymry a'r Saeson. Cafwyd cyfeiriadau at rôl diwylliannau gwahanol o fewn y gymdeithas wrth ddisgrifio'r Cymry a'r Saeson yn ôl gwendid y naill a grym y llall, 'between settlers and natives ...between conqueror and conquered' (Davies 1973: 33). Trwy hyn gellid cysylltu nodweddion y bedwaredd ganrif ar ddeg â sefyllfa diwylliannau neu grwpiau ethnig gwahanol mewn perthynas drefedigaethol. Gall cyfeiriadau R. R. Davies at y Saeson fel concwerwyr a mewnfudwyr a'r Cymry brodorol fel gwrthrych y concro, gyfateb i'r berthynas rhwng diwylliannau gwahanol mewn sefyllfa ôl-drefedigaethol. Mae'r ymdriniaeth â'r cerddi yng ngoleuni dynwared, hybridedd, awdurdod hollt, a Thrydydd Gofod yn fodd i greu delwedd o Gymru Dafydd ap Gwilym fel gwlad gymhleth ac iddi hunaniaeth gymysg.

Gellir cynnig bod presenoldeb Trydydd Gofod Bhabha yn y cerddi a drafodwyd, er enghraifft, yn fodd i gynnig sylwadau pwysig ar ymateb Dafydd ap Gwilym ei hun i densiynau diwylliannol ei oes. Gellir cynnig bod Dafydd ap Gwilym yn gweithio trwy'r problemau sy'n codi mewn perthynas ôl-drefedigaethol ac yn cynnig ffyrdd i ddelio â'r problemau hynny. Cyfeiriwyd at y rhwystrau y mae'r carwr yn eu hwynebu, er enghraifft, yn y drafodaeth ar 'Trafferth mewn Tafarn' (73) yn y seithfed bennod. Mae'r rhwystrau hyn, megis y dodrefn a Hicin, Siencin a Siac, yn atal y carwr rhag cyrraedd y ferch ganol nos ac ar un lefel, maent yn fodd i gadarnhau nad yw'r carwr yn perthyn i'r un byd â'r cymeriadau hyn. Trwy gyfrwng

damcaniaethau ôl-drefedigaethol, fodd bynnag, gwelwyd nad yw'r cyferbyniad hwnnw mor ddu a gwyn â hynny. Gwelwyd bod y carwr yn y gerdd hon yn cyrraedd yr un man ar ddiwedd y gerdd hon, sef y Trydydd Gofod amwys, ac yno y mae 'yn tewi yn y tywyll' (73.66). Mae'n hapus yn y gofod hwnnw. Llwydda'r carwr i ddelio â'r rhwystrau, felly, drwy fodloni ar berthyn i fyd cymysg hybrid y Trydydd Gofod, yn hytrach nag ymboeni i gyd-fynd ag ystrydebau allanol. Cofier mai 'ar herw' (71.45) yr oedd yn 'Y Cleddyf', mewn cymdeithas a oedd y tu hwnt i Gymreictod a Seisnigrwydd pur, ac 'ar herw' mewn gofod hybrid o'r herwydd. Hwyrach mai dyma un o agweddau mwyaf newydd yr astudiaeth hon o ran y drafodaeth ar waith Dafydd.

Dafydd ap Gwilym a hunaniaeth y Gymru gyfoes

Mae'r meddwl Cymreig hwn am farddoniaeth, neu'r estheteg Gymreig, chwedl Saunders Lewis, yn berthnasol i'r drafodaeth ar gyfraniad yr ymchwil hwn at ein hamgyffred o hunaniaeth. Trwy edrych ar y cerddi yng ngoleuni hybridedd Bhabha, daethpwyd at gasgliadau newydd ynghylch y math o hunaniaeth sydd i'w weld yng ngwaith Dafydd. Felly hefyd y gall yr astudiaeth hon ar hunaniaeth yng ngwaith Dafydd ap Gwilym fod yn gyfrwng i drafod nodweddion hunaniaeth fodern y Gymru sydd ohoni. Mae'r hunaniaeth hon wedi'i seilio i raddau nid ansylweddol ar Gymru'r Oesoedd Canol: cofiwn am sylwadau J. E. Caerwyn Williams (1993) am y genedl a chenedlaetholdeb Cymreig yn yr ail bennod. Iddo ef, y mae i'r genedl fodolaeth ddigwestiwn o gyfnod cynnar yn ein hanes, ac mae'r ffaith iddi barhau fel hyn hyd heddiw felly yn awgrymu bod y genedl a welir yn yr Oesoedd Canol yn sail ar gyfer cenedlaetholdeb heddiw. Cyfeiria at genedligrwydd, er enghraifft, fel 'teimlad o undod ymhlith aelodau'r genedl, a hwnnw'n deillio o fod wedi byw drwy hanes cyffredin yn y gorffennol ac o ddymuno hanes cyffredin yn y dyfodol' (1993: 5).

Mwy amodol oedd trafodaeth J. R. Jones ar ‘Y Syniad Genedl’ (1970), ac mae ei astudiaeth ef yn un y gellir ei chymharu â gwaith Anthony Smith (1995), sy’n nodi mai o dan amodau penodol yn unig y gellir adnabod ‘cenedl’ yn yr Oesoedd Canol. Ond fel y nodwyd eisoes, er nad oes modd gwadu ymdeimlad ag undod yng Nghymru’r Oesoedd Canol, mae’r drafodaeth a gafwyd ar ddilysrwydd y term ‘cenedl’ yn peri bod yn rhaid cwestiynu seiliau cenedlaetholdeb yr oes bresennol.

Gellid cynnig bod Dafydd ap Gwilym, yng ngoleuni’r astudiaeth hon, yn cynnig gwersi i’r Gymru gyfoes. Er i Gymry’r oes hon ymdrechu i bwysleisio arwahanrwydd i’r Saeson er enghraifft, yn union fel y gwelwyd drwy’r portread o’r carwr ac Eiddig yng ngwaith Dafydd, ‘ar herw’ yr ydym ninnau hefyd ac yn y Trydydd Gofod hwn y gall tensiynau diwylliannol yr oes sydd ohoni fod yn sail ar gyfer hunaniaeth hybrid. Y mae’r berthynas ddynamig a gyflwynodd Dafydd inni yn ei gerddi rhwng cymeriadau a diwylliannau gwahanol yn cyfateb i’r elfennau diwylliannol a welir yn y Gymru gyfoes. Er y gellid dadlau bod yr awydd i ddefnyddio deuoliaethau pegynol yn awydd wastadol yn yr ymdrech i ymdopi ag awdurdod, awgryma’r drafodaeth ar rai o gerddi Dafydd mai trwy feddu ar hunaniaeth hybrid y gellir wynebu awdurdod ac ymdrechu i feddu arno, ac nid trwy greu ffiniau diwylliannol. Tybed a all hyn fod yn wers i’r Gymru sydd ohoni? Efallai. Ond ar yr un gwynt rhaid cydnabod perygl amlwg—wrth gwestiynu Cymreictod ‘traddodiadol’ a ydym yn pylu awch yr arf miniocaf sydd ar gael i’n cynorthwyo i ennill y frwydr i gadw’r diwylliant a’r iaith Gymraeg yn hyfyw yn y dyfodol? A ydym yn ‘chwarae i ddwylo’ y grym imperialaidd, fel petai, drwy gydnabod elfennau amodol a thymhorol ein diwylliant cenedlaethol? Efallai y bydd y ganrif neu ddwy nesaf yn cynnig atebion.

Cyrraedd tir newydd y Trydydd Gofod

Hyd yma, deuoliaethau yw'r hyn a fu'n sail ar gyfer nifer helaeth o ymdriniaethau beirniadol ar waith Dafydd. Hawlia'r astudiaeth hon fodd bynnag, fod angen mynd gam ymhellach na'r patrwm hwn ac yma y gwelwyd ymdrech i wneud hynny. Nid mewn gwagle y gwnaethpwyd hynny ychwaith. Daeth ôl-drefedigaethedd yn ddull dilys o drafod llenyddiaeth yr Oesoedd Canol wrth ddod yn gyfrwng i gydieuo'r cerddi traddodiadol a'r dull cyfoes o ddehongli. Yn erbyn cefndir hanesyddol a diwylliannol y bedwaredd ganrif ar ddeg yng Nghymru y daeth ôl-drefedigaethedd yn fodd i drafod tensiynau diwylliannol yr oes. Ac yn ail ran yr astudiaeth hon y gwnaethpwyd defnydd ymarferol o ôl-drefedigaethedd i drafod y tensiynau hynny a welir ym mhortread Dafydd o Gymru ei oes. Arwain hyn oll at wydroi sawl agwedd ar waith y bardd. O ran Dafydd ap Gwilym ei hun, haerir bod hanes a nodweddion cymdeithasol y bedwaredd ganrif ar ddeg yn greiddiol i athrylith y bardd. Nid diflannu dan hanes y mae'r athrylith honno.

Mae teitl yr astudiaeth hon, felly, yn dra arwyddocaol o ran bwriad yr astudiaeth a wnaethpwyd o ôl-drefedigaethedd, Cymru'r Oesoedd Canol a Dafydd ap Gwilym. Yn ei gerdd 'Cyngor y Bioden' disgrifia Dafydd yr aderyn hwn drwy gyfeirio at ei liw: 'Mwtlai wyd di' (36.57). Gwyddys mai cyfuniad o blu du a gwyn sy'n gyfrifol am y disgrifiad o'r bиден fel aderyn 'mwtlai'. Mae'r ddau liw yn glir iawn ar gorff yr aderyn, ac ystyrir y lliwiau hyn hefyd yn symbol o natur y biden, fel y dywed Dafydd Johnston (2007) yn ei nodiadau ar y gerdd hon: 'gwelid ei lliw brith yn arwydd o'i natur gyfrwys a thwyllodrus.' Fel y gwelwyd drwyddi draw yn yr astudiaeth hon, y mae elfennau 'mwtlai' wedi bod yn sylfaen i'r drafodaeth ar

Gymru'r Oesoedd Canol ynghyd â'r drafodaeth ar gerddi Dafydd. Ar un lefel, felly, y mae'r bиден yn y gerdd hon a'r disgrifiad uchod ohoni fel aderyn 'mwtlai' yn symbol o'r holl elfennau cymysg a welwyd yn y portread diwylliannol yng ngwaith Dafydd. Ond mae lliwiau'r aderyn hwn hefyd yn rhai clir gyda ffin amlwg rhwng y gwyn a'r du. Yr hyn sy'n greiddiol i waith Dafydd yng ngoleuni ôl-drefedigaethedd, ar y llaw arall, yw'r modd y crëir deuoliaethau cyn eu chwalu wedyn. Mewn ffordd felly, ni ellir cymharu Dafydd ap Gwilym â'r bиден, oherwydd bod yr amrywio a welwyd yng nghorff y traethawd hwn yn fwy amwys, amodol a byrhoedlog na'r lliwiau clir a welir ar gorff yr aderyn. Ar y llaw arall, pan ddywed y bardd am yr aderyn: 'A phob iaith bybyriaith bell / A ddysgud' (llau. 59–60) rydym yn llawer nes at yr ansefydlogrwydd diwylliannol sydd ar waith ym marddoniaeth Dafydd.

Drwy gyfrwng yr astudiaeth hon, hyderwyd y cafwyd ysgogiad i ailfeddwl am ymwneud Dafydd ap Gwilym â thensiynau diwylliannol Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Ar ddechrau'r ymchwil, cyfeiriwyd at sylwadau Ceinwen Thomas ynghylch dulliau beirdd yr Oesoedd Canol o gyflwyno portread o Gymru yn eu cerddi. Cymwys yw nodi, felly, fod Dafydd yn cynnig sylwadau pwysig ar Gymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg, er gwaethaf beirniadaeth Thomas, a bod gan 'amhendatrwydd' Dafydd berthynas agos â sefyllfa gymdeithasol a diwylliannol ei gyfnod. Yng ngoleuni'r drafodaeth a gafwyd ar ôl-drefedigaethedd, Cymru'r Oesoedd Canol, a Dafydd ap Gwilym a'i gerddi, gobeithir i'r astudiaeth hon fynd â ni gam yn nes at ddealltwriaeth newydd o waith Dafydd yng ngoleuni dryswch diwylliannol ei oes.

Llyfryddiaeth

- Aaron, Jane (2005): 'Postcolonial Change', *New Welsh Review*, 67, 32–36
- a Williams, Chris (goln) (2005): *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press)
- Anderson, Benedict (1983): *Imagined Communities: reflections on the origin and spread of nationalism* (London: Verso)
- Ashcroft, Bill & Griffiths, Gareth & Tiffin, Helen (1998): *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (London and New York: Routledge)
- Bhabha, Homi K. (1990a): 'The Third Space', tt. 207–21 yn J. Rutherford (gol.), *Identity: Community, Culture, Difference* (London: Lawrence & Wishart)
- (gol.) (1990b): *Nation and Narration* (London and New York: Routledge)
- (1994): *The Location of Culture* (London and New York: Routledge)
- Biddick, Kathleen (1998): *The Shock of Medievalism* (Durham, N.C. & London: Duke University Press)
- Billig, Michael (1995): *Banal Nationalism* (London: Sage Publications)
- Birt, Paul W. (1997): *Cerddi Alltudiaeth: thema yn llenyddiaethau Québec, Catalunya a Chymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Bohata, Kirsti (2004): *Potcolonialism Revisited* (Cardiff: University of Wales Press)
- Bowen, D. J. (1977): 'Dafydd ap Gwilym a'r Trefydd Drwg', tt.190–220, yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol IX* (Dinbych: Gwasg Gee)
- (1992-3): 'Beirdd a Noddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg', *Llên Cymru*, xvii, 60–107
- Brah, Avtar & Coombes, Annie E. (goln) (2000): *Hybridity and its discontents: politics, science, culture* (London ; New York: Routledge)
- Bromwich, Rachel (1972): *Tradition and Innovation in the poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff: University of Wales Press)
- (1986): *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff: University of Wales Press)
- Brooks, Simon (2004): *O dan lygaid y Gestapo: yr oleuedigaeth Gymraeg a theori lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

- Brown, Catherine (2000): “‘In the Middle’”, *Journal of Medieval and Early Modern Studies*, 30:3, 547–574
- Bryant-Quinn, Mark Paul (gol.) (2000): *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru)
- Carr, A. D. (1968-69): ‘Welshmen and the Hundred Years’ War’, *Welsh History Review*, 4, 21–46
- (1995): *Medieval Wales* (London: Macmillan Press Ltd)
- (1997): ‘The Historical Background 1282–1550’, tt.1-23, yn A.O.H Jarman a Gwilym Rees Hughes (goln), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550* (Cardiff: University of Wales Press)
- Childs, Peter & Williams, R. J. Patrick (1997): *An Introduction to Post-Colonial Theory* (London: Prentice Hall)
- Chotzen, Theodor Max (1927): *Recherches sur la poésie de Dafydd Ab Gwilym: barde Gallois du XIVe siècle* (Amsterdam: H.J.Paris)
- Cohen, Jeffrey Jerome (gol.) (2000): *The Postcolonial Middle Ages* (London: Macmillan Press Ltd)
- Conran, Anthony (cyf.) (2003): *Welsh Verse* (fourth ed., Bridgend: Seren)
- Dagenais, John (2004): ‘The Postcolonial Laura’, *Medieval Literature Quarterly*, 365-389
- Davies, Grahame (1999): *Sefyll yn y Bwlch: Cymru a’r Mudiad Gwrth-Fodern: Astudiaeth o Waith T. S. Eliot, Simone Weil, Saunders Lewis ac R. S. Thomas* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Davies, Morgan T. (2005): ‘Dafydd ap Gwilym and the shadow of colonialism’, tt. 248–275, yn Helen Fulton (gol.) *Medieval Celtic literature and society* (Dublin: Four Courts)
- Davies, R. R. (1973) ‘Race Relations in Post-Conquest Wales: Confrontation and Compromise’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1974-5, 32–56
- (1974): ‘Colonial Wales’, *Past and Present*, 65, 3–23
- (1975): ‘Cymru yn oes Dafydd ap Gwilym’, tt. 58–75, yn John Rowlands (gol.) *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (1978): *Lordship and society in the March of Wales 1282–1400* (Oxford: Clarendon Press)

- (1990): *Domination and Conquest: The experience of Ireland, Scotland and Wales 110-1300* (Cambridge: Cambridge University Press)
- (1995): *Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford: Oxford University Press)
- (2000): *The Age of Conquest: Wales, 1063–1415* (Oxford: New York: Oxford University Press)
- Dinshaw, Carolyn (1999): *Getting Medieval: sexualities and communities, pre- and postmodern* (Durham: Duke University Press)
- Edwards, Huw Meirion (1996): *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford: Clarendon Press)
- Edwards, Hywel Teifi (1987): *Ceiriog* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn)
- (1989): *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl: 1850–1914* (Llandysul: Gwasg Gomer)
- Foster Evans, Dylan (2006): ‘“Bardd arallwlad”: Dafydd ap Gwilym a theori ôl-drefedigaethol’, tt. 39–72, yn Owen Thomas (gol.) *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd)
- Fulton, Helen (1989): *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff: University of Wales Press)
- (1997): ‘Trading places: representations of urban culture in medieval Welsh poetry’, *Studia Celtica*, xxxi, 219–30
- Fuchs, Barbara & Barker, David J. (2004): ‘The Postcolonial Past’, *Modern Language Quarterly*, 65, 329–340
- Ganim, John M. (2005): *Medievalism and Oreintalism: Three essays on Literature, Architecture and Cultural Identity* (New York/England: Palgrave Macmillan)
- Gandhi, Leela (1998): *Postcolonial Theory: A Critical Introduction* (Edinburgh: Edinburgh University Press)
- Gillingham, John (2000): *The English in the Twelfth Century: Imperialism, National Identity and Political Values* (Woodbridge: Boydell Press)
- Griffiths, Ann (1988): *Rhai Agweddau ar y syniad o genedl yng nghyfnod y cywyddwyr 1320–1603*, (Thesis PhD, Prifysgol Cymru, Aberystwyth)
- Griffiths, Ralph A. (1994): *Conquerors and conquered in medieval Wales* (Stroud: Alan Sutton Ltd)
- & Thomas, Roger S. (1972): *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government* (Cardiff: University of Wales Press)

- Gruffydd, R. Geraint (1980): 'Merch yn edliw ei lyfrdra', tt. 50–51, yn Alan Llwyd (gol.), *50 o gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Abertawe: Gwasg Christopher Davies)
- (1987): *Dafydd ap Gwilym: Llên y Llenor* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd)
- (1996): 'A glimpse of Welsh Medieval Court Procedure in a Poem by Dafydd ap Gwilym', tt. 165–202 yn Colin Richmond & Isobel Harvey (goln), *Recognitions: essays presented to Edmund Fryde* (Aberystwyth: National Library of Wales)
- Heidegger, Michael (1971): *Poetry, Language, Thought* (New York: Harper & Row)
- Holsinger, Bruce (2002): 'Medieval Studies, Postcolonial Studies and the Genealogies of Critique', *Speculum*, 77, 1195–1227
- Huddart, David (2006): *Homi K. Bhabha* (London; New York: Routledge)
- Hunter, Jerry (2000): *Soffestri'r Saeson: hanesyddiaeth a hunaniaeth yn oes y Tuduriaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Hutcheon, Linda (1987): 'Beginning to Theorize Postmodernism', *Textual Practice* 1.1, 10-31.
- James, Eleri Hedd (2007): *Casglu Darnau'r 'Jig-So' Ynghyd: Golwg ar gyfraniad Prosiect Beirniadol R. M. Jones* (Traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Caerdydd)
- Johnston, Dafydd [D.R.] (gol.) (1988): *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (1989): 'Dafydd ac Ewrop', *Barn*, 320, 42-3
- (1991-2): 'Review: Helen Fulton, "Dafydd ap Gwilym and the European Context"', *Studia Celtica*, 26/27, 279–281
- (1995): 'Paradwys Dafydd ap Gwilym', tt. 114–124, yn J.E. Caerwyn Williams (gol.) *Ysgrifau Beirniadol XX* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (2005): *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Jones, Enid (2000): 'Olion Wiliam Owen Roberts', tt. 29–51 yn John Rowlands (gol.) *Y Sêr yn eu Graddau: Golwg ar ffurfafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Jones, J. R. (1970): *Ac Ondie: Ymdriniaeth mewn ysgrif a phregeth ar argyfwng y Gymru gyfoes* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw)

- Jones, Nerys Ann (1997): Review: Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: influences and analogues*, *Peritia*, 11, 434–36
- Jones, Lynne (1997): “Gwyn eu byd yr adar gwylltion”: Golwg ar Gerddi Dafydd ap Gwilym’, *Dwned*, iii, 9–26
- (2000): ‘Cywydd “Y Carw” Dafydd ap Gwilym: rhai ystyriaethau’, *Y Traethodydd*, clv, 80–92
- Jones, R. M. (1993): *Llenyddiaeth Gymraeg a Phrifysgol Cymru*. (Eisteddfod Genedlaethol Cymru De Powys: Llanelwedd)
- (1998): *Ysbryd y Cwlwm: Delwedd y Genedl yn ein Llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (2003): *Beirniadaeth Gyfansawdd: Fframwaith Cyflawn Beirniadaeth Lenyddol* (Cyhoeddiadau Barddas)
- Jones, Thomas (cyf.) (1938): *Gerallt Gymro: ‘Hanes y Daith trwy Gymru’ a’r ‘Disgrifiad o Gymru’* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Jordan, Glenn (2005): “‘We Never Really Noticed You Were Coloured’”: Postcolonialist Reflections on Immigrants and Minorities in Wales’ tt. 55–81, yn Jane Aaron a Chris Williams, goln, *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press)
- Knight, Stephen (2000): ‘Resemblance and Menace: A Post-Colonial Reading of *Peredur*’, tt. 128–147, yn Sioned Davies a Peter Wynn Thomas (goln), *Canhwyll Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (2004): *A Hundred Years of Fiction* (Cardiff: University of Wales Press)
- Leerssen, Joep (1996): ‘Celticism’, tt.1–20 yn Terence Brown (gol.) *Celticism* (Amsterdam; Atlanta; GA: Rodopi)
- Levinson, David & Ember, Melvin (goln) (1996): *Encyclopedia of Cultural Anthropology Vol.1* (New York: Henry Holt & Company)
- Lewis, Barry (2008): ‘Bardd Natur yn Darllen Bardd y Ddinas? Dafydd ap Gwilym, “Y Don ar Afon Dyfi”, ac Ofydd, *Amores*, III.6’, *Llên Cymru*, 31, 1–22
- Lewis, Saunders (1932): *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (1981): *Meistri a’u Crefft* (golygwyd gan Gwynn ap Gwilym, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (1991): *Williams Pantycelyn* (ail arg.; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

- Loomba, Ania (1998): *Colonialism/Postcolonialism* (London and New York: Routledge)
- Loomis, Richard Morgan (cyf.) (1982): *Dafydd ap Gwilym: The Poems* (Binghamton, N.Y.: Center for Medieval and Early Renaissance Studies)
- Lublin, Geraldine (2008): *Memoirs and identity in Welsh Patagonia: constructions of Welsh Patagonian identity as reflected in memoirs written by Welsh descendants in the province of Chubut towards the end of the twentieth century* (Traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Caerdydd)
- Lynch, Peredur I. (2007): *Proffwydoliaeth a'r Syniad o Genedl* (Bangor: Trafodion Bangor)
- Lloyd, Lowri (2000): 'Beth yw perthyn?: pedwar term teuluol ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol', *Dwned*, 6, 25–53
- McGuinness, Patrick (2005): 'Letters', *New Welsh Review*, 67, 18–19
- Malkin, Irad (2004): 'Postcolonial Concepts and Ancient Greek Colonization', *Modern Language Quarterly*, 65, 341–364
- McLeod, John (2000): *Beginning Postcolonialism* (Manchester: Manchester University Press)
- McClintock, Anne (1992): "'The Angel of Progress": Pitfalls of the term Post-Colonialism', *Social Text*, 31-32, 84–98
- Owen, Gerallt Lloyd (2006): *Cerddi'r Cywilydd* (pumed arg., Caernarfon: Gwasg Gwynedd)
- Parry, Thomas (1976): 'Dafydd ap Gwilym', tt. 41–56, yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol ix* (Dinbych: Gwasg Gee)
- (1979) (gol.): *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Price, Angharad (2006): 'Borhisloff', tt. 137–153, yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Redfield, Robert & Linton, Ralph & Herskovits, Melville J. (goln) (1974): 'A memorandum for the study of Acculturation', *A monthly record of Anthropological Science*, 145–148
- Rees, William (1967): *South Wales and the March 1284–1415: a social and agrarian study* (Oxford: Oxford University Press)
- Roberts, Brynley F. (1967): 'Un o lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', *Bwletin y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd*, 22, 222–228
- Roberts, Wiliam Owen (1987): *Y Pla* (Bangor: Annwn)

- Rowlands, John (gol.) (1975), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Said, Edward (1978): *Orientalism* (London: Routledge)
- Simms, Katharine (1989): 'Bards and Barons: The Anglo-Irish Aristocracy and the Native Culture', tt.177–197, yn R. Bartlett & A. MacKay (goln), *Medieval Frontier Societies* (Oxford: Clarendon Press)
- Sims-Williams, (1990): 'Irish Elements in Late Medieval Welsh Literature: The problem of Cuhelyn and Nyf', tt. 227–296, yn Martin J. Ball, James Fife, Eric Poppe & Jenny Rowland (goln), *Celtic Linguistics: Current Issues in Linguistic Theory 68* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins Publishing)
- (1996): 'The invention of Celtic Nature Poetry', tt. 97–124 yn Terence Brown (gol.), *Celticism* (Rodopi: Amsterdam and Atlanta, GA)
- (1998): 'Celtomania and Celtoscepticism', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 36, 1–35
- Smith, Anthony D. (1995): 'National Identities: Modern and Medieval', tt. 21–46 yn Simon Forde, Lesely Johnson ac Alan V. Murray (gol.), *Concepts of National Identity in the Middle Ages* (Leeds: University of Leeds, School of English)
- Smith, Dai (2004): 'Psycho-colonialism', *New Welsh Review*, 66, 22–29
- Smith, J. Beverley (1975): 'Gwleidyddiaeth a Diwylliant Cenedl 1282–1400', yn *Efrydiau Athronyddol*, xxxviii, 55–74
- Spiegel, Gabrielle M. (2000): 'Review: *The Shock of Medievalism* by Kathleen Biddick', *History and Theory*, 39:2, 243–249
- Thomas, Ceinwen (1950): 'O Gwymp Llywelyn hyd at Oes y Tuduriaid', tt. 60–78, yn A.W. Wade-Evans, T. J. Pierce, C. Thomas, A. O. H. Jarman, D. G. Jones, G. Evans (cyfranwyr), *Seiliau Hanesyddol Cenedlaetholdeb Cymru* (Caerdydd: Plaid Cymru)
- Thomas, Gwyn (1976): *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (1980): 'Trafferth mewn Tafarn', tt.78–84, yn Alan Llwyd (gol.), *50 o gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Abertawe: Gwasg Christopher Davies)
- (1990): 'Review: *Dafydd ap Gwilym and the European Context*, Helen Fulton', *New Welsh Review*, 3: 2, 64–5
- Thomas, Hugh M. (2003): *The English and the Normans: Ethnic Hostility, Assimilation, and Identity 1066–c.1220* (Oxford: Oxford University Press)

- Warren, Michelle (1998): 'Making Contact: Postcolonial Perspectives through Geoffrey of Monmouth's *Historia Regum Britanniae*', *Arthuriana*, 8:4, 115–34
- Williams, Ifor (1938): 'Llenyddiaeth a Bywyd Cymru', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 51–55
- (gol.) (1960): *Canu Taliesin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (gol.) (1961): *Canu Aneirin* (ail arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- (gol.) (1996): *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Williams, J. E. Caerwyn (1993): 'Cenedlaetholdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol', tt. 1–35, yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl VIII* (Llandysul: Gwasg Gomer)
- Williams, P. Lynne (2000): "'Ar ganghennau'r gynghanedd": Agweddau ar y Goedwig yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol', *Dwned*, 6, 55–76
- Young, Robert J. C. (1995): *Colonial Desire: Hybridity in Theory, Culture and Race* (London and New York: Routledge)

Byrfodau

DG.net *Dafydd ap Gwilym.net*

Johnston, Dafydd (gol. cyffredinol, 2007): *Dafydd ap Gwilym.net* [Ar-lein],
Abertawe: Prifysgol Abertawe. Ar gael: www.dafyddapgwilym.net

GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru*

Bevan, Gareth A. & Donovan, Patrick J (2003): *Geiriadur Prifysgol Cymru*
(ail arg., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)

OED *Oxford English Dictionary*

Oxford University Press (2009): *Oxford English Dictionary* [Ar-lein] Oxford:
Oxford University Press, Ar gael: www.oed.com

